*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

## Cynhelir cyfarfod o AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU yn rhithiol dros Zoom DDYDD LLUN 17 HYDREF 2022.

Yn gywir

Gareth Owens
Clerc

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgan Buddiannau**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**

   Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2022**

5. **Materion yn Codi**

6. **Adroddiad y Cadeirydd**

7. **Alldro Amcanol 2022-23**

8. **Adnewyddu Contractau Ynni**

9. **Canolfan Hyfforddi Newydd**

10. **Gosod y Gyllideb ar gyfer 2023-24**

11. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

12. **Asesiad Perfformiad Blynyddol**

13. **Datganiad o Gyfrifon 2021-22**

## 14. Paratoi ar gyfer Ymchwiliad COVID-19

## 15. Materion Brys

Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 3 uchod.

## **RHAN II**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 fod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

## 16. Negodiadau cyflogau diffoddwyr tân a gweithredu diwydiannol posibl

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd dros Zoom ddydd Llun 20 Mehefin 2022. Dechreuodd y cyfarfod am 10.10am.

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dylan Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Ken Taylor | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Neil Coverley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Nigel Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Mark Young | Cyngor Sir Ddinbych |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Paul Cunningham | Cyngor Sir y Fflint |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol:**

D Docx (Prif Swyddog Tân); G Owens (Clerc a Swyddog Monitro); D Edwards (Trysorydd); S Forshaw (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Fairhead, H MacArthur ac S Millington (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); G Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); M Georgiou (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Ni roddwyd unrhyw rybudd o faterion brys.

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 14 MAWRTH 2022

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2022 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6 TANAU YN YR AWYR AGORED

6.1 Rhoddodd y PSTC ACFO Millington gyflwyniad ar danau yn yr awyr agored a'r adnoddau sydd eu hangen i ddelio â digwyddiadau o'r fath.

6.2 Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau yn dilyn y cyflwyniad, a nodwyd bod adolygiad wrthi'n cael ei gynnal i'r adnoddau a'r opsiynau sydd ar gael o ran offer amddiffyn personol (PPE).

6.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

7 DIWEDD BLWYDDYN ARIANNOL 2021/22

7.1 Fe wnaeth y Trysorydd ei gyflwyno ei hun i'r Aelodau, gan esbonio mai dyma ei gyfarfod cyntaf a'i fod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Awdurdod. Diolchodd i'r PSTC MacArthur a'r tîm cyllid, a'u canmol am fod wedi gallu paratoi'r datganiad o gyfrifon erbyn diwedd mis Mai.

7.2 Cyflwynodd y PSTC MacArthur yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion y sefyllfa ariannol ddrafft ar ddiwedd y flwyddyn, a'r perfformiad yn 2021/22. Roedd yr adroddiad hefyd yn ymgorffori Datganiad o Gyfrifon 2021/22 a gyflwynwyd i'w archwilio, cadarnhad o'r cronfeydd arfaethedig fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2022, a chrynodeb o'r dyledion drwg a ddilewyd yn ystod 2021/22.

7.3 Gofynnodd yr Aelodau hefyd am gael dirprwyo'r dasg o gymeradwyo'r fersiwn archwiliedig derfynol i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2022; nodwyd y byddai mân newidiadau teipograffyddol yn cael eu gwneud i'r cyfrifon cyn yr archwiliad terfynol.

7.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r sefyllfaoedd alldro refeniw a chyfalaf terfynol fel y nodir yn Natganiad o Gyfrifon 2021/22;**

**(ii) dirprwyo'r dasg o gymeradwyo Datganiad o Gyfrifon archwiliedig terfynol 2021/22 i'r Panel Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2022;**

**(iii) cymeradwyo'r cronfeydd a glustnodwyd;**

**(iv) nodi'r dyledion drwg a ddilewyd yn 2021/22.**

8 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2021/22

8.1 Cyflwynodd y PSC Morris Ddatganiad Llywodraeth Blynyddol 2021/22.

8.2 Nodwyd bod Fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government* CIPFA/Solace (2016) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'r gwaith o lunio datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2021/22. Gwneir asesiad gan yr archwilydd allanol i gadarnhau a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol ac wedi'i lunio yn unol â'r Fframwaith.

8.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22 drafft;**

**(ii) nodi'r flaen-raglen waith ar gyfer 2022/23; a**

**(iii) cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22 drafft.**

9 BWRDD PENSIWN LLEOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021/22

9.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol, sy'n rhoi manylion gwaith y bwrdd yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

9.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol am 2021/22, i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

10 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2021/22

10.1 Cyflwynodd Keith Williams yr adroddiad blynyddol archwilio mewnol 2021/22; roedd yn dadansoddi gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn 2021/22 ac yn cynnwys y datganiad sicrwydd sy'n seiliedig

ar waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022.

10.2 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael a'r 'farn' gyffredinol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith yr Awdurdod ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.**

11 CYNLLUN ARCHWILIO 2022

11.1 Cyflwynodd Mike Whiteley o Archwilio Cymru y cynllun archwilio allanol 2022 ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r cynllun archwilio yn nodi gwaith arfaethedig Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn ogystal â chadarnhau swm y ffi, sef £63,721.

11.2 Rhoddodd Mr Whiteley wybod i'r Aelodau fod pwnc yr adolygiad thematig/gwerth am arian wedi cael ei gadarnhau ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu, a'r pwnc fydd lleihau galwadau diangen.

11.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Hydref 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Amherthnasol** |
| Swyddog Cyswllt | **Gwasanaethau Aelodau** (members.services@northwalesfire.gov. wales) |
| Pwnc | **Adroddiad y Cadeirydd** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am gyfarfodydd a digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng Mehefin a Hydref 2022.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynychu sawl cyfarfod a digwyddiad, a hynny yn fewnol ac yn allanol, ar ran yr Awdurdod.

## ARGYMHELLIAD

3 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth sy'n cael ei darparu.

## SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

## GWYBODAETH

5 Yn ogystal â chyfarfodydd yn ymwneud â'r Awdurodd, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cwrdd yn rheolaidd â'r Prif Swyddog Tân.

6 Bu'r Cadeirydd yn cynrychioli'r Awdurdod mewn Gwasanaethau Coffa Brenhinol yn dilyn marwolaeth y Frenhines.

7 Mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi ymweld â'r gorsafoedd canlynol – Caernarfon, Wrecsam a Glannau Dyfrdwy. Maent hefyd wedi ymweld â'r Ystafell Reoli ar y Cyd yn Llanelwy.

8 Hefyd, mae'r Cadeirydd wedi ymweld â gorsafoedd Conwy a Llanberis, yn ogystal â'r ganolfan hyfforddi yn Nolgellau. Mae hefyd wedi mynychu Diwrnodau Agored yng ngorsafoedd Porthaethwy a Bangor.

9 Ar 9 Gorffennaf, bu'r Cadeirydd yn cynrychioli'r Awdurdod mewn cyfarfod o Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru.

10 Ar 12 Gorffennaf, aeth y Cadeirydd i lansiad "Stori Olivia" yn yr Hen Lys yn Rhuthun. Menter diogelwch y ffyrdd yw hon, a gynhyrchwyd ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru.

11 Ar 4 Awst, mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân gyfarfod rhithiol â Chadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân eraill Cymru i drafod eu hymateb i adolygiad thematig y Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub.

12 Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori bellach ar gyfer Cadeiryddion Cyflogwyr Cenedlaethol a Phrif Swyddogion Tân ar 21 Medi, pan roedd y Cadeirydd wedi mynychu gyda'r PST.

13 Roedd y Cadeirydd, ynghyd â'r PST a'r Swyddogion, wedi croesawu'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol ar 30 Medi 2022.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau a fynychir gan yr aelodau yn cael eu had-dalu o'r gyllideb ar gyfer teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Nid oes dim goblygiadau penodol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Nid oes dim goblygiadau penodol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Nid oes dim goblygiadau penodol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Nid oes dim goblygiadau penodol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **Hydref 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard, Pennaeth Cyllid** |
| Pwnc | **Alldro Amcanol 2022/23** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y sefyllfa gwariant refeniw a chyfalaf yn 2021/22, fel yr oedd ar 31 Awst 2022.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cafodd y gofyniad cyllidebol net ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2021. Roedd hyn yn cadarnhau gofyniad net o £39.41m, i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Rhagwelir mai'r gwariant gwirioneddol fydd £42.5m, sy'n cynnwys prosiectau a ohiriwyd yn ystod pandemig Covid-19, amcangyfrifon o setliadau cyflog cenedlaethol yn uwch na'r ddarpariaeth o 2% yn y gyllideb a phwysau chwyddiannol cyffredinol. Bydd defnyddio cronfeydd a glustnodwyd, y gronfa gyffredinol a darpariaethau yn lliniaru rhag y costau ychwanegol ac ni ragwelir y bydd angen ardoll atodol.

3 Ar 20 Rhagfyr 2021, roedd yr Awdurdod wedi cymeradwyo cyllideb gyfalaf o £2.91m ar gyfer 2022/23. Mae'r rhaglen gyfalaf yn profi pwysau costau, ac os caiff yr holl waith disgwyliedig ei gwblhau, bydd gorwariant o £0.20m.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i'r Aelodau:

(I) nodi'r rhagamcanion alldro refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, fel y nodir yn yr adroddiad;
(II) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant a phroblemau gyda'r cadwyni cyflenwi;
(III) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r negodiadau cyflog sy'n mynd ymlaen; a
(IV) cymeradwyo'r defnydd o gronfeydd a glustnodwyd a'r gronfa gyffredinol.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Nid yw'r aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

## CEFNDIR

6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y sefyllfa alldro gwariant refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

## GWYBODAETH

## CYLLIDEB REFENIW

7 Cytunwyd ar gyllideb o £39.412m ar gyfer 2022/23 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 20 Rhagfyr 2021. Yn dilyn gwaith cynllunio pellach, cadarnhawyd y gofyniad cyllidebol cyffredinol yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 20 Mehefin 2022. Ar hyn o bryd, nodir hefyd y byddai gwariant wedi'i ohirio o 2021/22 yn cael ei dalu o gronfeydd a glustnodwyd. Hefyd, nodwyd y risgiau penodol sy'n gysylltiedig â dyfarniadau cyflog gan ein bod yn dal i aros am y cytundebau cenedlaethol.

8 Costau staff yw 72% o'r gwariant gros. Caiff y gyllideb ei gosod ar sail y llu staff a gymeradwywyd a'r gweithgarwch a ddisgwylir.

9 Roedd y broses o osod y gyllideb yn cynnwys rhagdybiaeth mai 2% fyddai'r dyfarniadau cyflog i'r holl staff. Y cynnig cyflog diweddaraf i staff llywodraeth leol yw ymgodiad o £1,925, ar draws pob graddfa, sy'n cyfateb i ryw 6.6%. Y sefyllfa gyfredol yw bod aelodau Unsain wedi pleidleisio i dderbyn y cynnig. Fodd bynnag, nid yw canlyniadau pleidleisiau gan undebau eraill yn cynrychioli staff llywodraeth leol yn hysbys eto, er ein bod yn disgwyl cael y rheini erbyn diwedd y mis.

10 Mae cynnig cyflog cychwynnol o 2% i swyddi diffoddwyr tân a staff yr ystafell reoli wedi cael ei wrthod gan negodwyr ochr y gweithwyr (Undeb yr FBU) ac roeddent am holi barn y staff am weithredu diwydiannol. Mae cynnig pellach o 5% wedi cael ei wneud ond mae Undeb y FBU wedi dweud nad yw hyn yn ddigonol, mae wrthi'n ymgynghori â'i aelodau.

11 Mae'r rhagolygon nad ydynt yn gyflogau yn adlewyrchu'r pwysau costau anochel sy'n cael eu teimlo mewn perthynas â chostau cyfleustodau, gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni, a chostau tanwydd. Fodd bynnag, mae rhagor o ansicrwydd yn parhau oherwydd pwysau chwyddiant yn gyffredinol a phroblemau gyda chadwyni cyflenwi sy'n arwain at wariant uwch na'r gyllideb a ragwelwyd.

12 Er bod y rhan fwyaf o'r gwariant yn cael ei ariannu o ardoll yr awdurdodau cyfansoddol, fe ddaw incwm gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau sy'n cael arian grant ac ad-daliadau gan gyrff eraill am ddefnyddio ein safleoedd.

13 Mae'r costau ariannu cyfalaf yn cynnwys costau benthyciadau a thaliadau refeniw am ddefnyddio asedau cyfalaf. Pan gafodd y gyllideb ei gosod, ni ragwelid cynnydd yng nghyfraddau llog Banc Lloegr yn ystod 2022/23. Mae'r cynnydd wedyn wedi arwain at effaith niweidiol ar y sefyllfa, ac mae hynny wedi cael ei ffactorio i'r rhagolwg.

**ALLDRO REFENIW**

14 Mae'r adroddiad yn rhagamcan sefyllfa fantoledig gyffredinol, ond oherwydd y pwysau chwyddiannol bu'n rhaid cynnwys trosglwyddiadau o gronfeydd a glustnodwyd. Ceir dadansoddiad isod.

| | **Cyllideb (£000)** | **Rhagolwg (£000)** | **Amrywiad (£000)** | **Amrywiad (%)** |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 30,120 | 31,553 | 1,433 | 4.8% |
| Safleoedd | 2,901 | 3,896 | 995 | 34.3% |
| Cludiant | 1,204 | 1,204 | - | 0.0% |
| Cyflenwadau | 4,919 | 5,391 | 472 | 9.6% |
| Taliadau Trydydd Parti | 451 | 451 | - | 0.0% |
| Cyllid Cyfalaf a Ffioedd | 2,263 | 2,513 | 250 | 11.0% |
| Incwm | - 2,456 | -2,482 | -26 | 1.1% |
| **Alldro a Ragwelir** | **39,402** | **42,526** | **3,124** | **7.9%** |
| Trosglwyddiad o Gronfeydd a Glustnodwyd | | - 2,128 | - 2,128 | |
| Trosglwyddiad o Ddarpariaethau | | - 296 | - 296 | |
| Trosglwyddiad o Gronfa Gyffredinol | | - 700 | -700 | |
| **Defnydd o Gronfeydd** | | **- 3,124** | **- 3,124** | |
| **Sefyllfa a Ragwelir** | **39,402** | **39,402** | **-** | |

**COSTAU GWEITHWYR**

15 Mae costau gweithwyr yn elfen arwyddocaol o'r gyllideb (72%), ac maent yn cynnwys cyflogau, costau pensiwn, cost recriwtio a hyfforddi a gwasanaethau gweithwyr fel ffisiotherapi a gwasanaethau iechyd galwedigaethol.

16 Sefydlwyd strwythur staffio newydd yn Ebrill 2022. Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol wrth recriwtio i swyddi gwag, ond mae'r farchnad swyddi yn heriol wrth recriwtio i swyddi arbenigol. Mae'r swyddi hyn yn parhau'n hanfodol er mwyn cyflawni'r amcanion corfforaethol.

17 Mae ymarferiad recriwtio amser cyflawn a gynhaliwyd yn ddiweddar wedi arwain at benodi 24 o recriwtiaid newydd; dechreuodd 12 ohonynt yn mis Medi a bydd 12 yn dechrau ym mis Ionawr. Bydd y swyddi hyn yn delio ag ymddeoliadau sy'n hybys ac a ragwelir, ond oherwydd y cyfnod angenrheidiol o hyfforddi, bu'n rhaid mynd yn uwch na'r lefelau llu arferol er mwyn sicrhau parhad yn y gwasanaethau. Mae camau gweithredu'n parhau i gynyddu nifer y diffoddwyr tân y system RDS ac mae hyn yn cael sylw arwyddocaol er mwyn mynd i'r afael a chynnal materion yn ymwneud ag argaeledd.

18 Gwariwyd £0.29m ar ddyfaniadau cyflog gwyliau wedi'u hôl-ddyddio. Bu hyn yn angenrheidiol yn dilyn achos cyfreithiol cenedlaethol ynghylch yr elfennau o gyflog a ddylai gael eu cynnwys wrth gyfrifo cyflog gwyliau, a bydd yn cael ei ariannu drwy ddarpariaeth a sefydlwyd yn 2021/22.

19 Mae'r gorwariant a ragwelir mewn costau staffio yn £1.43m, ac mae'n cynnwys y canlynol:

- costau a ddisgwylir ar gyfer dyfarniadau cyflog yn ystod y flwyddyn;
- cyflog gwyliau wedi'i ôl-ddyddio;
- diffoddwyr tân amser cyflawn ychwanegol;
- swyddi dros dro i gyflawni prosiectau penodol; llai
- gostyngiadau'n deillio o swyddi gwag cyfredol.

20 Mae cost a ddisgwylir ar gyfer dyfarniadau cyflog yn ystod y flwyddyn yn parhau'n ansicr ar hyn o bryd, er bod unrhyw ddyfarniad cyflog dros 2% yn risg ariannol. Nodwyd hyn yn ystod y broses o osod y gyllideb, a chynigir y dylid defnyddio'r cronfeydd wrth gefn yn 2022/23 ar gyfer dyfarniadau cyflog y cytunir arnynt yn genedlaethol.

## COSTAU NAD YDYNT YN GYFLOGAU

21 Mae'r gyllideb nad yw'n gyflogau yn profi pwysau sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys costau tanwydd ac ynni, sy'n parhau'n anrhagweladwy oherwydd materion yn ymwneud â phrisiau a chyflenwi. Mae argaeledd a chostau nwyddau eraill, fel cyflenwadau adeiladu, offer TGCh a darnau i'r fflyd yn fater o bryder hefyd oherwydd cymhlethdod y cadwyni cyflenwi a'r ansicrwydd byd-eang.

22 Mae deiliaid cyllidebau yn cynnal adolygiad o'r gwariant nad yw'n gyflogau, a hynny er mwyn sicrhau bod y rhagamcanion yn parhau i fod yn rhesymol.

## Safleoedd

23 Mae costau safleoedd yn rhagweld £0.99m o orwariant.

24 Mae ansefydlogrwydd y farchnad a chostau uwch nwy a thrydan yn her fawr i'r Awdurdod. Y gorwariant a ragamcenir ar gyfer cyfleustodau yw £0.25m. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cymorth i fusnesau, gan gynnwys cyrff y sector cyhoeddus tan 31 Mawrth 2023. Caiff costau ynni eu monitro fel rhan o'r cytundeb lefel gwasanaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru.

25 Mae'r rhagamcaniad hefyd yn cynnwys cost gwaith a gafodd ei ohirio yn 2021/22. Mae cyllid ar gael ar gyfer y gwaith yma o'r cronfeydd a glustnodwyd.

## Cludiant

26 Mae'r gyllideb ar gyfer cludiant yn rhagamcan 'dim amrywiad'; fodd bynnag, mae costau cynyddol ar gyfer tanwydd a darnau cerbydau yn achosi pwysau ar y gyllideb hon, ac maent ar hyn o bryd yn cael eu rheoli'n fewnol.

## Cyflenwadau

27 Y cyllideb net ar gyfer cyflenwadau yw £4.9m, a'r gwariant a ragwelir yw £5.4m, sy'n cynnwys mentrau yn ystod y flwyddyn a gaiff eu hariannu o'r cronfeydd a glustnodwyd.

28 Mae pwysau chwyddiannol sylweddol yn cael eu profi mewn nifer o feysydd busnes-gritigol, a chymerir camau i gyfyngu a lliniaru rhag y rhain, pan fo modd.

29 Mae'r sefyllfa alldro a ragamcenir yn cynnwys costau meddalwedd newydd ar gyfer Diogelwch Tân, cael cyfarpar gweithredol hanfodol newydd a gwaith prosiect ynghylch y gwahanol adolygiadau sy'n cael eu cynnal ymhob rhan o'r Gwasanaeth. Roedd y rhain wedi cael eu cynllunio ar ôl diwedd blwyddyn ariannol 2021/22 a byddant yn cael eu hariannu o'r cronfeydd a glustnodwyd.

## Taliadau Trydydd Partïon

30 Mae taliadau trydydd parti yn ymwneud â chytundebau lefel gwasanaethau gyda phartneriaid, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint a Heddlu Gogledd Cymru.

31 Ar hyn o bryd, mae'r gwariant hwn wedi'i ragamcanu i'r gyllideb.

## ARIANNU CYFALAF

32 Mae'r gyllideb ariannu cyfalaf yn neilltuo cyllid refeniw i ariannu gwariant cyfalaf.

33 Y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) yw'r swm isaf y mae'n rhaid ei chodi ar gyfrif refeniw awdurdod bob blwyddyn ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf a fydd wedi cael ei ariannu i ddechrau drwy fenthyciad. Mae'n rhan o holl arferion cyfrifyddu'r Awdurdod ac mae'n ymwneud â sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu talu'r dyledion sydd ganddo wrth brynu asedau cyfalaf, megis adeiladau a cherbydau.

34 Mae rheoliadau'n mynnu bod yr Awdurdod yn pennu, ymhob blwyddyn ariannol, swm y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw sy'n ddarbodus yn eu barn nhw, drwy gyfeirio at ofyniad cyllido cyfalaf (CFR). Y gofyniad ar gyfer 2022/23 yw £1.94m.

35 Hefyd, mae'r gyllideb yn dal y costau llog ar gyfer benthyciadau'r Awdurdod. Oherwydd y sefyllfa economaidd anwadal, mae cost benthyca wedi cynyddu'n fawr, sydd wedi arwain mewn pwysau cyllidebol cyfredol o £0.25m.

36 Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus ond mae risg o gynnydd pellach gan fod angen benthyciadau newydd yn ail hanner y flwyddyn yn lle benthyciadau sy'n aeddfedu ac i ariannu gwariant cyfalaf.

37 Ar hyn o bryd, mae yna gronfa o £0.3m i wrthbwyso costau llog uwch.

## INCWM

38 Yn ogystal ag ardoll yr awdurdodau cyfansoddol, mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys yr incwm a ddisgwylir ar gyfer ffioedd a thaliadau a grantiau.

39 Mae'r ffioedd a thaliadau'n ymwneud gan mwyaf ag ad-daliadau am adeiladau sy'n cael eu rhannu â chyrff eraill.

| | Cyllideb £000 | Rhagamcan £000 | Amrywiad £000 |
|---|---|---|---|
| Grantiau | 2,299 | 2,1299 | 0 |
| Ffioedd a thaliadau | 277 | 303 | 26 |
| **Cyfanswm** | **2,576** | **2,602** | **26** |

40 Roedd incwm arall wedi cynyddu oherwydd cyllid ychwanegol gan y llywodraeth ar gyfer hyfforddi prentisiaid.

**Arian Grant**

41 Cyfanswm y dyraniadau arian grant yn 2022/23 yw £2.299m (2021/22: £2.397m). Ceir dadansoddiad isod o'r arian grant ar gyfer 2022/23. Caiff yr holl grantiau eu monitro'n ofalus drwy gydol y flwyddyn ariannol i ganfod unrhyw amrywiadau ac er mwyn gallu cymryd camau i gywiro pethau.

| | Dyraniad £000 |
|---|---|
| Lleihau Llosgi Bwriadol | 157 |
| Offer Diogelwch Tân | 223 |
| Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc | 148 |
| Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru gyfan | 154 |
| Cyfraniadau Pensiwn Diffoddwyr Tân | 1,081 |
| Ffioedd Gwasanaeth Firelink | 416 |
| Mannau Gwefru Cerbydau Trydan | 120 |
| **Cyfanswm yr Arian Grant** | **2,299** |

**RHAGLEN GYFALAF**

42 Roedd yr Awdurdod wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf o £2.916m ym mis Rhagfyr 2021. Hefyd, caiff £0.167m o wariant ei ariannu o gronfeydd wrth gefn oherwydd llithriant mewn cynllun a gymeradwywyd o'r blaen.

43 Mae'r rhagamcan yn rhagdybio y bydd pob cynllun yn cael eu cyflawni erbyn Mawrth 2023.

44 Fel gyda'r gyllideb refeniw, mae'r rhaglen gyfalaf yn profi pwysau costau, gyda chostau uwch yn ymwneud â phrynu cerbydau a gwaith adeiladu. Mae hyn wedi arwain at yr angen am £0.205m yn ychwanegol o gyllid.

45 Dyma fanylion y cynlluniau:

| Cynllun | Cyllideb £000 | Rhagolwg £000 | Amrywiad £000 |
|---|---|---|---|
| Peiriant tân newydd | 1,248 | 1,248 | - |
| Faniau amlbwrpas ar gyfer gorsafoedd | 160 | 170 | 10 |
| Offer gweithdy | 20 | 20 | - |
| Tŵr hyfforddi newydd | 160 | 250 | 90 |
| Adeiladau – Mân waith | 245 | 260 | 15 |
| **Cyfanswm 2022/23** | **1,833** | **1,948** | **115** |
| Yn cario drosodd – peiriannau tân | 923 | 923 | - |
| Yn cario drosodd – Tyrrau hyfforddi | 160 | 250 | 90 |
| **Cyfanswm yn cario drosodd o 2021/22** | **1,083** | **1,173** | **90** |
| TGCh – Gweinydd | 167 | 167 | - |
| **Cyfanswm a ariennir o gronfeydd wrth gefn** | **167** | **167** | **-** |
| **Cyfanswm: Rhaglen Gyfalaf** | **3,083** | **3,288** | **205** |

46 Dyma sut y caiff y cynllun cyfalaf ei ariannu:

| Cyllid | Swm £000 |
|---|---|
| Benthyca | 3,121 |
| Cronfeydd a glustnodwyd | 167 |
| **Cyfanswm** | **3,288** |

**BENTHYCA**

47 Caiff gwariant cyfalaf ei ariannu gan mwyaf drwy fenthyciadau allanol. Yn y tymor byr, mae'r Awdurdod yn defnyddio arian refeniw dros ben o'r enw benthyciadau mewnol.

48 Mae'r Awdurdod yn parhau i ddefnyddio benthyciadau mewnol. Mae hyn yn golygu nad yw'r benthyciadau cyfalaf sydd eu hangen, fel y cyfrifir gan y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR), wedi cael eu hariannu'n llwyr gan ddyled fenthyca allanol. Yn hytrach, mae arian sy'n cefnogi cronfeydd, balansau a llif arian yr Awdurdod wedi cael eu defnyddio fel dull dros dro i ariannu gwariant cyfalaf a chynhyrchu arbedion refeniw. Fodd bynnag, wrth i gronfeydd gael eu defnyddio daw'r angen i gael benthyciadau allanol yn lle benthyciadau mewnol.

49 Rhagamcenir mai £22.26m fydd benthyciadau'r Awdurdod ar 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn cynnwys £6.0m o fenthyciadau byrdymor dros dro gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus, a £16.26m o fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Mae hyn yn dibynnu a oes arian mewnol ar gael ac mae'n parhau'n faes risg i'r Awdurdod.

**DEFNYDDIO CRONFEYDD A GLUSTNODWYD**

50 Nod cronfeydd ariannol yr awdurdod yw darparu cyllid i'w fuddsoddi mewn gweithgareddau yn y dyfodol ac i fod yn rhwyd diogelwch rhag ofn y bydd heriau ariannol tymor byr yn deillio o alwadau gweithgarwch neu bwysau na ragwelwyd.

51 Ar hyn o bryd, mae gan yr Awdurdod £5.57m o gronfeydd a glustnodwyd, sydd wedi cael eu cronni yn y blynyddoedd diweddar oherwydd llithriant yn y gwaith recriwtio a'r gweithgareddau oherwydd pandemig Covid-19.

52 Yn 2021/22, clustnodwyd cronfeydd i ariannu costau a ddylai fod wedi digwydd yn 2021/22, ond roedd problemau gyda'r cadwyni cyflenwi wedi golygu nad oedd modd eu cwblhau a chafwyd oedi arnynt. Hefyd, mae cronfeydd wedi cael eu sefydlu i ariannu cynnydd mewn cyfraddau llog, cynnydd mewn chwyddiant, gwelliannau i systemau a gwelliannau i wasanaethau.

53 Mae'r alldro amcanol yn rhagdybio y bydd £2.13m o gronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn. Caiff y defnydd o gronfeydd wrth gefn ei gadw dan adolygiad fel rhan o'r broses o fonitro'r gyllideb.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae arian i'r Gwasanaeth yn fuddiol i gymunedau Gogledd Cymru, ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn digwydd yn y seilwaith er mwyn galluogi'r gwasanaeth i ddarpar ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Caiff y gyllideb ei gosod bob blwyddyn yn unol â'r gwasanaethau arfaethedig sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofynnol dan y gyfraith i'r Awdurdod lunio'r Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r safonau a ragnodwyd. |
| Staffio | Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn cefnogi strategaeth hirdymor y gweithlu er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus er mwyn sicrhau bod unrhyw achos o wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu canfod a'u hadrodd yn briodol i'r Aelodau. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Hydref 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur** |
| Pwnc | **Adnewyddu contractau ynni** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y contractau ynni ar gyfer cyflenwi nwy a thrydan ar draws ystâd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Daeth y contractau ar gyfer nwy a thrydan i'r Awdurdod i ben ar 30 Medi 2022. Mae'r cynnydd eithafol yn y prisiau yn y farchnad ynni wedi creu risg ariannol sylweddol i'r Awdurdod.

3 Mae'r contractau ar gyfer nwy a thrydan wedi cael eu dyfarnu drwy Fframwaith Caffael Ynni Cyngor Gwynedd. Caiff nwy a thrydan eu prynu drwy ddefnyddio system brynu ddeinamig sy'n caniatáu prynu dros oes y contract ar y gyfradd sy'n gyffredin ar y pryd.

4 Bydd y trefniant prynu deinamig yn destun strategaeth risg y cytunir arni, sy'n cynnwys yr opsiwn i brynu'r holl nwy a thrydan a amcangyfrifir sy'n weddill os bydd y farchnad yn parhau i godi, gan ddarparu rhwyd ddiogelwch sy'n gwneud yr Awdurdod yn llai agored.

5 Ar adeg ysgrifennu hyn, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi mesurau cefnogi i fusnesau hyd at 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn lleihau'r pwysau costau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 i £0.2m. Fodd bynnag, heb y gefnogaeth hon amcangyfrifir y bydd pwysau costau 2023/24 yn £0.9m oherwydd y symudiadau eithafol yn y prisiau yn y marchnadoedd cyfanerthu nwy a thrydan.

**ARGYMHELLIAD**

6 Gofynnir i'r Aelodau nodi:

(i) y trefniadau cytundebol ar gyfer prynu nwy a thrydan; a
(ii) y goblygiadau cysylltiedig o ran risgiau a chostau o'r 1af Hydref 2022 ymlaen.

## CEFNDIR

7 Mae'r Awdurdod yn aelod o Bartneriaeth Ynni Gogledd Cymru, sy'n cynnwys cynghorau, heddlu a thân Gogledd Cymru. Mae hyn wedi galluogi'r aelodau i gael budd o drefniadau caffael ar y cyd drwy fframweithiau cydymffurfiol. Yn draddodiadol, mae ynni wedi cael ei brynu ar dariff sefydlog a osodir ar 1 Hydref bob blwyddyn.

8 Mae'r contractau cyflenwi presennol ar gyfer nwy a thrydan yn dod i ben ar 30 Medi 2022 a bu'n rhaid cynnal ymarferiad caffael ar gyfer contractau ynni newydd.

## GWYBODAETH

9 Mae'r Awdurdod wedi gallu manteisio ar fframwaith caffael a sefydlwyd gan Gyngor Sir Gwynedd fel yr awdurdod arweiniol. Mae'r Fframwaith Caffael Ynni yn cydymffurfio â rheoliadau caffael y sector cyhoeddus.

10 Cafodd y broses dendro waelodol ei chynnal yn unol â rheolau'r OJEU, gan arbenigwr ar y farchnad, Beond, ar ran Cyngor Sir Gwynedd.

11 Nod y broses dendro oedd pennu beth yw'r ymateb tendr mwyaf manteisiol yn economaidd gan gyflenwyr ynni trwyddedig am gyfnod o 48 mis. Roedd amrywiaeth o amcanion craidd o fewn y broses dendro, gan gynnwys helpu i gyflawni nodau cynaliadwyedd a symud draw oddi wrth dariff sefydlog tuag at system brynu ddeinamig. Er mai system brynu ddeinamig yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio, nodir bod rhai cyflenwyr wedi rhoi'r gorau i gynnig tariffau cyfraddau sefydlog beth bynnag, a hynny oherwydd amgylchiadau'r farchnad.

12 Mae system brynu ddeinamig yn fechanwaith i ddarparu hyblygrwydd ar gyfer prynu ynni ar wahanol gyfnodau o'r contract. O dan y trefniant hwn, mae rhywfaint, ond nid y cyfan, o'r defnydd o ynni a ragwelir yn cael ei brynu ar ddechrau'r contract a bydd gweddill y balans yn cael ei brynu dros gyfnod y contract. Nod y strategaeth hon yw prynu dros gyfnod hirach o amser, yn hytrach nag un pris sefydlog, a hynny er mwyn cynyddu'r siawns y gallwn elwa ar ostyngiadau yn y farchnad a chael prisiau rhatach dros gyfnod y contract.

13 Mae gan yr Awdurdod strategaeth risgiau y cytunwyd arni, sy'n cynnwys yr opsiwn i brynu'r holl nwy a thrydan yr amcangyfrifir sy'n weddill os bydd y farchnad yn parhau i gynyddu. Yn ei hanfod, mae hyn yn darparu rhwyd ddiogelwch sy'n gwneud yr Awdurdod yn llai agored.

14 Mae'r sefyllfa'n cael ei chymhlethu ymhellach gan y cynnydd eithriadol yn y prisiau yn y sector ynni. Mae cost nwy wedi codi o ryw 266p y therm yn Ebrill 2022 i 525p y therm pan lofnodwyd y contractau, ac ers hynny mae'r farchnad wedi cyrraedd, ar ei uchaf, 827p y therm.

15 Caiff y system brynu ddeinamig ei rheoli gan Beond, a'r nod yw cael dull sy'n amharod i gymryd risg ac a allai liniaru rhag yr opsiwn tariff sefydlog. Mae gan yr Awdurdod strategaeth risgiau y cytunwyd arni, sy'n cynnwys yr opsiwn o brynu'r holl nwy a thrydan a amcangyfrifir sy'n weddill petai'r farchnad yn parhau i godi. Yn ei hanfod, mae hyn yn darparu rhwyd ddiogelwch sy'n gwneud yr Awdurdod yn llai agored.

16 Mae'r contract ar gyfer trydan wedi cael ei ddyfarnu i Drax, sef cwmni wedi'i leoli yn y DU ac sy'n darparu'r ffynhonnell fwyaf yn y DU o ynni adnewyddadwy. Mae'r cwmni wedi cyhoeddi ei uchelgais i fod yn garbon-negatif erbyn 2030, ac mae hyn yn cefnogi'r Awdurdod yn ei amcanion amgylcheddol ei hun.

17 Mae'r contract ar gyfer cyflenwi nwy wedi'i ddyfarnu i TotalEnergies, sef cwmni byd-eang sy'n cynhyrchu ac yn gwerthu tanwyddau, gan gynnwys nwy naturiol a thrydan. Mae'r cwmni wedi ymrwymo i leihau allyriadau yn ei brosesau nwy naturiol er mwyn cefnogi ei amcanion gwyrdd.

18 Oherwydd y cynnydd eithafol mewn prisiau, trowyd at y strategaeth rheoli risgiau, a phrynwyd nwy a thrydan yn llawn am y cyfnod rhwng 1 Hydref 2022 a 30 Medi 2023. Prynwyd y nwy am gost o 518p y therm a'r trydan am £546 yr awr megawat (MWh). Mae'r prisiau hyn yn arwain at £0.9m o bwysau costau am flwyddyn lawn.

19 Ers hynny, mae Llywodraeth y Du wedi cyhoeddi amrywiaeth o fesurau i gefnogi busnesau'r DU, gan gynnwys y sector cyhoeddus. Mae'r mesurau hyn yn rhoi capio'r prisiau ar £211 y MWh am drydan, a 220c y therm am drydan. Mae'r cymorth hwn ar gael tan 31ain Mawrth 2023 ac mae'n cyfyngu'r pwysau costau i £0.2m am flwyddyn ariannol 2022/23. Nid yw'r cymorth a fydd ar gael ar ôl 31 Mawrth 2023, felly mae'r rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer cyllideb 2023/24 wedi rhagdybio £0.9m o bwysau costau am flwyddyn lawn.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae prynu nwy a thrydan gan gyflenwyr sydd wedi ymrwymo i leihau carbon yn cefnogi'r agenda cynaliadwyedd hirdymor. |
| Cyllideb | Caiff y gyllideb ei gosod bob blwyddyn yn unol â'r gost a ragwelir a'r defnydd cysylltiedig. |
| Cyfreithiol | Mae'r broses gaffael yn cydymffurfio'n llwyr â rheoliadau caffael y sector cyhoeddus. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Dylai'r aelodau nodi bod defnyddio system brynu ddeinamig yn cynnwys y risg annatod y bydd cost nwy a thrydan yn cynyddu'n uwch na'r opsiwn tariff sefydlog. Mae'r strategaeth yn cynnwys trefniant atal colled fel y gall yr Awdurdod brynu'r balans sy'n weddill os bydd y costau'n codi uwchlaw lefel y cytunwyd arni. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Hydref 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Pwnc | **Canolfan Hyfforddi Newydd** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed hyd yma ar lunio achos busnes manwl ar yr opsiwn/opsiynau ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu newydd.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant gweithredol hanfodol i'r staff er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ac i gefnogi diogelwch diffoddwyr tân. Roedd yr asesiad a wnaethpwyd gan y Prif Swyddog Tân yn ystod 2021 wedi canfod bod hyfforddiant yn faes blaenoriaethaol, a rhoddwyd cymeradwyaeth gan yr Awdurdod i gynnal adolygiad llawn ynghylch darparu hyfforddiant a datblygiad gweithredol yn y Gwasanaeth.

3 Mae hyn wedi cynnwys adolygiad o'r cyfleusterau hyfforddi gweithredol yn y Gwasanaeth, sy'n cynnwys y rhai yng Ngorsafoedd Tân Dolgellau a'r Rhyl. Roedd yn nodi'r angen i fuddsoddi mewn cyfleusterau hyfforddi a dabtlygu er mwyn sicrhau parodrwydd a diogelwch gweithredol, a hynny o ran y ddarpariaeth bresennol a'r ddarpariaeth yn y dyfodol. Yn benodol, bydd yr angen i ddarparu hyfforddiant ymarferol ac amgylchynnol (*immersive*) mewn amrywiaeth o senarios yn gofyn am fuddsoddi mewn cyfleusterau hyfforddi newydd.

4 Bydd y buddsoddiad hwn hefyd yn cynnwys canfod a phrynu tir i adeiladu canolfan hyfforddi a datblygu yng Ngogledd Cymru. Dylai fod yn hawdd ei chyrraedd o fewn awr i'r rhan fwyaf o'n staff sydd wedi'u lleoli mewn gorsafoedd tân ledled y Gwasanaeth.

5 Er mwyn datblygu achosi busnes manwl ar yr opsiwn/opsiynau ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu newydd i GTAGC, mae angen cymeradwyo cyllideb gychwynnol ar gyfer y prosiect.

## ARGYMHELLION

6 Bod yr Aelodau:

(i) yn nodi cynnwys yr adroddiad;
(II) yn awdurdodi rhyddhau gwariant hyd at uchafswm o £250,000 o'r cronfeydd wrth gefn i ddatblygu'r cam nesaf o achos busnes manwl ar yr opsiwn/opsiynau ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu newydd i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## CEFNDIR

7 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ym mis Medi 2021 cafodd y tair prif flaenoriaeth i'r Gwasanaeth eu cyflwyno gan y Prif Swyddog Tân yn ei hasesiad, a chawsant eu cymeradwyo gan yr Aelodau. Roedd y rhain yn cynnwys gwella argaeledd, gwella hyfforddiant a chryfhau'r strwythur corfforaethol.

8 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys rhywfaint o'r gwaith sydd wedi dechrau ar wella hyfforddiant a datblygiad gweithredol yn y Gwasanaeth, sy'n cynnwys prosiect i adeiladu canolfan hyfforddi a datblygu newydd.

## GWYBODAETH

9 Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal adolygiad manwl o'i gyfleusterau hyfforddi gweithredol yng ngorsafoedd tân y Rhyl a Dolgellau, ac o ganlyniad daeth i'r amlwg nad ydynt yn darparu'r cyfleusterau sydd eu hangen i hyfforddi diffoddwyr tân sy'n gweithio mewn gwasanaeth tân ac achub heddiw.

10 Er bod cyfleuster hyfforddi'r tŷ tân yng ngorsaf dân Dolgellau yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant gweithredol, mae'n 47 oed. Mae angen buddsoddiad sylweddol i ymestyn ei oes tymor canolig ar gyfer hyfforddiant ar offer anadlu risg-gritigol a thactegau diffodd tanau mewn amrywiaeth o senarios sy'n wynebu ein diffoddwyr tân.

11 Yn ystod y degawd diwethaf, bydd yr Awdurdod wedi sylwi bod nifer y tanau a digwyddiadau brys eraill wedi gostwng yn fawr. Er mai stori o lwyddiant i'r gwaith atal tanau sydd wedi digwydd yn ein cymunedau yn ystod y cyfnod yw hyn, mae wedi arwain at y risg fod ein diffoddwyr tân yn cael llai o gysylltiad â'r peryglon a'r sefyllfaoedd cymhleth y maent yn debygol o'u hwynebu wrth fynd at ddigwyddiadau o'r fath.

12 Mae halogyddion tân hefyd yn risg yn y mwg a'r nwyon fflamadwy gwenwynig sy'n cael eu rhyddhau yn ystod tanau, ac a allai gyfrannu at ganser a chyflyrau iechyd ymysg diffoddwyr tân. Felly, mae angen cynnwys y mater o reoli halogyddion tân wrth ddylunio canolfannau hyfforddi a datblygu, gweithdrefnau gweithredol a diwylliant gwasanaethau tân ac achub.

13 I liniaru rhag y risgiau hyn, mae angen i hyfforddiant a datblygiad gweithredol i'r staff, mewn amgylchedd hyfforddi realistig ac amgylchynnol sy'n cynnwys mesurau iechyd a diogelwch digonol, fod yn flaenllaw wrth ddylunio canolfan hyfforddi a datblygu newydd. Felly, mae'r prosiect wedi dechrau datblygu opsiynau gyda'n staff. Bydd hyn yn darparu'r cyfleusterau hanfodol sydd eu hangen ar gyfer hyfforddi a datblygu am y 25 mlynedd nesaf o leiaf.

14 Bydd y ganolfan hyfforddi a datblygu newydd yn ceisio efelychu drwy ddefnyddio propiau hyfforddi realistig, megis tai tân, ardal ffermio, tanau ar longau, rhwydwaith y ffyrdd, sef yr holl beryglon cyfredol a rhagweladwy y mae diffoddwyr tân GTAGC yn debygol o'u hwynebu yn eu cymunedau wrth ymateb i ddigwyddiadau brys.

15 Yn ddibynnol ar gymeradwyaeth yr Aelodau, camau nesaf y prosiect fydd llunio achos busnes manwl a fydd yn galluogi'r Awdurdod i ystyried a yw adeiladu canolfan hyfforddi a datblygu newydd ar safle newydd yng Ngogledd Cymru yn opsiwn dilys. Yn ystod cam nesaf y prosiect, gwneir y canlynol:

- penodi ymgynghorwyr sydd eu hangen ar gyfer y prosiect (ymgynghorydd adeiladu, pensaer, syrfëwr meintiau a pheirianydd gwasanaethau);
- canfod tir addas a chytuno ar gytundeb cyfyngol â pherchennog y tir;
- cynnal arolygon, megis archwilio tir, halogyddion, topograffyddol, ecolegol;
- datblygu briff ar gyfer y dyluniad, ar y cyd â defnyddwyr, penseiri ac arbenigwyr ar ynni a chynaliadwyedd;
- trafod y prosiect â'r awdurdod cynllunio lleol;
- cysylltu â chyrff statudol a chyflenwyr gwasanaethau, i sicrhau bod y cynnig yn bodloni rheoliadau modern;
- llunio amcangyfrif o'r gost ar gyfer y prosiect, sy'n ymdrin â'r buddsoddiad cyfalaf a'r canlyniadau hirdymor i'r refeniw.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â'r holl Amcanion Llesiant a Chorfforaethol ar gyfer 2022/23, a bydd yn hyrwyddo diogelwch i ddiffoddwyr tân, yn cefnogi parodrwydd gweithredol ac yn sicrhau cynaliadwyedd dros y tymor hir |
| Cyllideb | £250,000 wedi'i ariannu o'r cronfeydd wrth gefn. |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd ar yr Awdurdod o dan y ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch i sicrhau bod hyfforddiant ei staff yn ddigonol, gan reoli risgiau megis halogyddion. Mae'r prosiect hefyd yn mynd i'r afael â'r ymrwymiad cyfreithiol ehangach i leihau allyriadau carbon. |
| Staffio | Mae tîm y prosiect a rhanddeiliaid wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Dechrau Prosiect, i'w gymeradwyo gan Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae'r prosect yn cefnogi iechyd a diogelwch a llesiant y staff. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r goblygiadau i'r nodweddion gwarchodedig yn cael sylw yn Asesiad Effaith Integredig y Ddogfen Dechrau Prosiect. |
| Risgiau | Mae'r holl risgiau wedi'u cynnwys yng nghofrestr risgiau'r Ddogfen Dechrau Prosiect. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Yr Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **17 Hydref 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Dafydd Edwards, Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Pwnc | **Gosod y Gyllideb ar gyfer 2023/24** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Yn yr adroddiad hwn, mae'r Aelodau yn cael gwybod am broses y gyllideb, y rhagdybiaethau cynllunio a'r amserlenni ar gyfer gosod cyllideb refeniw'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) ar gyfer 2023/24.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Rhaid i'r Awdurdod osod y gyllideb refeniw ar gyfer 2023/24 yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2023. Dechreuwyd ar y gwaith rhagbaratoi sydd ei angen i sefydlu'r gyllideb sylfaenol, ac mae hynny'n cynnwys adolygiad o'r lefelau gwariant cyfredol, y rhagdybiaethau cynllunio allweddol a'r risgiau. Darperir crynodeb yn Atodiad 1.

## ARGYMHELLION

3 Gofynnir i'r Aelodau wneud y canlynol:
 (i) nodi'r rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i osod y gyllideb refeniw ar gyfer 2023/24; a
 (ii) nodi'r cynnig i ddarparu amcangyfrifon cychwynnol ar gyfer y gyllideb i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr ac i geisio cymeradwyaeth i gyllideb refeniw 2023/24 gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2021.

## CEFNDIR

4 Bob blwyddyn, rhaid i'r Awdurdod osod cyllideb refeniw fantoledig sy'n gorfod cael ei chymeradwyo gan yr Awdurdod llawn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Er nad yw'r term "mantoledig" wedi'i ddiffinio'n ffurfiol yn y ddeddfwriaeth, mae CIPFA (y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus) yn cydnabod y dylai sefydliadau gael cynlluniau ariannol sy'n dangos sut y caiff y gwariant ei ariannu dros y tymor byr a'r tymor canolig.

5 Mae cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod yn y tymor byr, canolig a hir yn seiliedig ar adnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r prif bethau sy'n gyrru costau, gan gynnwys gwerthuso risgiau ac ansicrwydd. Agweddau hanfodol ar hyn yw'r gofynion ar y gwasanaeth, yr adnoddau sydd ar gael, a'r weledigaeth strategol ar gyfer y dyfodol.

6 Roedd adroddiad y Prif Swyddog Tân i'r Aelodau ym mis Medi 2021 yn darparu asesiad sefyllfaol. Roedd hwn yn cadarnhau mai'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod yw cynnal digon o argaeledd o griwau tân ar-alwad; sicrhau bod digon o adnoddau i gynnal a datblygu sgiliau diffoddwyr tân; a chael digon o gapasiti corfforaethol i ateb gofynion nawr ac yn y dyfodol.

7 Yn dilyn yr asesiad hwn, roedd yr Awdurdod wedi cymeradwyo nifer o adolygiadau mewnol, gan gynnwys adolygiad o ofal tân, adolygiad o'r system RDS (criwiau ar-alwad) ac adolygiad o hyfforddiant i sicrhau diogelwch diffoddwyr tân. Mae'r adolygiadau hyn yn parhau ac maent yn cael eu hategu gan waith pellach mewn meysydd allweddol, fel asesiadau tactegol tanau sy'n mynd yn wyllt a dadhalogi peiriannau, cit a chyfarpar.

8 Yn ogystal â'r meysydd heriol penodol hyn, mae'r Awdurdod hefyd yn wynebu'r ansicrwydd sy'n gyffredin i bob corff yn y sector cyhoeddus oherwydd y sefyllfa economaidd ansicr. Yn arbennig, mae'r angen i reoli effaith chwyddiant, materion cyflenwi a chwyddiant cyflogau yn flaenoriaethau allweddol.

9 Er bod yr asesiad cyllidebol cychwynnol ar gyfer 2023/24, a gyflwynwyd i'r Awdurdod yn Rhagfyr 2021, wedi dangos gofyniad cyllidebol net o £40.913m, bydd angen diwygio hyn i adlewyrchu'r asesiad cyfredol yn llwyr.

10 Bydd y gwaith o gynllunio'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 yn canolbwyntio ar y materion a nodir uchod, a bydd yn cael ei drafod yn y gweithdy cynllunio a gynhelir ar 6 Hydref 2022.

11 Gwneir gwaith pellach gyda'r awdurdodau lleol cyfansoddol i sicrhau bod gofynion cyllidebol yr Awdurdod yn cael eu cyfleu'n llwyr.

**GWYBODAETH**

12 Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol sydd yn y cynllun ariannol tymor canolog wrthi'n cael ei ddiwygio ac mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys yn Atodiad 1. Bydd cyllideb refeniw ddrafft 2022/23 yn cael ei pharatoi a'i hystyried er mwyn i'r Awdurdod ei chymeradwyo yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2023.

13 Mae’r asesiad sefyllfaol wedi canfod heriau o ran argaeledd gorsafoedd ar gael yn ôl y galw, capasiti corfforaethol a hyfforddi diffoddwyr tân. Yn dilyn cymeradwyaeth gan yr Awdurdod, mae adolygiadau manwl yn cael eu cynllunio er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer gwaith cynllunio tymor canolig a thymor hir. Hefyd, mae angen cymryd camau byrdymor i fynd i’r afael â phwysau sy’n bodoli ar unwaith a chaiff y mater hwn sylw gan yr Aelodau mewn gweithdai cynllunio. Bydd y costau sy’n gysylltiedig â’r materion gorfodol yn cael eu cynnwys yn yr asesiad o gyllideb 2023/24.

14 Fel arfer, mae costau gweithwyr yn fwy na 72% o’r gwariant, ac mae’r asesiad cynllunio cyfredol wedi rhagdybio 2% o ddyfarniad cyflog i’r holl grwpiau o staff. Fodd bynnag, nid yw’r negodiadau cenedlaethol am gyflogau wedi cael eu cwblhau felly mae hyn yn risg sylweddol ar gyfer sefyllfa alldro 2022/23 ac ar gyfer cynllunio ariannol ar gyfer 2023/24. Amcangyfrifir y byddai angen, yn y flwyddyn, £0.25m arall ar gyfer pob 1% yn uwch na’r rhagdybiaeth gynllunio, a’r effaith ar flwyddyn lawn fyddai £0.33m.

15 Risg arall i gostau gweithwyr yw cyfraniadau pensiwn y cyflogwr i ddiffoddwyr tân a gynyddodd yn ystod 2019/20 yn dilyn ailbrisiad gan Adran Actiwari’r Llywodraeth. Mae prisio pensiynau yn faes cymhleth sy’n gofyn am ragamcanion hirdymor. Yn dilyn newid i’r rhagdybiaethau, cafwyd cynnydd sylweddol yn 2019/20 yng nghyfraniadau’r cyflogwr i gynlluniau nad ydynt yn cael eu hariannu. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol. Nid yw’r sefyllfa hon wedi cael ei chadarnhau ar gyfer 2023/24 ac ymlaen ac mae hyn yn golygu £1.1m o risg. Ar hyn o bryd, y rhagdybiaeth ar gyfer y gyllideb yw y bydd cyllid yn dod i law.

16 Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 y cyflogwr, a gymhwyswyd yn Ebrill 2022 i dalu am gostau’r GIG a gofal cymdeithasol yn y DU, yn cael ei wrthdroi erbyn hyn. Bydd hyn yn golygu rhyw £0.17m yn llai o gostau staff.

17 Er bod cynnydd chwyddiannol wedi cael ei gymhwyso i gyllidebau nad ydynt yn gyflogau, mae nifer o risgiau ac ansicrwydd sylweddol yn parhau. Mae’r rhain yn cynnwys costau tanwydd, sy’n dal yn anodd eu rhagweld oherwydd materion yn ymwneud â phrisiau a chyflenwadau,. Hefyd, mae argaeledd a chostau nwyddau megis cyflenwadau adeiladu, offer TGCh a darnau ar gyfer y fflyd yn peri pryder hefyd oherwydd cymhlethdod y cadwyni cyflenwi a'r ansicrwydd yn fyd-eang.

18 Mae ansefydlogrwydd y farchnad, a chostau uwch nwy a thrydan, yn her ariannol fawr i'r Awdurdod. A'r rhagdybiaeth gynllunio ar hyn o bryd yw £0.9m o bwysau cost. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cymorth i fusnesau, gan gynnwys cyrff y sector cyhoeddus tan 31 Mawrth 2023 ond mae'r cymorth hirdymor sydd ar gael yn anhysbys ar hyn o bryd.

19 Mae nifer o risgiau eraill o fewn y cyllidebau nad ydynt yn gyflogau, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (ESN) (cysylltiadau).

20 Mae costau ariannu cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a thaliadau refeniw am ddefnyddio asedau cyfalaf. Mae cynnydd mewn cyfraddau llog, pwysau chwyddiant a phroblemau gyda chadwyni cyflenwi yn her i'r rhaglen gyfalaf. Mae rhagor o adolygiadau'n cael eu cynnal i sicrhau fforddiadwyedd y cynllun cyfalaf yn y tymor hir.

21 Bydd yr adolygiad sy'n mynd ymlaen o hyfforddiant yn ystyried y ddarpariaeth cyfleusterau hyfforddi i ddarparu trefniadau diogel a chynaliadwy. Bydd y cynlluniau hyn yn cael effaith ar gyfalaf a refeniw yn y blynyddoedd i ddod, er nad oes angen darpariaeth yn 2023/24.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ag Amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod. Mae'n adrodd ynghylch hyfywedd ariannol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Caiff yr asesiad cychwynnol o £40.913m sydd yn y cynllun ariannol tymor canolig a gymeradwywyd gan yr Aelodau yn ystod Rhagfyr 2021 ei ddiwygio i adlewyrchu'r asesiad cyfredol. |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Tân ac Achub i osod cyllideb fantoledig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau cynllunio realistig. |
| Staffio | Fel arfer, mae mwy na 70% o'r gwariant yn ymwneud â chostau staff felly mae'n ffactor o bwys wrth ystyried sefydlogrwydd ariannol yn y dyfodol. Mae'r risgiau a nodwyd gan y Prif Swyddog Tân yn cynnwys y negodi sy'n mynd ymlaen am gyflogau, yn ogystal â'r angen i recriwtio mwy o staff i'r ddyletswydd RDS a hefyd i gynyddu cadernid corfforaethol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd y materion hyn yn rhan o'r cynigion ar gyfer gosod y gyllideb. |
| Risgiau | Mae'r risgiau a'r ansicrwydd allweddol mewn perthynas â chyllideb 2023/24 wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1. |

**Atodiad 1**

**Crynodeb o'r rhagdybiaethau cynllunio a'r risgiau**

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth osod y gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Costau gweithwyr | • Caiff y cyllidebau staffio eu llunio ar sail modelau cyflawni gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, a chânt eu diweddaru i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd yn asesiad sefyllfaol y Prif Swyddog Tân yn 2021. Rhagwelir y bydd angen mwy o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion hyfforddi'r staff ac i sicrhau bod capasiti corfforaethol yn cael ei gynnal.<br>• Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol a gyflwynwyd i'r aelodau ym mis Rhagfyr 2021 yn rhagdybio 2% o ddyfarniad cyflog cenedlaethol. Nid yw'r asesiad hwn yn ddilyn erbyn hyn, ac mae angen darpariaeth sylweddol i fynd i'r afael â dyfarniadau cyflog 2022/23 (sydd heb eu cwblhau'n derfynol) a dyfarniadau 2023/24.<br>• Mae'r cynnydd o 1.25% mewn cyfraniadau yswiriant gwladol a oedd yn gymwys o Ebrill 2022 wedi cael ei wrthdroi erbyn hyn, yn dilyn canlyniad y gyllideb fechan ym Medi 2022.<br>• Rhagdybir y bydd y cynnydd yng nghyfraddau cyfraniad pensiwn y cyflogwr, yn sgil prisiad diwethaf Adran Actiwari'r Llywodraeth, yn parhau i gael ei ariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru. | • Nid yw'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC) wedi dod i gytundeb eto am y dyfarniad cyflog i ddiffoddwyr tân ar gyfer 2022/23, er bod disgwyl setliadau uwch na darpariaeth y gyllideb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.<br>• Nid yw'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol wedi dod i gytundeb eto am y dyfarniad cyflog i staff ar gontractau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ar gyfer 2022/23. Mae'r cynnig cyfredol yn uwch na darpariaeth y gyllideb, ac mae'n creu pwysau ailadroddus o £0.25m.<br>• Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn rhagdybio lefelau arferol o weithgarwch. Os bydd amgylchiadau prysur yn digwydd, bydd pwysau ar y gyllideb. Y rhagdybiaeth weithio yw mai'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol fyddai'n cael ei defnyddio yn y lle cyntaf.<br>• Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eto a fydd y grant i gefnogi'r cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr i gynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn parhau ar ei lefel gyfredol, sef £1.1m.<br>• Yn Rhagfyr 2018, collodd y llywodraeth ei hapêl yn erbyn yr her gyfreithiol i'r trefniadau pensiwn trosiannol ar gyfer diffoddwyr tân. Bydd y rhwymedi'n gymwys ar draws cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus. Nid yw'r canlyniad ariannol yn hysbys, ac ni wnaethpwyd unrhyw ddarpariaeth. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth osod y gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| | • Yn dilyn yr ymchwiliad cyhoeddus i drychineb Grenfell, mae'r Ddeddf Diogelwch Tân (2021) wedi cyflwyno newidiadau i'r rheoliadau adeiladu. Bydd cynigion y gyllideb yn adlewyrchu staffio diwygiedig a hyfforddiant i'r staff er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu ymateb i'r newidiadau hyn. | • Mae'r cynllun pensiwn i staff sy'n gyflogedig ar delerau ac amodau llywodraeth leol yn agored i brisiad bob pedair blynedd. Mae'r prisiad diweddaraf wrthi'n cael ei gwblhau'n derfynol a bydd yn cymryd effaith o Ebrill 2023 ymlaen. Nid yw'n hysbys a fydd hyn yn effeithio ar gyfraniadau'r cyflogwr ac mae hyn yn parhau'n risg ar hyn o bryd.<br>• Mae'r cynllun pensiwn i ddiffoddwyr tân yn agored i brisiad bob pedair blynedd. Mae'r canlyniadau'n cyfrannu at gyfraddau cyfraniad y gweithiwr a'r cyflogwr, sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru. Bydd y canlyniad prisio nesaf yn gymwys o Ebrill 2024 ymlaen a disgwylir iddo gynyddu cyfraddau cyfraniad y cyflogwr o'r lefel gyfredol, sef 27.3% o gyflog pensiynadwy. Er na fydd hyn yn effeithio ar flwyddyn ariannol 2023/24, mae'n parhau'n risg allweddol ac ansicrwydd dros y cylch cynllunio tymor canolig. |
| Heblaw cyflogau | • Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi cadarnhau y bydd y cyllidebau nad ydynt yn gyflogau yn cael eu ffurfio ar sail modelau darparu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes ac yn cael eu diweddaru i adlewyrchu materion gorfodol yn deillio o asesiad sefyllfaol y Prif Swyddog Tân. Mae'r gofynion ar y gyllideb heblaw cyflogau yn cael eu gwaethygu ymhellach gan yr effaith chwyddiannol a phroblemau gyda'r cadwyni cyflenwi. | • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflogau a'i fod yn ymdrechu i reoli pwysau costau o fewn y gyllideb a gynlluniwyd, mae hyn yn dal yn faes risg oherwydd y pwysau parhaus o fewn y gadwyn gyflenwi yn sgil cynnydd mewn prisiau a materion yn ymwneud ag argaeledd. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei rheoli'n ofalus ond oherwydd llawer o anwadalrwydd, nid oes modd mesur yr effaith yn llwyr.<br>• Mae cost nwy a thrydan yn bwysau cost hysbys ac mae'r rhagdybiaethau cynllunio cyfredol yn cynnwys cynnydd o £0.9m o gymharu â'r asesiad cychwynnol yn y cynllun ariannol tymor canolig. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth osod y gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| | • Mae cyllidebau wedi cael eu ffurfio gan ddefnyddio gwybodaeth a chrebwyll proffesiynol rheolwyr sy'n dal cyllidebau a rhwymedigaethau contraciol gwaelodol ond maent, o reidrwydd, yn cynnwys llawer o amcangyfrif. Pan fo modd mesur y pwysau costau, mae'r rhain wedi'u nodi ar wahân ac wedi'u cynnwys (e.e. ynni) | • Mae'r gwaith o gaffael Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (ESN) yn genedlaethol yn symud ymlaen ond mae oedi mawr. Ymestynnwyd y contract presennol ac ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn cael £0.4m gan Lywodraeth Cymru tuag at ddarparu'r gwasanaeth cyfredol. Y rhagdybiaeth yw y bydd y cymorth refeniw cyfredol yn parhau er na chafwyd cadarnhad o hyn eto.<br>• Er bod yr Awdurdod yn parhau i weithio tuag at leihau ei ôl-troed carbon, nid oes cynlluniau manwl wedi cael eu llunio eto. Symudir ymlaen â'r gwaith hwn yn ystod 2023/24 ac nid oes unrhyw ddarpariaeth gyllidebol wedi'i chynnwys. |
| Cyllido Cyfalaf | • Caiff y gofyniad cyllido cyfalaf ar gyfer 2023/24 ei ddylanwadu gan wariant cyfalaf hanesyddol, yr angen i fenthyca ar gyfer rhaglen gyfalaf 2023/24 ac effaith y cynnydd mewn cyfraddau llog. | • Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn faes risg allweddol o ystyried yr ansicrwydd economaidd ar hyn o bryd. Gwneir rhagor o waith modelu ariannol i asesu pa mor sensitif yw sefyllfa a pherfformiad ariannol yr Awdurdod i ragor o gynnydd mewn cyfraddau llog, ac adroddir ynghylch hynny fel rhan o'r gwaith o osod y gyllideb. |
| Incwm | • Cafodd y cyllidebau incwm eu hadolygu a'u gosod yn unol â'r blynyddoedd blaenorol. | • Ni chanfuwyd risgiau penodol y tu hwnt i'r incwm grant gan Lywodraeth Cymru y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Hydref 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol 01745 352785** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021/22, i'w gymeradwyo.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Fframwaith CIPFA/Solace, *Delivering Good Governance in Local Government Framework* (2016) (y Fframwaith) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3 Cafodd y Datganiad Llywodraeth Blynyddol drafft cyntaf 2021/22 ei gymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2022 ac yna cafodd ei gyflwyno i'r archwilydd allanol i gadarnhau a oedd yn gyson ai peidio â'r Fframwaith ac â datganiadau ariannol yr Awdurdod.

4 Erbyn hyn, mae sylwadau a gafwyd gan yr archwilydd allanol wedi cael eu hymgorffori yn y drafft terfynol (Atodiad 1) er mwyn cael cymeradwyaeth yr Awdurdod.

**ARGYMHELLIAD**

5 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r newidiadau a wnaed i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021/22; a
(ii) cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021/22.

**CEFNDIR**

6 Ers 2010/11, mae'n rhaid i bob corff llywodraeth leol, dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015, lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyhoeddir fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

7 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw asesu a dangos bod system gadarn o lywodraethu corfforaethol yn bodoli ymhob rhan o'r sefydliad.

8 Yn 2016, roedd CIPFA a Solace wedi cyhoeddi fframwaith llywodraethu newydd, sef *Developing Good Governance in Local Government: Framework* (y Fframwaith). Mae'r Fframwaith wedi'i drefnu o gwmpas saith o egwyddorion llywodraethu, sy'n galluogi'r Awdurdod i ddangos ei drefniadau cyffredinol ac i nodi sut mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

9 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw nodi trefniadau'r Awdurdod i sicrhau'r canlynol:

(i) bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
(ii) bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif priodol amdano; a
(iii) bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, effeithlon ac effeithiol er mwyn cyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ac sydd o fudd i bobl yr ardal.

**GWYBODAETH**

10 Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021/22 wedi'i nodi yn Atodiad 1. Mae'n darparu trosolwg o'r trefniadau llywodraethu ac yn cadarnhau'r cynllun gwaith ar gyfer 2022/23.

11 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei adolygu gan Archwilio Cymru i gadarnhau ei fod yn gyson â'i adnabyddiaeth o'r Awdurdod a'r datganiadau ariannol.

12 Erby hyn, mae sylwadau a gafwyd gan Archwilio Cymru wedi cael eu hadlewyrchu yn y drafft diwygiedig sydd yn Atodiad 1. Yn gryno, mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- mân gywiriadau (rhifau tudalennau, cyfeiriad at yr Archwilydd Cyffredinol ac ati)
- darparu esboniad llawnach o effaith pandemig Covid-19 ar drefniadau llywodraethu'r Awdurdod yn ystod 2021/22. (tud.3)
- ychwanegu hyperddolenni i gyhoeddiadau eraill Archwilio Cymru, a rhoi esboniad pellach o oblygiadau'r rheini i ATAGC. Yn benodol, roedd y rhain i'w adolygiad o Gadernid Corfforaethol yr Awdurdod (gan nodi bod angen i'r Aelodau chwarae rhan fwy canolog yn mynd i'r afael â'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Gwasanaeth), ac i adroddiad cenedlaethol ar Gydweithio rhwng Gwasanaethau Brys. (tudalennau 9 a 12)

- cynnwys nodyn yn esbonio bod perfformiad mewn perthynas â meysydd risg a blaenoriaeth allweddol hefyd yn destun craffu gan archwilio mewnol (h.y. nid dim ond y datganiad o gyfrifon). (tud.11)
- darparu adroddiadau cynnydd am ddau gam gweithredu yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 nad oedd wedi cael eu cwblhau'n llwyr y flwyddyn honno ond na chafodd eu cario drosodd i gynllun gweithredu 2021/22. Roedd y rhain yn ymwneud â gwreiddio cylch blynyddol unedig o gamau Cynllunio Corfforaethol a Chynllunio Ariannol, ac adolygu'r Safonau Ymddygiad i staff. (tud.13)
- cyfeirio at adroddiad gan Archwilio Cymru am gynnydd yr Awdurdod wrth leihau allyriadau carbon, a oedd wedi dod i'r casgliad fod yr Awdurdod yn annhebygol o gyrraedd statws carbon sero net erbyn 2030 heb newid sylweddol yn y perfformiad. (tud.14)
- rhoi rhagor o esboniad am y cynnydd tuag at gael ardystiad Cyber Essentials Plus, a chynnwys datganiad pendant na lwyddwyd i wneud hyn yn 2021/22 felly mae wedi cael ei gario drosodd i gynllun gweithredu 2022/23. (tud.14)
- cynnwys casgliad cyffredinol ynghylch cydymffurfiaeth yr Awdurdod ag egwyddorion y Cod Rheoli Ariannol (daeth y gofyniad hwn i rym yn 2021/22). (tud.20)

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ac amcanion llesiant hirdymor ATAGC, ac mae'n dangos y trefniadau llywodraethu sy'n bodoli i alluogi'r Gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Amherthnasol |
| **Cyfreithiol** | Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei lunio yn unol â'r safonau a ragnodwyd. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Mae fframwaith llywodraethu cadarn yn cefnogi trefniadau rheoli risg yn yr Awdurdod. |

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22

## Cynnwys


Fframwaith Darparu Llywodraethiant Da ........ 1

Cyfranwyr Allweddol at Ddatblygu a Chynnal y Fframwaith Llywodraethu ........ 2

Crynodeb: Trefniadau Llywodraethu ........ 3

Crynodeb o Fframwaith Llywodraethu'r Awdurdod ........ 6

Egwyddorion Craidd ........ 7

Sut mae'r Awdurdod wedi Delio â Chamau Gweithredu Llywodraethu 2020/21? ........ 14

Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu 2022/23 ........ 18

Cydymffurfio â'r Cod Rheoli Ariannol ........ 21

Barn a Chasgliad Llywodraethu ........ 22

# Fframwaith Darparu Llywodraethiant Da

Mae Fframwaith CIPFA/Solace ar Ddarparu Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol (2016) (y Fframwaith) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ac i ddangos bod:


- busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol;
- arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif priodol amdano; a bod
- adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn cyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ac sydd o fydd i bobl yr ardal.

Er mwyn cyflawni ei amrediad eang o swyddogaethau, rhaid i'r Awdurdod fodloni amrywiaeth o amcanion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol dros y tymor byr, canolig a hir. Mae hyn yn golygu ei fod yn agored i gyfres o gyfyngiadau a chymhellion allanol a mewnol sy'n wahanol i rai yn y sector preifat, ac mae pob un yn effeithio ar ei drefniadau llywodraethu. Un darn allweddol o ddeddfwriaeth yng Nghymru yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n mynnu bod yr Awdurdod yn ystyried y tymor hir wrth wneud ei benderfyniadau a'i fod yn gweithio ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru.

Felly, mae gan randdeiliaid ddiddordeb mewn materion fel:

- a yw allbynnau arfaethedig yr Awdurdod wedi cael eu cyflawni a'r canlyniadau wedi digwydd; ac
- a yw hyn wedi cael ei wneud mewn ffordd effeithlon, economaidd a theg.

Nodir isod yr egwyddorion craidd sy'n sail i fframwaith CIPFA/Solace. Mae'r tudalennau canlynol yn nodi sut mae'r Gwasanaeth yn cwrdd â'r egwyddorion hyn.



## Cyfranwyr Allweddol at Ddatblygu a Chynnal y Fframwaith Llywodraethu

| | |
|---|---|
| Yr Awdurdod Tân ac Achub | Mae'n darparu arweiniad strategol, rhyngwyneb gwleidyddol a her gorfforaethol ar gyfer darparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru, gan annog cyfranogiad gan y cyhoedd a gan gynnal ei faterion mewn ffordd agored a thryloyw. Mae'n cytuno ar y Cynllun Gwella a Llesiant, a'r cyllidebau refeniw a chyfalaf. |
| Y Panel Gweithredol | Mae'n monitro perfformiad y Gwasanaeth ac mae'n gwneud argymhellion i'r Awdurdod ynghylch ei bolisïau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Gwella a Llesiant. Mae'r Panel yn adolygu'r gofrestr risgiau strategol. |
| Y Gweithgor Cynllunio | Mae'n gwneud gwaith manwl yn gysylltiedig â phroses gynllunio a gosod y gyllideb yr Awdurdod. Mae'n cyflwyno ei sylwadau i'r Panel Gweithredol, sydd yn ei dro yn gwneud argymhellion ar gyfer amcanion gwella/lleihau risg/llesiant i'r ATA. |
| Pwyllgor Archwilio | Mae'n darparu adolygiad annibynnol o'r fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, ac mae'n goruchwylio'r adroddiadau ariannol, gan gynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r cyfrifon blynyddol. |
| Pwyllgor Safonau | Mae'n hyrwyddo ac yn cynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau'r Awdurdod, ac mae'n goruchwylio'r polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn Aelodau'r Awdurdod. Hefyd, pan fo statud yn caniatáu, mae'n derbyn adroddiadau a chwynion am Aelodau ac yn cynnal neu'n goruchwylio ymchwiliadau ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod. |
| Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | Mae'n gosod ac yn arwain y gwaith o weithredu'r safonau llywodraethu yn y Gwasanaeth. Mae'n derbyn y cynllun gwella blynyddol, ac mae'n ei fwydo i'r hunan-asesiad blynyddol. |
| Archwilio Mewnol | Mae'n darparu barn annibynnol a gwrthrychol blynyddol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r trefniadau rheolaeth fewnol, y trefniadau rheoli risg a llywodraethu. Mae'n ymchwilio i dwyll ac anghysonderau. |

## Crynodeb: Trefniadau Llywodraethu

Rhaid i'r Awdurdod adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau bob blwyddyn i sicrhau bod ganddo system gadarn ar gyfer llywodraethu. Mae crynodeb o'r pethau sy'n cyfrannu'n allweddol i'r broses hon ar gael ar dudalen 2, ac maent yn cynnwys:

- Mynd ati'n rheolaidd i adolygu effeithiolrwydd Cyfansoddiad yr Awdurdod.
- Cael Awdurdod a strwythur pwyllgorau sy'n:
    - monitro effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg;
    - mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r trefniadau llywodraethu;
    - ystyried ac adolygu strategaethau, cynlluniau ac adroddiadau archwilio mewnol ac allanol; ac
    - adolygu, craffu a chymeradwyo'r datganiad blynyddol o gyfrifon.
- Cael Bwrdd Gweithredol sy'n:
    - darparu arweiniad ar lywodraethu;
    - cyfrannu at gwblhau ac adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol; ac yn
    - darparu cyfarwyddyd clir i'r Gwasanaeth a'r uwch reolwyr.
- Defnyddio gwybodaeth o wahanol ffynonellau i oleuo'r trefniadau llywodraethu, er enghraifft:
    - adroddiadau perfformiad;
    - trefniadau rheoli risg;
    - adroddiadau rheoleiddiwr allanol; a'r
    - Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol.

Ar dudalennau 7-13, nodir y llwyddiannau mewn perthynas â'r egwyddorion craidd. Mae'r camau gwella y mae'r Awdurdod wedi cytuno arnynt ar gyfer 2021/22 i'w gweld ar dudalennau 14-17, lle cadarnheir y cynnydd a wnaed.

**Trefniadau Llywodraethu, gan gynnwys Effaith pandemig COVID-19**

Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod ar gyfer 2020/21 yn dweud nad oedd ei addasiadau i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 wedi newid yn sylfaenol ei wasanaethau ymateb brys, ond ei fod wedi effeithio mwy ar wasanaethau nad ydynt yn rhai brys ac ar redeg y sefydliad o ddydd i ddydd.

Yn dilyn tarfu dros dro ar amserlen arferol cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub rhwng mis Mawrth a Thachwedd 2020, roedd y rhain wedi ailddechrau wedyn fel cyfarfodydd aml-leoliad gyda'r holl gyfranogwyr yn mynychu o bell. Mae'r trefniant hwn wedi gweithio'n effeithiol ac mae'n debygol o barhau nes gellir cael datrysiad technegol i alluogi gweddarlledu a chyfieithu ar y pryd os bydd rhai cyfranogwyr yn mynychu'n bersonol ac eraill yn mynychu o bell.

Roedd eitemau busnes a gafodd eu hystyried yng nghyfarfod diwethaf yr Awdurdod cyn yr etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022 wedi sicrhau bod modd trosglwyddo'n esmwyth i'r Awdurdod newydd. Roedd y rhain yn cynnwys cymeradwyo Cynllun Corfforaethol diwygiedig 2021-24, sy'n:

- cadarnhau ancanion hirdymor presennol yr Awdurdod;
- amlinellu pam gamau a gafodd eu cynllunio ar gyfer 2022/23;
- adlewyrchu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod;
- ystyried canfyddiadau ac argymhellion diweddar Archwilio Cymru;
- ystyried y gwaith sy'n mynd ymlaen gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;
- sicrhau eu bod yn barod ar gyfer Fframwaith Cenedlaethol diweddaredig ac argymhellion gan swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- cyson â chyllideb refeniw'r Awdurdod, ei gynllun cyfalaf a'i gynllun ariannol tymor canolig.

Ar ôl ei sefydlu, bydd yr Awdurdod newydd yn ystyried ei lwybr yn y dyfodol ar sail y Cynllun diwygiedig hwn, sy'n cynnwys cynigion Archwilio Cymru ynghylch ei drefniadau llywodraethu.

Hefyd, gan aros cyfnod heb aelodau yn yr Awdurdod rhwng etholiadau a chyfarfod cyntaf yr Awdurdod newydd ym mis Mehefin 2022, roedd yr Aelodau wedi dirprwyo pwerau dros dro i'r Prif Swyddog Tân i ddelio ag unrhyw faterion brys mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Trysorydd. https://www.northwalesfire.gov.wales/fire-and-rescue-authority/2019-onwards-meetings-agendas-and-reports/2022/3/fra-14-march-2022/

Ar lefel y Gwasanaeth, cafodd strwythur parhad busnes ffurfiol yn cynnwys cyfarfodydd llywodraethu Aur ac Arian, gyda chefnogaeth 'celloedd' swyddogaethol, ei roi ar waith ym mis Mawrth 2020. Cynhaliwyd cyfarfodydd (rhithiol) rheolaidd drwy gydol 2020/21 i mewn i 2021/22 er mwyn cynnal goruchwyliaeth strategol a phenderfyniadau cydlynedig ar lefelau uwch o'r Gwasanaeth.

Cyfarfu Tîm Arweinyddol newydd ar gyfer y Gwasanaeth am y tro cyntaf ym mis Medi 2021. Dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Tân newydd a ddechreuodd yn ei swydd ym mis Gorffennaf 2021, mae'r grŵp yn cynnwys Prif Swyddogion, Rheolwyr Maes a Phenaethiaid Adrannau. Mae'n cwrdd fel Bwrdd Perfformiad i graffu ar berfformiad, ac fel Bwrdd Gwella i herio a darparu goruchwyliaeth uwch ar raglenni, prosiectau a pholisïau.

Cyflwynwyd strwythur trefniadaethol newydd ym mis Ebrill 2022, yn dilyn penodiadau parhaol i swyddi uwch. Fel rhan o'r newid hwn, mae Strwythur Llywodraethu newydd ar gyfer y Gwasanaeth, sy'n cynnwys pwyllgorau a grwpiau sy'n adrodd i'r Tîm Arweinyddol newydd, yn cael ei gyflwyno gyda'r bwriad o resymoli'r gwahanol grwpiau a oedd yn arfer bodoli ar draws y Gwasanaeth a chysoni'r rhain gyda'r Strwythur Llywodraethu newydd er mwyn sicrhau bod llinellau adrodd, monitro, craffu a phenderfyniadau priodol yn digwydd.

Gan ddysgu o brofiadau yn ystod y pandemig, mae nifer o newidiadau wrthi'n cael eu gwreiddio fel ffyrdd gwahanol o ddarparu 'busnes fel arfer'. Er enghraifft, cafodd polisi gweithio ystwyth ei gyflwyno fel bod modd i waith, dulliau rheoli pobl a phenderfyniadau barhau heb orfod mynd i leoliad yn bersonol. Mae gweithio o bell, gyda'r cyfleuster i gwrdd yn rhithiol, wedi dod yn rhan arferol o waith 'hybrid' o ddydd i ddydd. Roedd cydnabyddiaeth hefyd i bwysigrwydd sicrhau bod staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y pandemig, felly mae'r gwaith cyfathrebu mewnol wedi cynyddu'n fawr, e.e. drwy'r llwyfan Workplace Facebook, rhaglen helaethach o ymweliadau gan Brif Swyddogion â gorsafoedd tân ac adrannau, a chyfarfodydd rheolaidd â grwpiau o reolwyr canol a rheolwyr goruchwyliol i raeadru gwybodaeth ynghylch y cynnydd hyd yma ac i drafod beth sy'n ddisgwyliedig gan staff ar bob lefel. Bydd pa effaith y bydd y newidiadau hyn yn eu cael ar lywodraethu yn parhau i gael ei monitro drwy Strwythur Llywodraethu'r Gwasanaeth.

Gyda nifer o brosiectau'n cael eu cynnal drwy'r amser, cyflwynwyd swydd newydd sef Swyddog Rheoli Rhaglenni yn Ebrill 2022 i helpu i gyfarwyddo a chydlynu'r gwaith, gan wella dulliau llywodraethu cyffredinol prosiectau.

# Crynodeb o Fframwaith Llywodraethu'r Awdurdod

**Egwyddorion Llywodraethu Da**

Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith
Bod yn agored ac ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid
Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
Penderfynu pa ymyriadau sydd eu hangen i gael y canlyniadau a fwriedir
Datblygu gallu'r Awdurdod, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'i weithwyr cyflogedig
Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gref
Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd

**Ffynonellau Tystiolaeth**

- Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Cynllunio ariannol
- Trefniadau partneriaeth
- Strategaeth a pholisïau Adnoddau Dynol
- Rheolau Gweithdrefnau Contractau
- Cyfansoddiad
- Swydd-ddisgrifiadau
- Prif Swyddog Tân
- Trysorydd
- Swyddog Monitro
- Adroddiadau a gyhoeddwyd
- Cynllun Ymgysylltu Cymunedol
- Strategaeth Gyfathrebu
- Cynllun Gwella a Llesiant
- Asesiadau Effaith Integredig

**Ffynonellau Sicrwydd**

- Adroddiadau perfformiad
- Adroddiadau ariannol
- Trefniadau democrataidd
- Adroddiadau gan archwilio mewnol a rheoleiddwyrAdroddiadau Archwilio Mewnol
- Byrddau partneriaeth
- Adborth gan gwsmeriaid
- Ymgyngoriadau

**Aelodau**

- Yr Awdurdod Tân ac Achub a'i bwyllgorau

**Gweithrediaeth**

- Bwrdd Gweithredol

**Ffynonellau Tystiolaeth**

- Arweinyddiaeth
- Gwerthoedd Craidd
- Trefniadau cydraddoldeb
- Trefniadau Rhyddid Gwybodaeth
- Codau Ymddygiad
- Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Safonau
- Cyngor ac arweiniad arbenigol
- Rheoli risgiau
- Rheolaethau mewnol
- Gwasanaeth Archwilio Mewnol
- Rheoli gwybodaeth
- Staff ac aelodau ethoedig
- Prosesau cwynion

**Asesiad Gwella a Llywodraethu BLynyddol wedi'i lofnodi gan Y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân**

**Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu wedi'i adolygu gan y Bwrdd Gweithredol**

# Egwyddorion Craidd

**Ymddwyn gydag uniondeb gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith**

- Mae'r Cyfansoddiad yn nodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Tân ac Achub a'i bwyllgorau, ac mae'n cynnwys y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion.
- Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau bod y penderfyniadau'n cael eu gwneud o fewn y gyfraith a'u bod yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cyfansoddiad.
- Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys Cod Ymddygiad yr Aelodau, ac mae hwnnw'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor Safonau.
- Pan fo angen, ceir cyngor cyfreithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Mae Codau Ymddygiad ar gael ar gyfer yr Aelodau a'r Swyddogion, sy'n mynnu eu bod yn datgan buddiannau busnes ac yn cofnodi derbyn rhoddion a/neu letygarwch.
- Mae gan yr Awdurdod drefn ar gyfer derbyn ac ymateb i unrhyw gwynion. Mae adroddiad cryno o'r cwynion a'r negeseuon o werthfawrogiad yn cael ei roi i'r Awdurdod Tân ac Achub bob blwyddyn.
- Mae polisïau allweddol ar gael i atal a lleihau'r perygl o dwyll. Mae'r polisïau'n cynnwys: Polisi Chwythu'r Chwiban, Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd a Rheoliadau Ariannol a Rheolau Gweithdrefnau Contractau. Pan amheuir bod anghysonder, mae trefniadau ar gael i sicrhau bod ymchwiliad trylwyr i hynny.
- Mae'r polisi recriwtio, y cyfnod cynefino a'r prosesau hyfforddi yn ymgorffori ymddygiadau personol a gwerthoedd moesegol. Mae gwerthoedd craidd y Gwasanaeth wedi'u gwreiddio'n llwyr, ac maent yn cynnwys: gwasanaeth i'r gymuned, pobl, amrywiaeth a gwella.
- Meddu ar wobrau Iechyd Corfforaethol Efydd a Phlatinwm Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Cafodd Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol ei sefydlu i ystyried materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a materion diwylliannol. Mae'r Grŵp wedi adolygu a diweddaru ein gwerthoedd craidd yn 2019/20 i adlewyrchu ein ffyrdd modern a phroffesiynol o weithio - gwerthoedd craidd
- Ymchwilir yn unol â Llawlyfr Disgyblu'r Gwasanaeth i achosion disgyblu ac unrhyw honiadau o ddrwgweithredu.
- Cyhoeddir Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Caiff yr amcanion cydraddoldeb eu hadolygu'n flynyddol, a'u monitro drwy gydol y flwyddyn.
- Fel rhan o'n hymrwymiad i'r Gymraeg, rhaid i bob aelod newydd o'r staff gael sgiliau Cymraeg ar Lefel 2 o leiaf.
- Mae'r Cynllun Gwella a Llesiant yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae hwn yn nodi'r amcanion gwella fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Mae polisi a gweithdrefn Diogelu yn eu lle i gyfeirio pobl fregus y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â hwy at asiantaethau eraill.

## Egwyddorion Craidd

**Bod yn agored ac ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid**

- Caiff pob cyfarfod ei hysbysebu, ac maent yn agored i'r cyhoedd (yn ddibynnol ar reoliadau'r pandemig a chanllawiau cyfarfodydd aml-leoliad), mae cyfarfodydd yr Awdurdod llawn yn cael eu gweddarlledu. Mae agendâu a phapurau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- Mae gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod fel rhan o'r cynllun cyhoeddi. Darperir fersiynau hawdd i'w darllen/fersiynau siarad a darllen/fersiynau Cymraeg.
- Mae trefniadau ar waith i ymgynghori â'r cyhoedd i wahodd barn rhanddeiliaid cyn datblygu a gweithredu newidiadau allweddol. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar y Cynllun Gwella a Llesiant.
- Mae'r canlynol hefyd yn dangos bod ymrwymiad i fod yn agored:
  - cynnal asesiadau effaith ar gyfer pob penderfyniad allweddol;
  - y Weithdrefn Cwynion a Chlod, sy'n cynnwys trefniadau adrodd yr Awdurdod;
  - y Strategaeth Ymgysylltu ag Ymgynghori â'r Cyhoedd (a gyflwynwyd i gyfarfod y Panel Gweithredol ym mis Gorffennaf 2018);
  - ymgysylltu â Chyrff Cynrychioli'r Gweithwyr;
  - aelodaeth o Grŵp Cydraddoldeb Gogledd Cymru.
  - roedd Archwilio Cymru wedi adnabod meysydd o weithgarwch ymgysylltu da, ond roeddent yn cydnabod bod angen symud tuag at ddull strategol integredig ar gyfer cynnwys pobl. Gellir gweld yr adroddiad llawn yn Adolygiad o Gyfranogiad a bydd yn cael ei ystyried ymhellach fel rhan o'r asesiad blynyddol o berfformiad.
- Defnyddir amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu, gan gynnwys:
  - cyfathrebu'n uniongyrchol drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gyda chyfrifon ar Facebook a Twitter. Y gallu i gofrestru ar y wefan i dderbyn diweddariadau ebost ar faterion penodol;
  - ymgysylltu â phobl ifanc drwy raglen y Ffenics, cadetiaid tân ac ymweliadau ag ysgolion;
  - gwaith ymgysylltu diogelwch cymunedol â thrigolion a busnesau;
  - digwyddiadau Gweithredu Cadarnhaol a mynychu digwyddiadau *park run* i recriwtio diffoddwyr tân;
  - mynd i ddiwrnodau agored/digwyddiadau – er enghraifft yr Eisteddfod;
  - cyfathrebu'n fewnol drwy'r Crynodeb Wythnosol a chylchlythyr Y Fflam;
  - cymryd rhan yn Grŵp Rhybuddio a Hysbysu'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, gan gynnwys cytundeb i aildrydar negeseuon i gyrraedd cynulleidfa ehangach;
  - ymgyrchoedd cyfathrebu cyhoeddus, dan arweiniad y Rheolwyr Diogelwch Cymunedol.
- Mae trefniadau partneriaethol i sicrhau canlyniadau penodol. Er enghraifft, mae'r Prif Swyddogion yn mynychi'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Cydweithio â phartneriaid eraill yn y Gwasanaethau Brys.

## Egwyddorion Craidd

**Diffinio'r canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy**

- Mae'r Cynllun Gwella a Llesiant yn nodi cyfeiriad strategol yr Awdurdod, ac mae'n nodi'r amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a'r amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Mae gan y Gwasanaeth bedwar gwerth craidd - Pobl, Amrywiaeth a Gwelliant, Anelu at Ragoriaeth a Gwasanaeth i'r Gymuned. Mae'r rhain yn crynhoi'r egwyddorion a'r gwerthoedd personol y mae'r staff yn cael eu hannog i'w mabwysiadu a'u harddangos.
- Mae'r Gwasanaeth wedi ennill achrediad y Rhuban Gwyn sy'n dangos ei ymrwymiad i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod.
- Mae dyletswydd statudol ar y Gwasanaeth i gael trefniadau parhad busnes. Mae cynlluniau wedi cael eu diweddaru ymhob rhan o'r Gwasanaeth. Mae cydweithio parhaus yn digwydd â'r gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru i wella'r gwaith cynllunio ac i ystyried y risgiau cyfredol. Mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn cynnwys ffrwd waith ar barhad busnes.
- Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, a phroses flynyddol y gyllideb, yn sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu cyfeirio at flaenoriaethau'r Awdurdod.
- Mae gwaith mewn partneriaeth yn digwydd pan fo amcanion cyffredin a manteision o gydweithio - er enghraifft Bwrdd Strategol Lleihau Llosgi Bwriadol, Byrddau Gwasanaethau Lleol.
- Mae'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol yn nodi'r broses i ganfod a rheoli'r modd mae'n agored i ansicrwydd, a allai effeithio ar gyflawni amcanion neu weithgareddau. Caiff y polisi ei adolygu drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod risgiau'n cael eu canfod a'u hasesu'n briodol. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cofnodi'r risgiau hyn, maent yn cael eu monitro'n rheolaidd gan yr adran Cynllunio Corfforaethol ac adroddir yn eu cylch i'r Panel Gweithredol.
- Mae penderfyniadau allweddol yn agored i asesiad effaith integredig, sy'n ystyried cydraddoldeb; diogelu data; iechyd; diogelwch a llesiant; y Gymraeg, cyllid; cynaliadwyedd a staffio; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021.
- Mae polisi a gweithdrefn Diogelu yn eu lle i gyfeirio pobl fregus y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â hwy at asiantaethau eraill.

## Egwyddorion Craidd

**Penderfynu pa ymyriadau sydd eu hangen i gael y canlyniadau a fwriedir**

- Ymgynghorir â'r cyhoedd fel rhan o'r gwaith o osod amcanion blynyddol yr Awdurdod, sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gwella a Llesiant. Mae'r Cynllun amlinellu sut mae'r Awdurdod yn bwriadu gweithio â chyrff cyhoeddus eraill i fynd i'r afael â'r materion cymhleth sy'n effeithio ar fywydau pobl. Caiff Asesiad o berfformiad yr Awdurdod ei gyhoeddi ym mis Hydref bob blwyddyn.
- Mae Polisi Rheoli Risgiau Strategol yr Awdurdod yn nodi'r broses a ddefnyddir i ganfod a rheoli'r modd mae'n agored i ansicrwydd, a allai effeithio ar gyflawni'r amcanion neu'r gweithgareddau. Caiff y polisi ei adolygu drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.
- Ar ôl i'r Grŵp Gweithredol graffu arnynt, mae'r adroddiadau perfformiad ac ariannol yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod a'i bwyllgorau.
- Mae argaeledd, digwyddiadau, y gweithlu a chyllidebau yn cael eu monitro i wneud yn siŵr fod materion yn cael eu nodi a chytuno ar ymyraethau priodol.
- Mae Cyfarwyddyd Gweithredol Cenedlaethol ar gael ac mae fforwm dysgu weithredol yn rheoli a gweithredu unrhyw newidiadau.
- Mae llawer o waith yn digwydd mewn partneriaeth ledled Cymru i ymateb i faterion sy'n wynebu'r sector tân a materion mwy cyffredinol yn y sector cyhoeddus. Mae cydweithio ag asiantaethau lluosog yn elfen bwysig o waith yr Awdurdod, gan gynnwys atal ac amddiffyn, ymateb i ddigwyddiadau, a defnyddio adnoddau. Roedd adroddiad cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd yn Ionawr 2022 ar Gydweithio rhwng Gwasanaethau Brys wedi dod i'r casgliad fod cydweithio rhwng gwasanaethau brys goleuadau glas yn cynyddu'n araf ond mae angen newid mawr i sicrhau'r effaith fwyaf a gwneud y defnydd gorau o adnoddau https://www.audit.wales/cy/publication/cydweithio-rhwng-y-gwasanaethau-brys. Felly bydd yr Awdurdod yn ymgysylltu ar lefel Cymru gyfan i ystyried yr argymhellion sydd yn yr adroddiad hwnnw.
- Mae'r prosesau ar gyfer cynllunio'r gyllideb yn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu paratoi yn unol ag amcanion, strategaethau a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae hyn yn golygu cael mewnbwn gan arweinwyr y Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod. Mae'n dangos sut bydd adnoddau'n cael eu defnyddio dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i sicrhau canlyniadau y cytunwyd arnynt a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.
- Roedd adolygiad Archwilio Cymru o gydnerthedd corfforaethol (Ebrill 2021) wedi canfod bod yr Awdurdod wedi dangos ei gadernid byrdymor ond bod angen iddo gymryd rhai penderfyniadau mawr i barhau'n gadarn yn y dyfodol. https://archwilio.cymru/sites/default/files/publications/north_wales_fra_corporate_resilience_welsh.pdf O ran Llywodraethu, canfu bod gan yr Awdurdod fframwaith llywodraethu priodol ond bod angen i'r Aelodau chwarae rhan fwy canolog yn mynd i'r afael â'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Gwasanaeth. Bydd y tri chynnig a wnaed yn cael eu hystyried fel rhan o'r cylch cynllunio blynyddol er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i wella yn cael eu hystyried yn llawn.

## Egwyddorion Craidd

**Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan ohono**

Mae Cyfansoddiad yr Awdurdod yn amlinellu rolau aelodau etholedig a swyddogion dynodedig er mwyn gallu deall rolau ac amcanion ei gilydd. Mae'r swyddi dynodedig yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Trysorydd a'r Swyddog Monitro.

- Mae gwaith cydweithredol a gwaith mewn partneriaeth yn digwydd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Er enghraifft, mae'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru yn rhan o'r Fforwm Hyfforddiant Ymchwilio i Achos Tanau Cymru gyfan. Mae hyn yn cefnogi dysgu ar y cyd ac yn hyrwyddo dull cyson ledled Cymru.
- Mae'r Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol Cymru gyfan 2021-2024 yn sail i'r ymrwymiad i ddysgu gydol oes ac i gymhwysedd yn y gweithle.
- Mae prosesau cynefino ar gael i Aelodau a gweithwyr cyflogedig. Mae'r rhain y cynnwys cyflwyniad i werthoedd craidd y sefydliad, y safonau ymddygiad a gofynion y swydd.
- Gwelir anghenion datblygu'r gweithwyr drwy gyfarfodydd un-i-un, goruchwyliaeth ac arfarnu. Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu rhaglen arweinwyr y dyfodol i staff sydd eisoes yn gyflogedig ac y mae wedi datblygu rhaglen brentisiaeth ar gyfer arweinwyr y dyfodol, a gychwynnodd yn Ebrill 2021, ar y cyd â Choleg Llandrillo.
- Mae iechyd a lles y gweithlu yn allweddol i'r sefydliad, a rhoddir cymorth i gynnal lles corfforol a meddyliol. Gwneir hyn drwy amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys polisïau a dogfennau cyfarwyddyd gan Adnoddau Dynol, gwaith hyblyg, y gwasanaeth iechyd galwedigaethol a rhaglen cefnogi cydweithwyr.
- Mae gan y Gwasanaeth adran hyfforddi bwrpasol, gyda fframweithiau cymhwysedd ar gyfer staff yr ochr weithredol. Rhoddir hyfforddiant drwy amryw o ddulliau, gan gynnwys modiwlau e-ddysgu sy'n orfodol ar gyfer rhai pynciau, e.e. Diogelu Data.
- Mae trefniadau ar gael ar gyfer adolygiadau mewnol o gydymffurfiaeth â safonau'r Gwasanaeth a'r gofynion iechyd a diogelwch.
- Mae staff yn perthyn i gyrff proffesiynol perthnasol ac yn cyflawni'r datblygiad proffesiynol parhaus angenrheidiol.

## Egwyddorion Craidd

**Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref**

- Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol yr Awdurdod yn briodol, fel sy'n ofynnol dan Adran 151 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
- Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau a sefydlwyd.
- Mae'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol yn nodi'r broses ar gyfer canfod a rheoli risgiau. Mae cofrestr risgiau corfforaethol yn cael ei chynnal gan yr Adran Cynllunio Corfforaethol, ac mae'n cael ei monitro drwy gydol y flwyddyn.
- Mae adroddiadau i'r Awdurdod a'i bwyllgorau yn cynnwys asesiad effaith integredig i oleuo a chefnogi penderfyniadau.
- Mae trefniadau Parhad Busnes ar gael i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn gallu parhau i gael eu darparu drwy'r amser.
- Mae trefniadau rheoli yn sicrhau bod argymhellion ar gyfer gwella, a wneir gan yr Archwilydd Allanol, yn cael eu cytuno a'u monitro.
- Mae'r Aelodau a'r uwch reolwyr yn cael adroddiadau rheolaidd am berfformiad y gwasanaeth mewn perthynas â dangosyddion perfformiad ariannol a cherrig milltir.
- Mae gan yr Awdurdod drefniadau i gadw cofrestrau o fuddiannau personol a busnes yr Aelodau, a chofrestr o roddion a lletygarwch.
- Mae polisïau Gwrth-dwyll a Llygredd a Chwythu'r Chwiban ar gael i gadarnhau bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i weithredu mewn modd teg a thryloyw.
- Mae polisïau a threfniadau ar gael i reoli'r ffordd o ddelio â data. Y rhai yw'r Polisi Diogelu Data, y Polisi Rhyddid Gwybodaeth, y Polisi Cadw Data, a'r Polisi Diogelwch Cyfathrebu a Gwybodaeth. Mae hyfforddiant yn ategu'r polisïau hyn, ac mae modiwl e-ddysgu ar ddiogelu data yn orfodol i'r holl staff.
- Mae protocolau cadarn ar rannu gwybodaeth wedi cael eu datblygu, a chytunwyd arnynt â phartneriaid.
- Mae rheolaeth ariannol gadarn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a'r newid trawsffurfiadol, yn ogystal ag yn sicrhau stiwardiaeth dda. Rhoddir yr wybodaeth ariannol ddiweddaraf ymhob cyfarfod o'r Awdurdod, ac mae adroddiadau ar gael i'r cyhoedd ar y wefan.
- Mae trefniadau rheoli'r Trysorlys yn dilyn arferion proffesiynol ac maent yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan yr aelodau.
- Mae Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod a'i berfformiad mewn perthynas â meysydd risg a blaenoriaeth allweddol yn destun craffu gan archwilwyr allanol.

## Egwyddorion Craidd

**Gweithredu arferion da o ran trylowyder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol**

- Mae'r Awdurdod Tân, gyda chymorth gan y Swyddog Monitro, yn goruchwylio ac yn adolygu pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r trefniadau llywodraethu a'r amgylchedd rheoli mewnol.
- Mae agendâu a chofnodion cyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd ar y rhyngrwyd, ynghyd â gweddarllediadau o gyfarfodydd yr Awdurdod (pan fyddant ar gael).
- Mae adroddiadau'r Awdurdod yn dilyn fformat strwythuredig sy'n sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno mewn modd clir a chyson er mwyn cynorthwyo i wneud penderfyniadau.
- Mae gan yr Awdurdod gynllun cyhoeddi, ac mae'n cydymffurfio â gofynion y Comisiynydd Gwybodaeth o ran ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, sy'n sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gwybodaeth sydd ganddo.
- Mae'r dogfennau Gwella a Llesiant yn nodi amcanion yr Awdurdod.
- Adolygwyd y Datganiad Blynyddol o Gyfrif i wneud yn siŵr ei fod mewn fformat haws i'r defnyddiwr. Mae'n darparu gwybodaeth glir am incwm a gwariant, ac mae'n dangos bod stiwardio arian cyhoeddus wedi digwydd yn y flwyddyn. Caiff y cyfrifon eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau statudol, sef 31 Mai.
- Mae'r Datganiad Blynyddol ar Bolisi Tâl yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Mae cyflogau'r aelodau yn cael eu talu yn unol ag argymhellion y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ac yn cael eu hadrodd ar y rhyngrwyd.
- Mae'r aelodau a'r uwch swyddogion yn datgan buddiannau perthnasol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r Awdurdod i ganfod trafodion partïon cysylltiedig, ac i adrodd yn eu cylch.
- Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gyhoeddi i roi tryloywder ynghylch y trefniadau llywodraethu a'r gwelliannau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd allanol a benodwyd, ac mae'n darparu barn ar y Datganiad o Gyfrifon sy'n cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar sail argymhellion a, phan fo angen, mae'n cymryd camau i gywiro pethau.
- Mae'r trefniadau Archwilio Mewnol yn cynnwys dull sy'n seiliedig ar risg, sy'n darparu sicrwydd fod y risgiau allweddol yn cael eu rheoli. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar sail argymhellion a, phan fo angen, mae'n cymryd camau i gywiro pethau.
- Mae prosesau ar gael i sicrhau bod argymhellion gan gyrff archwilio a rheoleiddio yn cael eu gweithredu.
- Bydd adolygiad Archwilio Cymru o gydnerthedd corfforaethol y cyfeirir ato ar dudalen 9 yn cael ei ystyried fel rhan o'r cylch cynllunio blynyddol er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i wella yn cael eu hystyried yn llawn.

## Sut mae'r Awdurdod wedi Delio â Chamau Gweithredu Llywodraethu 2020/21?

Roedd yr Asesiad Llywodraethu a Gwella Blynyddol 2021/22 yn cynnwys y camau gwella canlynol. Dyma sut yr ymdriniwyd â nhw:

| Cam Gwella | Cyfrifoldeb | Cynnydd ym Mai 2022 |
|---|---|---|
| Adolygu safonau ymddygiad i staff. | PSTC (Gweithrediadau a Hyfforddi)<br>PSTC (Cyllid ac Adnoddau)<br>Pennaeth Adnoddau Dynol | (Cam gweithredu o Gynllun Gweithredu 2020/21, heb gael ei gaio drosodd i Gynllun Gweithredu 2021/22.)<br>Dechreuodd y gwaith yn 2020/21 i lunio set o Safonau Ymddygiad diwygiedig i'w mabwysiadu. Ar ôl ystyried rhagor, penderfynwyd ymgorffori safonau ymddygiad ar draws amrywiaeth o bolisïau allweddol yn ymwneud â'r gweithlu, sy'n cael ei ystyried yn ffordd fwy effeithiol o gyfleu disgwyliadau sy'n gyson â Gwerthoedd Craidd diwygiedig y Gwasanaeth, a'i gyfeiriad diwylliannol. Crewyd swydd newydd, sef Rheolwr Datblygu Polisi Corfforaethol, i hyrwyddo cysondeb a sylw yn holl bolisïau'r Gwasanaeth. |
| Gwreiddio cylch cynllunio corfforaethol a chynllunio ariannol cydlynedig. | Pennaeth Cyllid<br>Rheolwr Cynllunio Corfforaethol | (Cam gweithredu o Gynllun Gweithredu 2020/21, heb gael ei gario drosodd i Gynllun Gweithredu 2021/22.)<br>Cwblhawyd y cam gweithredu i gyflwyno gweithdrefn newydd i gydlynu'r gwaith o osod amcanion corfforaethol a chynllunio ariannol tymor canolig i fewn un cylch cynllunio blynyddol. Disgwylir y bydd hyn yn ymwreiddio fwyfwy dros amser. |
| Caiff y Rheoliadau Ariannol eu hadolygu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu gofynion yr Awdurdod Tân ac Achub, gan gynnwys asesiad o'r trefniadau i gyflawni egwyddorion Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA. | PSTC (Cyllid ac Adnoddau)<br>Pennaeth Cyllid | Cafodd y Rheoliadau Ariannol eu diweddaru yn ystod 2021/22, a chael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2022 yn dilyn craffu gan y Pwyllgor Archwilio |

| Cam Gwella | Cyfrifoldeb | Cynnydd ym Mai 2022 |
|---|---|---|
| Yr Adran TGCh yn parhau â cham gweithredu 2020/2021 ynghylch Cyber Essentials Plus i warchod rhag bygythiadau seiber. | PSTC (Diogelwch Tân)<br>Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a TGCh | Parheir i wneud cynnydd tuag at gael ardystiad Cyber Essentials, ac mae gwaith i baratoi i wneud cais am ardystiad yn parhau ar gynllun gweithredu 2022/23.<br><br>Roedd y bygythiad gan droseddwyr seiber wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn. Parhaodd yr adran TGCh, gan weithio'n unol â chanllawiau'r Ganolfan Seiber-ddiogelwch Genedlaethol (NCSC) yn GCHQ, i gymryd camau i ddiogelu'r sefydliad, gan gynnwys cadw golwg ar y bygythiad sy'n newid yn barhaus. Mae Tîm Amddiffyn Seiber-ddiogelwch y Gwasanaeth, o fewn TGCh, yn cwrdd yn rheolaidd i gynllunio strategaethau ac amddiffyniad rhag bygythiadau. Mae mesurau eraill wedi cynnwys cymryd rhan mewn cyfarfodydd o WARP (Pwynt Rhybuddio, Cynghori ac Adrodd, sy'n rhan o'r NCSC), gan ymwneud ag arbenigwyr ar seiber-ddiogelwch (SEP2) i ddylunio Cynllun Ymateb i Ddigwyddiadau, a mynd ati bob mis i ddefnyddio cynnyrch (NESSUS) sy'n sganio rhwydwaith y Gwasanaeth am fannau gwan er mwyn gallu ymyrryd i wella diogelwch. |

| Cam Gwella | Cyfrifoldeb | Cynnydd ym Mai 2022 |
|---|---|---|
| Yn dilyn y datganiadau polisi ynni ac amgylcheddol a fabwysiadwyd o'r blaen, bydd y Gweithgor Cynllunio yn ystyried strategaeth amgylcheddol newydd. | PSC (Cynllunio a Pherfformiad)<br>Rheolwr Cynllunio Corfforaethol | O ganlyniad i effaith COVID-19 nid oedd modd cynnal gweithgorau cynllunio anffurfiol felly cafwyd cynnydd arafach na'r disgwyl. Ond erbyn hyn rhoddwyd bywyd newydd yn y gwaith er mwyn recriwtio Rheolwr Newid yn yr Hinsawdd a datblygu strategaeth amgylcheddol gadarn. Roedd adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru yn ystod 2021/22 wedi dod i'r casgliad fod yr Awdurdod yn annhebygol o sicrhau statws carbon net sero erbyn 2030 heb newid mawr yn y perfformiad. Dros y misoedd nesaf, bydd yr Awdurdod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r pum argymhelliad ar gyfer gwella. |
| Cefnogi'r ymateb rhanbarthol a chenedlaethol i ddigwyddiad Grenfell, a gweithredu unrhyw newidiadau gweithdrefnol a fydd yn deillio o'r arolwg annibynnol. | PSTC (Diogelwch Tân)<br>Uwch Reolwr Diogelwch Tân | Mae'r Gwasanaeth yn parhau i weithio i wella diogelwch Adeiladau Preswyl Uchel (HRRB). Ar lefel leol, mae hyn yn golygu parhau i archwilio adeiladau preswyl a darparu cymorth i Bersonau Cyfrifol er mwyn iddynt gydymffurfio â'r gofynion diogelwch tân cyfredol. Yn genedlaethol, rydym y gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi mentrau a newidiadau yn y gyfraith y maent yn eu gwneud er mwyn gwneud eiddo preswyl yn fwy diogel. Mae hyn yn cynnwys creu Tîm Archwilio ar y Cyd, sy'n cynghori a chyfrannu at y cynllun cywiro sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru a gweithio i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol yn addas i'r diben.<br>Ar lefel y DU, rydym yn rhan o grŵp o weithwyr proffesiynol diogelwch tân Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân. Mae hyn yn ein galluogi i ddylanwadu ar syniadaeth y DU gyfan ynghylch diogelwch tân. Ymgynghorwyd â ni hefyd ar newidiadau arfaethedig i gyfraith diogelwch tân yn y DU.<br>Mae'r holl weithredu o gam 1 o'r Ymchwiliad i Dŵr Grenfell wedi cael ei gwblhau, ac rydym yn parhau i ddilyn ac aros am ganlyniad cam 2 o'r ymchwiliad. |

| Cam Gwella | Cyfrifoldeb | Cynnydd ym Mai 2022 |
|---|---|---|
| Sicrhau bod yr argymhellion o'r adroddiad mewnol ar yr ymateb i Covid-19 yn symud ymlaen yn ystod 2021/22. | PSTC (Gweithrediadau a Hyfforddi)<br>Uwch Reolwr Gweithrediadau a Hyfforddi | Gwnaed cynnydd mewn perthynas â phob un o'r 20 argymhelliad, ac mae'r rhan fwyaf wedi cael eu cwblhau'n llwyr a rhai eraill yn symud i broses busnes fel arfer a fydd yn newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau nawr ac yn y dyfodol. I ddiben monitro, ystyrir bod y camau gweithredu o'r adroddiad Dysgu o COVID yn gyflawn. |
| Cwblhau'r holl gamau gweithredu a'r gofynion sy'n deillio o gyngor a gafwyd gan y llywodraeth a Bwrdd Cynghori'r Cynllun ar gyfer Cymru ac a ddiweddarwyd. | PSTC (Cyllid ac Adnoddau)<br>Rheolwr Pensiynau | Mae'r Awdurdod yn parhau i baratoi ar gyfer gweithredu cynigion rhwymedi'r Llywodraeth yn dilyn Dyfarniad McCloud. Mae'r broses ddeddfwriaethol yn mynd yn ei blaen a disgwylir ei roi ar waith erbyn mis Hydref 2023. Rhoddwyd adroddiadau diweddaru i'r Awdurdod Tân ac Achub a chafodd y mater ei drafod ymhob cyfarfod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol. |

## Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu 2022/23

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r camau gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 2022/23. Caiff cynnydd yn ystod y flwyddyn ei adrodd i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth drwy'r fforymau a ddangosir.

| Maes Gwella | Cam Gweithredu Arfaethedig | Fforwm | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Seiber-ddiogelwch | Cam gweithredu drwy'r Adran TGCh i baratoi ar gyfer cael ardystiad Cyber Essentials Plus i helpu i ddiogelu rhag bygythiadau seiber-ddiogelwch i'r sefydliad. | Grŵp Llywio Gwybodaeth | Pennaeth TGCh, Yr Ystafell Reoli a'r Adran Ganol<br>Pennaeth TGCh | Mawrth 2023 |
| Ailstrwythuro'r Gwasanaeth (cyflwynwyd ar 1af Ebrill 2022) | Cam gweithredu drwy'r Adrannau Cyllid a Chynllunio Corfforaethol i wirio a chadarnhau bod y dull cynllunio integredig yn parhau'n briodol ac effeithiol. | | Pennaeth Cyllid<br>Pennaeth Cynllunio Corfforaethol | Medi 2022 |
| | Cam gweithredu drwy Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth i dreialu Fframwaith Sicrwydd a Blociau Adeiladu'r Gwasanaeth a ddatblygwyd yn ddiweddar; a'u diwygio os oes angen. | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | DBST | Mawrth 2023 |
| | Cam gweithredu drwy Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth i ddylunio proses flynyddol sy'n cynnwys y Tîm ac Archwilio Mewnol i asesu i ba raddau y mae'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Llywodraethu Da yn cael eu dilyn. | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | PSC<br>Pennaeth Cynllunio Corfforaethol | Rhagfyr 2022 |

| Maes Gwella | Cam Gweithredu Arfaethedig | Fforwm | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Amgylcheddol | Cam gweithredu drwy Weithgor Cynllunio'r ATA i ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol newydd | Pwyllgor Sicrhau Adnoddau Sefydliadol<br>Grŵp yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd<br>Gweithgor Cynllunio (ATA) | Pennaeth Gweithrediadau ac Ardal y Dwyrain<br>Pennaeth Cynaliadwyedd<br>Pennaeth Cynllunio Corfforaethol | Mawrth 2023 |
| Archwilio Mewnol | Adolygu'r contract ar gyfer gwasanaethau Archwilio Mewnol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n effeithiol wrth ddarparu sicrwydd ynghylch y trefniadau llywodraethu a bod argymhellion yn cael eu gweithredu. | | PSTC (Cyllid ac Adnoddau) | Rhagfyr 2022 |
| Datblygu Aelodau'r ATA | Gan weithio gyda'r ATA, dylunio rhaglen fwy strwythuredig o Ddatblygu Aelodau i roi cymorth i'r Aelodau fod yn effeithiol wrth gyflawni eu swyddi arwain a llywodraethu ar yr Awdurdod. | | PSC<br>Clerc yr ATA<br>Pennaeth Hyfforddi a Datblygu | Rhagfyr 2022 |

| Maes Gwella | Cam Gweithredu Arfaethedig | Fforwm | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Cyfansoddiad | Cam gweithredu i Glerc yr ATA ymgorffori trefniadau yn y Cyfansoddiad ar gyfer cyfnodau cyn etholiad a chyfnodau saib rhwng Awdurdodau. | | Clerc yr Awdurdod Tân ac Achub. | Mawrth 2023 |

## Cydymffurfio â’r Cod Rheoli Ariannol

Mae Cod Rheoli Ariannol CIPFA wedi’i ddylunio i gefnogi arferion da mewn rheolaeth ariannol ac i gynorthwyo’r Awdurdod i ddangos ei gynaliadwyedd ariannol. Felly, mae Cod Rheoli Arianno CIPFA yn nodi’r safonau ar gyfer rheolaeth ariannol i’r Awdurdod.

Mae’r Cod yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion sy’n cael eu cefnogi gan safonau penodol a datganiadau ymarfer sy’n cael eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn darparu’r sylfaen cadarn ar gyfer:

- Rheoli cyllid byrdymor, tymor canolig a hirdymor yr Awdurdod yn ariannol;
- Rheoli’r cydnerthedd ariannol er mwyn cwrdd â gofynion na ragwelwyd am wasanaethau; a
- Rheoli ysgytiadau annisgwyl yn ariannol yn eu hamgylchiadau ariannol.

Rhaid i bob Awdurdod ddangos bod gofynion y Cod yn cael eu bodloni.

Fel Swyddog Adran 151 mae gennyf y Cyfrifoldeb Statudol (gyda chefnogaeth yr Uwch Dîm Arweinyddol ac Aelodau’r Awdurdod) dros sicrhau cydymffurfiaeth â Chod Rheoli Ariannol CIPFA. Rwyf wedi cynnal asesiad llan o gydymffurfiaeth â Chod Rheoli Ariannol CIPFA fel rhan o’r adolygiad blynyddol o’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gallaf gadarnhau fod yr Awdurdod, yn fy marn i, yn cydymffurfio â’r cod yn y rhan fwyaf o feysydd.

Fodd bynnag, canfuwyd meysydd i’w gwella, ac mae llawer ohonynt yn mynd rhagddynt, gan gynnwys:

- Datblygu rhagor ar broses y gyllideb i wreiddio dulliau penderfynu ac ymgynghori hirdymor fel egwyddorion craidd.
- Datblygu’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a dechrau ar ystyriaethau yn gynnar ynghylch opsiynau ar gyfer sicrhau cyllideb gynaliadwy, gan gynnwys archwilio unrhyw gyfleoedd i drawsnewid gwasanaethau.
- Datblygu strategaeth gyfalaf hirdymor glir.
- Cwblhau’r asesiad o God Darbodus CIPFA er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac er mwyn sicrhau bod cynlluniau cyfalaf y dyfodol yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy.

**Llofnodwyd: ..........................................................................(Trysorydd)**

**.............................................................................................2022**

## Barn a Chasgliad Llywodraethu

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod llywodraethiant da yn darparu sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion rhanddeiliaid ac sy'n sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Mae'r adolygiad hwn yn cadarnhau'r systemau llywodraethu a'r gwaith monitro sy'n bodoli ar gyfer 2021/22 a'r camau a gymerir i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

Mae'r Awdurdod wedi'i fodloni bod trefniadau llywodraethu priodol ar gael, ac mae'n parhau wedi ymrwymo i wella'r rhain drwy roi cynllun gweithredu 2022/23 ar waith.

**Llofnodwyd: .......................................... (Cadeirydd) ……………………………………………2022**

**Llofnodwyd: .......................................(Prif Swyddog Tân) ……………………………………. 2022**

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Hydref 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick,<br>Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Asesiad Perfformiad Blynyddol 2021/22** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno, er mwyn cael cymeradwyaeth yr Aelodau, asesiad drafft o berfformiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod 2021/22 o ran:

(i) ei gynnydd tuag at gyflawni ei Amcanion Gwella a Llesiant hirdymor, a'i Amcanion Cydraddoldeb tymor canolig; a
(ii) ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol iddo.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Roedd yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd da y llynedd tuag at gyflawni ei Amcanion Gwella a Llesiant hirdymor. Llwyddwyd i wneud hyn yn rhannol drwy gyflawni'r camau arfaethedig a amlinellwyd yn y Cynllun Gwella a Llesiant a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 2021/22.

3 Gwnaethpwyd cynnydd cadarn hefyd yn ystod y flwyddyn tuag at gyflawni Amcanion Cydraddoldeb yr Awdurdod ar gyfer 2016-20; a pharhaodd yr Awdurdod i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol iddo.

**ARGYMHELLIAD**

4 Bod yr Aelodau'n:

(i) cymeradwyo'r asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod yn 2021/22 (yn ddibynnol ar fân ychwanegiadau a chywiriadau os oes angen), i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn 30/09/2022; a
(ii) nodi bwriad y Gwasanaeth i gyhoeddi fersiwn cryno syml o elfennau allweddol adroddiad yr asesiad.

## SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

5 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau yn flaenorol.

## CEFNDIR

6 Rhaid i'r Awdurdod, o dan wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth, roi cyfrif cyhoeddus o'i berfformiad, ei gynnydd a'i gydymffurfiaeth. Mae'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn cynnwys:

i. Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod osod a chyhoeddi amcanion a fydd yn cyfrannu at wella llesiant lleol ac at symud Cymru yn nes at gyflawni ei nodau llesiant. Ar ôl gosod yr amcanion hirdymor hyn, rhaid i'r Awdurdod gymryd yr holl gamau rhesymol i fynd ynglŷn â nhw ac i adrodd yn gyhoeddus ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ynghylch y cynnydd a wnaed ganddo
ii. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod osod a chyhoeddi amcanion gwella ac i gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn flynyddol erbyn 31 Hydref ynghylch y flwyddyn ariannol flaenorol
iii. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod lunio cynllun cydraddoldeb strategol ac adrodd yn flynyddol erbyn 31 Mawrth ynghylch y cynnydd a wnaed ganddo tuag at gyflawni ei amcanion cydraddoldeb
iv. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac i adrodd yn flynyddol erbyn 30 Medi ynghylch ei gydymffurfiaeth â'r Safonau hynny.

7 Er hwylustod, mae'r gwaith o adrodd am bob un o'r pedwar uchod wedi cael ei ymgorffori o fewn un ddogfen, i'w chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

## GWYBODAETH

8 Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol am eleni yn dechrau gydag adrannau agoriadol sy'n disgrifio'r gofynion cyfreithiol ar gyfer adrodd a chyflwyno gwybodaeth am yr heriau a'r problemau sy'n wynebu Cymru yn y dyfodol, ynghyd â gwybodaeth am yr ardal y mae'r Awdurdod yn gofalu amdani. Mae hyn yn rhoi cyd-destun i helpu pobl i ddeall sut mae'r Awdurdod yn darparu gwasanaethau a beth yw ei gyfraniad tuag at lesiant cymunedau Gogledd Cymru.

9 Mae’r adran ganol yn Adroddiad yr Asesiad yn rhoi cyfrif am y camau penodol a gymerwyd gan yr Awdurdod y llynedd i gyflawni ei Amcanion Gwella a Llesiant hirdymor. Fel yn yr adroddiad y llynedd, rhoddwyd mwy o bwyslais yn yr adroddiad eleni ar naratif ac astudiaethau achosion sy’n dangos y gwahaniaeth gwirioneddol y mae gwaith yr Awdurdod yn ei wneud i fywydau pobl.

10 Mae nifer y camau hefyd wedi cynyddu o bedwar deg pump i bum deg tri, a chynhwysir tystiolaeth o’r cynnydd mewn perthynas â phob un o’r camau hyn. Yn anffodus, mae’r cyfyngiadau parhaus yn sgil y pandemig wedi golygu nad oedd modd cyrraedd y targed o 20,000 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn ddiogel. Cynhaliwyd 14,062 o archwiliadau i gyd, gyda 4,896 ohonynt wedi dod drwy atgyfeiriadau gan asiantaethau sy’n bartneriaid i ni.

11 Mae’r adran ganol yn Adroddiad yr Asesiad hefyd yn rhoi gwybodaeth am gydymffurfiaeth yr Awdurdod â Safonau’r Gymraeg. Fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2022, roedd 692 neu 82% o staff y Gwasanaeth wedi hunanasesu neu wedi cael eu hasesu fel rhai ag o leiaf rywfaint o sgiliau Cymraeg, gyda 36% wedi’u categoreiddio’n siaradwyr Cymraeg rhugl. Yn y gorffennol, byddai lefelau gallu ieithyddol pob ymgeisydd ar y rhestr fer yn cael eu hasesu ond yn fwy diweddar, oherwydd yr amser/nifer y swyddi’n destun recriwtio, caiff y rhai sy’n cael cynnig swyddi eu hasesu i gadarnhau eu lefel er mwyn cynnig y cymorth sydd ei hangen arnynt drwy’r cyfnod prawf. Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, ni chafwyd unrhyw gwynion am y Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Yn cael eu disgrifio hefyd yn yr adran hon, mae’r llu o gamau sy’n cael eu cymryd gan yr Awdurdod i hyrwyddo’r Gymraeg ac i annog dewis iaith i holl staff a defnyddwyr y Gwasanaeth.

12 Hefyd yn yr adran ganol yn Adroddiad yr Asesiad, disgrifir y cynnydd a wnaed yn ystod 2021/22 tuag at gyflawni chwe Amcan Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod. Drwy amrywiaeth o gamau, mae’r Awdurdod wedi llwyddo i gyfrannu at wella agweddau ar fywydau pobl o dan bob un o’r meysydd pynciol, sef bywyd ac iechyd; cyflogaeth; addysg; diogelwch personol; cynrychiolaeth a llais; a mynediad at wasanaethau, gwybodaeth ac adeiladau.

13 Mae adrannau olaf Adroddiad yr Asesiad yn cynnwys gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad yn y cyd-destun Cymreig, ynghyd â chyfrif o’r modd y mae’r Awdurdod wedi cyflawni ei ymrwymiadau o dan y ‘Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru gyfan’. Roedd y gweithgarwch yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- ymdrin â 12,470 o alwadau brys 999/112;
- hysbysu ymateb brys o fewn 90 eiliad ar 89.2% o’r adegau, o gymharu â tharged o 80%;
- mynd at 5,354 o ddigwyddiadau brys, a thanau oedd 1,879 o’r rheini;
- cynnal sgyrsiau am ddiogelwch tân mewn ysgolion i 8,279 o blant a phobl ifanc yng nghyfnodau allweddol 1 i 4.

14 Mae gwybodaeth ychwanegol sydd ar ddiwedd Adroddiad yr Asesiad yn cynnwys canlyniad y gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru ac a oedd yn edrych yn benodol ar ddull yr Awdurdod o ymdrin â chadernid corfforaethol. Canfu'r adroddiad fod yr Awdurdod wedi dangos ei gadernid byrdymor, ond mae angen iddo wneud rhai penderfyniadau er mwyn parhau'n gadarn yn y dyfodol:

- Cyllid: Mae'r Awdurdod wedi rheoli cyllidebau'n dda, ond mae angen mynd i'r afael â rhai risgiau allweddol er mwyn parhau'n gynaliadwy yn ariannol;
- Llywodraethu: Mae gan yr Awdurdod fframwaith llywodraethu priodol, ond mae angen i'r Aelodau chwarae rhan fwy canolog yn mynd i'r afael â'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub;
- Gweithlu: Mae gan yr Awdurdod weithlu cadarn ac mae wedi delio'n dda â'r heriau uniongyrchol, ond mae angen rheoli rhai risgiau tymor canolig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy;
- Asedau: Mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o sut mae'n integreiddio asedau ac yn datblygu ei ddefnydd o dechnoleg ond mae angen mynd i'r afael â heriau hirsefydlog i helpu i gefnogi cadernid yn y dyfodol;
- Parhad busnes: Mae cynlluniau parhad busnes yr Awdurdod wedi helpu i gynnal cadernid corfforaethol a gweithredol wrth ymateb i'r pandemig.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r asesiad hwn yn disgrifio cynnydd yr Awdurdod yn ystod 2021/22 o ran cyflawni ei amcanion gwella a llesiant hirdymor. |
| Cyllideb | Ni chanfuwyd dim. |
| Cyfreithiol | Mae'r ddogfen gyfunol yn cyflawni dyletswyddau'r Awdurdod o dan y canlynol: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015; Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011; a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |
| Staffio | Ni chanfuwyd dim. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r goblygiadau i'r nodweddion gwarchodedig yn cael sylw o fewn yr asesiad drafft. |
| Risgiau | Ni chanfuwyd dim. |

# *AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU ASESIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2021/22*

## *Cyhoeddwyd Hydref 2022*

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## YN GWNEUD GOGLEDD CYMRU YN ARDAL FWY DIOGEL I FYW YNDDI, I WEITHIO YNDDI AC I YMWELD Â HI

Croeso i adroddiad cynnydd a hunanasesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am 2021/22. Ym mis Mawrth 2021, roedd yr Awdurdod wedi cyhoeddi ei Gynllun Gwella a Llesiant ar gyfer 2021/22, a oedd yn cadarnhau ei amcanion hirdymor ac yn esbonio ei gynlluniau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn.

Parhaodd pandemig COVID-19 i gael effaith ar yr Awdurdod yn 2021/22, gan herio cadernid y gweithlu a'r ffordd draddodiadol o ddarparu gwasanaethau cymunedol. Roedd dyfodiad amrywiolyn arall, a gosod cyfyngiadau newydd ledled y wlad, wedi arwain at oedi mewn gwahanol agweddau ar yr adferiad. Fodd bynnag, mae COVID-19 wedi rhoi'r cyfle i'r Awdurdod feddwl am ei lwybr ar gyfer y dyfodol, gyda phersbectif newydd ar gynnydd tuag at gyflawni ei amcanion llesiant hirdymor.

Gyda chyfyngiadau cyfnodau clo yn parhau yn 2021/22, mae'n ddealladwy fod y pandemig wedi effeithio ar gynnydd mewn perthynas â'n hamcanion nid yn unig yn ystod y flwyddyn flaenorol ond hefyd yn ystod 2021/22 wrth i'r Awdurdod a'r Gwasanaeth baratoi a gweithredu dulliau newydd o weithio.

Roedd y dulliau newydd o weithio yn cynnwys gwelliannau i'n technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ac roedd arferion gweithio mwy ystwyth i'r staff wedi galluogi cynnydd er gwaethaf parhad y cyfnodau clo yng Nghymru yn ystod y flwyddyn. Wrth i'r cyfyngiadau ddechrau llacio, a symud tuag at senario Coronafeirws-Sefydlog yn genedlaethol, ymddangosodd rhagor o heriau yn genedlaethol, yn ogystal â rhagor o gyfleoedd a dderbyniwyd wrth iddynt ddod ar gael.

Er gwaethaf amgylchiadau heriol oherwydd y pandemig, gwnaethpwyd cynnydd da wrth gwblhau camau arfaethedig, ac felly dangoswyd cynnydd mewn perthynas â'r saith Amcan Gwella a Llesiant hirdymor. Mae'r adran o'r enw 'Cynnydd mewn perthynas â'r Amcanion Gwella a Llesiant' yn nodi tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r camau hyn.

Y bwriad yw bod hanes y flwyddyn yn ddifyr ac yn llawn gwybodaeth. Rhoddwyd mwy o bwyslais yn yr adroddiad y llynedd ar gynnwys enghreifftiau o gydweithredu a sut mae'r Gwasanaeth yn cymharu ag eraill, ac mae'r adroddiad eleni yn dangos parhad o hyn. Fel bob amser, rydym yn croesawu adborth ynglŷn â sut gellid gwella'r dulliau adrodd yn y dyfodol.

Gellir gwneud sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer gwella drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd ar gael ar y dudalen olaf.

**CYNNWYS**

Y GOFYNION CYFREITHIOL DROS ADRODD ........ 4

GAIR AM OGLEDD CYMRU ........ 6

CYNNYDD MEWN PERTHYNAS AG AMCANION GWELLA A LLESIANT ........ 10

MONITRO CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU'R GYMRAEG ........ 38

Y CYNNYDD MEWN PERTHYNAS AG AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL.... 45

CRYNODEB O WYBODAETH AM BERFFORMIAD........ 52

Y SIARTER YMATEB I DANAU MEWN ANHEDDAU YN 2021/22 ........ 53

BETH DDYWEDWYD GAN ERAILL AMDANOM........ 58

GEIRFA / DIFFINIADAU ........ 61

FERSIYNAU ERAILL A SUT MAE CYSYLLTU Â NI........ 63

## Y GOFYNION CYFREITHIOL DROS ADRODD


Mae'r Awdurdod yn ystyried bod atebolrwydd i'r cyhoedd a thryloywder yn hollbwysig ymhob agwedd ar ei berthynas â chymunedau lleol, partneriaid a sefydliadau, ac mae'n croesawu'r cyfle i gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad.

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn unol â'r ddeddfwriaeth isod:

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw gwneud i gyrff cyhoeddus feddwl fwy am y nodau hirdymor, gweithio'n well â phobl, cymunedau a'i gilydd, edrych ar atal problemau a chael dull mwy cyd-gysylltiedig[1]. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod osod a chyhoeddi amcanion llesiant. Yr amcanion hirdymor hyn yw'r gwelliannau y mae'r Awdurdod eisiau eu gweld yn digwydd yng Ngogledd Cymru, ac a fydd yn cyfrannu at wella llesiant lleol ac at symud Cymru yn nes at gyflawni ei hamcanion llesiant.




Ar ôl nodi'r amcanion hirdymor hyn, mae dyletswydd ar yr Awdurdod i gymryd pob cam rhesymol i fynd ynglŷn â nhw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio, ac i gyhoeddi adroddiad cynnydd ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol.
Pum ffordd o weithio;



Cydbwyseedd rhwng anghenion byrdymor ac anghenion hirdymor

Atal problemau rhag digwydd neu waethygu

Cael dull integredig, gan gydbwyso anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol

Cofio'r amrywiaeth gyfoethog o bobl yng Ngogledd Cymru a'u hannog i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt

Gweithio ar y cyd i gyflawni'r amcanion llesiant.

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Yr Hanfodion https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/02/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf

Mae awdurdodau tân ac achub yng Nghymru yn cael eu categoreiddio hefyd yn ‘Awdurdodau Gwella Cymreig’ ac maent yn ddarostyngedig i ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009. Felly, rhaid iddynt ddilyn proses flynyddol o osod a chyflawni amcanion gwella lleol.
Yn ogystal â’r dyletswyddau sydd ar gyrff cyhoeddus unigol, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i bob ardal awdurdod lleol ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gyda’r ardal sydd o dan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, sefydlwyd pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sef:

- Ynys Môn a Gwynedd
- Conwy a Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Wrecsam.

Mae pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyhoeddi ‘Cynllun Llesiant’ i nodi ei flaenoriaethau a sut mae’n gweithio i gyflawni’r blaenoriaethau hynny yn ei ardaloedd.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus sy’n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i’r angen i wneud y canlynol:

- dileu camwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sy’n cael ei wahardd gan neu o dan y Ddeddf hon;
- hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.


**Safonau’r Gymraeg 2016**

Roedd Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi ei Hysbysiadau Cydymffurfio i’r awdurdodau tân ac achub ar 30 Medi 2016. Mae’r ddogfen hon yn rhestru pa rai o Safonau’r Gymraeg (fel y maent wedi’u rhestru yn llawn yn Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 5) 2016) y mae’n rhaid i sefydliad gydymffurfio â nhw, ynghyd ag unrhyw eithriadau a’u dyddiad gweithredu.

## GAIR AM OGLEDD CYMRU

Mae adnabod Gogledd Cymru heddiw yn helpu’r Awdurdod i gynllunio i wneud newidiadau cadarnhaol ar gyfer y dyfodol:


**Poblogaeth:**




**22.2%** O Gymru

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


**Arwynebedd KM²:**




**29.7%** o Gymru

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


**Dwysedd Poblogaeth:**




**114** Cyfartaledd Cymru yw 153

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


**Anheddau:**




**22.6%** o Gymru

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


**Eiddo Annomestig:**




**26.5%** o Gymru

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


**Hyd y Ffyrdd KM:**




**28.1%** o Gymru

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


**Arwynebedd Amaethyddol KM²:**




**31.1%** o Gymru

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]

**Siaradwyr Cymraeg:**




**31.8%** o Gymru

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]

## GAIR AM AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Isod, ceir cipolwg ar adnoddau a lefelau gweithgarwch yr Awdurdod yn ystod 2021/22.

| Gorsafoedd Tân | Injanau Tân | Galwadau 999 a gafodd sylw | Staff y Gwasanaeth Tân |
|---|---|---|---|
| 44 | 54 | 12,470 | 873 |


| Digwyddiadau Brys yr aethpwyd atynt | Tanau | Galwadau Diangen | Argyfyngau nad ydynt yn danau |
|---|---|---|---|
| 5,354 | 1,879 | 2,517 | 958 |

**Gorsafoedd Tân**

Mae'r Gwasanaeth wedi gweithredu o 44 o orsafoedd tân ledled ardal y gwasanaeth.

Gorsafoedd Tân Amser Cyflawn **–** Mae tair gorsaf dân yn agored bob awr o'r dydd a'r nos.
Mewn pum gorsaf, mae criw yno rhwng hanner dydd a 10:00pm, ac maent yn gweithredu fel gorsafoedd ar-alwad y tu allan i'r oriau hynny.

Gorsafoedd ar-alwad – Mae 36 o orsafoedd tân yn gweithredu system ar-alwad. Caiff y gwaith o anfon peiriannau tân a chriwiau at ddigwyddiadau brys ei reoli'n ganolog gan staff mewn ystafell reoli, yn Llanelwy.




**Staffio**

| Ar 31 Mawrth 2022 | Cyfwerth â llawn amser | Nifer pennau staff unigol |
|---|---|---|
| Gweithredol Amser Cyflawn | 278.00 | 278 |
| Gweithredol Ar-alwad | 352.50 | 429 |
| Cefnogol ac Ataliol | 129.65 | 136 |
| Yr Ystafell Reoli | 29.25 | 30 |
| **Cyfansymiau** | **789.40** | **873** |

Mae bron i hanner y staff a gyflogir gan yr Awdurdod wedi'u categoreiddio'n ddiffoddwyr tân ar-alwad; mae hyn ymysg y gyfran uchaf o gymharu ag awdurdodau tân ac achub yn Lloegr.

**Graff yn dangos cyfanswm y diffoddwyr tân ar-alwad (yn ôl nerth) fel canran o'r holl weithlu, yn ôl awdurdodau tân ac achub yn Lloegr a Gogledd Cymru.**




*Yn aros i wybodaeth wedi'i diweddaru am staff GTAau Lloegr gael ei rhyddhau gan y Swyddfa Gartref.

Ffynhonnell: [Tablau data ystadegau tân - GOV.UK (www.gov.uk)](www.gov.uk)

## BETH SY'N DDISGWYLIEDIG GAN YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

Rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wneud y canlynol:

**Atal Tanau**

- trefnu i hyrwyddo diogelwch tân yn eu hardal. Byddai hyn yn cynnwys rhoi gwybod i bobl am atal tanau a'u cynghori beth yw'r ffordd orau o ymateb os bydd tân yn digwydd.

**Gorfodi Diogelwch Tân**

- cael dyletswydd i orfodi diogelwch tân ar safleoedd annomestig, er enghraifft gwestai, ysgolion, siopau a swyddfeydd. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys arfer pwerau i roi hysybysiadau addasu, gorfodi a hyd yn oed wahardd os ydynt yn canfod bod y trefniadau diogelwch tân ar y safleoedd yn anfoddhaol.

**Ymateb Brys**

- gwneud trefniadau ar gyfer derbyn galwadau 999 ac i gael staff wedi'u hyfforddi a gyda'r offer cywir i ddiffodd tanau ac amddiffyn bywyd ac eiddo yn y tanau hynny. Rhaid iddynt hefyd wneud trefniadau ar gyfer achub pobl o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac ar gyfer eu hamddiffyn rhag niwed difrifol.

**Planning for and Responding to Other Emergencies**

- gwneud trefniadau ar gyfer diheintio pobl ar raddfa fawr ar ôl digwyddiadau cemegol, biolegol neu ymbelydrol, ac ar gyfer achub pobl o drenau, awyrennau ac adeiladau sydd wedi dymchwel. Rhaid iddynt hefyd baratoi i gynorthwyo mewn argyfyngau mawr (gan gynnwys ymosodiadau terfysgol) mewn mannau eraill yn y DU. Fel ymatebwyr 'Categori 1' o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil, mae dyletswyddau ar awdurdodau tân ac achub hefyd ynghylch digwyddiadau mawr sy'n bygwth niwed difrifol i les pobl, bywyd gwyllt, yr amgylchedd a'r prif gadwyni cyflenwi.

**Argyfyngau Llifogydd a Dŵr Mewndirol**

- gwneud trefniadau i ymateb i ddigwyddiadau yn ymwneud â llifogydd neu achub o ddŵr sy'n golygu perygl uniongyrchol o farwolaeth neu anaf.

**Cydraddoldeb**

- gweithio tuag at ddileu camwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig.

**Y Gymraeg**

- trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chydymffurfio â safonau'r Gymraeg a ddifinnwyd.

**Gwelliant Parhaus**

- gosod amcanion er mwyn gwella'n barhaus yr hyn a wneir ganddynt, a chyhoeddi gwybodaeth am eu gwelliant a'u perfformiad.

**Cynllunio ar gyfer y Dyfodol**


- gweithio tuag at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl, yn ogystal â gweithio mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu cyflawni heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

## CYNNYDD MEWN PERTHYNAS AG AMCANION GWELLA A LLESIANT

Mae'r adran hon yn disgrifio'r cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod tuag at gyflawni ei amcanion gwella a llesiant hirdymor yn ystod 2021/22. Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi'r asesiad hwn o'i berfformiad ei hun yn 2021/22 a'r dangosyddion perfformiad statudol ar gyfer yr un flwyddyn erbyn $31^{ain}$ Hydref 2022.

Yn 2018/19, fe gynyddodd yr Awdurdod nifer yr amcanion yr oedd yn mynd ynglŷn â nhw i gydymffurfio'n well ag adran 3(2) (a) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n datgan bod rhaid i gorff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion "…sydd wedi'u dylunio i sicrhau ei gyfraniad mwyaf at gyflawni pob un o'r nodau llesiant".

Gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau ar wefan y Comisiynydd fel 'gwirwyr taith', datblygwyd set newydd o amcanion yn unol â datblygu cynaliadwy a oedd yn helpu i ganfod cyfleoedd i'r Awdurdod wella ei gyfraniad at nodau llesiant Cymru.




Drwy gydol yr hunanasesiad hwn, gwnaethpwyd cymariaethau â'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru, ynghyd â Gwasanaethau Tân ac Achub yn Lloegr sy'n debyg o ran daearyddiaeth, demograffeg a maint, megis Gwasanaethau Tân ac Achub Cumbria, Gogledd Swydd Efrog, Henffordd a Chaerwrangon, Dyfnaint a Gwlad yr Haf. Pan fo modd, gwnaethpwyd cymariaethau hefyd â chyrff cyhoeddus eraill yn y rhanbarth, megis Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid oedd data cymharol ar gael am y flwyddyn 2021/22 ar adeg llunio'r adroddiad hwn felly defnyddiwyd data 2020/21.

## Amcan 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru




Gall amrywiaeth o ffactorau olygu risg uwch o danau damweiniol yn y cartref i bobl. Er enghraifft, eu hoedran (plant ifanc ac oedolion hŷn), anabledd neu gyflwr meddygol sy'n cyfyngu arnynt, bod ar eu pen eu hunain ar adeg y tân, ac alcohol a/neu gyffuriau yn effeithio arnynt.

Bydd unigolion a chymunedau sy'n gwybod sut i atal tanau ac aros yn ddiogel pan fydd rhai'n digwydd nid yn unig yn fwy diogel ac iach ond hefyd yn fwy cadarn yn economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae effaith llygredd tanau yn cyfrannu at amgylchedd llai iach, sydd yn ei dro yn troi pobl draw oddi wrth weithgareddau awyr agored a gall amharu'n negyddol ar lesiant corfforol a meddyliol. Drwy gydol 2021/22, parhaodd yr Awdurdod i ganolbwyntio ei ymdrechion ar helpu pobl i aros yn ddiogel, boed gartref, yn y gwaith, ar y ffyrdd neu allan yn y gymuned.

### Cam gweithredu: cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd

Aeth y Gwasanaeth at gyfanswm o 399 o Danau Damweiniol mewn Cartrefi yn 2021/22, lle cafodd 34 o bobl fân anafiadau, pump o bobl anafiadau difrifol, a lle collodd pump o bobl eu bywydau. Roedd y rhan fwyaf o'r tanau damweiniol mewn cartrefi wedi cael eu hachosi gan ddulliau coginio, lle'r oedd pobl wedi gadael pethau i goginio heb gadw golwg arnynt. Mae'r ffactorau cyfrannol hyn wedi bod yn faes ffocws i ymgyrchoedd y Gwasanaeth a chyfathrebiadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gwaith ymgysylltu â phartneriaid a gweithio mewn 'ardaloedd problemus' yn agos i le digwyddodd y tân.




Mae'r graff uchod yn dangos y tueddiad pum mlynedd cymharol a welwyd rhwng 2016/17 a 2020/21 rhwng y pum Gwasanaeth Tân ac Achub tebyg yn Lloegr a'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru. Mae'n dangos yr aethpwyd at tua 5 o danau damweiniol mewn cartrefi am bob 10,000 o boblogaeth yn 2020/21, sef gostyngiad bach o'r 6 am bob 10,000 yn 2016/17. Er bod nifer y tanau o'r fath am bob 10,000 o boblogaeth yng Ngogledd Cymru wedi gostwng yn gyffredinol ers 2016/17, roedd 2019/20 wedi gweld cynnydd bach. O gymharu'n genedlaethol, roedd nifer y tanau o'r fath am bob 10,000 o boblogaeth yn 2020/21 yng Ngogledd Cymru wedi codi i fymryn yn uwch nag yn Ne Cymru, ac yn debycach i Ganolbarth a Gorllewin Cymru.





Roedd yr ymgyrch ‘Gallwch chi achub bywyd’ ym mis Mai 2021 yn annog aelodau o’r gymuned o ofalu am deulu, ffrindiau a chymdogion sy’n agored i niwed.

Fel rhan o’r ymgyrch, rhyddhaodd y Gwasanaeth luniau o’r difrod a achoswyd gan dân mewn cartref sydd i’w weld ar y chwith ac y credir iddo gael ei gynnau gan sigarét. Roedd larymau mwg yn yr eiddo yn gysylltiedig â system larwm, a rhoddodd honno wybod i’n hystafell reoli am y tân.

Rhoddwyd rhagor o fideos gan staff a negeseuon ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth Tân dros yr wythnosau wedyn.

Mae’r graff isod yn dangos y gostyngiad cyffredinol yn nifer yr anafusion mewn Tanau Damweiniol mewn Cartrefi dros y pum mlynedd rhwng 2016/17 a 2020/21. Fodd bynnag, rhwng 2018/19 a 2019/20 cafwyd cynnydd yn nifer yr anafusion mewn Tanau Damweiniol mewn Cartrefi am bob 10,000 o boblogaeth a gwelwyd bod hyn wedi parhau yn 2020/21. Mae’r Gwasanaeth wrthi’n gweithio i ddeall a gwella’r camau ataliol pan fo angen.




**Cam gweithredu: cynnal 20,000 o archwiliadau diogel ac iach naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, gydag o leiaf 25% o’r rheini i gartrefi a atgyfeiriwyd i’r Gwasanaeth gan asiantaeth arall**

Parhaodd y Gwasanaeth i gynnig Archwiliadau Diogel ac Iach i drigolion ledled Gogledd Cymru. Caiff yr archwiliadau eu cynnal gan staff sydd wedi cael hyfforddiant llawn ac mae’n golygu darparu a gosod larymau mwg (neu sicrhau bod y rhai sydd yno’n barod mewn cyflwr da), cyngor ar wneud cartrefi’n ddiogel rhag tân, cymorth i lunio cynllun dianc rhag ofn y bydd tân, ac asesu a yw rhywun â risg uchel ac y byddai offer diogelwch arbenigol o fudd iddynt.


Fel rhan o’i ymrwymiad i weithio tuag at Gymru sy’n iachach, canolbwyntiodd y Gwasanaeth ar gynnal archwiliadau amserol yn ystod 2021/22. Roedd yr Awdurdod yn wastad wedi cael targed o 20,000 o Archwiliadau bob blwyddyn, gyda 5,000 o’r rheini’n dod o atgyfeiriadau gan asiantaethau.


Cynhaliwyd cyfanswm o 14,062 o archwiliadau yn 2021/22, gyda 4,896 ohonynt wedi dod drwy atgyfeiriadau gan asiantaethau. O’r rheini, cynhaliwyd 12,159 yn Saesneg a 1,680 yn Gymraeg.

**Cam gweithredu: cefnogi asiantaethau eraill i ostwng nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a'r marwolaethau a'r anafiadau sy'n gysylltiedig â nhw**

Mae Gwasanaethau Tân ac Achub yn gyfrifol am achub pobl os bydd gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Mae'r graff isod yn dangos bod Gogledd Cymru wedi mynd at ddau wrthdrawiad am bob 10,000 o boblogaeth ym mlwyddyn ariannol 2020/21. O'r rheini, roedd rhaid defnyddio offer i achub y rhai a oedd yn sownd; sef troi allan tua unwaith am bob 10,000 o boblogaeth.

Er bod nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr aethpwyd atynt yng Ngogledd Cymru wedi aros yn gymharol gyson dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2016/17 a 2020/21, cafwyd gostyngiad yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr aethpwyd atynt ym mlwyddyn ariannol 2021/22, sef o 105 yn 2020/21, i 207. Roedd codi cyfyngiadau teithio'r pandemig wedi arwain at fwy o draffig ar y ffyrdd a chynnydd o 97.1% yn nifer y gwrthdrawiadau. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Swydd Efrog hefyd wedi gweld gostyngiad yn nifer y gwrthdrawiadau yr aethpwyd atynt yn 2020/21 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'n debygol fod gwasanaethau tân ac achub eraill wedi gweld gostyngiad tebyg oherwydd cyfyngiadau'r pandemig a arweiniodd at lai o gerbydau ar y ffyrdd, ac yna cynnydd ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi.



Ym mis Hydref 2021 ymunodd staff â chynrychiolwyr o Outreach Rescue Medic Skills (ORMS) ar gyfer 'Exercise Hotwheels' a gynhaliwyd yng Ngorsaf Dân Llandudno.
Trefnwyd yr ymarferiad Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd gan un o Reolwyr Criw'r Gwasanaeth, ac roedd yn cynnwys Diffoddwyr Tân Ar-Alwad o Landudno a Chonwy, meddygon dan hyfforddiant o ORMS a meddygon o'r British Association for Immediate Care yn yr ardal. Bu staff o'r adran Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth a'r ystafell reoli yn gysylltiedig hefyd. Roedd yr ymarferiad wedi rhoi profiad i'r criwiau o weithio ochr yn ochr â meddygon yn tynnu anafusion byw o gerbydau, gan wella'r berthynas weithio a'r ddealltwriaeth rhwng meddygon a chriwiau.

## Cam gweithredu: gwreiddio arferion diogelu yn y gweithgareddau o ddydd i ddydd, a sicrhau bod y rheini’n gyson â pholisi a chanllawiau cenedlaethol

Yn 2021/22, darparwyd hyfforddiant ar Ddiogelu Lefel 1 a Lefel 2 ledled y Gwasanaeth, a chafwyd adborth cadarnhaol. Ers ei weithredu, mae nifer yr atgyfeiriadau diogelwch priodol wedi cynyddu ac mae cynnwys yr wybodaeth o fewn atgyfeiriadau wedi gwella. Hefyd, cynhaliwyd adolygiad o hyfforddiant staff i ganfod pa aelodau o’r staff oedd angen hyfforddiant ar Lefel 3 a 4 ac mae hyfforddiant wrthi’n cael ei gynllunio i’r rhai dan sylw.

Sefydlwyd cyfarfod chwarterol ar gyfer diogelu er mwyn sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu rhannu a bod unrhyw faterion yn cael eu datrys. Roedd yn sicrhau hefyd fod polisi a chyfarwyddyd cenedlaethol yn cyd-fynd â gweithgarwch y Gwasanaeth, a chymerwyd camau i gyflawni hyn. Cafodd Rheolwyr Partneriaethau eu cynnwys mewn cyfarfodydd amlasiantaethol ynghylch pobl fregus yn y gymuned, a sefydlwyd cytundebau i rannu data i alluogi GTAGC i gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach i’r bobl fwyaf bregus.

Cafodd yr asesiad risg Diogelu ei gwblhau gan y Gwasanaeth yn unol â chyfarwyddyd Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân (NFCC). Roedd cynrychiolydd o’r Gwasanaeth yn y Grŵp Diogelu Cymru gyfan, a wnaeth yn siŵr fod yr asesiad cymheiriaid gyda’r Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yng Nghymru yn cael ei gwblhau. Roedd Diogelu wedi’i gynnwys hefyd fel eitem sefydlog yn yr holl asesiadau risg a oedd yn gysylltiedig â gweithgareddau a gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi cefnogi’r Wythnos Diogelu Genedlaethol ym mis Tachwedd 2021, pan drefnodd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru nifer o weithdai diogelu a deunyddiau gwybodaeth am ddiogelu i’w defnyddio gan weithwyr proffesiynol a’r cyhoedd yn gyffredinol. Bu’r wythnos yn gyfle i godi ymwybyddiaeth am faterion pwysig yn ymwneud â diogelu, i hwyluso sgyrsiau ac i rannu enghreifftiau o’r arferion gorau. Bu’r Gwasanaeth yn gweithio’n agos hefyd â phartneriaid megis Ymddiriedolaeth y GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gan lansio proses atgyfeirio ddigidol newydd ar gyfer risgiau tân fel menter drwy Gymru.

## Cam gweithredu: parhau i ddatblygu a darparu ymyriadau a gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy weithgareddau targedol



Yn ystod 2021, daeth pobl ifanc ar gyrsiau’r Ffenics wyneb yn wyneb ym Mhorthaethwy a’r Fflint. Roedd y cyrsiau wedi’u dylunio i annog ysbryd cymunedol a sgiliau diogelwch tân drwy weithgareddau galwedigaethol. Parhaodd yr addysgwyr gyda sesiynau ar-lein i bobl ifanc drwy gydol yr haf, ac mae’r Gwasanaeth yn gobeithio lansio Staywise, sef llwyfan cyffrous ar-lein ar ôl penodi Rheolwr Prosiect.

Roedd y Gwasanaeth hefyd wedi ymrwymo i gymryd rhan yn yr ymgyrch ‘BANG’ (Be a Nice Guy) ar ôl apêl gan Heddlu Gogledd Cymru i bobl ystyried sut roeddent yn dathlu Calan Gaeaf. Atgoffwtd rhieni i ddiogelu eu plant rhag y peryglon o dân sy’n gysylltiedig â rhai gwisgoedd ffansi.

## Cam gweithredu: gweithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi pobl sy'n agored i niwed



Bu'r Gwasanaeth yn helpu i ddatblygu cytundeb gyda'r Groes Goch Brydeinig ynghylch ei rhaglen gymorth 'Paratoi, Ymateb, Adfer'. Mae'r cytundeb yn galluogi'r Groes Goch Brydeinig i roi cymorth ar ffurf cefnogaeth ymarferol ac emosiynol y mae digwyddiadau brys wedi effeithio arnynt. Gallai'r rhai dan sylw fod wedi profi trawma emosiynol, wedi bod angen cymorth ymarferol ar unwaith (e.e. arian, pecynnau hylendid, dillad ac ati) yn ogystal â chymorth i gael llety dros dro nad oedd modd byw yn eu cartref ar ôl tân.

## Cam gweithredu: rhoi'r datblygiadau a'r uwchraddiadau technolegol diweddaraf ar waith er mwyn gwella effeithlonrwydd, cywirdeb a diogelwch

Ym mis Tachwedd 2021, mewn ymarferiad yn Hafod-Dinbych, cafodd cerbyd arbenigol sy'n gweithredu fel trosglwyddydd symudol ei brofi gan staff o'r Gwasanaeth a chydweithwyr o Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r Cerbyd Ymateb Cyflym (RRV) ar gyfer Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (ESN)





yn drosglwyddydd symudol i'w ddefnyddio ar adegau megis toriad yn y pŵer neu pan fo llifogydd yn analluogi safleoedd trosglwyddyddion. Mae'r rhwydwaith yn galluogi ymatebwyr cyntaf i gael gafael ar unwaith ar ddata sy'n achub bywydau, delweddau a gwybodaeth mewn sefyllfaoedd byw ac argyfyngau ar y rheng flaen. Bydd buddsoddi yn yr ESM yn golygu gwelliannau hefyd i'r rhwydwaith 4G, sy'n galluogi galwadau 999 yn ddiogel o ffonau symudol mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf anghysbell a gwledig o Brydain.

## Cam gweithredu: rhoi canfyddiadau'r ymchwiliad a'r adolygiad o Dân Tŵr Grenfell ar waith er mwyn lleihau'r risg y bydd trychineb o'r fath yn digwydd yng Ngogledd Cymru

Parhaodd yr Awdurdod i weithio i wella diogelwch Adeiladau Preswyl Uchel. Ar lefel leol, roedd hyn yn cynnwys parhau i archwilio adeiladau preswyl a rhoi cymorth i bersonau cyfrifol er mwyn iddynt gydymffurfio â'r gofynion cyfredol o ran diogelwch tân. Yn genedlaethol, bu'r Gwasanaeth yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi mentrau a newidiadau i'r gyfraith a wneir ganddynt, er mwyn gwneud eiddo preswyl yn fwy diogel. Roedd hyn yn cynnwys creu Tîm Archwilio ar y Cyd, gan gynghori a goleuo'r cynllun adfer sy'n cael ei redeg gan Lywodraeth Cymru, a gweithio i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol yn addas i'r pwrpas.

Hefyd, bu'r Gwasanaeth yn adolygu'r modd y mae'n hyfforddi, paratoi, cyfathrebu rhwng ystafelloedd rheoli'r Gwasanaeth Tân ac Achub, a hefyd sut y maent (sef Canolfan Reoli'r Gwasanaeth) yn cysylltu â safle'r digwyddiad ac yn rhannu gwybodaeth risg-gritigol. Roedd cynnydd arall yn cynnwys sut mae'r Ganolfan Reoli yn delio â galwadau mewn amgylchiadau prysur; hyfforddiant a chymhwysedd yn ehangach ar orchymyn a rheoli; darpariaeth ac effeithiolrwydd cyfarpar gweithredol, a chreu a diwygio hyfforddiant gwacáu, yn seiliedig ar bolisïau a gweithdrefnau.

## Cam gweithredu: cyflwyno mwy o gerbydau trydan ecogyfeillgar er mwyn hybu ansawdd aer gwell tra’n gostwng allyriadau carbon

Ar hyn o bryd, mae gan y Gwasanaeth 146 o gerbydau o fewn ei fflyd o gerbydau ysgafn. Mae chwech o’r rhain yn gerbydau trydan a phedwar yn rhai hybrid plygio-i-mewn (PHEV). Hefyd, mae dau deg naw o geir hybrid wedi cael eu hychwanegu at fflyd y Gwasanaeth yn ddiweddar. Er bod ceir hybrid yn dal i ddefnyddio rhywfaint o betrol, maent yn storio’r egni cinetig a gânt drwy droi eu holwynion mewn batri trydan ar wahân. Mae hyn yn golygu eu bod yn opsiwn mwy cynaliadwy na cheir eraill, heb orfod cael eu gwefru. Mae’r cerbydau hyn wedi helpu gyda’r trawsnewid i fflyd fwy ecogyfeillgar.

Yn 2021/22, gwnaeth y Gwasanaeth gais am arian grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Mannau Gwefru Cerbydau Trydan, a fyddai’n gwella’r gallu i wefru nifer gynyddol o gerbydau trydan.

## Amcan 2: parhau i weithio ar y cyd i helpu cymunedau i wella eu cadernid




Mae gweithio gyda chymunedau lleol yn hynod o bwysig er mwyn gwella diogelwch a helpu cymunedau i fod yn fwy cadarn. Mae’r Awdurdod wedi gweithio’n agos gydag asiantaethau partneriaethol drwy gydol 2021/22 mewn ardaloedd targedol i helpu cymunedau a busnesau lleol i rag-gynllunio ac addysg, gan eu galluogi i fod yn fwy cadarn rhag argyfyngau.

Mae’r risgiau sy’n wynebu cymunedau yn parhau, ac roedd yr Awdurdod wedi parhau i ymrwymo yn 2021/22 i weithio gyda phobl, a'u cefnogi i fod yn fwy cadarn. Drwy weithio mewn cydweithrediad agos â phartneriaid, parhaodd yr Awdurdod i sicrhau bod neges gyd-gysylltiedig yn cael ei chyfathrebu, nid yn unig ynghylch diogelwch ond hefyd ynghylch amrywiaeth o fentrau eraill i geisio gwella lles yr holl gymuned.

## Cam gweithredu: gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru a ffermwyr/porwyr, i ganfod lleoliadau yng Ngogledd Cymru sydd â mwy o risg o danau awyr agored/glaswelltir a helpu i ddatblygu cynlluniau ymateb brys

Mae’r Gwasanaeth yn delio â gwahanol fathau o danau bwriadol, yn amrywio o danau glaswelltir oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, llosgi gwastraff cartref/gardd, i ffermwyr a thirfeddianwyr yn llosgi glaswelltir, sy’n cael ei ganiatáu yn ystod misoedd y gaeaf. Aeth y Gwasanaeth at gyfanswm o 879 o danau eilaidd yn 2020/21 (46.8% o’r 1,879 o danau yr aethpwyd atynt), a 329 o’r rheini wedi’u cynnau’n fwriadol.



Mae'r graff uchod yn dangos bod nifer y tanau eilaidd glaswelltir, coetir a chnydau yr aethpwyd atynt yng Ngogledd Cymru wedi aros yn weddol gyson ers 2016/17, ac eithrio'r cynnydd anarferol yn 2018/19.



Ym mis Mawrth 2022, roedd staff yng Nghanolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn brysur gyda galwadau pan fuont yn helpu cydweithwyr yng Ngwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru drwy ddelio â galwadau o'u hystafelloedd rheoli nhw.

Bu ystafell reoli'r Gwasanaeth yn delio hefyd â nifer uchel iawn o alwadau'n rhoi gwybod iddynt am losgi dan reolaeth wrth i'r cyhoedd ddilyn y negeseuon i 'ffonio cyn llosgi'.

**Cam gweithredu: parhau i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynllun amlasiantaethol rhanbarthol ar gyfer tanau yn yr awyr agored**



Parhaodd y Gwasanaeth i fod yn bartner gweithredol ym Mwrdd Prosiect Rhostiroedd Sir Ddinbych. Cafodd y bwrdd ei sefydlu i helpu i gynnal Prosiect Rheoli Rhostiroedd ac Atal Tanau yn yr Awyr Agored yn Air Ddinbych. Nodau'r bwrdd ydy rheoli risg ac effaith tanau yn yr awyr agored drwy ganfod ardaloedd sydd â risg uchel o danau o'r fath a gweithredu datrysiadau ymarferol ar gyfer rheoli tir.

Yn ystod y tân ym Mynydd Wawr, Y Fron ym mis Mawrth 2022, roedd y Gwasanaeth yn gallu gweithio mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau'r defnydd o hofrennydd i helpu i fynd i'r afael â'r tân. Roedd hyn yn cyd-fynd â chytundeb Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru gyfan, sy'n bodoli i ddarparu rhagor o alluedd i'r Gwasanaeth i ddelio â'r maes risg cynyddol hwn.

**Cam gweithredu: meithrin perthnasoedd gyda phartneriaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, Cyd-Grŵp Gwasanaethau Brys (JESG) a grwpiau llifogydd mewndirol ac achub o ddŵr i wella cyd-alluedd asiantaethau i helpu'r rhai y mae llifogydd yn effeithio arnynt**


Parhaodd gwaith mewn partneriaeth ar sail Cymru gyfan i hyrwyddo negeseuon am ddiogelwch dŵr ac i gefnogi ymyriadau sy'n addysgu'r cyhoedd am beryglon dŵr agored a gweithgareddau fel neidio o fannau uchel i ddŵr.



Roedd stormydd Dudley ac Eunice wedi taro'r DU ddiwedd mis Chwefror 2022, ac yna storm Franklin gyda glaw trwm a gwyntoedd cryfion. Mewn pum diwrnod, roedd y rhanbarth wedi gweld tair storm ag enwau arnynt, ac ymatebodd y Gwasanaeth iddynt.

Drwy weithio ochr yn ochr â phartneriaid o Fforwm Cydnerthedd Gogledd Cymru, roedd y Gwasanaeth wedi gallu sicrhau ymateb amlasiantaethol i'r digwyddiadau tywydd eithriadol hyn, gyda gwybodaeth reolaidd gan


Swyddfa'r Tywydd a Chyfoeth Naturiol Cymru. Y rhagolygon oedd mai Storm Eunice fyddai'r storm waethaf mewn cenhedlaeth, ac roedd yr ymateb yn golygu pedwar cyfarfod cydlynu tactegol gyda 25 o sefydliadau partneriaethol yno yn ogystal â dau gyfarfod cydlynu strategol gydag 20 o sefydliadau partneriaethol. Sefydlwyd ardal strategol ym mhencadlys GTAGC yn Llanelwy i ddarparu cydnerthedd. Roedd y storm wedi rhannu'n ddwy cyn iddi gyrraedd Cymru, ac er nad effeithiwyd ar Ogledd Cymru gymaint â Gwent, yn Ne Cymru, gwelwyd difrod mewn sawl ardal gan gynnwys Tywyn, lle bu angen ymateb amlasiantaethol i floc o fflatiau a oedd angen Tîm Chwilio ac Achub Aberdyfi, Cyngor Gwynedd, a gorsaf dân Tywyn gan arwain at gael 16 o drigolion allan yn ddiogel a llwyddiannus.




Roedd nifer y digwyddiadau llifogydd am bob 10,000 o boblogaeth wedi codi fymryn yng Ngogledd Cymru ar ôl bod yn gymharol gyson dros gyfnod o bum mlynedd rhwng 2016/17 a 2020/21, gan ostwng dros dro yn is nag un digwyddiad am 10,000 o boblogaeth yn 2018/19.

Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael, mae Gogledd Cymru ochr yn ochr â De Cymru gyda dau ddigwyddiad yn ymwneud â llifogydd am bob 10,000 o boblogaeth yn 2020/21. Gwelodd y ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru gynnydd sylweddol yn nifer y digwyddiadau'n ymwneud â llifogydd yr aethpwyd atynt yn 2019/20 a 2020/21, gyda'r cynnydd yn y cyfnod diwethaf wedi digwydd oherwydd y tywydd mawr a'r llifogydd a darodd Cymru yn ystod Chwefror 2020.

### Cam gweithredu: gweithio'n gydweithredol â chymunedau a diffoddwyr tân RDS i wella cadernid y gofal tân yn eu hardaloedd




Ar ddechrau 2021, roedd gwefan newydd y Gwasanaeth, a ddyluniwyd gan yr adran Cyfathrebiadau Corfforaethol, wedi mynd yn weithredol fel rhan o ymdrechion parhaus i sicrhau bod gwybodaeth a negeseuon diogelwch yn glir, yn syml ac yn hawdd eu cael, yn enwedig i ddarpar ddiffoddwyr tân ar-alwad. Hefyd, datblygwyd cyfres o fentrau ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer cyfrifon Facebook gorsafoedd unigol er mwyn hyrwyddo digwyddiadau recriwtio ar orsafoedd, megis hysbysebu digwyddiadau 'Paned gyda'r criw', lle gall aelodau o'r cyhoedd eistedd gydag aelodau o'r criw cyfredol yn yr orsaf a thrafod sut beth yw bod yn ddiffoddwr tân.

Bu tîm recriwtio ac argaeledd y Gwasanaeth yn gweithio drwy gydol y flwyddyn i gyfathrebu'n well â gorsafoedd er mwyn datblygu mentrau recriwtio lleol gyda phwyslais ar orsafoedd blaenoriaethol lle mae angen mwy o staff. Hefyd, bu'r tîm yn mynychu ffeiriau swyddi, digwyddiadau gyrfaoedd a digwyddiadau cymunedol i hyrwyddo cyfleoedd ar-alwad a chyfleoedd eraill am gyflogaeth yn y Gwasanaeth.

Bu staff hefyd yn mynychu cyfarfodydd â swyddogion ymgysylltu cyflogaeth leol a chyflogwyr lleol i'w hannog i ystyried y manteision o gefnogi'r system dyletswydd ar-alwad drwy gytuno i ryddhau staff yn ystod oriau gwaith.

**Cam gweithredu: cyflwyno Microsoft 365 fel ffordd o wella rhagor ar y gwaith o gyfathrebu ac integreiddio gyda phartneriaid**

Roedd holl staff y Gwasanaeth wedi cael trwydded i'w galluogi i ddefnyddio Microsoft Teams. Cyn hyn, dim ond 120 o staff oedd â mynediad at drwydded Skype for Business. Defnyddiodd y Gwasanaeth strategaethau hyfforddi amlfoddol i sicrhau bod holl staff y sefydliad wedi cael y cyfle i ymgyfarwyddo â Teams ac i deimlo'n hyderus yn mynychu cyfarfodydd ag asiantaethau eraill. Bu hyn o fudd arbennig i'n staff yn y Fforwm Cydnerthedd Lleol oherwydd o'r blaen byddai angen iddynt ofyn i un o'u cydweithwyr yn yr Heddlu gynnal cyfarfodydd.

Mae cyflwyno Dilysu Amlffactor wedi galluogi'r staff i agor negeseuon e-bost y Gwasanaeth o gartref. O'r blaen, dim ond staff a oedd wedi cael gliniaduron y Gwasanaeth oedd yn gallu gwneud hyn. Bu'r newid hwn o fudd mawr i staff ar-alwad a oedd o'r blaen yn methu ymateb i negeseuon e-bost nes byddent ar safleoedd y gwasanaeth tân.



## Amcan 3: gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael

Oherwydd yr ansicrwydd ariannol, ynghyd â'r pandemig, a'r cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau ymhob rhan o'r sector cyhoeddus, mae'n sicr y bydd yr Awdurdod yn wynebu heriau o ran gallu cynnal ei wasanaethau dros y degawdau i ddod. Mae'r pwysau ar wasanaethau tân ac achub yn debygol o ddod o sawl cyfeiriad gwahanol, gan gynnwys gallu recriwtio a chadw digon o ddiffoddwyr tân gweithredol sy'n bodloni'r safonau ffitrwydd angenrheidiol, yn ogystal â'r posibilrwydd o ehangu rôl diffoddwyr tân a allai gynyddu'r cyflog yn fawr.

Bydd rhesymoli costau'r Awdurdod ei hun, a chanfod ffordd gytbwys o ariannu'r Gwasanaeth dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, yn gymorth i gynnal gwasanaethau tân ac achub i'r dyfodol, gan wneud yr ardal yn fwy cadarn rhag newidiadau demograffig a newidiadau eraill.

**Cam gweithredu: darparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru o fewn y gyllideb y cytunwyd arni**

Mae'r Awdurdod wedi parhau'n ymrwymedig i chwarae ei ran yn creu cymunedau cryfach a mwy diogel. Mae'n cydnabod bod angen hyblygrwydd ac arloesedd er mwyn paratoi ar gyfer yr heriau ariannol yn y dyfodol tra'n gallu cynnal y ddarpariaeth gwasanaethau.

Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol ar gyfer 2021/22 wedi nodi £37.07m o ofyniad net ar gyfer y gyllideb, o gymharu â £35.9m ar gyfer 2020/21; datblygwyd hwn gan ddefnyddio darpariaeth gyfredol y gwasanaethau, tra'n ystyried yr angen i gadw'r cynnydd mor isel â phosibl i'r awdurdodau cyfansoddol. Ym mis Tachwedd 2021 bu'r Aelodau'n meddwl am rai heriau allweddol a gafodd sylw drwy asesiad sefyllfaol y Prif Swyddog Tân newydd, a'r canlyniadau i gyllideb yr Awdurdod. Roedd y gyllideb refeniw a gymeradwywyd wedyn ym mis Rhagfyr 2021 yn cynnwys cynnydd o £1.3m i fynd i'r afael â'r heriau hynny.

| Awdurdod | Cyfraniad 2020/21 £ | Poblogaeth | Poblogaeth % | Cyfraniad 2021/22 £ | Cynnydd yn y cyfraniadau £ | Cynnydd % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3,689,651 | 69,864 | 10% | 3,915,486 | 225,835 | 6.1% |
| Cyngor Gwynedd | 6,596,692 | 125,220 | 18% | 7,017,885 | 421,193 | 6.4% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 6,230,520 | 118,320 | 17% | 6,631,214 | 400,694 | 6.4% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 5,060,195 | 96,021 | 14% | 5,381,432 | 321,236 | 6.3% |
| Cyngor Sir y Fflint | 8,282,403 | 157,264 | 22% | 8,813,821 | 531,418 | 6.4% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 7,214,775 | 136,535 | 19% | 7,652,042 | 437,266 | 6.1% |
| **Cyfanswm** | **37,074,237** | **703,224** | **100%** | **39,411,879** | **2,337,642** | **6.3%** |

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed gwaith sylweddol i ganfod ac adolygu'r holl wariant, yn enwedig costau rheoli'r fflyd a darparu hyfforddiant. Galluogodd hyn y Gwasanaeth i adrodd £0.07m o danwariant yn 2021/22, yn ogystal â chynnal gwerth £3.46m o gronfeydd a glustnodwyd ar gyfer pwysau hysbys yn y dyfodol.

Mae'r datganiad blynyddol manwl o gyfrifon sy'n rhoi crynodeb o berfformiad ariannol yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 ar gael ar wefan y Gwasanaeth ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

Yn gryno, dyma sefyllfa ariannol yr Awdurdod o ran ei gyllideb refeniw ar gyfer 2021/22:

| | Cyllideb 2021/22 £000 | Alldro 2021/22 £000 | Amrywiad 2021/2022 £000 |
|---|---|---|---|
| Costau Gweithwyr | 28,379 | 26,916 | -1,463 |
| Safleoedd | 2,725 | 2,579 | -146 |
| Cludiant | 983 | 1,034 | 51 |
| Cyflenwadau a Thaliadau i Drydydd Partïon | 5,005 | 4,837 | -168 |
| Incwm | -2,485 | -3,041 | -556 |
| Cyllid Cyfalaf a Thaliadau Llog | 2,467 | 2,305 | -162 |
| Trosglwyddiadau i mewn/allan o Gronfeydd wrth gefn | 0 | 2,374 | 2,374 |
| **Cyfanswm y Refeniw** | **37,074** | **37,004** | **-70** |


## Cam gweithredu: parhau i fynd ynglŷn ag arbedion effeithlonrwydd

Cafodd amryw o arbedion effeithlonrwydd i arbed costau eu rhoi ar waith yn ystod 2021/22, gan gynnwys;

- Cyflwyno goleuadau LED ac inswleiddio toeau er mwyn arbed ynni yn y tymor hir;
- Cynyddu nifer y cerbydau trydan a hybrid plygio-i-mewn yn y fflyd er mwyn lleihau'r defnydd o danwydd a hyrwyddo cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol;
- Parhau i ymestyn hyfforddiant dwyieithog mewnol ar y cyfryngau i fwy o staff er mwyn lleihau'r angen am adnoddau allanol.

Yn ogystal â sicrhau bod ei gyllideb refeniw'n cael ei rheoli'n ofalus, parhaodd yr Awdurdod i graffu ar ei raglen cyfalaf er mwyn sicrhau'r gwerth gorau. Roedd yr Awdurdod yn dal wedi ymrwymo i sicrhau bod ei asedau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac effeithiol, ac roedd yn parhau i ddadansoddi'r rhaglen gyfalaf mewn perthynas â goblygiadau negyddol posibl i'r refeniw.

Roedd y cynllun treialu cychwynnol o iTrent, y llwyfan hunanwasanaeth i weithwyr wedi dod i ben ym mis Hydref – ar ôl cael adborth cadarnhaol gan y rhai a fu'n cymryd rhan.




Roedd y cynllun yn treialu'r defnydd o'r Hunanwasanaeth i Weithwyr a'r Hunanwasanaeth i Reolwyr gyda grŵp bach o adrannau, gan alluogi asesiad rheoledig o effeithiolrwydd y llwyfan newydd a faint sy'n ei ddefnyddio.

## Cam gweithredu: adeiladu ar fesurau cyfredol ar gyfer monitro perfformiad gweithredol gan griwiau tân cyn, yn ystod, ac ar ôl digwyddiadau

Parhaodd y Gwasanaeth i adeiladu ar fesurau cyfredol ar gyfer monitro pob agwedd ar berfformiad gweithredol, gan gynnwys darparu archwiliadau ar sail risg, sicrwydd gweithredol a rhannu'r arferion gorau. Parhaodd Archwiliadau Covid yn y Gweithle yn ystod misoedd cyntaf blwyddyn ariannol 2021/22, gan gynnal 18 o archwiliadau rhwng $1^{af}$ Ebrill 2021 a $31^{ain}$ Awst 2021, yna cyfres o Arolygiadau Rheolaeth Strategol a oedd yn cynnwys o leiaf ddau aelod o Dîm Safonau Gwasanaeth Proffesiynol ynghyd â naill ai Brif Swyddog neu Reolwr Ardal. Newidiwyd hefyd y prosesau rheoli ffitrwydd sy'n cael eu dilyn gan y Gwasanaeth er mwyn cydymffurfio â rheoliadau Covid, a hynny yn unol â chanllawiau a osodwyd gan Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân (NFCC).

## Cam gweithredu: datblygu model mwy hyblyg ar gyfer darparu hyfforddiant a datblygiad, gan gynnwys darparu hyfforddiant yn fwy lleol er mwyn cefnogi anghenion diffoddwyr tân y System RDS/ar-alwad

Yn 2021, cynhaliodd adran Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth nifer o gyrsiau hyfforddi ar-alwad lleol, gan gynnwys digwyddiadau yn Llanberis, y Rhyl a Glannau Dyfrdwy. Fel arfer, byddai'r rhain wedi cael eu cynnal fel cyrsiau preswyl yn Nolgellau ond cawsant eu symud i orsafoedd tân yn agos i'r rhai a oedd yn eu mynychu er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl a lleihau amser teithio. Hefyd, roedd gan y gwasanaeth nifer o ddechreuwyr newydd a oedd yn ymuno o wasanaethau tân ac achub eraill ac roedd hyn wedi galluogi'r Gwasanaeth i gynnig hyfforddiant mewn gorsafoedd amser cyflawn i weithio drwy'r rhaglenni datblygu pwrpasol.

Yn 2021, roedd y Gwasanaeth hefyd wedi cynnal dau gwrs arweinyddiaeth a rheolaeth oruchwyliaeth a ddarparwyd gan goleg lleol a'i gyflwyno ar-lein. Roedd y rhain yn agored i'r rhai mewn swyddi goruchwyliol neu a oedd wrthi'n eu datblygu eu hunain ar gyfer swyddi goruchwyliol. Aeth staff iddynt o bob system ddyletswydd, gan gynnwys nifer o staff o'r System RDS.

Yn dilyn ymweliad sicrwydd ansawdd allanol gan Sgiliau Er Cyfiawnder, roedd canolfan achrededig hyfforddi a datblygu'r Gwasanaeth wedi bodloni meini prawf cymhwysedd Sgiliau Er Cyfiawnder ac wedi cadw ei sgôr risg isel. Mae Sgiliau Er Cyfiawnder yn sefydliad nid-er-elw sy'n cefnogi cyflogwyr ledled y DU i ddatblygu strategaethau ar gyfer y gweithlu, arweinyddiaeth ac ymchwil er mwyn gwella a chadw staff medrus mewn Plismona, Gwasanaeth Prawf, Cystodiaeth a'r Ddalfa, Lluoedd Arfog, Tân ac Achub a Llywodraeth Leol. Dyfarnwyd gan Sgiliau Er Cyfiawnder fod gan y Ganolfan Achrededig swyddogion sicrhau ansawdd mewnol sy'n gymwys, medrus a gwybodus a bod systemau cadarn yn bodoli ar gyfer sicrhau ansawdd yn fewnol.

### Cam gweithredu: canolbwyntio ar wella effeithiolrwydd y gofal a gaiff ei ddarparu drwy'r System RDS/Ar-Alwad (diffoddwyr tân ar-alwad)

Yn 2016, cafodd model newydd ei gyflwyno gan yr Awdurdod er mwyn cael gwell cydbwysedd rhwng ei adnoddau a'r risg. Roedd y model hwn yn galluogi ffordd newydd o gynllunio, a oedd yn sicrhau bod o leiaf 20 o griwiau tân wedi'u lleoli'n strategol ar gael yng Ngogledd Cymru ar adeg o risg gymharol isel, ac o leiaf 38 ar gael ar adeg o risg uwch. Ar draws y Gwasanaeth, bu rheolwyr gweithredol yn adolygu ffactorau lleol sy'n effeithio ar orsafoedd penodol er mwyn penderfynu a oes rhwystrau rhag recriwtio. O ran gorsafoedd a nodwyd fel rhai sy'n gritigol er mwyn darparu'r model 20/38, cynhaliwyd diwrnodau dethol pwrpasol a chafodd ymgeiswyr eu symud ymlaen yn gynt na rhai a oedd yn gwneud cais i orsafoedd â blaenoriaeth is.

Ceisiodd y Gwasanaeth gynyddu effeithiolrwydd y gwaith recriwtio diffoddwyr tân ar-alwad yn ystod 2021/22. Bu'r ymgyrch recriwtio ar-alwad 'A fedrwch chi lenwi'r esgidiau hyn' yn rhedeg am y drydedd flwyddyn ym mis Mawrth i gefnogi'r ymgyrch i recriwtio mwy o ddiffoddwyr tân ar-alwad ar draws y Deyrnas Unedig. Rhoddwyd datganiadau i'r wasg ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth, a darparwyd baneri a phosteri i orsafoedd ar-alwad i'w dosbarthu yn yr ardaloedd lleol i ddenu sylw darpar recriwtiaid neu gyflogwyr sy'n barod i helpu.







Fel rhan o'r gwaith hwn, cynyddodd y staff ei hymdrechion i recriwtio diffoddwyr tân ar-alwad mewn nifer o ardaloedd i helpu i ddiogelu cymunedau ledled y rhanbarth – gan gynnwys gorsafoedd tân yn Aberdyfi, Abersoch, Amlwch, Bala, Benllech, Betws y Coed, Biwmares, Cerrigydrudion, Corwen, Harlech, Llanelwy Llangefni, Llanrwst, Porthaethwy, Porthmadog, y Rhyl, a Thywyn.

### Cam gweithredu: adolygu'r gwaith Rheoli Parhad Busnes, a chynyddu gallu'r Gwasanaeth i ddelio â digwyddiadau mawr




Yn Ionawr 2022, bu staff o'r Gwasanaeth yn cymryd mewn digwyddiad hyfforddi HMEPO (Amddiffyniad Amgylcheddol Deunyddiau Peryglus) yn yr Awyrlu yn Fali, Ynys Môn.

Dyma Swyddog Arweiniol HMEPO yn y Gwasanaeth yn esbonio mwy:

"Mae Awyrlu'r Fali yn gyfleuster hyfforddi awyrennau jet cyflym sy'n darparu hyfforddiant uwch i beilotiaid sy'n defnyddio 30 o arwyrennau Hawk T2. Mae hefyd yn gartref

i faes awyr Ynys Môn sy’n gweithredu awyrennau masnachol i feysydd awyr yn y DU.”

"Mae’r safle’n gartref i nifer o wahanol beryglon a risgiau y mae’r Gwasanaeth a’n timau diffodd tanau ar y safle yn cynllunio ac yn ymarfer ar eu cyfer, yn ogystal â bod yn gyflogwr mawr yn yr ardal.”

"Roedd y digwyddiad yn cynnwys ymweliad risg â’r ardaloedd storio ffrwydron a thanwydd ar y safle, ac ymarferiad HAZMAT sy’n seiliedig ar ddamwain jet Hawk yn effeithio ar adeilad storio ffrwydron, a chyflwyniad ar y risg gynyddol o ddigwyddiadau sy’n cynnwys cerbydau a systemau storio â batri ion lithiwm. Hefyd, roedd sesiynau ‘dangos a dweud’ i ganolbwyntio ar alluedd a manteision defnyddio’r Pwmp Cyfaint Mawr a’r Uned Amddiffyn Amgylcheddol ar y safle.”

Hefyd, cynhaliwyd Wythnos Ymwybyddiaeth o Barhad Busnes ym mis Mai 2021, ar y thema ‘mae parhad busnes yn dechrau gyda chi’.
Roedd y sylw ar ‘hanfodion’, sef sut i godi ymwybyddiaeth, gwreiddio parhad busnes, a meithrin cadernid mewn sefydliadau.


**Cam gweithredu: parhau i fonitro a gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd rhaglenni a gyflawnir mewn partneriaeth â sefydliadau eraill**

Mae ystadegau gan Heddlu Gogledd Cymru yn awgrymu eu bod yn cael eu hysbysu bod 3,000 o bobl yn mynd ar goll o gartref bob blwyddyn. Gall defnyddio adnoddau’n gynnar helpu i wella’r siawns o ddod o hyd i bobl a allai fod wedi mynd ar goll am amryw o resymau. Parhaodd y Gwasanaeth i gefnogi Heddlu Gogledd Cymru gyda’r cynllun ‘Ar Goll o Gartref’ pan fo staff y Gwasanaeth yn helpu yn y cyfnodau cynnar hanfodol o chwilio am bobl sydd ar goll. Bydd y criwiau’n aros ar-alwad ar gyfer digwyddiadau’r gwasanaeth tân, ond byddant yn ymateb i helpu’r Heddlu i ganfod pobl sydd ar goll o gartref (pan fo angen). Mae’r criwiau’n parhau i fod ar-alwad ar gyfer digwyddiadau’r gwasanaeth tân, ond yn ymateb i helpu’r heddlu i ganfod pobl sydd ar goll o gartref (fel y bo’r angen).

Cafodd y cynllun ei ehangu yn 2018/19 i gynnwys staff o bob un o’r 44 o orsafoedd tân sy’n gallu bod ar gael i roi cymorth, ac fel trefniant sy’n cael ei gydlynu’n ffurfiol, dyma’r cyntaf o’i fath yn y wlad.

Cyflwynwyd y cynllun ‘Cael Mynediad’ yn 2018/19 a pharhaodd drwy 2021/22, sef gallai criwiau gweithredol barhau i gefnogi Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (YGAC) i gael mynediad i eiddo at bobl sydd angen gofal meddygol a’r rhai sy’n methu eu helpu eu hunain. Mae’r cynllun yn galluogi criwiau i gael mynediad yn amserol gan achosi llai o ddifrod i’r eiddo a gallu rhoi cloeon newydd ar y drysau er mwyn sicrhau bod yr eiddo’n ddiogel cyn gadael. Caiff yr hyfforddiant arbenigol hwn ei drefnu drwy Fwrdd Cydweithredu’r Gwasanaethau Brys, ac mae wedi cael ei ddarparu i’r holl staff amser cyflawn.

Mae’r graff isod yn dangos nifer yr adegau y galwyd allan i helpu gyda digwyddiadau ‘Ar goll o gartref’ a ‘Chael Mynediad’. Mae’r Gwasanaeth wedi mynd at nifer gynyddol o ddigwyddiadau ‘Cael Mynediad’ flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2018/19.




Yn ystod y flwyddyn, roedd staff diogelwch cymunedol wedi gweld cynnydd yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt mewn fflatiau uchel yn y Fflint. Er mwyn tynnu sylw at negeseuon diogelwch i drigolion yr ardal, cafodd sleidiau eu creu a'u dangos ar y byrddau digidol yn ardaloedd cyffredin yr adeiladau. Roedd hyd at 270 o drigolion wedi gweld y sleidiau a oedd yn cynnwys negeseuon am ddiogelwch gyda choginio, ysmygu a thrydan.




Bu'r Gwasanaeth yn helpu i hyrwyddo negeseuon am gadw ein cymunedau'n ddiogel, a hynny'n genedlaethol mewn fideo a grëwyd ar gyfer 'BBC Newsround', sydd i'w weld yma.
Hefyd, bu'r RSPCA yn hyrwyddo'r ymgyrch #BangOutOfOrder i dynnu sylw at effaith tân gwyllt ar anifeiliaid – gellir gweld eu **fideo** i gael mwy o wybodaeth.

**Cam gweithredu: datblygu system effeithiol i reoli asedau sy'n hyrwyddo dyrannu adnoddau yn y ffordd orau**

Bu tîm Ystafell Reoli'r Gwasanaeth yn gweithio i symud ymlaen â'r gwaith o gyflwyno System Rheoli Cysylltiadau Integredig (ICCS) i gymryd lle'r system Airwave bresennol, a hynny er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Rhwydwaith Gwasanaethau Brys y Swyddfa Gartref. Er mwyn sicrhau cydnawsedd, rhaid i ystafelloedd rheoli gwasanaethau brys gael ICCS gydnaws er mwyn cael cysylltiadau radio a theleffoni gyda rhanddeiliaid.

Roedd contract gyda Capita, a ddarparodd y dechnoleg, wedi dechrau ar gyfer y system newydd ym mis Medi 2020. Aeth cynllun prosiect drafft yn weithredol yn y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd ym mis Mai 2012, ac yna cafodd ei osod ar safle'r Ail Ystafell Reoli yn y Rhyl ym Mehefin 2021. Sicrhawyd yr ICCS newydd yn unol â gwaith Grŵp Defnyddwyr Rhwydwaith Gwasanaethau Brys Cymru.

**Amcan 4: parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltiad â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid**




Yn ystod 2021/22, parhaodd yr Awdurdod i wella'r ffordd y mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â chymunedau am y gwasanaethau a ddarperir ganddo.


Roedd dull gweithredol gydag awdurdodau lleol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill yn sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cael eu hyrwyddo'n gyson ac eang drwy gydol yr amgylchiadau heriol a brofwyd yn ystod 2021/22.

**Cam gweithredu: codi ymwybyddiaeth a helpu i atal llosgi bwriadol a gostwng nifer y tanau bwriadol a'r galwadau diangen**

Mae galwadau diangen maleisus yn golygu risg sylweddol i gymunedau lleol, ac yn ddiangen maent yn peryglu'r adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael ag argyfyngau go iawn. Drwy gydol y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2016/17 a 2020/21, mae GTAGC wedi ymateb yn gyson i lai nag un alwad ddiangen faleisus am bob 10,000 o boblogaeth. Mae'n bosibl fod gwaith ymgyrchu ac addysgu targedol ynghylch effeithiau galwadau diangen maleisus wedi cyfrannu'n gadarnhaol at y niferoedd isel. Yn fwy eang, fodd bynnag, da yw gweld gostyngiad cyson cyffredinol yn nifer y galwadau diangen maleisus yn y Gwasanaethau Tân ac Achub eraill dros y cyfnod o bum mlynedd, yn enwedig yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.




Yn 2021/22, aeth y Gwasanaeth at 1,879 o danau, ac roedd 471 ohonynt wedi cael eu cynnau'n fwriadol. Mae nifer y prif danau bwriadol yr aeth y Gwasanaeth atynt wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng 2016/17 a 2020/21, gan amrywio rhwng tri a phedwar am bob 10,000 o boblogaeth. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd strategaethau parhaus i atal llosgi bwriadol er mwyn atal cynnydd yn y dyfodol. Hefyd, rhoddodd y Gwasanaeth hyfforddiant i 5120 o recriwtiaid newydd yn Heddlu Gogledd Cymru mewn chwe sesiwn, a oedd yn cynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol a Swyddogion Heddlu. Roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n ymwneud â thanau bwriadol, a'r gwaith a wneir gan y Gwasanaeth i ostwng nifer yr achosion o'r fath.





**Cam gweithredu: ymgysylltu â chyflogwyr lleol, cymunedau a phobl y tân ac argyfyngau eraill yn effeithio arnynt, er mwyn datblygu gweithgareddau ac ymgyrchoedd ataliol**

Ym mis Hydref 2021, cyfarfu'r Prif Swyddog Tân â chynrychiolwyr o ddarparwr tai cymdeithasol lleol, yn ogystal â chydweithwyr o'r Adran Diogelwch Cymunedol, i drafod y bartneriaeth gyda'r Gwasanaeth. Mae'r gwaith partneriaethol wedi cynnwys llofnodi partneriaeth newydd am dair blynedd, a sefydlwyd yn gyntaf saith mlynedd yn ôl, sy'n golygu bod Gweithiwr Cymorth Diogelwch yn y Cartref wedi'i wreiddio o fewn y tîm tai cymdeithasol, gan roi mynediad uniongyrchol ar 4,000 o'u heiddo ledled ardal Gogledd Cymru.

Roedd y Gwasanaeth hefyd wedi treialu partneriaeth newydd gyda darparwr cynnal a chadw tai cymdeithasol lleol, lle bydd Gweithiwr Cymorth Diogelwch yn y Cartref, mewn swydd sy'n cael ei rhan-ariannu, yn cysylltu'n uniongyrchol â thrigolion sy'n cael eu hatgyfeirio at y cynllun - mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi cael gwybodaeth er mwyn helpu i wneud eu cartrefi'n ddiogel cyn iddynt adael yr ysbyty. Hefyd, cafwyd menter yn 2021 pryd roedd y Gwasanaeth yn cysylltu â'r awdurdod lleol i ddefnyddio eu hadnoddau i helpu i gadw trigolion yn ddiogel.

**Cam gweithredu: hyrwyddo ymgyrchoedd diogelwch cenedlaethol a lleol, gan sicrhau bod meysydd â'r risg mwyaf yn cael eu blaenoriaethu, er enghraifft, tanau a achosir gan ddulliau coginio**






Yn Ebrill 2021 fe wnaeth y Gwasanaeth gynnal 'Wythnos Cofrestru Cyfarpar', i atgoffa pobl i chwilio o gwmpas eu cartref a chofrestru eu cyfarpar ar registermyappliance.org.uk. Mae bron i 60 o frandiau blaenllaw ar y porthol, a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Gwneuthurwyr Cyfarpar Domestig, gyda'r rhan fwyaf o wneuthurwyr yn croesawu manylion nwyddau hyd at 12 oed ac mae'n cynnwys cyngor ar sut i'w defnyddio'n ddiogel. Dywedir bod 49% o bobl heb gofrestru eu nwyddau, a nod y fenter oedd annog pawb, yn aelodau o'r cyhoedd a'r staff, i wneud eu cartrefi'n ddiogel drwy gofrestru eu cyfarpar.

**Cam gweithredu: sicrhau bod y cytundebau presennol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn dal yn gyfredol, a cheisio sefydlu cytundebau newydd pan fo'n briodol**

Mae Cytundeb Cymru ar Rannu Gwybodaeth Bersonol (WASPI) yn cefnogi sefydliadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag iechyd, addysg, diogelwch, atal troseddau, a llesiant cymdeithasol pobl yng Nghymru. Mae'r dull cyson a hyrwyddir gan WASPI wedi helpu'r Gwasanaeth i ddatblygu ffyrdd effeithiol o rannu gwybodaeth bersonol mewn modd effeithiol a chyfreithlon.



Mae'r Adran Diogelwch Cymunedol wedi adolygu, a phan fo angen, wedi diweddaru ei Chytundebau Datgelu Data gyda'r bwriad o'u trosglwyddo i gofrestr ganolog yn y Gwasanaeth ar ôl eu cwblhau.

Cyfarfu staff o'r Gwasanaeth â chydweithwyr o'r Centre of Sign, Sight and Sound (COS) i drafod parhau â'r bartneriaeth am ddwy flynedd arall o'r 1af o Ebrill 2022 ymlaen. Mae'r bartneriaeth yn golygu bod staff o Dîm Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych yn darparu hyfforddiant ac offer ymyrryd i staff COS er mwyn iddynt allu cynnal Archwiliadau Diogel ac Iach i drigolion yng Ngogledd Cymru sy'n byw â cholli synhwyrau.

**Cam gweithredu: cynnal arolwg iechyd a llesiant ymysg yr holl staff, gan hyrwyddo gweithgareddau drwy gydol y Gwasanaeth**

Cymerodd y Gwasanaeth nifer o gamau i sicrhau bod ffitrwydd, iechyd a llesiant yn cael eu hyrwyddo yn ystod 2021/22, gan sicrhau bod gweithwyr yn cael eu hannog i gael ffordd o fyw ffit ac iach. Cynhaliwyd arolwg iechyd a llesiant i helpu i weld beth oedd barn y gweithwyr am eu llesiant eu hunain.




Ym mis Mai 2021, ymrwymodd y Gwasanaeth i gefnogi wythnos ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ar y cyd ag elusen Mind. Rhoddodd staff o'r tîm iechyd, ffitrwydd a llesiant wahanol weithgareddau i gydweithwyr ar Facebook y gweithle bob dydd, gan annog y staff i feddwl am eu hiechyd meddwl eu hunain a phwysigrwydd rhoi cefnogaeth i bob eraill a allai fod yn cael trafferthion. Yn ystod yr wythnos, cafodd y staff eu hannog i wneud amser i fynd ar dudalen 'Cymorth ar gyfer Iechyd Meddwl' ar y fewnrwyd, i helpu i ddangos y ffordd iddynt at gyngor a chymorth ar gyfer iechyd meddwl, hyrwyddwyr iechyd meddwl y goleuadau las a'r rhaglen cymorth i weithwyr Care First. Hefyd, roedd llawer o'r staff wedi elwa ar sesiynau 'Meddylgarwch', yn ogystal â'r sesiynau ymarferion 'Centergy' a oedd yn cynnig 60 munud o ymarferion i'r meddwl a'r corff, gan gynnwys yoga a pilates.

**Cam gweithredu: cwblhau adolygiad y Strategaeth Cyfathrebu Gorfforaethol**

Cyhoeddwyd cynllun cyflenwi Cyfathrebu Corfforaethol ar gyfer 2021-24 yn dilyn adolygiad o'r Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol.

Mae'r cynllun cyflenwi yn amlinellu cyfeiriad a fframwaith i gefnogi ac ymgysylltu ag amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd mewnol ac allanol ac i wneud hynny'n glir ac effeithiol.

**Cam gweithredu: datblygu arolwg treiglol generig / unigol ar-lein, sy'n adlewyrchu pob un o'r saith amcan corfforaethol y gellid eu defnyddio i gofnodi adborth gan yr holl randdeiliaid am y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod**

Parhaodd y gwaith i wella a datblygu gwefan yr Awdurdod er mwyn creu amgylchedd mwy rhyngweithiol ar gyfer arolygon ac ymgysylltu. Bydd y rhaglen waith hon yn parhau i mewn i 2022/23, gyda'r nod o drosi'r holl adroddiadau, cynlluniau ac asesiadau Corfforaethol i ran bwrpasol ar y wefan yn hytrach nag fel dogfennau PDF wedi'u hatodi. Parhaodd yr Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni drwy ymgysylltu.

**Amcan 5: cynnal gweithlu addas o gadarn, medrus, proffesiynol a hyblyg**




Parhaodd yr Awdurdod i ymestyn ei ymdrechion i ddenu, datblygu a chynnal gweithlu sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth sydd o fewn y cymunedau a wasanaethir ganddo.

Mae cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ganolog i ddiwylliant a gwerthoedd craidd yr Awdurdod: ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant; awydd i ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth; diogelu cymunedau; a gwerthfawrogi ei bobl. Mae gweithlu sy'n cael ei ddatblygu a'i hyfforddi'n briodol i fod yn ddiogel yn un sydd o fudd i bobl Cymru, ac mae fframwaith wedi'i ddatblygu'n dda i reoli perfformiad yn cefnogi'r rheolwyr i gyflawni gofynion eu swyddi.

**Cam gweithredu: recriwtio, datblygu a chadw gweithlu medrus iawn, brwdfrydig a dwyieithog**

Yn gynnar yn 2021, cyhoeddwyd y byddai adolygiad yn cael ei gynnal o'r broses ddyrchafiadau. Roedd dwy agwedd i'r gwaith, sef adolygiad o ddyrchafiadau dros dro a darn mwy hirdymor o waith sy'n ymwneud â dyrchafiadau parhaol. Ers i'r adolygiad gael ei gyhoeddi, roedd gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan staff ac aelodau o undeb yr FBU i ddeall y pryderon yn well. Gwnaethpwyd y sylw canlynol gan y Prif Swyddog Tân:




*'Wrth i'r adolygiadau barhau, rwy'n hyderus y bydd hyn yn arwain at welliant yn yr arferion ac at ffordd dderbyniol ymlaen i'r Gwasanaeth yn ei gyfanrwydd, gan sicrhau ein bod yn cynnal y safonau uchaf ar gyfer darparu gwasanaethau.'*

Roedd y Gwasanaeth hefyd wedi cynnal diwrnodau gweithredu cadarnhaol ar 12$^{fed}$ ac 17$^{eg}$ Medi 2021 ar gyfer darpar ddiffoddwyr tân mewn grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, gan gynnwys merched a phobl o grwpiau LHDTC+, du a lleiafrifoedd ethnig.

**Cam gweithredu: datblygu arferion cyflogaeth i geisio cynyddu rhagolygon cyflogaeth i bobl a allai fel arall ei chael yn anodd cael mynediad at waith, a blaenoriaethu camau gweithredu i hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau**

Cafodd Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan ei sefydlu gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol yn 2015 er mwyn ystyried materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a materion diwylliannol megis bwlio ac aflonyddu. Sefydlwyd is-grŵp trawsbynciol ar lefel leol yn y Gwasanaeth, ac mae'n cynnwys staff, cyrff cynrychioliadol ac uwch reolwyr. Parhaodd gwaith yr is-grŵp gyda blaengynllun gwaith i ail-gadarnhau a gwreiddio ymrwymiad y Gwasanaeth i gofleidio cynhwysiant. Roedd y gwaith yn cynnwys hyrwyddo'r grŵp fel ymateb i brotestiadau yn erbyn hiliaeth, gan atgoffa'r staff i gofleidio cynhwysiant ac i wrthod hiliaeth. Hyrwyddwyd digwyddiad ar-lein o'r enw 'Pride Inside' gan annog y staff i gymryd rhan ac i gefnogi mis 'Pride'.

Parhaodd tîm iechyd a llesiant y Gwasanaeth i gymryd rhan yn y broses recriwtio, gan ddarparu asesiadau ffitrwydd rhithiol a diwrnodau/digwyddiadau gweithredu cadarnhaol ar-lein i gefnogi grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Roedd 'Ffitrwydd Tân' yn gyfle i ddatblygu merched sydd â diddordeb mewn ymuno â'r Gwasanaeth, ac roedd yn cynnwys ymgysylltu a helpu wrth arwain at y cyfnod recriwtio.

Ym mis Mawrth, dathlwyd diwrnod rhyngwladol y merched gan y Gwasanaeth, ac er mai'r thema gwreiddiol oedd 'Cydraddoldeb rhwng y rhywiau heddiw i gael yfory cynaliadwy', i geisio cydnabod merched sy'n gweithio tuag at greu dyfodol mwy cynaliadwy, addaswyd hyn yn ddiweddarach i fod yn 'Chwalu'r Rhagfarn'. Mae hyn yn golygu bod pob un ohonom yn bod yn fwy ymwybodol o'n rhagfarnau ymwybodol ac anymwybodol, a bod yn barod i gwestiynu ein hunain a phobl eraill. Mae'n golygu siarad dros newid a bod yn barod i feddwl yn wahanol, cyflogi'n wahanol a dyrchafu'n wahanol.

**Cam gweithredu: mabwysiadu modelau gweithio ystwyth a hyblyg a fydd yn cyfrannu at gymdeithas garbon isel drwy leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio er mwyn gwaith**




Ar ddiwedd 2021, cynhaliwyd adolygiad gan Archwilio Cymru ar gynnydd y Gwasanaeth tuag at sicrhau niwtraliaeth garbon. Fel rhan o'r daith hon, bu Archwilio Cymru yn pwysleisio'r angen i bawb ddeall yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â sicrhau niwtraliaeth garbon.

Cyflwynodd y Gwasanaeth bolisi gweithio ystwyth i'r staff y mae hyn yn addas iddynt, i'w galluogi i weithio o gartref yn ogystal ag o'r swyddfa gan gynnig trefniant hybrid, gan ostwng llawer ar nifer yr aelodau o'r staff sy'n cymudo bob dydd i safle Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**Cam gweithredu: parhau i chwilio am gyfleoedd newydd i ddatblygu cynlluniau partneriaeth o fewn y Gwasanaeth**




Ymunodd y cohort diweddaraf o brentisiaid â'r Gwasanaeth ym mis Mehefin 2021, ar ôl saib yn y gwaith recriwtio yn 2020 oherwydd y pandemig. Roedd y grŵp yn cynnwys cymysgedd o brentisiaid diffoddwyr tân a phrentisiaid arweinwyr y dyfodol, ac roeddent wedi dechrau ar eu taith ddysgu gyda chefnogaeth staff o'r adran hyfforddi a datblygu. Roedd eu modiwl datblygiad cyntaf yn cynnwys dysgu am rolau gweithredol a chyfrifoldebau, a chynhaliwyd sesiynau mewn gwahanol leoliadau hyfforddi. Yna, roedd y grŵp cyntaf o brentisiaid arweinwyr y dyfodol a ymunodd â'r Gwasanaeth ym mis Ebrill wedi mynd i'w lleoliadau ar wylfeydd amser cyflawn a chyfnodau'n cefnogi gwahanol adrannau ledled y Gwasanaeth, ynghyd â chofrestru ar gymwysterau academaidd a galwedigaethol.

**Cam gweithredu: mabwysiadu dull mwy cyfannol o wella llesiant gweithwyr, parhau i fuddsoddi mewn lleihau absenoldebau a chanolbwyntio ar hybu iechyd**

Yn ystod mis Medi, cytunwyd yn ffurfiol ar bolisi 'Gweithio Ystwyth', a oedd yn cyflwyno dull cyfunol o weithio o'r swyddfa, o gartref ac o leoliadau eraill y Gwasanaeth.

"Mae'r symudiad hwn yn cefnogi uchelgais hirdymor Llywodraeth Cymru o weld 30% o weithwyr Cymru yn gweithio o gartref, neu'n nes at gartref, yn dilyn pandemig Covid-19. At hynny, mae'n adeiladu ar lwyddiant y trefniadau gweithio a sefydlwyd gennym yn sgil cyfyngiadau'r coronafeirws."

"Mae'r pandemig wedi gwneud i ni ailfeddwl llawer o'n harferion gweithio, gyda llawer ohonom hefyd yn ailasesu sut mae ein bywyd gartref yn ffitio gyda'n bywyd gwaith. Mae gweithio mewn ffordd ystwyth yn gam pwysig."

**Cam gweithredu: adnewyddu ardystiad o'r Wobr Iechyd Corfforaethol Aur**

Ym mis Mai 2021, roedd y Gwasanaeth wedi cael y Safon Iechyd Corfforaethol Blatinwm eto am 12 mis arall, yn dilyn asesiad ar-lein. Caiff y Safon Iechyd Corfforaethol ei ariannu fel rhan o raglen 'Cymru Iach ar Waith' Llywodraeth Cymru, a dyma'r wobr a'r fframwaith ansawdd cenedlaethol i annog cyflogwyr i wella iechyd a llesiant yn y gweithlu ac o fewn cymunedau.

Mae'r Safon Iechyd Corfforaethol yn cynnwys pedair lefel o wobr i gydnabod pob cam o'r gwaith datblygiadol ym maes iechyd a llesiant a wneir gan gyflogwyr. Y pedair lefel yw Efydd, Arian, Aur a Phlatinwm. Roedd y Gwasanaeth wedi cael Platinwm, sef y Safon uchaf, o'r blaen yn 2017.

Mae'r lefel Platinwm yn cydnabod cyflogwyr cyfrifol sy'n dangos ymrwymiad sefydliadol i gefnogi nid yn unig eu gweithwyr eu hunain, ond hefyd gyflogwyr eraill a'r gymuned leol. Caiff y Safon Platinwm ei ddyfarnu i gyflogwyr rhagorol sy'n dangos bod datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'u harferion busnes a'u diwylliant. Gellir ystyried mai datblygu cynaliadwy yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl a chymunedau er mwyn sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ein hunain a chenedlaethau'r dyfodol.

Rhoddodd yr Asesydd o Iechyd Cyhoeddus Cymru adborth eithriadol o ffafriol a chanmol gwaith y Gwasanaeth a'r Awdurdod, gan ddweud bod y mater o gynaliadwyedd yn un sy'n cael ei ystyried yn gynhwysfawr gan y Gwasanaeth.


**Cam gweithredu: parhau i gyfrannu at 'Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadau' Cymru gyfan**

Parhaodd y gwaith ar weithredu'r Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadau ar gyfer Cymru gyfan 2018/21. Roedd yr elfennau allweddol o'r strategaeth yn cynnwys sicrhau adnoddau, iechyd a llesiant, ffitrwydd, gweithleoedd cynhwysol (cydraddoldeb ac amrywiaeth), gwobrwyo a chydnabod, systemau rheoli gwybodaeth, a hyfforddi a datblygu. Roedd y strategaeth yn tanategu ymrwymiad y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru i ddysgu gydol oes ac i gymhwysedd y gweithlu, gan gefnogi ffyrdd newydd o weithio er lles y cyhoedd yng Nghymru.

## Cam gweithredu: gwella ffyrdd o gefnogi staff i fod yn arweinwyr y dyfodol

Yn ystod 2021/22, parhaodd y Gwasanaeth i ddatblygu ei broses recriwtio a dethol er mwyn sicrhau cadernid ar bob lefel. Cafodd prentisiaid diffoddwyr tân eu symud o gwmpas adrannau'r Gwasanaeth i'w helpu i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o'r holl swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

Datblygwyd cynlluniau camu ymlaen pwrpasol ar gyfer ymgeiswyr ar raglen 'potensial uchel' y Gwasanaeth, a ddyluniwyd i gyflymu cynnydd ymgeiswyr dawnus. Cyflwynwyd yr ymgeiswyr i amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu a chyfoethogi, megis dosbarthiadau meistr, er mwyn eu helpu i gamu ymlaen yn eu gyrfaoedd ac i adeiladu ar eu setiau sgiliau.




Fel rhan o'r broses o ddatblygu staff i gefnogi a datblygu arweinwyr, cynhaliwyd dosbarth meistr ar reoli digwyddiadau i reolwyr dros dro a rheolwyr sydd newydd gael eu dyrchafu.

Roedd y sesiwn ryngweithiol yn canolbwyntio ar rôl y rheolwr tactegol, gan gynnwys sut i fod yn rheolwr digwyddiad hyderus, dulliau cyfathrebu nad ydynt yn llafar, yn ogystal â deall rhagfarn wrth wneud penderfyniadau a seicoleg penderfynu.

Roedd y dosbarth meistr hwn yn un elfen o amrediad cyfan o gyrsiau a chymorth sydd ar gael i aelodau o'r staff sy'n dymuno datblygu a symud ymlaen o fewn y Gwasanaeth.

## Amcan 6: datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd er mwyn lleihau'r effaith y mae ein gweithgarwch yn ei chael ar yr amgylchedd



Yn 2017, gosododd Llywodraeth Cymru yr uchelgais o sicrhau sector cyhoeddus carbon-niwtral erbyn 2030. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, sy'n ceisio cefnogi'r sector cyhoeddus i bennu man cychwyn, monitro ac adrodd ynghylch cynnydd tuag at niwtraliaeth garbon.

Yn 2020/21, ail-gadarnhaodd yr Awdurdod ei ymrwymiad i wella'r perfformiad amgylcheddol a'i ystyried ymhob agwedd ar ei waith, o atal tanau i wneud yn siŵr ei fod yn ystyried technoleg sy'n garedig tuag at yr amgylchedd. Hefyd, ymrwymodd yr Awdurdod i adnewyddu ei weledigaeth amgylcheddol i fod yn sefydliad sy'n fwy ymwybodol ac yn fwy cyfrifol tuag at yr amgylchedd.

## Cam gweithredu: sefydlu Bwrdd Strategol sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer yr Awdurdod

Mae'r Gwasanaeth yn parhau wedi ymrwymo i sefydlu Bwrdd Strategol â chyfrifoldeb dros ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol gadarn. Yn dilyn yr heriau digynsail a gafwyd oherwydd COVID-19, a oedd wedi oedi'r cynnydd wrth ddatblygu'r strategaeth yn ystod 2020/21, mae'r oedi wedi parhau i 2021/22. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn cydnabod y bygythion sylweddol yn sgil y newid yn yr hinsawdd ac mae wedi ymrwymo'n llwyr i ddatblygu'r strategaeth.

Parhaodd yr Awdurdod i fynd ynglŷn â'i gynllun gweithredu ar gyfer datblygu cynaliadwy, gyda gwaith cynnal a chadw arfaethedig i geisio lleihau'r defnydd o ynni a lleihau allyriadau carbon. Mae nifer o safleoedd wedi cael boeleri/cyfarpar newydd a gwaith uwchraddio ar ddeunyddiau'r adeiladau yn ystod 2021/22.

## Cam gweithredu: archwilio cyfleoedd i leihau pecynnau plastig ar nwyddau sy'n dod i mewn i'r Gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae gan y Gwasanaeth Gytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Adran Gaffael Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu'r holl dendrau mawr felly mae'r holl dendrau â gwerth uwch yn cynnwys egwyddorion gwerth cymdeithasol a chaffael cynaliadwy yn unol â gofynion tendrau Heddlu Gogledd Cymru.

Roedd y Gwasanaeth yn ceisio cael nwyddau ailgylchadwy, er enghraifft prynu pensiliau pren mewn tiwbiau cardfwrdd i'w defnyddio gan staff diogelwch cymunedol wrth gyflwyno sesiynau ymyrryd ac ymgysylltu, yn ogystal â photeli chwistrell ail-lenwi a jêl dwylo i ymateb i'r prinder byd-eang o boteli chwistrellu. Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu cadw'r rhain at y dyfodol fel ffordd o leihau gwastraff plastig.

Yn ystod y pandemig, cyflwynodd y Gwasanaeth archwiliadau diogel ac iach dros y ffôn i gartrefi â risg isel neu ganolig a allai osod eu larymau mwg eu hunain. Rhoddwyd cyngor am ddiogelwch i'r preswylydd dros y ffôn ac yna postiwyd y larwm mwg atynt. Roedd y pecynnau ar gyfer cludo'r larwm yn cael ei ddewis yn ofalus i sicrhau bod modd ei ailgylchu er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Hefyd, roedd y defnydd o ynni gan gerbydau GTAGC wedi lleihau oherwydd y dull newydd o gynnal archwiliadau, ac arweiniodd hynny at ei fanteision amgylcheddol ei hun.

## Cam gweithredu: canfod ffyrdd o ddefnyddio cyflenwadau dŵr mor gyfrifol â phosibl

Gosodwyd systemau defnyddio dŵr glaw yng ngorsafoedd tân Nefyn a Thywyn fel rhan o waith adeiladu newydd (yn 2014 a 2015 yn eu trefn). Defnyddir y dŵr glaw o'r system i gyflenwi dŵr anyfadwy yn y ddwy orsaf i helpu i leihau'r galw ar y prif gyflenwadau dŵr.

Mae holl adeiladau'r Gwasanaeth wedi cael eu hasesu o ran eu hygyrchedd yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Yn ystod y degawd diwethaf, mae'r wrinalau wedi cael eu tynnu o'r rhan fwyaf o'r safleoedd a thoiledau fflysh isel wedi cael eu gosod yn eu lle, ac mae 'tapiau taro' hefyd wedi cael eu gosod mewn ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd newid.

Mae'r mesurau cyfunol hyn wedi arwain at ostyngiad yn y galw am ddŵr o'r prif gyflenwad yn y safleoedd dan sylw gan nad yw wrinalau'n fflysio'n rheolaidd (ni waeth beth yw lefel y feddiannaeth yn yr adeilad) ac nid yw tapiau'n cael ei gadael i redeg heb eisiau.


## Cam gweithredu: chwilio am gyfleoedd i leihau faint o wastraff y mae'r Awdurdod yn ei anfon i dirlenwi

Mae'r Gwasanaeth yn mynd ati'n gyson i geisio ailddefnyddio ac ail-bwrpasu eitemau yn lle eu taflu i ffwrdd, gyda'r holl focsys danfon a dderbynnir gan y Gwasanaeth yn cael eu hailddefnyddio i gludo nwyddau i orsafoedd a swyddfeydd ledled y rhanbarth. Caiff hangeri cotiau metal a ddarperir gan y cwmni sychlanhau lifrai eu dychwelyd i'w hailddefnyddio, ac ailgylchir y cardfwrdd a ddefnyddir ganddynt i siapio siacedi. Mae cyfarpar amddiffyn personol na ellir ei ail-bwrpasu yn cael ei anfon i gynwysyddion ailgylchu ym Mhencadlys yr Heddlu ym Mae Colwyn. Caiff lifrai fel crysau-t, trowseri a menig diffoddwyr tân eu hailbwrpasu i'w defnyddio gan y rhai sy'n mynd i ganolfan hyfforddi'r Gwasanaeth yn Nolgellau, ac fel lifrai wrth gefn os bydd eu hangen. Caiff blychau cardfwrdd a chetris peiriannau argraffu a ddosberthir i safleoedd y Gwasanaeth eu hailgylchu ar ôl eu defnyddio. Drwy gadw'r pecynnau gwreiddiol, gall unigolion ddychwelyd y cetris i safle canolog, a threfnir i'w casglu am ddim yn fisol.

**Cam gweithredu: canfod ffyrdd o gynyddu bioamrywiaeth ar safleoedd**

Parhaodd yr Awdurdod i fynd ynglŷn â'i gynllun gweithredu bioamrywiaeth, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019. Roedd contract wedi dechrau ym mis Mai, i sicrhau gwaith cynnal a chadw tiroedd a gwella bioamrywiaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. O ganlyniad i hynny, dechreuodd gwaith cynnal a chadw tiroedd ar bob safle, gan barhau drwy gydol 2021/22.

**Cam gweithredu: gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Gogledd Cymru i ddeall newid yn yr hinsawdd o safbwynt rhanbarthol**



Sefydlwyd grwpiau newydd (e.e. Datgarboneiddio Gogledd Cymru) yn ogystal â mecanweithiau adrodd newydd (e.e. cyfrifyddu Carbon Llywodraeth Cymru) er mwyn cyflawni'r cam gweithredu hwn. Fel rhan o'r agenda ehangach ar gyfer newid hinsawdd, parhaodd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i hyrwyddo dull rhanbarthol. Oherwydd y pwysigrwydd cynyddol a'r pwyslais ar newid hinsawdd, cytunodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych y byddai'n werth gwneud ychydig o waith er mwyn mapio'r gwahanol fentrau a grwpiau sy'n gweithio ar gyfer yr agenda hwnnw a chanfod beth yw'r ffyrdd gorau i Fyrddau ychwanegu gwerth. Mae gwaith wrthi'n cael ei wneud i ddatblygu dull rhanbarthol o leihau ôl troed carbon. Mae'r tabl isod yn dangos sut mae grwpiau diddordeb ar gyfer datgarboneiddio yn cyfrannu at ei gilydd:

<table>
<tr><th>ADEILADAU</th><th colspan="2">TIR</th><th colspan="2">FFLYD</th><th>CAFFAEL</th><th></th></tr>
<tr><td colspan="6">Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol</td><td rowspan="2">Fforwm Prif Weithredwyr Gogledd Cymru</td></tr>
<tr><td colspan="6">Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Bwrdd Rhaglen Ynni Carbon Isel/Bwrdd y Prosiect</td></tr>
<tr><td colspan="6">Grŵp Adferiad Economaidd</td><td rowspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="6">Fframwaith Economaidd Rhanbarthol – Economi Carbon Sero</td></tr>
<tr><td colspan="6">Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru</td></tr>
<tr><td colspan="6">Strategaeth Ynni Gogledd Cymru – Grŵp Gorchwyl a Gorffen</td></tr>
<tr><td colspan="7"></td></tr>
<tr><td colspan="6">Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">(Is-grŵp Newid Hinsawdd Gwynedd a Môn)</td><td colspan="2">(Grŵp Cadernid Amgylcheddol Conwy a Sir Ddinbych)</td><td colspan="2">(Grŵp Amgylcheddol Sir y Fflint a Wrecsam)</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Grŵp Cynghorol Swyddogion Datgarboneiddio Gogledd Cymru</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Cymdeithas Arolygwyr Sirol (CSS) Cymru (sy'n cynnwys goleuadau stryd, cludiant, rheoli asedau a gwastraff)</td><td></td><td rowspan="4">Grwpiau Gweithredol<br><br>Allwedd:<br>Cenedlaethol<br>Rhanbarthol</td></tr>
<tr><td colspan="3">Ystadau Cymru (Llywodraeth Cymru yn arwain)</td><td colspan="2">Grŵp Rheolwyr Fflyd Cymru gyfan</td><td>Penaethiaid Caffael Cymru gyfan (WLGA yn arwain)</td></tr>
<tr><td>Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (CLAW)</td><td colspan="2"></td><td colspan="2">Grŵp Rheolwyr Fflyd Gogledd Cymru</td><td>Fforwm Caffael Gogledd Cymru (Traws-sector) (hwylusir gan NPS a Llywodraeth Cymru)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Grŵp Gogledd Cymru o Ystadau Cymru (Heddlu GC yn cadeirio)</td><td colspan="2"></td><td>Penaethiaid Caffael Gogledd Cymru</td></tr>
<tr><td colspan="3">Grŵp Newid Hinsawdd RSL</td><td colspan="3"></td><td rowspan="2"></td></tr>
<tr><td>Grŵp Materion Ynni Gogledd Cymru</td><td colspan="5"></td></tr>
</table>

**Cam gweithredu: gweithio gyda thirfeddianwyr i leihau nifer yr achosion o danau yn yr awyr agored ac annog hysbysu am losgi dan reolaeth**



Cyn gŵyl y banc ym mis Ebrill 2022, fe wnaeth Rheolwr Diogelwch Cymunedol y Gwasanaeth ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych recordio fideo pwerus ar safle tân yn yr awyr agored yn Nantmor, gan apelio ar drigolion a thirfeddianwyr i osgoi llosgi sbwriel a gwastraff gardd. Cafodd y neges ei chyfleu hefyd dros benwythnos gŵyl y banc i annog trigolion i feddwl ddwywaith am losgi yn eu gerddi, ac roedd y fideo'n dangos yn glir mor rhwydd y gall tanau bach ledaenu.

**Cam gweithredu: cael unedau achub technegol newydd er mwyn sicrhau mwy o effeithlonrwydd ynni a llai o allyriadau injan**

Cafwyd gwybodaeth werthfawr yn dilyn ymgynghoriad â defnyddwyr drwy'r Grŵp Adnoddau Cerbydau. Bu hyn yn gymorth i reolwyr yn yr adran Gweithrediadau ac adran y Fflyd i ddod i gytundeb a chael cyd-weledigaeth o'r math o gerbyd sydd ei angen. Bydd hyn yn gymorth i lunio manyleb y bydd ei hangen ar gyfer y broses gafael. Cynhelir adolygiad i ystyried addasrwydd y cerbyd a'r gofynion o ran cyfarpar.

**Cam gweithredu: adrodd ynghylch y defnydd o ynni a lleihau caron yn adeiladau GTAGC, gan gynnwys datblygu cronfa 'Buddsoddi i Arbed ar gyfer prosiectau lleihau carbon yn y dyfodol**

Dyrannodd yr Awdurdod £110k i oleuadau LED ac inswleiddio toeau, ymysg strategaethau eraill i arbed ynnig. Gan fod goleuadau LED yn defnyddio llawer llai o drydan na bylbiau eraill, a gyda'r argyfwng ynni cynyddol a ddechreuodd yn 2021, bydd hyn yn hyrwyddo effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol yn adeiladau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ogystal ag arbed costau.

Isod, ceir tabl yn dangos manylion cerbydau trydan a hybrid plygio-i-mewn a ychwanegwyd at y fflyd ochr yn ochr â'r pum ar hugain o gerbydau hybrid a oedd eisoes yn rhan o'r fflyd.

| Gwneuthuriad, model a nifer y cerbydau | Sgôr Effeithlonrwydd | CO2 g/km |
|---|---|---|
| BMW i3 Range extender x3 | A | 13 |
| Nissan Leaf Acenta x1 | A | 1 |
| Kia Soul EV Automatic x1 | A | 1 |
| Renault Zoe I Dynamique Nav ZE 40 Automatic x1 | A | 1 |
| Kia E-Nitro Electric Estate 150kW 364 kWh 5dr Automatic x1 | A | 1 |
| BMW 3 Series Saloon 330e Sport Pro 4dr Automatic x1 | A | 37 |
| Kia Nitro Estate 1.6 GDi PHEV 3 5dr DCT x3 | A | 31 |

**Amcan 7: sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael.**



Gwerth cymdeithasol yw'r gwerth y mae pobl yn ei roi ar newidiadau y maent yn eu profi yn eu bywydau. Yn ystod 2021/22 parhaodd yr Awdurdod i ddatblygu ei werth cymdeithasol a sicrhau bod materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu hystyried fel rhan o'i weithgareddau, gan gynnwys cefnogaeth i Gymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc (YFA) a Phrosiect y Ffenics.

**Cam gweithredu: parhau i chwilio am gyfleoedd i ychwanegu gwerth cymdeithasol i gymunedau**



Parhaodd y Gwasanaeth i ganolbwyntio ar ostwng nifer yr achosion o losgi bwriadol wrth hybu gwerth cymdeithasol yn 2021/22.



Ym mis Rhagfyr 2021, bu'r Tîm Diogelwch Tân Cymunedol yn helpu'r banc bwyd yn Llanfairfechan i ddanfon parseli bwyd i'r gymuned leol. Caiff y banc bwyd ei redeg gan wirfoddolwyr i ddarparu bwydydd sylfaenol, nwyddau ymolchi a danteithion achlysurol. Maent yn dibynnu'n bennaf ar roddion gan y gymuned. Cafodd y bartneriaeth ei sefydlu oherwydd bod aelodau'r Tîm Diogelwch Cymunedol wedi bod mewn cysylltiad â Chynghorau Sir a Thref ledled Gogledd Cymru i agor drysau i grwpiau sy'n gweithio yn eu hardaloedd. Roedd y bobl a oedd yn derbyn y parseli bwyd wedi cael cyngor am ddiogelwch tân hefyd, ynghyd â'r dewis i gael archwiliad diogel ac iach yn eu cartrefi.

**Cam gweithredu: datblygu Strategaeth ar gyfer Gwerth Cymdeithasol a Chaffael Cynaliadwy**

Er bod y cynnydd tuag at gytuno ar Strategaeth Gwerth Cyhoeddus a Chaffael Cynaliadwy i'r Awdurdod wedi profi oedi oherwydd yr heriau a ddaeth gan y pandemig, mae'r Gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd datblygu strategaeth caffael cynaliadwy a moesegol. Er gwaethaf y cynnydd cyfyngedig, roedd cynaliadwyedd yn dal i chwarae rhan allweddol mewn penderfyniadau ynglŷn â chaffael a phrynu, fel y gwelir yn yr amcan hwn ac amcan chwech.

Fel rhan o'r broses gynllunio ar gyfer ychwanegu cerbydau sy'n fwy effeithlon o ran tanwydd i'r fflyd, mae unrhyw broses dendro'n mynd ati fel mater o drefn i ystyried y budd o gael cyflenwyr lleol sy'n cyflawni gofynion y Gwasanaeth.

**Cam gweithredu: archwilio opsiynau i gaffael yn lleol drwy gydweithio'n genedlaethol/rhanbarthol, a hynny o fewn y sector tân ac achub ac ar draws asiantaethau golau glas eraill**



Yn dilyn treialon helaeth ac adborth gan ddefnyddwyr, Ballyclare Ltd oedd y gwneuthurwyr llwyddiannus a ddewiswyd i gyflenwi'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru gyda chit tân strwythurol. Mae cit tân Xenon yn ysgafn ac yn darparu'r amddiffyniad mwyaf, i geisio lleihau'r risg o straen gwres - sy'n gallu effeithio ar benderfyniadau - drwy leihau'r baich ffisiolegol ar y sawl sy'n ei wisgo.

Mae'r dyluniad arloesol yn darparu'r lefelau uchaf o gyfforddusrwydd, y gallu i anadlu a'r rhyddid i symud, tra'n sicrhau amddiffyniad thermol rhagorol sy'n cynnwys gwrthsefyll dŵr a sychu'n gyflym.

**Cam gweithredu: sicrhau bod fframweithiau caffael a chontractau yn mesur gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn ystod prosesau tendro**



Cynhaliwyd treialon perfformiad ar gyfer cit tân newydd Xenon yn ôl ym mis Ebrill 2019 yn Earlswood, lle bu criwiau ar lefel Cymru gyfan yn cymryd rhan yn y treialon helaeth â defnyddwyr. Cynhaliwyd y gwerthusiadau cynhwysfawr dros gyfnod o bum diwrnod, gyda pob set o git yn cael ei werthuso mewn nifer o feysydd allweddol drwy senarios ymarferol. Roedd y rhain yn cynnwys: gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, gweithio'n uchel, agor pibell, gweithio mewn llefydd cyfyng ac mewn sefyllfaoedd tân. Yn dilyn y treialon perfformiad helaeth, aeth y citiau a oedd ar y rhestr fer drwy dreialon ar orsafoedd. Y cam olaf oedd cynnal technegau helaeth diffodd tanau mewn cydrannau a gweithdrefnau mewn amgylchiadau hynod heriol yn y Cyfleuster Ymddygiad Tân yn Nolgellau.

**Cam gweithredu: datblygu rhagor ar gyfleoedd i weithio gyda 'Fire Aid' i sicrhau bod cyfarpar yn cael ei ailgylchu pan fo modd**

Ymwelodd diffoddwr tân o Wrecsam â Gorllewin Affrica ym mis Mawrth 2022, ar daith elusennol i helpu i greu gwasanaeth tân ac ambiwlans mewn ardal wledig yn Gambia. Esboniodd:



"Cefais fy newis gan yr elusen NPAC a'r Gymdeithas Heddlu Ryngwladol (IPA) i gymryd rhan yn Ymgyrch Zephyr i ddanfon 35 o ambiwlansiau, peiriannau tân a cherbydau cymorth i Gambia yng Ngorllewin Affrica.

"Ar hyn o bryd, Gambia sydd â chyfradd marwolaeth babanod uchaf yn y byd, lle nad yw 1 mewn 5 o blant yn byw ymhellach na 4 wythnos oed, ac ni fydd 1 mewn 20 yn byw ymhellach na 5 mlwydd oed.

"Nid ambiwlansiau sy'n ciwio y tu allan i brif ysbytai'r dinasoedd ond merched mewn berfa ar fin esgod, a bydd Mulod ac Asynnod yn cludo pobl o'r pentrefi gwledig dros 50 milltir i gael cymorth meddygol.



"Nid yw cyflwr y gwasanaeth tân ac achub fawr gwell, ac mae'r brif orsaf dân ganolog yn Banjul yn cynnwys tri pheiriant tân ac un o'r rheini newydd daro yn erbyn HGV, y llall wedi torri i lawr sbel yn ôl felly dim ond un peiriant sydd ar ôl, sy'n dyddio o'r 1980au ac yn dal yn weithredol. Mae'r diffoddwyr tân yn cysgodi rhag yr haul o dan eu peiriannau tân, yn gobeithio y gallant ymateb i argyfwng gyda'r cyfarpar prin sydd ganddynt.

"Nod y confoi ydy darparu cerbydau brys sy'n gweithio, cyfarpar PPE, radios, cyfarpar meddygol a hyfforddiant i'r wlad Affricanaidd hon, sef gwlad sy'n datblygu ond sy'n dal yn dlawd iawn. Mae ein teuluoedd yn y gwasanaethau brys angen ein help."

**Cam gweithredu: datblygu pecyn hyfforddi ymwybyddiaeth o gaffael**

Parhaodd yr Awdurdod i ddwyn ynghyd enghreifftiau o arferion da o ran caffael cynnyrch cynaliadwy yn 2021/22. Cafwyd gwaith hefyd i ailddefnyddio cyfarpar er mwyn dangos arferion da o ran caffael nwyddau a gwasanaethau mewn modd cynaliadwy. Caiff hyn ei ddefnyddio i ddatblygu pecyn hyfforddi ar gyfer adrannau, i brynu nwyddau a chyflenwadau.

**Cam gweithredu: sicrhau bod y gwaith o gaffael cyfarpar gweithredol newydd yn cynnwys ystyried gwaredu'n 'llwyr ar ddiwedd oes'**

Roedd yr Awdurdod o blaid sefydlu grŵp caffael Cymru gyfan sy'n cynnwys y tri gwasanaeth yng Nghymru. Roedd hyn yn adnabod cyfleoedd ar gyfer caffael ar y cyd, ac yn ystod 2021/22 cwblhawyd y gwaith o gyflwyno'r cit tân newydd. Hefyd, roedd y Gwasanaeth wedi caffael nifer o beiriannau tân drwy ddefnyddio'r fframwaith ar gyfer Cymru gyfan. Roedd gwaith sylweddol ar y cyd i'w weld yn ystod Covid, gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaint yn darparu llwyfan cenedlaethol ar gyfer caffael cyfarpar PPE. Mae prosiectau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys caffael gwisgoedd a buddion i weithwyr ar lefel Cymru gyfan.

**Cam gweithredu: hybu gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd o fewn y Gwasanaeth**

Dros haf 2021, roedd Pennaeth Diogelwch Cymunedol y Gwasanaeth wedi rhannu fideo i gyflwyno'r tîm Diogelwch Cymunedol, i annog cyfathrebu, ac i sicrhau dull cyson o gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach. Bu'r fideos yn gymorth i sicrhau bod cydweithwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf a buont yn dangos hyblygrwydd a dyfeisgarwch er mwyn parhau â gwaith ataliol er gwaethaf yr heriau yn sgil Covid-19.

Ym mis Ionawr 2022, fe wnaeth y Gwasanaeth ailafael hefyd yn y gweithgareddau ieuenctid wyneb yn wyneb, gan gynnwys ymweliadau ag Ysgolion, cyrsiau'r Ffenics, cyfarfodydd y Cadetiaid, Effeithiau Marwol a sesiynau FACE / Firesafe.

Penderfynwyd ddiwedd mis Rhagfyr (2021) i ohirio sesiynau wyneb yn wyneb am y tro i helpu i ddiogelu ein pobl ifanc a'n staff wrth i newyddion am amrywiolyn newydd ddod i'r amlwg. Unwaith eto, roedd y staff wedi addasu'n rhagorol, gan roi darpariaeth ar-lein i helpu i gadw pawb yn ddiogel – fodd bynnag, ni ellir gorbwysleisio mor bwysig yw rhyngweithio wyneb yn wyneb weithiau.

O ran gwaith arall, bu datblygu rhyngweithiadau ar-lein yn llwyddiant mawr, gan arwain at benderfyniad y Gwasanaeth i barhau â chyfuniad o ddarpariaeth ar-lein ac wyneb yn wyneb.

# MONITRO CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU'R GYMRAEG

## Cefndir

Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn disodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth hon, mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfreithiol yng Nghymru, a rhaid peidio â thrin y naill na'r llall yn llai ffafriol. Erbyn hyn, nid oes angen i'r Awdurdod ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg, yn hytrach rhaid iddo gydymffurfio â chyfres o Safonau'r Gymraeg.

Roedd Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi ei Hysbysiadau Cydymffurfio i'r awdurdodau tân ac achub ar 30 Medi 2016. Mae'r ddogfen hon yn rhestru pa Safonau, fel y maent wedi'u rhestru'n llawn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016, y mae'n rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gydymffurfio â nhw, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu.

Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi ei adroddiad blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2021-22 erbyn 30 Medi 2022 a rhoi cyhoeddusrwydd priodol i hyn.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, gael eu trin yn gyfartal er mwyn cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog y cymunedau, ynghyd â threftadaeth naturiol a diwylliannol arwyddocaol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod ei ddyletswydd tuag at ei staff. Mae llawer ohonynt yn byw yng Ngogledd Cymru, ac maent eu hunain yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau. Drwy gydnabod ei ddyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal, ac i gwrdd â disgwyliadau'r gymuned leol, mae'r Awdurdod yn parhau i weithio tuag at sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes cyhoeddus yn y ddwy iaith.

Yn ystod 2021-22, parhaodd yr Awdurdod i gydymffurfio â'r set o Safonau'r Gymraeg a roddwyd yn yr Hysbysiad Cydymffurfio ar 30 Medi 2016. Ym mis Ionawr 2022, llwyddodd y Gwasanaeth i benodi i swydd Swyddog Iaith Gymraeg, sef swydd lawn amser newydd sydd wedi cael ei chreu, gan ddangos ymrwymiad parhaus yr Awdurdod i hyrwyddo'r Gymraeg. Fodd bynnag, er gwaethaf tair ymgais i recriwtio Cyfieithydd drwy hysbysebion eang yn ystod y cyfnod, ni lwyddodd y Gwasanaeth i benodi. O ganlyniad, ceisir cael gwasanaeth cyfieithu allanol drwy broses dendro gystadleuol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn parhau i weithio ar y cyd â grwpiau iaith allanol drwy'r Swyddog Iaith, yn ogystal â chyflwyno Grŵp Llywodraethu'r Gymraeg sy'n ateb y diben o wneud y canlynol:

- Cydlynu rhwng adrannau ynghylch materion yn ymwneud â'r Gymraeg
- Craffu a chynnig arweiniad er mwyn gwella unrhyw agwedd ar y ddarpariaeth ddwyieithog
- Cydweithio ar sut i ddatrys unrhyw heriau neu gwynion
- Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin mor ffafriol â'r Saesneg o fewn y Gwasanaeth.

Mae'r Awdurdod hefyd yn parhau i gydweithio â'r ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru, gyda phartneriaid megis Heddlu Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol, a gyda'r NFCC (Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân) er mwyn rhannu gwybodaeth am yr arferion gorau.

**Uchafbwyntiau 2021-22**




**Safonau cyflenwi gwasanaethau**

Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio sy'n rhestru'r safonau hyn i'w weld ar [wefan](#) Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Trefnwyd i gwrdd â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau a ddaeth i rym, gan gynnwys y canlynol:

**Safonau 8-17** – Mae'r holl staff wedi cael gwybod am y gofyniad i barchu dewis iaith wrth ddelio â galwadau ffôn i a gan aelodau o'r cyhoedd.

Hefyd, mae'r Awdurdod yn cydnabod gwerth a mantais cynnig dewis iaith felly mae wedi parhau i weithredu Ystafell Reoli/Canolfan Gysylltiadau ar y Cyd, er nad oes gofyniad statudol i ateb galwadau 999 yn ddwyieithog. Yn ogystal â chydnabod ei ddyletswydd foesol a moesegol i ddelio â galwadau 999 yn gyflym ac effeithiol yn newis iaith y sawl sy'n galw, mae penderfyniad yr Awdurdod i fynd y tu hwnt i ofynion y Safonau yn cydnabod hefyd y manteision o ran diogelwch mewn sefyllfaoedd brys pan fo rhai galwyr yn gallu cyfathrebu'n fwy effeithiol yn Gymraeg.

Caiff swyddi gwag yn yr Ystafell Reoli eu hysbysebu fel rhai â gofyniad Lefel 4 er mwyn sicrhau bod dewis iaith yn cael ei gynnig i unrhyw un sy'n galw ac eisiau siarad Cymraeg.

Rhaid cael sgiliau Cymraeg ar Lefel 4 neu uwch er mwyn gallu cynnig dewis iaith yn rhagweithiol. Caiff data ei gasglu ynghylch faint o ddefnyddwyr y Gwasanaeth sy'n cysylltu â ni ar gyfer dibenion monitro a gwerthuso. Yn ystod blwyddyn 2021/22, ymdriniwyd â 2.8% o alwadau (343) yn Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r galwadau hyn yn cyfateb i ddiwedd y cyfnod llosgi dan reolaeth. Mae gweithredwyr yr Ystafell Reoli yn defnyddio cyfarchiad dwyieithog safonol wrth ateb galwad, a dylai hynny ddangos bod pobl yn gallu parhau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno. Fodd bynnag, gan fod y cyswllt cyntaf gyda switsfwrdd 999 yn uniaith Saesneg, gallai hynny fod yn rhwystr rhag parhau yn Gymraeg. Rhoddir mwy o ystyriaeth i gynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth i dynnu sylw at y ffaith fod ein gweithredwyr yn yr Ystafell Reoli yn ddwyieithog. Darperir hyfforddiant i sicrhau bod staff yn gallu ac yn fodlon delio â galwadau yn Gymraeg.

**Safonau 32, 36, 58-60** - Caiff pob deunydd cyhoeddus ei arddangos yn ddwyieithog, gan gynnwys gwefan y Gwasanaeth a chyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol corfforaethol. Mae unrhyw bosteri, taflenni a deunydd cyhoeddusrwydd arall yn ddwyieithog hefyd. Ac eithrio arwyddion gweithredol, mae'r holl arwyddion yn ddwyieithog.

**Safonau 62-64** - Mae polisi'r Gwasanaeth yn nodi bod rhaid i staff sydd â swyddi sy'n wynebu'r cyhoedd fod yn rhugl yn y Gymraeg (Lefel 4 ac uwch). Nodwyd bod 91 o swyddi yn rhai sy'n wynebu'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae nifer o aelodau o staff o fewn y swyddi hyn wedi cael eu cyflogi gan y Gwasanaeth ers cyn y gofyniad hwn felly maent yn cael cymorth ynghylch materion Cymraeg pan fo angen. Mae hyn yn gymorth i fonitro cydymffurfiaeth ac i ganfod unrhyw fylchau posibl mewn sgiliau. Hefyd, gellir gweld deunyddiau cyhoeddusrwydd Cymraeg mewn derbynfeydd i annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg.

**Safonau 73-77** – Mae hysbysebion pob tendr yn ddwyieithog. O ran Deddf yr Iaith Gymraeg, os bydd cyflenwr yn dewis gohebu yn Gymraeg gellir trefnu hyn; ni fydd unrhyw dendr neu ddogfennau cysylltiedig a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na rhai a gyflwynir yn Saesneg. Byddem yn cyhoeddi tendr yn Gymraeg os bydd angen, e.e. Hyfforddiant Cymraeg. Caiff y ddwy iaith eu trin yn gyfartal (nodir nad oes llawer o dendrau'n cael eu cyflwyno i ni yn Gymraeg ond weithiau bydd rhannau ohonynt yn Gymraeg). Mae defnyddio gwasanaethau cyfieithu Cymraeg allanol yn gymorth i gydymffurfio â safon 76.

**Safonau gweithredol**

Mae modd gweld yr Hysbysiad Cydymffurfio sy'n rhestru'r safonau hyn ar wefan GTAGC. Gwnaethpwyd trefniadau i gwrdd â'r Safonau Gweithredol a ddaeth i rym, gan gynnwys y canlynol:

**Safonau 96-101 –** Mae gan staff hawl sy'n cael ei hyrwyddo a'i gyfathrebu iddynt allu derbyn unrhyw ohebiaeth berthnasol yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae ffurflenni perthnasol ar gael yn ddwyieithog am amryw o resymau yn gysylltiedig â'u cyflogaeth. Gall y staff weld y rhain ar y wefan

wybodaeth i'r staff. Cedwir cofnod o'r iaith y mae'r staff yn dewis derbyn gohebiaeth ynddi.

**Safonau 102 -108 –** Caiff polisïau newydd a diwygiedig eu cyhoeddi'n fewnol yn Gymraeg ac yn Saesneg, a rhaid i bob polisi gael asesiad effaith integredig cysylltiedig er mwyn canfod ei effaith ar y Gymraeg ac i ganfod a hyrwyddo ffyrdd o greu effaith gadarnhaol ac osgoi effaith negyddol.

**Safonau 125 – 132 –** O ran datblygu sgiliau Cymraeg, fel y soniwyd, mae'r Gwasanaeth yn cynnig cyrsiau ar Lefel 1, 2 a 3 gan ddefnyddio deunyddiau dysgu Cymraeg mewnol. Gall y staff gael cefnogaeth gan y Swyddog Iaith neu un o Hyrwyddwr y Gymraeg. Cynigir sesiynau sgwrsio, a sesiynau un-i-un i hyrwyddo a chefnogi'r staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Cynigir cyrsiau dysgu Cymraeg i'r holl staff drwy'r gwasanaeth Dysgu Cymraeg a thrwy ddarpariaeth Coleg Cambria. Cynigir hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith mewn dwy ffordd: naill ai wyneb yn wyneb, fel arfer i staff gweithredol sy'n ymuno mewn grwpiau, neu darperir modiwl ar-lein drwy LearnPro. Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r gofyniad i gynnwys y Gymraeg mewn llofnodion e-bost a negeseuon 'allan o'r swyddfa'. Mae enghreifftiau ar gael ar ein gwefan wybodaeth i'r staff, ynghyd â logos perthnasol. O ran hyfforddiant, mae modiwlau hanfodol a dymunol ar gael yn ddwyieithog ar system hyfforddiant ar-lein LearnPro.

**Safon 143 -** Mae cwynion yn destun monitro a sylw gan yr Adran Adnoddau Dynol a'r Uned Cymorth Busnes. Caiff cwynion a llythyrau o werthfawrogiad eu hadrodd bob blwyddyn i'r Awdurdod Tân. Ni ddaeth unrhyw gwynion i law o ran y Gymraeg yn 2021-22. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyhoeddi gweithdrefn gwynion ar ei wefan, a hefyd mae ganddo bolisi mewnol ar gyfer y staff ynglŷn â sut i fynegi pryder neu gŵyn.

**Safon 147 -** Ar 31 Mawrth 2022, roedd 692 o weithwyr allan o 843 (82%) yn gallu dangos bod ganddynt sgiliau Cymraeg (Lefel 1 ac uwch), sy'n ymwneud â nifer y staff, sef cyfrif pobl unwaith pan fo ganddynt fwy nag un swydd. Roedd cyfanswm o 307 o weithwyr wedi'u categoreiddio'n siaradwyr rhugl (Lefel 4 ac uwch), sy'n cyfateb i 36% o'r holl staff.

**Safonau 150,151 -** Yn y gorffennol, roedd gallu ieithyddol ymgeiswyr yn cael ei asesu yn y cyfnod o lunio rhestr fer, ond yn fwy diweddar, oherwydd niferoedd yr ymgeiswyr ac argaeledd yr adnoddau i gynnal asesiadau, dim ond ymgeiswyr llwyddiannus sy'n cael cynnig swyddi sy'n cael eu hasesu i gadarnhau ei lefel yn Gymraeg ac i benderfynu faint o gymorth sydd ei angen arnynt i gyrraedd y lefel ofynnol yn ystod eu cyfnod prawf. Weithiau, bydd hyn yn digwydd yn yr ychydig wythnosau cyntaf os nad ydynt wedi cael asesiad yn ystod y broses recriwtio.

Cynigir cymorth drwy adnoddau dysgu Cymraeg GTAGC, sesiynau galw heibio gyda'r Swyddog Iaith, cymorth gan un o Hyrwyddwyr y Gymraeg, yn ogystal â chynnig i ddilyn cyrsiau Lefel 2 gyda Choleg Cambria.

Mae'r dull hwn wedi llwyddo i weld y staff sy'n ymuno heb fawr ddim Cymraeg neu heb ddim o gwbl yn cyrraedd Lefel 2 neu 3.

**Penodiadau diweddar**

Mae pob swydd yn gofyn am ryw lefel o Gymraeg, a'r lefel ofynnol isaf yn y Gwasanaeth yw sgiliau siarad a gwrando ar Lefel 2.

Yn ystod 2021-22 penodwyd sawl aelod o staff gweithredol uwch pan fo angen i'r ymgeiswyr llwyddiannus ddangos Lefel 3 yn Gymraeg wrth gael eu penodi neu o fewn eu cyfnod prawf.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y penodiadau gweithredol mewn gwahanol swyddi, a'r nifer a oedd yn bodloni'r gofynion Cymraeg wrth gael eu penodi.

| **Rôl** | **Nifer a benodwyd** | **Nifer a oedd ar Lefel 3 pan gawsant eu penodi** |
|---|---|---|
| Rheolwr Ardal | 4 | 2 |
| Rheolwr Grŵp | 6 | 5 |
| Rheolwr Gorsaf | 12 | 10 |
| Rheolwr Gwylfa | 18 | 18 |
| Rheolwr Criw | 15 | 15 |

Hefyd, mae'r tabl isod yn dangos nifer y staff cefnogol a benodwyd ac a oedd yn bodloni'r gofynion Cymraeg pan gawsant eu penodi.

| **O'r 19 o staff cefnogol a benodwyd** | **Lefel Ofynnol** | **Nifer a benodwyd a oedd â'r lefel ofynnol o sgiliau pan gawsant eu penodi** |
|---|---|---|
| 11 | O leiaf Lefel 2 | 4 |
| 12 | O leiaf Lefel 4 | 8 |

Hefyd, cafodd tri aelod o staff eu recriwtio i'r Ystafell Reoli a phob un â'r Lefel 4 neu uwch sy'n ofynnol pan gawsant eu penodi. At hynny, yn ystod proses ddyrchafu fewnol o fewn yr Ystafell Reoli, penodwyd un Rheolwr Gorsaf a chwe Rheolwr Gwylfa ac roedd pob un â'r lefel ofynnol.

Penodwyd i bedair swydd ar gyfer staff uwch, ac roedd tri o'r rheini â'r Lefel 3 sy'n ofynnol pan gawsant eu penodi.

Yn gyffredinol, pan nad yw staff a benodwyd â'r lefel ofynnol o sgiliau Cymraeg, byddant yn cael eu cefnogi i gyrraedd y lefel ofynnol o fewn eu cyfnod prawf.

**Monitro, Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth**

Mae'r gwaith o fonitro a hyrwyddo'r Gymraeg ymysg staff o fewn y Gwasanaeth yn cael ei wneud yn fewnol mewn amryw o ffyrdd gwahanol, gan gynnwys:

- Ym mis Ionawr 2022, penodwyd Swyddog Iaith am y tro cyntaf, gan ddangos yr ymrwymiad parhaus i hyrwyddo'r Gymraeg ac i fonitro cynnydd.
- Caiff system fonitro Adnoddau Dynol, sef iTrent, ei ddefnyddio i gadw golwg ar sgiliau Cymraeg y staff, gan gynnwys eu Lefel (ar raddfa 0-5 gyda 4 yn rhugl) a monitro asesiadau Cymraeg (naill ai yn ffurfiol neu drwy hunanasesiad).
- Mae'r cynllun Hyrwyddwyr y Gymraeg yn cynnig lwfans ariannol i aelodau o'r staff sy'n ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn eu hadrannau neu orsafoedd tân. Mae Hyrwyddwyr y Gymraeg i'w cael ledled ardaloedd ac adrannau'r Gwasanaeth, ac maent yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith, yn cefnogi'r staff gydag asesiadau Cymraeg, ac yn hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg gyda staff eraill. Caiff Hyrwyddwyr y Gymraeg eu gwobrwyo am eu hymdrechion ac maent yn cyflwyno ffurflen dasgau bob chwarter i nodi eu llwyddiannau er mwyn derbyn lwfans.

- Mae'r bwletin misol 'Mercher Marfer' yn rhannu gwybodaeth am y Gymraeg, dysgu Cymraeg, a defnyddio'r Gymraeg fwy o ddydd i ddydd. Ynddo, mae adran yn atgoffa'r staff am safonau allweddol yn ymwneud â'r Gymraeg a ffyrdd o gydymffurfio, e.e. llofnodion e-bost dwyieithog a negeseuon 'allan o'r swyddfa'.
- Mae sesiwn Gymraeg wythnosol galw-heibio ar gael ar Microsoft Teams bob dydd Gwener ar gyfer staff sydd eisiau manteisio ar y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg gydag aelod arall o'r staff neu i gael help neu gyngor am ddatblygu'r Gymraeg.
- Yn ystod Rhagfyr 2021, cymerodd y Gwasanaeth ran mewn ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo Diwrnod Hawliau'r Gymraeg ac i hyrwyddo ei ymrwymiad i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u hawliau o ran y Gymraeg.
- Mae'r Swyddog Iaith yn cynnig sesiynau siarad Cymraeg un-i-un, sydd ar gael i aelodau o'r staff i helpu i fagu hyder a pharatoi'r staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg gydag eraill o fewn y Gwasanaeth.
- Mae amryw o gyrsiau a sesiynau ar hyder ieithyddol wedi cael eu cynnig i'r staff, gan gynnwys cwrs Cadernid y Gymraeg sy'n dysgu strategaethau newid ymddygiad i siaradwyr ddefnyddio mwy o Gymraeg.
- Hefyd, yn ystod 2021, roedd aelodau o'r staff wedi cwblhau eu treial o Say Something in Welsh ac yn ôl yr adborth roedd y dull cyflwyno yn rhagorol a'r unig rwystr rhag gwneud cynnydd oedd cyfyngiadau amser. Mae estyniad i'r gwasanaeth dan ystyriaeth ar gyfer staff newydd a darpar aelodau o'r staff a allai fod yn dymuno gwella eu Cymraeg.
- Mae'r Gwasanaeth wedi mynychu digwyddiadau cymunedol Cymraeg megis Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych eleni. Rhoddodd hyn gyfle i'r staff weithio ar y stondin a defnyddio eu sgiliau Cymraeg gydag aelodau o'r cyhoedd. Roedd aelod o'r cyhoedd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd defnyddio'r bathodyn 'Dwi'n Siarad Cymraeg', dywedodd ei fod wedi rhoi hyder iddo ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r staff.
- Mae Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol corfforaethol dwyieithog yn parhau i gael ei gweithredu ar wahanol lwyfannau, e.e. Facebook, Instagram a Twitter, lle caiff gwybodaeth ei rhannu am ein gwasanaethau ledled Gogledd Cymru. Pan fo'n briodol, bydd staff yn cofnodi fideos cyhoeddusrwydd neu fideos gwybodaeth dwyieithog er mwyn cael darpariaeth fwy rhyngweithiol.
- Caiff y staff eu hannog i gymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol Cymreig, e.e. roedd dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn 2022 yn cynnwys annog pobl i gwblhau heriau Cymraeg er mwyn ennill hamper. Llwyddodd hyn i gyflwyno'r staff i amrywiaeth o ffyrdd o allu defnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau bob dydd, gyda'r cyfle i ennill hamper o gynnyrch Cymreig i gymell y staff i gymryd rhan tra hefyd yn cefnogi busnesau Cymreig lleol.
- Mae gwobr 'Cyfraniad i'r Gymraeg' wedi'i gynnwys fel rhan o'r seremoni Gwobrau Cymunedol ar gyfer 2022, pan fydd aelod o'r staff yn cael gwobr am ei wasanaeth yn hyrwyddo'r Gymraeg neu am ragoriaeth yn llwyddo i ddysgu Cymraeg. Yn ystod y pandemig, bu'n rhaid gohirio neu gyfyngu'n llym ar y Seremoni Wobrwyo, felly'r seremoni yn 2022 fydd y cyfle cyntaf i gyflwyno'r wobr ers 2019.
- Un o'r prif feysydd o'r Gwasanaeth sy'n wynebu'r cyhoedd yw gwaith ein Gweithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref. Maent yn gyfrifol am ddarparu cyngor am ddiogelwch, arweiniad a chyfarpar yng nghartrefi grwpiau targedol er mwyn cyfrannu at eu hiechyd, diogelwch a lles. Maent hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno gweithgareddau ymwybyddiaeth o ddiogelwch yn y cartref ac ymgyrchoedd diogelwch. Oherwydd hyn, cynigir dewis iaith yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf os nad yw hynny wedi'i nodi eisoes ar ffurflen atgyfeirio gan asiantaeth bartneriaethol. Mae llawer o'r rhai sy'n derbyn Archwiliad Diogel ac Iach yn bobl fregus lle mae cynnig dewis iaith yn bwysicach fyth. Yn ystod 2021-22, cynhaliwyd cyfanswm o 14,062 o Archwiliadau Diogel ac Iach, a chynhaliwyd 1,679 (11.9%) o'r rheini yn Gymraeg.

## Datblygu'r Gymraeg

Mae'r Adran Hyfforddi a Datblygu yn cadw cofnod o'r holl gyrsiau Cymraeg sy'n cael eu mynychu ac o'r asesiadau sy'n cael eu cynnal gan y staff, ac mae'n cofnodi'r canlyniadau ar ei system gofnodi fewnol. Yn dilyn asesiad Cymraeg, mae gallu'r staff yn cael ei gofnodi wedyn ar y system iTrent, lle mae gwybodaeth am staff mewnol yn cael ei chadw, megis ceisiadau am wyliau a thaflenni amser. Hefyd, mae'r Adran Hyfforddi a Datblygu yn hwyluso cyrsiau Cymraeg mewnol a ddarperir gan Goleg Cambria, a chaiff aelodau o'r staff eu hannog i wneud cais am gyrsiau yn ystod eu gwerthusiad blynyddol.

Caiff y defnydd o'r Gymraeg ei annog ymysg staff ar y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol gorsafoedd tân unigol. Mae ymadroddion allweddol a phecyn cymorth ar gyfer cyfryngau cymdeithasol ar gael i dynnu sylw at bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg mewn postiadau neu drydariadau ar y cyfrifon hyn.

Yn ystod y broses ddiweddar i recriwtio Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn, cynigiwyd opsiwn dwyieithog i ymgeiswyr yn ystod cam y prawf ffitrwydd corfforol. Gwnaethpwyd hyn i annog darpar aelodau o'r staff i sefydlu'r Gymraeg fel iaith ddiofyn gyda siaradwyr Cymraeg eraill. Mae tystiolaeth dda mai dyma'r brif ffordd o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg rhwng siaradwyr Cymraeg yn hytrach na newid ymddygiadau ac arferion ieithyddol yn nes ymlaen. Mae hwyluso hyn yn cydymffurfio hefyd â safonau'r Gymraeg.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i ganolbwyntio ei ymdrechion ar annog mwy o geisiadau gan siaradwyr Cymraeg, yn ogystal ag annog pobl i fod yn hyderus wrth nodi eu sgiliau ieithyddol.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i edrych ar ffyrdd newydd o ymgysylltu â'i gymunedau er mwyn tynnu sylw at y gwasanaethau Cymraeg sy'n cael eu cynnig, ac i bwysleisio bod y Gymraeg yn sgil gwerthfawr yn ei weithle.

## Cyfleoedd yn y Dyfodol

Mae'r adroddiad hwn wedi dangos bod capasiti dwyieithog gweithlu'r Gwasanaeth yn fwy na thirlun dwyieithog Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod gwasanaeth dwyieithog cymwys yn cael ei ddarparu i bawb. Nodwyd y blaenoriaethau a'r cyfleoedd canlynol:

- Mabwysiadu technegau i wella'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn y gweithle ac o'i gwmpas, ac i sicrhau bod staff rheng flaen yn bod yn rhagweithiol wrth ddarparu gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg – gan gynnwys archwilio ffyrdd eraill o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith gan ddefnyddio cysylltiadau â fforymau a grwpiau allanol.
- Archwilio ffyrdd newydd o godi ymwybyddiaeth o'r ffaith fod derbynwyr galwadau Cymraeg ar gael i ddefnyddwyr y Gwasanaeth, a helpu i recriwtio gweithredwyr galwadau i sicrhau ymrwymiad parhaus i'r gofyniad am sgiliau Cymraeg ar Lefel 4.
- Parhau i adeiladu ar gyfleoedd i hwyluso'r parhad o'r defnydd o'r Gymraeg gan y staff ar ôl cyrraedd y lefel ofynnol. Yn ogystal â hyn, darparu'r un cyfleoedd i aelodau o'r staff sy'n siaradwyr Cymraeg hyderus ddefnyddio eu dewis iaith yn naturiol yn y gwaith.
- Mae'r Gwasanaeth mewn trafodaethau ag ymchwilwyr o Brifysgol Bangor i weithredu methodoleg newid ymddygiad ARFer. Nod ARFer yw newid arferion iaith drwy helpu cydweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg (ond sydd wedi sefydlu'r arfer o ddefnyddio'r Saesneg) i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith.

Caiff dangosyddion perfformiad allweddol eu monitro i weld tueddiadau ac i'n galluogi i ystyried ble gellir gwneud unrhyw newidiadau, er enghraifft;

- Mae un dangosydd yn monitro capasiti dwyieithog y Gwasanaeth felly gellir ei fonitro i weld a oes cynnydd neu ostyngiad pan fo penodiadau neu ymddiswyddiadau/ymddeoliadau.
- Mae un arall yn olrhain y defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg rheng flaen; yn enwedig y defnydd o Archwiliadau Diogel ac Iach yn Gymraeg a galwadau Cymraeg i'n Hystafell Reoli.
- Felly, mae'r Gwasanaeth yn awyddus i wneud cynnydd o ran cyflawni rwymedigaethau statudol fel bod modd gwella rhagor ar wasanaethau i ddefnyddwyr Gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg yn eu dewis iaith.

## Y CYNNYDD MEWN PERTHYNAS AG AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL

### Beth mae'r Ddeddf yn mynnu bod yr Awdurdod yn ei wneud

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn mynnu bod yr Awdurdod yn ysgrifennu cynllun cydraddoldeb bob pedair blynedd. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod 2020/2024 yn nodi pum blaenoriaeth. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u rhannu'n chwe amcan cydraddoldeb y mae'r Awdurdod eu heisiau er mwyn helpu i wneud Cymru yn wlad fwy teg i fyw ynddi. Nod y Ddeddf Cydraddoldeb yw sicrhau bod gan bawb yr hawl i'r canlynol:

- cael eu trin yn deg;
- cael yr un cyfleoedd â phobl eraill;
- bod yn rhydd o gamwahaniaethu.

Mae categorïau'r amcanion yn seiliedig ar y penawdau maes sydd yn y ddogfen "Pa mor deg yw Cymru" a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'r penawdau hyn yn gyson hefyd â Chynllun Cydraddoldeb Strategol Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru; mae hyn yn golygu bod modd cynnwys cyd-amcanion yng nghynlluniau cydraddoldeb strategol sefydliadau unigol y sector cyhoeddus.

Ar ôl nodi'r amcanion hyn, mae dyletswydd ar yr Awdurdod i gymryd pob cam rhesymol i fynd ynglŷn â nhw ac i adrodd yn gyhoeddus ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol ynghylch y cynnydd y mae wedi'i wneud. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhestru nifer o nodweddion y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu ar y camau a fydd yn cael eu cymryd. Dyma'r 'nodweddion gwarchodedig':

- Oedran;
- Anabledd;
- Ailbennu rhywedd;
- Priodas a phartneriaeth sifil;
- Beichiogrwydd a mamolaeth;
- Hil;
- Crefydd neu gred/dim cred;
- Rhyw;
- Cyfeiriadedd rhywiol;
- Statws economaidd-gymdeithasol a'r anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig â hynny.

Datblygwyd nifer o ffynonellau i ddatblygu amcanion cydraddoldeb strategol yr Awdurdod:

- asesiadau effaith cydraddoldeb;
- amcanion cyfunol ar gyfer lleihau risg a gwella;
- cynlluniau busnes gan benaethiaid adrannau;
- strategaethau a chynlluniau sy'n bodoli eisoes;
- canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu.

Mae deddfwriaeth yn caniatáu i amcanion gael eu newid unrhyw bryd, felly gwneir gwaith ymgysylltu er mwyn sicrhau bod amcanion yn parhau'n gyfredol. Mae'r Awdurdod yn mynd ati'n barhaus i edrych ar y dulliau ymgysylltu mwyaf effeithiol drwy gysylltiadau sydd ganddo eisoes â sefydliadau a grwpiau cymunedol, ac mae'n ymdrechu i sefydlu cysylltiadau â grwpiau newydd a chymunedau lleol. Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi'r asesiad hwn o'i berfformiad ei hun am 2021/2022 erbyn 31 Mawrth 2023.

## Blaenoriaeth 1 – Bywyd ac Iechyd

Amcan Cydraddoldeb 1

Gostwng nifer y tanau mewn anheddau a'r anafusion cysylltiedig drwy strategaeth ataliol gynhwysfawr sy'n mynd ati'n benodol i dargedu pobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru y gellir dangos bod ganddynt fwy o risg oherwydd y gallent fod yn rhannu un neu ragor o nodweddion penodol.

**Wrth weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi gwneud y canlynol:**

- Parhawyd i adeiladu ar ei berthynas â'i bartneriaid strategol drwy gytunebau rhannu data y cytunwyd arnynt er mwyn galluogi'r Awdurdod i ganolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf mewn angen. Mae hyn yn cefnogi cynnal Archwiliadau Diogel ac Iach sy'n targedu'r rhai sydd â'r risg mwyaf yn y gymuned.

- Cydweithiwyd â Gofal a Thrwsio, gan roi mynediad uniongyrchol i'r Awdurdod at aelodau bregus o'r gymuned cyn iddynt ddychwelyd i'w cartrefi o'r ysbyty. Mae hyn yn galluogi'r Awdurdod i fynd ati'n rhagweithiol i sefydlu ymyriadau, gan wneud eu cartrefi'n ddiogel. Wrth i gymunedau ddod allan o gyfnod Covid-19, mae'r rhaglen ailymgysylltu wedi dechrau ac wedi arwain at gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau â risg uwch a gawn gan ein hasiantaethau partneriaethol.

- Yn ychwanegol at adroddiad CFOTG 2007 (diwygiwyd 2009), mae'r Awdurdod wedi parhau i ganfod/adolygu ei ddull o ymdrin â'i gynulleidfa darged. Mae hyn yn cynnwys themâu mewnbwn ehangach o Gofrestr Risgiau Cymunedol Gogledd Cymru, Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion (SARB) yng Nghymru a Chyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân (NFCC). Mae Rheolwyr Partneriaeth wedi gwreiddio mewn partneriaethau lleol, sy'n galluogi'r Awdurdod i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhai sydd â'r risg mwyaf, er enghraifft gorgasglu, fel aelod o Grŵp Gorgasglu Gogledd Cymru.

- Lansiwyd nifer o offer rhyngweithiol Diogelwch Tân (asesiad rhithiol o risgiau tân mewn gweithle) (i berchnogion busnesau) ac ystyrir a oes modd ei ddefnyddio yn Gymraeg ac yn Iaith Arwyddion Prydain.

## Blaenoriaeth 2 – Cyflogaeth

Amcan Cydraddoldeb 2

Drwy ein harferion cyflogaeth, ein rhaglenni a'n cynlluniau ein hunain, rydym yn ceisio cynyddu'r rhagolygon cyflogaeth i bobl a allai fel arall ei chael yn anodd cael mynediad cyfartal at fyd gwaith. Byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu i hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Ngogledd Cymru.

**Wrth weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi gwneud y canlynol:**

- Cynhaliwyd digwyddiadau gweithredu cadarnhaol wyneb yn wyneb yn ystod y flwyddyn ar ôl cyfnod o'u gohirio yn sgil Covid-19 yn ystod 2020/21. Hysbysebwyd y rhain ac roeddent yn agored i ferched, pobl LGBTQ+, pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Cynhaliwyd y digwyddiadau cyn yr ymgyrch recriwtio ar gyfer diffoddwyr tân amser cyflawn, gan annog darpar ymgeiswyr 'nad oes mo'r fath beth â diffoddwr tân nodweddiadol'.

- Roedd tîm prosiect yr NFCC wedi gofyn i'r Awdurdod ddarparu gwybodaeth ar gyfer astudiaeth achos

am y gweithgareddau a gynhelir ar gyfer digwyddiadau gweithredu cadarnhaol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Ar ôl iddi gael ei gwblhau, bydd yn cael ei rhannu fel astudiaeth achos o arferion da i wasanaethau tân ac achub eraill ei gweld.

- Lluniwyd llyfrynnau canllawiau ffitrwydd i ddiffoddwyr tân sydd wedi cael eu rhannu â darpar ymgeiswyr i wella eu ffitrwydd. Mae'r rhain wedi cael eu rhannu ag aelodau'r dudalen Ffitrwydd Tân ar Facebook. Cafodd Pecynnau Cymorth Ffitrwydd eu creu a'u darparu i bawb sy'n ymholi cyn y broses recriwtio diffoddwyr tân amser cyflawn.

- Dathlwyd wythnos niwroamrywioldeb, a oedd yn cynnwys cyfweliadau ag aelodau o'r staff i godi ymwybyddiaeth ac i roi cefnogaeth.

- Roedd y Grŵp Llywio Ffitrwydd Tân (Get Fire Fit) wedi gweithredu'n rhithiol drwy Facebook Workplace i rannu syniadau i wella ffitrwydd a chyrraedd safonau ar gyfer bod yn ddiffoddwr tân. Mae'r fideos ymarfer Ffitrwydd Tân wedi cael eu rhannu cyn y broses recriwtio diffoddwyr tân amser cyflawn ac maent wedi cael eu defnyddio'n barhaus i hyrwyddo prosesau recriwtio diffoddwyr tân y system RDS.

- Sefydlwyd gweithgor i adolygu a llunio polisi a gweithdrefn ddrafft sy'n amlinellu'r broses i'w dilyn ar gyfer proses recriwtio a dyrchafu staff gweithredol amser cyflawn a rheolwyr criw ac uwch. Hefyd, cynhaliwyd proses recriwtio rheolwyr gwylfa a rheolwyr criw gan ddilyn strwythur y polisi a'r weithdrefn ddrafft. Arweiniodd hyn at benodi 9 rheolwr gwylfa ac 16 o reolwyr criw yn barhaol. Cynhaliwyd sesiwn werthuso ac adborth gyda'r gweithgor ac aelodau o'r panel cyfweld i ganfod unrhyw feysydd sydd angen eu gwella.

- Cwblhawyd rhagor o brosesau dyrchafu ar gyfer pob lefel o swyddi rhwng Ionawr a Mawrth 2022. Roeddent yn cynnwys cwestiwn addas i'r lefel yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a hynny yn unol â'n Gwerthoedd Craidd.

- Datblygwyd llyfryn gwybodaeth recriwtio, i'w ddefnyddio wrth hysbysebu swyddi cefnogol gan ddarparu cynnig mwy deniadol a difyr i ymgeiswyr o bob cefndir, gyda'r buddion a'r wybodaeth allweddol am y swydd mewn un lle.

- Crewyd rhestr 'hawl i weithio', yn unol ag Asiantaeth Ffiniau'r DU gyda dogfen gyfarwyddyd a rhestr wirio i reolwyr. Mae hyn yn helpu rheolwyr i wirio dogfennau gwreiddiol a ddarperir gan ymgeiswyr ar ddechrau eu cyflogaeth, ac mae'n sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â phrosesau statudol os bydd ymgeiswyr ymhellach i ffwrdd yn cael eu denu.

- Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno contract RDS newydd, yn ychwanegol at y contract presennol, er mwyn galluogi ymgeiswyr sy'n gallu cynnig argaeledd o'u gweithleoedd i gael eu hystyried am swydd RDS. Nod y newid hefyd yw denu gweithlu mwy amrywiol, a rhagwelir y bydd hyn yn gymorth hefyd i wella'r argaeledd yn ystod y dydd ar orsafoedd tân y system RDS.

- Parhawyd i gasglu gwybodaeth monitro cydraddoldeb gan bob ymgeisydd yn y cam ymgeisio ymhob proses recriwtio, fel bod modd casglu data i fonitro a sicrhau bod hysbysebion swyddi yn effeithiol. Roedd hyn hefyd yn cynnwys gofyn i'r ymgeiswyr ble roeddent wedi gweld yr hysbyseb er mwyn sicrhau bod swyddi'n cael eu hysbysebu yn y llefydd mwyaf priodol.

- Casglwyd data cydraddoldeb ymhob cam o ymgyrchoedd recriwtio mawr er mwyn monitro ac olrhain cynnydd ymgeiswyr o grwpiau sy'n cael eu tan-gynrychioli drwy gydol ein prosesau recriwtio.

- Bydd Adroddiad Monitro Cyflogaeth Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod yn cael ei gwblhau

a'i osod ar y wefan yn nhymor yr hydref 2022. Bydd yr adroddiad yn sail i gynllunio parhad, a bydd yn sbardun i ganfod pwy sy'n gweithio i ni. Dyma wybodaeth ddefnyddiol wedi'i dadansoddi yn ôl oedran, anabledd, hil, crefydd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r adroddiad yn gymorth hefyd i ganfod tan-gynrychiolaeth ymysg y staff yn y gwahanol fathau o waith (sef Staff Gweithredol, Staff Cefnogol a Staff yr Ystafell Reoli). Mae'r gwaith hwn yn dal yn flaenoriaeth allweddol i'r Awdurdod, er bod oedi wedi digwydd o ganlyniad i'r pandemig. Fodd bynnag, mae'r gwaith wedi ailddechrau ac mae'n parhau'n flaenoriaeth i'r Pwyllgor Llywio Cynhwysiant, Amrywiaeth a Chydraddoldeb yn ystod y flwyddyn i ddod.

- Roedd anawsterau'n gysylltiedig â Covid-19 wedi parhau i effeithio ar fynychu digwyddiadau recriwtio, gyda rhai digwyddiadau gyrfa wedi cael eu gohirio ar fyr-rybudd oherwydd bod lefelau trosglwyddo wedi codi mewn cymunedau. Er mwyn addasu a goresgyn hyn, roedd y Gwasanaeth wedi cofleidio'r defnydd o dechnoleg electronig i ddarparu mewnbwn i ffeiriau recriwitio rhithiol pan roedd modd.

- Cyflwynwyd strwythur trefniadaethol newydd, sy'n cynnwys Rheolwyr Recriwtio ac Argaeledd ledled tair ardal y rhanbarth (Gorllewin, Canol a Dwyrain). Byddant yn gyfrifol am fynychu digwyddiadau recriwtio.

- Er bod cyfyngiadau Covid wedi parhau i gyflwyno heriau i'r Gwasanaeth yn hanner cyntaf y flwyddyn, parhaodd y Pwyllgor Adnoddau Gweithredol i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau electronig i gysylltu â darpar recriwtiaid i'r Gwasanaeth. Rhannwyd gwybodaeth dros rwydweithiau a chysylltiadau personol er mwyn annog grwpiau amrywiol, gan gynnwys timau chwaraeon, i ymgysylltu a chymryd rhan.

- Cynhaliwyd digwyddiadau gweithredu cadarnhaol ym mis Mawrth 2022 cyn yr ymgyrch recriwtio Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn, gan ailenwi'r digwyddiadau'n Sesiynau Blasu. Roedd hysbysebion y sesiynau yn egluro bod y digwyddiadau wedi'u hanelu at grwpiau sydd wedi'u tan-gynrychioli ac mai'r pwrpas oedd chwalu'r rhwystrau rhag gwneud cais yn hytrach na sicrhau cynnig o gyflogaeth.

- Ym mis Medi 2021, roedd yr Awdurdod Tân wedi cael gwybodaeth am waith Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol (IFSG) ac wedi'i integreiddio i fusnes dyddiol yr adrannau. Roedd yn cynnwys y 27 o amcanion a oedd yn Rhaglen Waith i'r Grŵp yn 2019-22 a sut roedd pob un naill ai wedi cael ei gyflawni neu ei wreiddio. Bellach, sefydlwyd Grŵp Llywio newydd ar gyfer Cynhwysiant, Amrywiaeth a Chydraddoldeb, i adeiladu ar y gwaith hwn er mwyn rheoli'r perfformiad o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn yr Awdurdod.

- Cynigiwyd coetsio a mentora drwy wefan Academi Wales, tra roedd coetswyr / mentoriaid mewnol wedi cwblhau cymwysterau priodol. Hefyd, chwiliwyd am gyfleoedd yn dilyn cyflwyno Porthol a Phecyn Adnoddau Coetsio a Mentora'r NFCC, cyn gwneud rhagor o waith i greu diwylliant coetsio ar draws y sefydliad yn y flwyddyn i ddod.

- Datblygwyd dau becyn dysgu electronig ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i staff ar y system rheoli dysgu sydd gan y Gwasanaeth. Nawr, bydd cyfres o ddigwyddiadau arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael eu cynnal yn ystod 2022/23 i adeiladu ar yr hyn a ddysgir a hefyd ar y meysydd o ddiddordeb a ganfuwyd drwy arolwg diwylliannol y Gwasanaeth a gwerthusiadau'r staff.

- Cyflwynwyd cwrs hyfforddi sgiliau hanfodol i reolwyr goruchwyliol/rheolwyr timau, yn dilyn cynllun treialu cychwynnol. Mae'n cynnwys mwy o ymarferion yn seiliedig ar senarios yn ymwneud â bwlio, aflonyddu a modelau rôl.

- Ar gyfer pob digwyddiad camau ymlaen a datblygu, gofynnir i'r ymgeiswyr a myfyrwyr a oes ganddynt

unrhyw anghenion penodol y byddai angen addasu'r digwyddiad neu'r broses ar eu cyfer. Gofynnir am gyngor drwy ein swyddogaeth Adnoddau Dynol i benderfynu pa addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud a pha mor briodol yw'r addasiadau hynny ar gyfer pob achos.

- Sicrhawyd bod Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth yn ganolog i'r holl ddigwyddiadau datblygu a gynhelir gan y swyddogaeth hyfforddi a datblygu, gydag aelodau o staff hyfforddi a datblygu yn fodelau rôl drwy eu gweithredoedd a'u hymddygiadau.

- Gwreiddwyd y Gwerthoedd Craidd o fewn y digwyddiadau datblygu a drefnwyd ar Sgiliau Hanfodol i Reolwyr Llinell.

Amcan Cydraddoldeb 3

Byddwn yn hybu diwylliant cynhwysol lle mae arweinwyr a staff yn dangos eu hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb a chefnogaeth ar gyfer gweithlu teg a chynhwysol.

**Wrth gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi gwneud y canlynol:**

- Cynigwyd cyrsiau coetsio a mentora i hyfforddi aelodau o staff fel coetswyr a mentoriaid drwy brosesau arfarnu. Pan ganfuwyd cefnogaeth goetsio a mentora i gefnogi datblygiad neu pan ofynnwyd amdano yn benodol, mae staff wedi cael eu cyfeirio at y coetswyr sy'n darparu cymorth i'r sector cyhoeddus yng Nghymru drwy Borthol Dysgu Academi Wales.

- Mae'r modiwlau LearnPro ar Herio Ymddygiad Annerbyniol a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi cael eu cwblhau ac maent ar gael ar-lein i'r holl staff eu cwblhau.

- Darparwyd hyfforddiant i gyfeillion LHDTC+ a rheolwyr, gyda'r gwaith yn mynd ymlaen ar lunio cyfres o ddigwyddiadau arweinyddol i'w cynnal yn 2022/23 a fydd yn cynnwys rheoli timau amrywiol a hyrwyddo diwylliant cynhwysol.

- Newidwyd y prosesau dyrchafu ar bob lefel yn ystod 2021/22, gan gwblhau'r adolygiad mewn ymgynghoriad â chyrff cynrychioliadol ac adborth gan grwpiau staff. Roedd cydraddoldeb, tryloywder a thegwch yn ganolog i'r prosesau hyn, ac mae adolygiad o'r prosesau i fod i gael ei gynnal eto yn 2022/23.

- Roedd yr Awdurdod wedi penodi dau Reolwr Datblygu Polisi, sy'n gyfrifol am adolygu polisïau ar draws y Gwasanaeth a symleiddio'r broses o ysgrifennu polisïau, sicrhau ansawdd a chymeradwyo. Rhagwelir y bydd hyn yn gwella prydlondeb y gwaith adolygu polisïau, sy'n gwreiddio dadansoddi cydraddoldeb o fewn y gwaith o'u datblygu.

- Mae'r polisi recriwtio a'r polisi cwynion cyflogaeth wedi cael eu diweddaru er mwyn adlewyrchu'r arferion cyfredol, ac maent wedi'u cyhoeddi ar y fewnrwyd. Mae sawl polisi arall wrthi'n cael ei adolygu ar adeg ysgrifennu'r adroddiad diweddaru hwn.

- Gwnaethpwyd gwaith ar bolisïau disgyblu, a bydd yn y gwaith o symud ymlaen â nhw yn rhan o gylch gwaith y tîm Polisïau. Hefyd, penodwyd Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn dilyn ymddeoliad y swyddog presennol, a bydd yn gyfrifol am symud ymlaen ag unrhyw bolisïau sy'n ymwneud â chydraddoldeb.

- Cwblhawyd rhagor o waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn lleihau'r blwch cyflog rhwng y rhywiau. Mae hyn wedi digwydd gan fod mwy o ferched yn cael ei recriwtio i'r gwasanaeth, gan gynnwys i swyddi gweithredol. Cyflwynwyd data i'r llywodraeth am fylchau rhwng y rhywiau am 2021/22, a chafodd ei gyhoeddi ar ei gwefan yn unol â'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer adrodd.

- Caiff yr Adroddiad Monitro Cyflogaeth ei gyhoeddi yn hydref 2022. Bydd yn cynnwys yr holl ddata cyflogaeth a nodwyd yn y Ddyletswydd Cydraddoldeb ar gyfer Cymru 2011, gan sicrhau ei fod yn cael ei adrodd yn ôl y math o gontract, contractau parhaol a chyfnodau sefydlog, llawn amser, rhan amser a threfniadau gweithio hyblyg eraill. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi'r Awdurdod i fonitro amrywiaeth ei weithlu ac i gynllunio gweithgareddau gweithredu cadarnhaol yn briodol.

Amcan Cydraddoldeb 4

Drwy raglen gynhwysfawr o addysg a chyngor wedi'i deilwra ac a ddarperir yn unigol ac ar y cyd, grymuso pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru i barhau i ostwng eu lefel eu hunain o risg rhag tân a pheryglon eraill drwy gydol y gwahanol gyfnodau o'u bywydau.

**Wrth weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi gwneud y canlynol:**

- Ailddechreuwyd y rhaglen o ymgysylltu â chymunedau/ysgolion/colegau penodol. Bydd maint y gwaith ymgysylltu yn cael ei benderfynu gan lefelau Covid yn y cymunedau wrth i ni ddod allan o'r pandemig.

- Mae adnoddau ar gyfer Cymru gyfan yn parhau i gael eu datblygu a'u cysoni â'r cwricwlwm newydd. Pan fydd problemau wedi'u canfod mewn ardal, bydd y gwaith ymgysylltu'n cynnwys y mater hwnnw. Mae'r holl sesiynau yn cynnwys cynlluniau gwersi sy'n bwrpasol neu wedi'u teilwra. Mae aelod o'r staff wedi cwblhau lefel 1 mewn Iaith Arwyddion Prydain, sy'n gymorth i ddarparu diogelwch cymunedol. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i ddatblygu amrywiaeth o ddeunyddiau ar gael drwy lwyfan addysgol StayWise Cymru.

- Roedd yr effaith y gallai'r argyfwng costau byw ei chael ar y grwpiau mwyaf bregus yn ein cymunedau wedi cael ei chynnwys yn ystod gweithgareddau diogelwch cymunedol, yn ogystal ag unrhyw effeithiau pellach yn sgil yr ymchwiliad i dân Tŵr Grenfell.

- Gosodwyd cyfres o daflenni gwybodaeth am gydraddoldeb ar wefan yr Awdurdod o dan pob un o'r nodweddion gwarchodedig, gyda gwybodaeth yn esbonio'r Model Cymdeithasol o Anabledd ar y dudalen cydraddoldeb ar y fewnrwyd.

## Blaenoriaeth 4 – Diogelwch Personol

Amcan Cydraddoldeb 5

Lleihau'r risg o farwolaeth neu anaf oherwydd tanau yng Ngogledd Cymru drwy ddarparu gwasanaethau ataliol ac amddiffynnol effeithiol ac ymateb tân ac achub mewn argyfwng.

**Wrth weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi gwneud y canlynol:**

- Parhawyd i gyflwyno hyfforddiant yn y Gymraeg i'r staff, gyda'r bwriad o barhau â chynllun hyfforddi i ddechreuwyr newydd a hyfforddiant gloywi i aelodau presennol o'r staff.

- Cyflwynwyd hyfforddiant i bob adran a gweithwyr newydd ar ddiogelu'r bobl fwyaf bregus yn ein cymuned, ynghyd ag adolygiadau rheolaidd i nodi'r arferion gorau ac i ddatrys unrhyw broblemau a welir. Mae'r Awdurdod hefyd wedi cwblhau hunanasesiad Diogelu'r NFCC, ac mae'n paratoi i gynnal adolygiad cymheiriad ar lefel Cymru gyfan.

- Parhawyd i gynyddu nifer yr ymweliadau wyneb yn wyneb yn y gymuned, tra'n cael ei adolygu'n barhaus ac yn cael gwybod am gyngor ac arweiniad Llywodraeth Cymru ar Covid-19.

## Blaenoriaeth 5 – Cyfranogiad a Chyfathrebu

Amcan Cydraddoldeb 6

Drwy fod yn agored ac atebol am yr hyn a wnawn a beth yw ein cynlluniau, annog pobl i gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar y ffordd y caiff gwasanaethau tân ac achub eu cynnal yng Ngogledd Cymru, a cheisio cynyddu'r amrywiaeth o leisiau cynrychioliadol sy'n cyfrannu at y broses honno.

**Wrth weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi gwneud y canlynol:**

- Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb wedi arwain at negeseuon ac ymgyrchoedd addas ac wedi cydlynu ein presenoldeb mewn digwyddiadau gyda grwpiau sy'n cael eu tan-gynrychioli, sydd wedi cofleidio a datblygu cysylltiadau yn ein cymunedau.

- Bod yn rhan o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, sydd wedi bod yn cwrdd bob yn ail fis ac wedi nodi bod ymgysylltu â grwpiau sy'n cael eu tan-gynrychioli yn un o'u hamcanion allweddol ar gyfer 2022/23. Bydd y cydweithrediad hwn yn ehangu mynediad ac yn cynyddu'r gallu i gysylltu â gwahanol grwpiau cymunedol ledled Gogledd Cymru.

- Aethpwyd ati i ymgysylltu â grwpiau sy'n cael eu tan-gynrychioli drwy ei bartneriaid strategol ac asiantaethau eraill. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei gefnogi gan y Swyddog Cydraddoldeb, a bydd yn parhau gyda chefnogaeth rhwydweithiau staff, i greu cysylltiadau gwell gyda chymunedau fel ffordd o gyflawni ein hamcanion a'n canlyniadau cydraddoldeb strategol yn barhaus.

- Parhawyd i ddod allan o gyfnod Covid-19 gyda mwy a mwy o ymgysylltiadau wyneb yn wyneb yn y gymuned, er mwyn datblygu rhaglen ailymgysylltu barhaus a hir sydd wedi arwain at dderbyn atgyfeiriadau gan fwy na 60 o asiantaethau partneriaethol drwy gytundebau rhannu data.

- Cynhliawyd ymgyrchoedd diogelwch cymunedol drwy'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd, sydd wedi cael eu trefnu ac wedi cael yr adnoddau priodol cyn y flwyddyn i ddod, ynghyd ag amcanion clir a gwerthusiadau dilynol.

- Ystyriwyd dulliau cyfathrebu priodol fel rhan o'r strategaethau a fabwysiadwyd, gan gydweithio â phartneriaid yng Ngogledd Cymru a gyda phartneriaid yng Ngwasanaethau Tân ac Achub Cymru, fel y bo'n briodol.

- Mae Cyfathrebiadau Corfforaethol wedi cefnogi gwaith sy'n ymwneud ag edrych ar y ffyrdd gorau o gyflwyno Archwiliadau Diogel ac Iach a rhaglenni addysgiadol, tra'n cyflawni amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth fel rhan o'r gwaith.

- Roedd taflen 'diogel ac iach' newydd, hawdd ei darllen wedi cael ei datblygu gyda chymorth arbenigwyr allanol yn y maes – cafodd ei threialu'n llwyddiannus ac erbyn hyn mae wedi cael ei mabwysiadu ledled Gogledd Cymru.

- Cynyddwyd ein gwaith ymgysylltu gyda mwy o gymunedau lleol drwy ddigwyddiadau lleol,

digwyddiadau recriwtio a diwrnodau agored y Gwasanaeth. Cafwyd cynnydd sylweddol yn y gwaith ymgysylltu, gydag aelodau lleol o'r cyhoedd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'n negeseuon diogelwch yn ogystal â chyfleoedd i recriwtio. Caiff y gwaith hwn ei gefnogi gan becyn digwyddiadau newydd fel canllaw i'r staff ar y ffyrdd gorau o gymryd rhan mewn digwyddiadau lleol neu drefnu digwyddiadau ar orsafoedd er mwyn sicrhau cysondeb yn y dulliau.

- Cynhaliwyd archwiliad o hygyrchedd ein gwefan, gan gadarnhau bod ein safonau hygyrchedd y rhai uchaf posibl, a bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu'n rheolaidd.

- Parhawyd i ddefnyddio llwybrau caffael cyhoeddus, drwy'r fframweithiau amrywiol sydd ar gael. Mae gwaith caffael ar y cyd yn parhau rhwng y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru.

- Ystyriwyd y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol mewn perthynas â phenderfyniadau trefniadaethol strategol, a chafodd ei hymgorffori yn y templed sydd gan y Gwasanaeth ar gyfer Asesiadau Effaith Integredig.

Yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, mae gwybodaeth benodol am gyflogaeth o ran gweithwyr ac ymgeiswyr rhwng 1af Ebrill 2021 a 31ain Mawrth 2022 wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan.

Er mwyn hybu cyfle cyfartal a mynediad cyfartal, cysylltwch â'n Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant os ydych eisiau cael yr adroddiad hwn mewn print bras, iaith wahanol a/neu fformat gwahanol.

## CRYNODEB O WYBODAETH AM BERFFORMIAD



Roedd Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2015 yn cyflwyno tri dangosydd perfformiad statudol sy'n cyd-fynd â dangosyddion a gasglwyd yn lleol am y sector.

| **DANGOSYDDION STATUDOL:** | | **2020/21** | | **2021/22** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Nifer** | **Cyfradd** | **Nifer** | **Cyfradd** |
| RRC/S/001i | Tanau yr aethpwyd atynt | 1,770 | 25.34 | 1,879 | 26.70 |
| RRC/S/001ii | Galwadau diangen yr aethpwyd atynt | 2,314 | 33.13 | 2,517 | 35.79 |
| RRC/S/001iii | Gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd | 105 | 1.50 | 207 | 2.94 |
| RRC/S/001iiv | Digwyddiadau brys eraill yr aethpwyd atynt | 509 | 7.29 | 751 | 10.68 |
| Pan fo'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o bobl | | | | | |
| RRC/S/002i | Marwolaethau ac anafiadau oherwydd tân | 50 | 7.11 | 58 | 8.25 |
| RRC/S/002ii | Marwolaethau ac anafiadau yn deillio o danau a gafodd eu cynnau'n ddamweiniol | 47 | 6.68 | 50 | 7.11 |
| Pan fo'r gyfradd yn seiliedig ar 100,000 o bobl | | | | | |
| RRC/S/002iii | Tanau mewn anheddau a gyfyngwyd i'r ystafell wreiddiol | 339 | 87.60 | 375 | 87.62 |
| Fel canran o nifer y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt | | | | | |

| **DANGOSYDDION Y SECTOR:** | | **2020/21** | | **2021/22** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Nifer** | **Cyfradd** | **Nifer** | **Cyfradd** |
| SEC/FI/001i | Tanau bwriadol | 446 | 6.38 | 471 | 6.70 |
| SEC/FI/001ii | Tanau damweiniol (neu nad yw'r cymhelliad yn hysbys) | 1,324 | 18.93 | 1,408 | 20.02 |
| Pan fo'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o bobl | | | | | |
| SEC/IN/002i | Marwolaethau yn gysylltiedig â thân | 5 | 0.72 | 7 | 1.00 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| SEC/IN/002ii | Anafiadau a achoswyd gan danau | 42 | 6.01 | 51 | 7.25 |
| SEC/IN/002iii | Marwolaethau'n gysylltiedig â thân mewn Tanau damweiniol mewn anheddau | 4 | 0.57 | 5 | 0.71 |
| SEC/IN/002iv | Marwolaethau'n gysylltiedig â thân mewn Tanau bwriadol mewn anheddau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| SEC/IN/002v | Anafiadau'n gysylltiedig â thân mewn Tanau damweiniol mewn anheddau | 32 | 4.57 | 39 | 5.54 |
| SEC/IN/002vi | Anafiadau'n gysylltiedig â thân mewn Tanau bwriadol mewn anheddau | 1 | 0.14 | 5 | 0.71 |
| Pan fo'r gyfradd yn seiliedig ar 100,000 o bobl | | | | | |
| SEC/FI/001iii | Tanau mewn anheddau | 387 | 11.78 | 428 | 12.99 |
| SEC/FI/001iv | Tanau damweiniol mewn anheddau | 360 | 10.96 | 400 | 12.14 |
| SEC/FI/001v | Tanau bwriadol mewn anheddau | 27 | 0.82 | 28 | 0.85 |
| SEC/FA/003ii | Galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig mewn anheddau | 940 | 28.62 | 1,100 | 33.40 |
| Pan fo'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o bobl | | | | | |
| SEC/FI/001vi | Tanau mewn safleoedd annomestig | 145 | 4.53 | 156 | 4.74 |
| SEC/FA/003i | Galwadau diangen gan larymau tân awtomatig ar safleoedd annomestig | 273 | 8.54 | 295 | 8.95 |
| Pan fo'r gyfradd yn seiliedig ar 1,000 o safleoedd annomestig | | | | | |
| SEC/SA/004i | Tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt lle nad oedd larwm mwg yno | 61 | 15.76 | 58 | 13.55 |
| Fel canran o nifer y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt | | | | | |

## Y SIARTER YMATEB I DANAU MEWN ANHEDDAU YN 2021/22

Yn ystod 2012, aeth y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru ati ar y cyd i ddatblygu Siarter Cymru gyfan i sicrhau bod pobl, ni waeth ble maent yn byw yng Nghymru, yn gallu disgwyl cael eu helpu a'u cefnogi i aros yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi ac os bydd tân yn cynnau y byddant yn derbyn ymateb brys yn brydlon, effeithiol a phroffesiynol i'w galwad am gymorth.


Mae'r Siarter yn gwneud saith ymrwymiad penodol y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn gwneud y canlynol:

1. Cymryd yr awenau wrth ostwng nifer y tanau sy'n digwydd mewn anheddau a lleihau eu heffaith ar bobl.
2. Ymateb yn gyflym ac effeithlon bob tro y cawn alwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.
3. Cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r cyfarpar cywir i ymdrin â nhw.
4. Ymdrin yn effeithiol, effeithlon a phroffesiynol â thanau mewn anheddau.
5. Cyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.
6. Ymchwilio i'r hyn sy'n achosi tanau mewn anheddau a dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.
7. Ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â'n cydymffurfiaeth â'r ymrwymiadau hyn yn ystod 2021/22.

Er cysondeb, rydym yn defnyddio naratif safonol ar gyfer adrodd ynglŷn â'r Siarter bob blwyddyn, a dim ond y ffigyrau yn y fframwaith naratif y byddwn yn eu diweddaru.

**1. Byddwn ni’n cymryd yr awenau i ostwng nifer y tanau mewn anheddau sy’n digwydd ac i leihau eu heffaith ar bobl.**



Rydym wedi ymrwymo i gymryd yr awenau o ran cynnal tueddiad am i lawr yn nifer yr achosion o danau mewn anheddau a'r anafusion sy'n gysylltiedig â'r rheini yng Nghymru.

Yn 2020/21, rydym wedi rhoi cyngor ac anogaeth i bobl ynglŷn â sut gallant atal tanau rhag digwydd yn eu cartref a sut gallant eu cadw eu hunain yn ddiogel rhag tân. Roedd ein gwaith ataliol yn cynnwys cynnal 14,036 o Archwiliadau Diogel ac Iach i gartrefi, a rhoddwyd sgwrs am ddiogelwch tân i 8,279 o blant a phobl ifanc yng nghamau allweddol 1 – 4.
Yn ystod 2021/22, aethom at 399 o danau damweiniol mewn anheddau. O ganlyniad i’r tanau hynny, collodd pump o bobl eu bywydau a chafodd 39 arall anafiadau. Mae nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yn ardal yr ATA wedi tueddu am i fyny, ac aethpwyd at 327 o danau damweiniol yn ystod 2018/19.

Yn anffodus, mae nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yn ardal yr ATA dros y pum mlynedd ddiwethaf, a oedd wedi gostwng yn 2018/19 o gymharu â 2017/18, wedi tueddu am i fyny.



**2. Byddwn ni’n ymateb yn gyflym ac effeithlon bob tro y cawn alwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.**
Rydym wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym ac effeithlon pan fydd galwadau 999/112 yn cael eu rhoi drwodd i ni gan y gweithredwr.

Mae ein hystafell reoli yn dal ar gael bob awr o’r dydd a’r nos drwy gydol y flwyddyn, ac mae trefniadau arbennig ar gael ar gyfer trosglwyddo galwadau’n llyfn o un ystafell reoli i’r llall os bydd rhywbeth difrifol yn tarfu neu gynnydd yn nifer y galwadau sy’n cyrraedd ar yr un pryd.

Mae systemau mapio ac electronig soffistigedig yn ein helpu i wneud y canlynol: a) canfod lleoliad y digwyddiad dan sylw a b) anfon yr adnodd mwyaf priodol sydd ar gael at y digwyddiad.


Yn 2020/21, roeddem wedi delio â chyfanswm o 12,470 o alwadau brys 999/112. Roeddem yn gallu cael digon o wybodaeth am danau mewn cartrefi i hysbysu'r ymateb cychwynnol priodol o fewn 90 eiliad ar 89.2% o'r adegau, a rhwng 91 a 120 eiliad ar 6.6% o adegau.

Fodd bynnag, gwyddom nad y cyflymder wrth ddelio â galwadau – er bod hynny’n bwysig – yw’r unig linyn mesur. Mae gwybod ble mae angen ein gwasanaethau yn gofyn am sgiliau arbenigol i gael yr wybodaeth yn effeithiol gan y sawl sy’n galw a allai, er enghraifft, fod yn anghyfarwydd â’r ardal, yn ofnus neu mewn trallod, yn ifanc iawn, neu ag anawsterau cyfathrebu neu ieithyddol.

Sgil bwysig arall yw gwybod pryd mae’r sawl sy’n galw yn camddefnyddio’r system 999/112 drwy honni’n ffug fod argyfwng pan nad oes un mewn gwirionedd. Mae’n drosedd i wneud galwadau diangen bwriadol i’r gwasanaethau brys. Yn anffodus, nid ymddengys fod hynny’n atal lleiafrif o bobl rhag cymryd amser ar y llinellau 999 a chadw gwasanaethau draw oddi wrth bobl a allai fod mewn sefyllfaoedd peryglus go iawn. Bob tro y byddwn yn troi allan at un o’r galwadau diangen maleisus hyn, mae’n gwastraffu amser ac arian ac yn golygu bod gweddill y gymuned mewn mwy o berygl.

Yn 2020/21, roeddem wedi derbyn 80 o alwadau ffug maleisus. Yn 45% o’r achosion, roeddem wedi gallu canfod nad oedd y galwadau hyn yn ddidwyll felly fe wnaethom ni osgoi anfon adnoddau allan yn ddiangen.

**3. Byddwn ni'n cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r offer cywir i ymdrin â nhw.** Pan fyddwn ni wedi ateb yr alwad frys 999/112 ac wedi dyrannu'r adnoddau mwyaf priodol i gyrraedd y digwyddiad yn gyntaf, ein blaenoriaeth nesaf yw cyrraedd y digwyddiad yn gyflym a diogel gyda'r offer cywir i ymdrin â'r digwyddiad.



Yn 2021/22, roeddem wedi ymateb i 10% o danau mewn anheddau o fewn 1-5 munud, 53% o fewn 5-10 munud, 20% o fewn 10-15 munud a 17% mewn mwy na 15 munud. Mae'r adegau hyn yn cynnwys yr amser i'r staff gyrraedd yr orsaf dân yn ogystal â'r amser teithio. Felly gall nifer o bethau effeithio ar gyflymder y ffigyrau ymateb, gan gynnwys daearyddiaeth drefol/wledig a natur rhwydweithiau'r ffyrdd yn yr ardal.

Mae cyflymder yr ymateb i danau mewn anheddau yn bwysig tu hwnt, ond ni allwn orbwysleisio mor bwysig yw atal y tanau hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf, a bod ag o leiaf un larwm mwg sy'n gweithio a chynllun dianc wedi'i gynllunio ymlaen llaw rhag ofn y bydd tân yn digwydd. Fodd bynnag, os oes tân mewn annedd wedi digwydd, rydym yn sicrhau bod gan ein criwiau diffodd tân yr offer cywir i ddelio â hynny.

Mae ein diffoddwyr tân yn cael cyfarpar PPE a chyfarpar diffodd tân o ansawdd uchel. Rydym yn mynnu eu bod yn ffit ac iach yn weithredol ac yn rydym yn sicrhau bod eu sgiliau'n cael eu profi a'u hymarfer yn rheolaidd. Rydym hefyd yn gwirio'n rheolaidd bod y ffordd y mae ein criwiau wedi delio â digwyddiadau yn cyd-fynd â gweithdrefnau diffodd tân arferedig.

Mae diogelwch ein diffoddwyr tân yn bwysig iawn i ni, oherwydd y gwaith a wneir ganddynt. Yn 2021/22, aeth ein criwiau at 1,878 o danau mewn amryw o wahanol fathau o safleoedd ac mewn lleoliadau awyr agored. Wrth ddiffodd y tanau hynny, nid oedd unrhyw aelod o'r staff gweithredol wedi cael anaf.

**4. Byddwn yn ymdrin â thanau mewn anheddau yn effeithiol, effeithlon a phroffesiynol.** Rydym wedi ymrwymo i ymdrin â thanau'n effeithiol, effeithlon a phroffesiynol. I wneud hyn, rydym yn rhoi'r sgiliau, gwybodaeth, offer diffodd tân a'r gefnogaeth reolaethol i'n criwiau tân sydd wedi cael lefel uchel o hyfforddiant. Felly, ni waeth beth yw amgylchiadau'r tân mewn annedd, byddant wedi cael eu paratoi'n gywir i ymdrin â hynny.




Yn 2021/22, o'r holl danau mewn anheddau yr aethom atynt, llwyddwyd i gadw 89% ohonynt i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn heb ledaenu ymhellach. Er y gallai nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at yr ystadegyn hwn fod y tu hwnt i reolaeth y criw, megis pa mor hir gymerodd hi i rywun ddarganfod y tân yn y lle cyntaf, a oedd drysau mewnol wedi cau ai peidio er mwyn helpu i atal y tân rhag lledaenu, a pha mor bell o orsaf dân yr oedd yr annedd, rydym yn dal yn ystyried bod hwn yn ddangosydd rhesymol o'n llwyddiant yn diffodd tanau.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwelliannau ym maes ymchwil ac offer, ac rydym yn sicrhau ein bod yn buddsoddi amser ac ymdrech i ddilyn y datblygiadau diweddaraf.

Rydym hefyd yn cymryd delwedd broffesiynol y gwasanaeth tân ac achub o ddifri. Rydym yn rhoi pwys mawr ar nodweddion personol a phriodweddau ein holl staff gweithredol, yn ogystal â'u ffitrwydd corfforol a seicolegol a'r safon uchel i'w hyfforddiant gweithredol a rheolaethol.

Rydym yn annog ein holl staff i gadw at set o werthoedd craidd a fabwysiadwyd yn genedlaethol gan y gwasanaeth tân ac achub yn y Deyrnas Unedig. Mae hynny'n fynegiant o'n hymrwymiad i roi gwerth ar wasanaeth i'r gymuned, i bobl, i amrywiaeth ac i welliant.



**5. Byddwn ni'n cyfrannu at gael pethau yn ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.**

Rydym wedi ymrwymo i gyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.

Gall tân yn y cartref adael pobl yn teimlo'n eithriadol o fregus. Pan fo pobl wedi colli eu heiddo, bydd angen iddynt gael cymorth ymarferol yn ogystal ag emosiynol. Pan fo pobl wedi cael eu hanafu neu eu lladd yn y tân, gall y profiad effeithio ar gymunedau cyfan yn ogystal â'r unigolyn a'i deulu a'i ffrindiau agosaf. Felly, ni fydd gwaith y gwasanaeth tân ac achub yn cefnogi cymunedau yn dod i ben fo'r tân wedi cael ei ddiffodd a bod cyfrif wedi'i roi am bawb.

Ymhob achos, ymchwilir i'r hyn a achosodd y tân a chofnodir hynny'n fanwl. Cofnodir pob manylyn o sut a ble cychwynnodd y tân, pa mor bell y lledaenodd, unrhyw amgylchiadau arbennig, unrhyw ffactorau penodol a gyfrannodd at y tân, a hynny ar gyfer dysgu, ymchwilio, a monitro yn y dyfodol.

Os oes rheswm i gredu i'r tân gael ei gynnau'n fwriadol mewn annedd, naill ai gan rywun sy'n byw yno neu gan rywun arall, bydd yr heddlu a'r asiantaethau perthnasol eraill yn mynd ynglŷn â hyn.

Ar rai safleoedd, megis blociau o fflatiau neu dai lle mae nifer o wahanol denantiaid yn byw, gallai'r ymchwiliadau ar ôl y digwyddiad ddangos bod landlord wedi methu sicrhau'r lefel angenrheidiol o ddiogelwch tân. Yna, gallai ein hymchwilwyr tân arbenigol fod yn rhan o ymchwiliad troseddol ac achos llys.

Os canfyddir bod tân wedi cynnau'n ddamweiniol, mae'n bosibl y byddwn yn cynnal rhyw fath o weithgarwch neu ymgyrch diogelwch tân yn y cyffiniau, i gynnig cyngor a sicrwydd drwy Archwiliadau Diogel ac Iach yn rhad ac am ddim.

**6. Byddwn ni'n ymchwilio i'r hyn sy'n achosi tanau mewn anheddau ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.**



Byddwn ni bob amser yn ymchwilio i'r hyn sy'n achosi tanau mewn anheddau. Mewn llawer o achosion, bydd y tarddiad a'r hyn a achosodd y tân yn glir a syml iawn, ond bydd angen ymchwiliad fforensig manylach ar gyfer rhai eraill er mwyn canfod beth sy'n fwyaf tebygol o fod wedi achosi'r tân. Yn 2021/22, cofnodwyd bod 25 o danau mewn anheddau ag achos anhysbys.

Os amheuir trosedd, caiff yr ymchwiliad i'r tân ei gynnal gyda'r heddlu. Mae pobl a amheuir o roi annedd ar dân yn fwriadol yn debygol o wynebu achos troseddol, ond mewn rhai achosion efallai nad dyma fydd yr unig lwybr sydd ar gael, er enghraifft os cafodd y tân ei gynnau gan blentyn ifanc neu gan rywun yn ceisio cyflawni hunanladdiad.

Yn 2021/22, aethom at 428 o danau mewn anheddau, a chanfuwyd bod 29 ohonynt wedi cael eu cynnau'n fwriadol.

Mewn rhai safleoedd preswyl, megis fflatiau a thai amlfeddiannaeth, mae'r rhannau cymunol a chyffredin yn dod dan reolaethau sy'n mynnu bod pwy bynnag sy'n gyfrifol am y safle (megis y landlord neu reolwr y safle) yn sefydlu trefniadau da ar gyfer diogelwch tân. Gall methu â gwneud hynny arwain at gau'r safle ac erlyn y sawl sy'n gyfrifol, gyda'r siawns o garchar a/neu ddirwy heb gyfyngiad.

Fel awdurdod gorfodi, rydym yn sicrhau bod personau cyfrifol yn cyflawni'r rhwymedigaethau sydd

arnynt o dan y ddeddfwriaeth hon, a gallant ddethol o blith amryw o opsiynau gorfodi sydd ar gael i ni, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb a'r risg a achosir gan y methiant.

Yn 2021/22, ni chyflwynwyd yr un hysbysiad gorfodi na hysbysiadau gwahardd ffurfiol, ac ni chwblhawyd unrhyw erlyniadau yn ystod y flwyddyn.



**7. Byddwn ni'n ymdrechu i gynnal safonau uchel ac i wella agweddau ar yr hyn a wnawn.**

Rydym yn ymdrechu'n gyson i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Dan y ddeddfwriaeth, mae awdurdodau tân ac achub yn cael eu categoreiddio'n 'Awdurdodau Gwella Cymreig' a disgwylir iddynt fynd ati'n rheolaidd i adolygu ac i wella eu perfformiad yn barhaus drwy broses ffurfiol o osod, gweithredu ac adrodd mewn perthynas ag amcanion gwella blynyddol.

Nid ydym yn cyfyngu ar ein gweithgareddau gwella i'r broses flynyddol ffurfiol hon; mae safonau uchel a gwelliant parhaus yn rhan annatod o'r modd rydym yn rhedeg y Gwasanaeth Tân ac Achub o ddydd i ddydd.

Dyma enghreifftiau o weithgareddau gwella sy'n cael eu cynnal:

- Ymateb yn gadarnhaol i adolygiadau gan gymheiriaid, archwiliadau ac arolygiadau;
- Ymateb yn gadarnhaol i ymatebion i ymgynghoriadau, adborth gan randdeiliaid, cwynion a chanmoliaeth;
- Dysgu o'n profiadau, megis o ôl-drafodaethau ar ôl digwyddiadau, adroddiadau am ddamweiniau neu ddamweiniau a oedd bron â digwydd;
- Cyfrannu at weithgorau, rhannu arferion da, a dysgu o'r ymchwil a gynhaliwyd;
- Manteisio ar gyfleoedd i ddysgu gan, a gyda, sefydliadau eraill drwy bartneriaethau, pwyllgorau, byrddau a chymdeithasau proffesiynol;
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl er mwyn cynnal ein gweithrediadau, megis drwy brosesau rheoli parhad busnes;
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, megis drwy fforymau cydnerthedd lleol;
- Mynd ati'n barhaus i ddatblygu sgiliau technegol a phroffesiynol ein staff;
- Cynnal ac adnewyddu ein hasedau ffisegol a chyfrifiadurol, megis ein cyfarpar, cerbydau, adeiladau a thechnoleg.

## BETH DDYWEDWYD GAN ERAILL AMDANOM

**Archwilio Cymru – Adolygiad o Gynhwysiant 2019/20**

Roedd adroddiad 2019/20 gan Archwilio Cymru yn canolbwyntio ar ddull a rheolaeth yr Awdurdod o gynnwys rhanddeiliaid wrth gynnig newidiadau i wasanaethau a pholisïau, ac wrth ddylunio gweithgareddau. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod gan yr Awdurdod bocedi o weithgarwch ymgysylltu da ond nid yw eto wedi symud i ddull strategol integredig o ymdrin â chynhwysiant.

**Archwilio Cymru – Cadernid Corfforaethol 2020/21**

Roedd yr adroddiad mwyaf diweddar gan Archwilio Cymru yn adolygu dull yr Awdurdod o ddelio â chadernid corfforaethol er mwyn rhoi sicrwydd ynglŷn â pha mor dda y mae'n mynd i'r afael â'r heriau ariannol a'r heriau o ran capasiti sy'n wynebu cyrff cyhoeddus. Canfu'r adroddiad fod yr Awdurdod wedi dangos ei gadernid byrdymor ond mae angen iddo wneud rhai penderfyniadau mawr er mwyn parhau'n gadarn yn y dyfodol:

- Cyllid: Mae'r Awdurdod wedi rheoli cyllidebau'n dda, ond mae angen mynd i'r afael â rhai risgiau allweddol er mwyn parhau'n gynaliadwy yn ariannol;
- Llywodraethu: Mae gan yr Awdurdod fframwaith da ar gyfer llywodraethu, ond mae angen i'r Aelodau chwarae rhan fwy canolog yn delio â'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub;
- Gweithlu: Mae gan yr Awdurdod weithlu cadarn ac mae wedi delio'n dda â'r heriau uniongyrchol, ond mae angen rheoli rhai risgiau tymor canolig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy;
- Asedau: Mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o'r modd y mae'n integreiddio asedau ac yn datblygu ei ddefnydd o dechnoleg ond mae angen mynd i'r afael â rhai heriau hirsefydlog er mwyn helpu i gefnogi cadernid yn y dyfodol;
- Parhad busnes: Mae cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer parhad busnes wedi helpu i gynnal cadernid corfforaethol a gweithredol wrth ymateb i'r pandemig.

## GWYBODAETH ARALL

Mae **Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** yn egluro dyletswyddau a grymoedd yr Awdurdod i wneud y canlynol:

- hybu diogelwch tân;
- diffodd tanau;
- amddiffyn pobl ac eiddo rhag tanau;
- achub pobl o ddamweiniau traffig ar y ffyrdd;
- ymateb i risgiau penodedig eraill, megis digwyddiadau cemegol;
- ymateb i argyfyngau mawr, megis ymosodiadau terfysgol.

Mae **Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007 a Gorchymyn (Diwygio) 2017** yn gosod dyletswyddau ar yr Awdurdod mewn cysylltiad ag argyfyngau sy'n cynnwys halogyddion cemegol, biolegol neu ymbelydrol; strwythurau'n cwympo; trenau, tramiau neu awyrennau; ac argyfyngau llifogydd a dŵr mewndirol pan fyddant yn golygu perygl marwolaeth, anaf difrifol neu salwch.

Mae **Deddf Argyfyngau Sifil 2004** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynllunio ar gyfer, ac ymateb i, argyfyngau mawr sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol, yr amgylchedd neu i ddiogelwch.

Mae **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod orfodi diogelwch tân mewn safleoedd annomestig, gan gynnwys y rhannau cyffredin mewn blociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth.

O dan **Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** rhaid i'r Awdurdod osod amcanion i fynd ati'n barhaus i wella'r hyn mae'n ei wneud a chyhoeddi gwybodaeth am ei welliannau a'i berfformiad.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod weithio tuag at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cenedlaethau o bobl yng Nghymru yn y dyfodol, a hynny'n unigol ac fel aelod statudol o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn gosod dyletswyddau ar yr Awdurdod i roi sylw dyledus i ddileu camwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio, i hybu cyfle cyfartal ac i feithrin perthynas dda rhwng pobl sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig.

Roedd **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** yn disodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, mae gan y Gymraeg yng Nghymru statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg a rhaid peidio â'i thrin yn llai ffafriol. Erbyn hyn, nid oes angen i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg, rhaid iddynt gydymffurfio â chyfres o Safonau cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg.

Cyflwynwyd **Deddf Diogelu Data y DU 2018** i foderneiddio deddfau diogelu data ac i ddiwallu anghenion economi a chymdeithas sy'n mynd yn fwyfwy digidol. Mae'n darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer diogelu data, mae'n gweithredu safonau GDPR ar draws yr holl waith prosesu data cyffredinol ac mae'n sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn parhau i gael deddfwriaeth briodol ar gyfer diogelu data ar ôl iddi adael yr Undeb Ewropeaidd.

**Llywodraeth Cymru – Pobl a Chymunedau**
http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/fire/?lang=en

**Archwilio Cymru**
Mae Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiadau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n gorfod asesu'r tebygolrwydd y bydd yr Awdurdod yn parhau i wella ac a yw'r Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau ac yn gweithredu yn unol â'r cyfarwyddyd perthnasol a gyhoeddwyd. Hefyd, bydd archwilwyr yn gweithio gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub ledled Cymru i gyflawni rhaglen o archwiliadau ariannol ac archwiliadau gwerth am arian.

**Trwydded i Atgynhyrchu Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus**
Caiff deunydd hawlfraint y Goron ei atgynhyrchu yn y ddogfen hon o dan Drwydded Rhif C2010002320.

**Ffynonellau gwybodaeth allanol a ddefnyddiwyd wrth lunio'r ddogfen hon**
Ystadegau Digwyddiadau Tân ac Achub Cymru: Digwyddiadau tân (llyw.cymru)
Ystadegau Digwyddiadau Tân ac Achub Lloegr:
Tablau data ystadegau tân - GOV.UK (www.gov.uk)
Adroddiad Llywodraeth Cymru ar Dueddiadau'r Dyfodol 2017:
https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/170505-future-trends-report-2017-en.pdf

**YMYRRYD OS OES METHIANT, NEU'R POSIBILRWYDD O FETHIANT, I GYDYMFFURFIO:**
Mae gan Lywodraeth Cymru rymoedd i ymyrryd:

- o dan adran 22 o **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004,** os yw o'r farn fod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, gweithredu yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mewn achosion o'r fath, byddai adran 23 - Protocol Ymyrryd yn gymwys;
- o dan adran 29 o **Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009**, os yw o'r farn fod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, cydymffurfio â'r Mesur. Fodd bynnag, ymhob un ond yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, ni chaiff Gweinidogion Cymru ymyrryd hyd oni fyddant wedi cynnig cymorth gwirfoddol i'r Awdurdod o dan adran 28 o'r Mesur.

## YMGYNGHORIADAU:

Bob blwyddyn, bydd yr Awdurdod yn ceisio barn a safbwyntiau'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru a rhanddeiliaid eraill fel rhan o'i broses o ddatblygu ei gynlluniau strategol a'i amcanion.

Dyma'r ymgynghoriadau diweddar:

| Teitl | Ymgynghoriad | Cyhoeddi | Ar gyfer |
|---|---|---|---|
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2020/21 ac ymlaen (Strategaeth Amgylcheddol newydd) | Hydref/Gaeaf 2019 | Mawrth 2020 | 2020/21 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2019/20 ac ymlaen | Haf/Hydref 2018 | Mawrth 2019 | 2019/20 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2018/19 ac ymlaen | Hydref 2017 | Mawrth 2018 | 2018/19 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2017/18 ac ymlaen | Hydref 2016 | Mawrth 2017 | 2017/18 |
| Amcanion Gwella 2016/17 | Hydref 2015 | Mawrth 2016 | 2016/17 |
| Amcanion Gwella 2015/16 | Hydref 2014 | Mawrth 2015 | 2015/16 |

## GEIRFA / DIFFINIADAU

- **Tanau**
  Mae pob tân yn cael ei roi mewn un o dri chategori, sef prif dân, tân eilaidd neu dân simnai.

- **Prif Danau**
  Tanau nad ydynt yn danau simnai, ac sy'n digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, peiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau eraill y tu allan megis pontydd, blychau postio, twneli ac ati.

  Mae tanau yn unrhyw le yn cael eu categoreiddio'n brif danau os ydynt yn cynnwys anafusion, achub neu ddianc, yn ogystal â thanau yn unrhyw le yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân atynt.

- **Tanau Eilaidd**
  Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau. Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai'n digwydd ar dir agored, mewn coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigaeth fel prif danau), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig.

  Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafusion, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.

- **Tanau Simnai**
  Tanau mewn adeiladau sydd wedi'u meddiannu, lle mae'r tân wedi'i gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.

  Nid yw tanau simnai yn cynnwys anafusion, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.

- **Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (digwyddiadau brys eraill)**
  Digwyddiadau lle nad oes tân a lle mae angen peiriant neu swyddog i ddod, ac maent yn cynnwys:
  - argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ac ati;
  - trychinebau mawr;
  - digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;
  - trefniadau ymlaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau.

- **Marwolaethau Tân (yn gysylltiedig â thân)**
  Pan fo person y mae ei farwolaeth wedi'i phriodoli i dân hyd yn oed os digwyddodd y farwolaeth wythnosau neu fisoedd yn ddiweddarach. Hefyd, mae ambell achos pan ddaw i'w amlwg wedyn nad tân achosodd y farwolaeth. Felly, mae'r ffigyrau hyn yn agored i'w diwygio.

- **Anafiadau Tân**
  Er cysondeb, ar ôl Ebrill 2009 drwy'r Deyrnas Unedig, caiff anafusion tân eu cofnodi o dan bedwar categori difrifoldeb:

  i) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn ddifrifol;
  ii) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn fach;
  iii) rhoddwyd cymorth cyntaf i'r dioddefwr yn y fan a'r lle yn unig, ac nid oedd angen rhagor o driniaeth;
  iv) argymhellwyd archwiliad rhagofalus – aeth y person i'r ysbyty neu cafodd gyngor i weld meddyg rhag ofn, ond nid oedd unrhyw anaf neu drallod amlwg.

- **Galwadau Diangen (canllaw cyffredinol)**
  Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad gan gredu bod digwyddiad yno, ond o gyrraedd mae'n gweld nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.

  Sylwch: os bydd y peiriant yn cael ei 'droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi mynd yno, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch.

- **Galwadau Diangen – Maleisus**
  Galwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus.

- **Galwadau Diangen – Didwyll**
  Galwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig.

- **Galwadau Diangen – Larymau Tân Awtomatig**
  Galwadau a ddaw gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu drwy ddamwain neu pan fo larwm yn canu a rhywun yn galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, heb 'benderfyniad', er enghraifft gan alwadau galwadau diogelwch neu rywun wedi'i enwebu o fewn sefydliad.

## FERSIYNAU ERAILL A SUT MAE CYSYLLTU Â NI

**Mae fersiynau eraill ar gael o'r ddogfen hon:**

- ar bapur ac mewn fformatau electronig;
- yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- fel taflen gryno o'r prif bwyntiau;
- mewn fformatau hygyrch drwy ein gwefan.

**Manylion Cyswllt:**

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC)
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

01745 535 250

www.gwastan-gogcymru.org.uk

**Gallwch chi hefyd ein dilyn ni ar:**

@northwalesfire

www.facebook.com/northwalesfireservice

**GWAHODDIAD I GYFRANNU AT Y GWAITH O WELLA EIN GWASANAETHAU**

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn wastad yn chwilio am ffyrdd o wella ei weithrediadau a sut mae'n darparu gwasanaethau. Drwy gyhoeddi gwybodaeth ystyrlon yn rheolaidd, gobeithio y gallwn ddenu lefel uwch o ymgysylltiad â'r bobl a'r cymunedau sy'n dibynnu ar ein gwasanaethau.

Felly, os oes gennych sylwadau am yr asesiad hwn, neu am sut y gallem wella ein hasesiadau perfformiad blynyddol yn y dyfodol, byddai'n dda iawn clywed gennych.

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Hydref 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Dafydd Edwards – Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard** |
| Pwnc | **Datganiad Archwiliedig o Gyfrifon 2021/22** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno Datganiad Archwiliedig o Gyfrifon 2021/22. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cafodd y cyfrifon drafft eu cyflwyno i'w harchwilio ar 31 Mai 2022. Roedd y rhain yn cadarnhau £37.074m o wariant net, gyda chyfraniad o £0.070m i'r Gronfa Gyffredinol. Nid yw'r sefyllfa archwiliedig derfynol wedi newid.

3 Yn ystod Mai 2022, rhoddodd Archwilio Cymru arweiniad pellach ar brisiadau asedau oherwydd y cynnydd sylweddol mewn costau adeiladu ac amgylchiadau'r farchnad. Roedd hyn yn gofyn am asesiadau manwl o brisiadau tir ac eiddo'r Awdurdod er mwyn penderfynu a oedd angen diwygio prisiadau asedau. Mewn cytundeb ag Archwilio Cymru, cafodd canlyniad y gwaith hwn ei ymgorffori mewn fersiwn ddiwygiedig cyn dechrau'r archwiliad.

4 Effaith y diwygiadau hyn, a'r rhai a nodwyd yn ystod yr archwiliad, oedd cynyddu gwerth cario amcangyfrifiedig ystâd yr Awdurdod i £43.391m (cyfrifon drafft £42.732m).

5 Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi'i nodi yn Atodiad 2 ac mae'n cadarnhau barn archwilio ddiamod.

6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol fod y cyfrifon archwiliedig yn cael eu cymeradwyo fel arfer gan yr Aelodau erbyn 31 Gorffennaf 2022. Fodd bynnag, fel y llynedd, mae'r amserlenni hyn wedi cael eu hymestyn i 30 Tachwedd 2022 oherwydd pwysau parhaus ar waith archwilio yn sgil Covid.

## ARGYMHELLIAD

7 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r sefyllfa alldro archwiliedig a'r perfformiad fel y nodir yn Natganiad o Gyfrifon 2021/22 (Atodiad 1);
(ii) nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod (Atodiad 2);
(iii) nodi'r llythyr cynrychiolaeth arfaethedig; a
(iv) cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon archwiliedig terfynol 2021/22.

## CEFNDIR

8 Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2019, mae'r Awdurdod wedi llunio datganiad o gyfrifon a gyflwynwyd i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin 2022. Mae'r rhain wedi bod yn destun archwiliad allanol ac mae'r atodiadau'n cynnwys y fersiynau archwiliedig terfynol.

## GWYBODAETH

## GWARIANT REFENIW

9 Roedd Aelodau'r Awdurdod wedi cael adroddiad ar berfformiad ariannol 2021/22 yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 20 Mehefin 2022. Roedd hwn yn cadarnhau sefyllfa alldro drafft y gwariant net, sef £37.004m, gyda chyfraniad o £0.070m i'r Gronfa Gyffredinol. Nid yw'r sefyllfa archwiliedig derfynol wedi newid.

## Y FANTOLEN

10 Mae'r Fantolen yn darparu rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol hirdymor yr Awdurdod, ac mae wedi'i chynnwys ar dudalen 19 o'r Cyfrifon (yn Atodiad 1). Mae'r paragraffau canlynol yn darparu rhagor o wybodaeth.

### Asedau sefydlog a benthyca

11 Mae'r cyfrifon archwiliedig terfynol yn cadarnhau bod yr Awdurdod yn dal £43.391m o asedau ar 31 Mawrth 2022 (Cyfrifon Drafft: £42.732m).

12 Yn dilyn cyflwyno'r cyfrifon drafft, gwnaethpwyd rhagor o waith ynghylch tir ac adeiladau. Mewn cytundeb ag Archwilio Cymru, cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig o'r cyfrifon cyn i'r archwiliad ddechrau.

13 Roedd priswyr annibynnol yr Awdurdod wedi tynnu sylw at ansicrwydd parhaus mewn perthynas â gwerth asedau yn y sector cyhoeddus, ac yn dilyn arweiniad gan Archwilio Cymru mae prisiad pellach wedi cael ei gwblhau, ar sail adroddiad adolygiad o'r farchnad gan y prisiwr.

14 Fel rhan o’r broses brisio, nodwyd addasiad archwilio arall mewn perthynas ag ailbrisio Gweithdy’r Fflyd a Storfeydd, gan fod yr adeilad wedi cael ei gategoreiddio’n anghywir gan y prisiwr. Cwblhawyd prisiad diwygiedig gan brisiwr yr Awdurdod, ac mae’r addasiadau wedi cael eu gwneud.

15 Mae gwaith yn mynd ymlaen gyda’r prisiwr i sicrhau bod prisiadau yn y dyfodol yn adlewyrchu pob adeilad ar bob safle, gan fod yr archwiliad wedi canfod hefyd fod nifer o dyrrau hyfforddi wedi cael eu hepgor. Heb gynnal rhagor o ailbrisiadau, nid oes modd pennu’r gwerth ond, ar sail amcangyfrifon a ddarparwyd, mae’r archwilydd wedi’i fodloni nad yw’r effaith yn arwyddocaol. Gwneir gwaith yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 i adolygu a diwygio’r holl brisiadau fel y bo’n briodol.

16 Caiff yr Awdurdod fenthyca i ariannu asedau cyfalaf, ac ar 31 Mawrth 2022 gwerth y benthyciadau sy’n weddill oedd £24.435m, sy’n cyd-fynd â’r terfynau a osodwyd gan yr Awdurdod.

**Ymrwymiadau Pensiwn**

17 Rhaid i’r Awdurdod roi cyfrif am yr ymrwymiadau amcangyfrifiedig o ran ei gynlluniau pensiwn. Mae gan yr Awdurdod ddau gynllun, sef Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Caiff gwerth ymrwymiadau’r dyfodol ei gyfrifo gan actiwari pob cynllun, ac roeddent yn £327.498m ar ddyddiad y fantolen. Caiff yr ymrwymiadau eu hamcangyfrif a rhoddir cyfrif amdanynt yn unol â’r gofynion cyfrifyddu technegol ac nid ydynt yn ymrwymiad ar unwaith.

**Cronfeydd defnyddadwy**

18 £7.325m oedd cronfeydd defnyddadwy’r Awdurdod ar 31 Mawrth 2022, ac maent yn cynnwys £1.520m o gronfa gyffredinol, £5.566m o gronfeydd a glustnodwyd, a £0.238m o grant cyfalaf heb ei gymhwyso. Cafodd y polisi ar gyfer cronfeydd ei gymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 21 Mehefin 2021.

19 Mae’r cronfeydd a glustnodwyd wedi cael eu haddasu £0.146m, mewn perthynas â grant gan Lywodraeth Cymru sydd bellach wedi’i gategoreiddio’n grant cyfalaf heb ei gymhwyso.

## ARCHWILIO’R DATGANIADAU ARIANNOL

20 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am ddarparu barn ynghylch a yw’r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o berfformiad a sefyllfa ariannol yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

21 Wrth gyflawni'r gwaith archwilio, nid yw Archwilio Cymru yn ceisio darparu sicrwydd absoliwt. Yn hytrach, mae'n ystyried a oes materion arwyddocaol a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon. Pan ganfyddir gwall neu gamddatganiad, bydd Archwilio Cymru yn ystyried a oes angen diwygio. Mae canllawiau ar y dull ar gael yn Atodiad 3.

22 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnig cyhoeddi barn archwilio ddiamod, sy'n golygu bod y cyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol yr Awdurdod. Mae'r adroddiad wedi'i gynnwys yn Atodiad 2, a nodir y canlynol:

- Roedd adroddiad yr archwiliad yn cydnabod y cynnydd a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol i wella ansawdd y datganiadau ariannol. Fodd bynnag, mae angen gwaith ychwanegol i wella rhagor ar y trefniadau sicrhau ansawdd er mwyn gostwng nifer yr addasiadau i'r archwiliad.

- Roedd yr archwiliad wedi nodi nifer o newidiadau, a chytunwyd ar y rhain gyda'r rheolwyr. Roedd y newidiadau'n cynnwys nifer o addasiadau technegol sydd eu hangen i gydymffurfio'n llwyr â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol.

23 Roedd yr archwiliad wedi nodi dau fater sy'n dal heb eu cywiro. Roedd yr eitem gyntaf yn ymwneud ag un taliad o £ 0.958m i Gronfa Bensiwn Clwyd i fynd i'r afael â'r diffyg yn y cyfnod 2021/22 at 2023/24. Drwy wneud cyfandaliad, roedd yr Awdurdod wedi manteisio ar gostau is dros y cyfnod o dair blynedd ac wedi dosrannu'r taliad dros y cyfnod perthnasol. Roedd yr ail eitem yn ymwneud â'r ffaith fod y prisiwr wedi gadael allan nifer o dyrrau yn y prisiadau ar gyfer yr adeiladau. Gwerth amcangyfrifiedig y tyrrau yw £0.586m.

24 Roedd Adroddiad yr Archwiliad hefyd yn cynnwys y llythyr cynrychiolaeth terfynol. Mae'r llythyr hwn yn darparu cynrychiolaeth gan y Cadeirydd a'r Trysorydd i gydnabod eu cyfrifoldebau ac i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod y cyfrifon yn darparu darlun gwir a theg.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae arian i'r Gwasanaeth yn fuddiol i gymunedau Gogledd Cymru ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn digwydd yn y seilwaith er mwyn galluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Caiff y gyllideb ei gosod bob blwyddyn yn unol â'r ddarpariaeth gwasanaethau arfaethedig, sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. Mae'r cyfrifon yn darparu dadansoddiad o gymharu â'r gyllideb. |
| **Cyfreithiol** | Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod lunio'r Datganiad o Gyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â'r safonau a ragnodwyd. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus i sicrhau bod unrhyw achosion o wyro o'r gyllideb yn cael eu canfod a'u hadrodd yn briodol i'r Aelodau. |

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Datganiad o Gyfrifon 2021/22



# TABL CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Datganiad o Gyfrifoldebau / Tystysgrif y Trysorydd | 3 |
| Adroddiad yr Archwiliad | 4-7 |
| Adroddiad Naratif | 8-15 |
| **Datganiadau Craidd:** | |
| Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | 16 |
| Datganiad ar y Symudiad mewn Cronfeydd | 17-18 |
| Y Fantolen | 19 |
| Datganiad Llif Arian | 20 |
| **Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol** | |
| Nodyn 1 - Crebwyll wrth ddilyn Polisïau Cyfrifyddu | 21 |
| Nodyn 2 - Rhagdybiaethau a wneir am y Dyfodol a Ffynonellau Pwysig Eraill o Ansicrwydd wrth Amcangyfrif | 21-22 |
| Nodyn 3 - Eitemau Pwysig o Incwm a Gwariant | 23 |
| Nodyn 4 - Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen | 23 |
| Nodyn 5 - Dadansoddiad o Wariant a Chyllid | 24-26 |
| Nodyn 6 - Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Chyllido dan Reoliadau | 26-28 |
| Nodyn 7 - Trosglwyddiad i ac o'r Cronfeydd a Glustnodwyd | 29 |
| Nodyn 8 - Gwariant ac Incwm Gweithredu Eraill | 29 |
| Nodyn 9 - Incwm a Gwariant Cyllid a Buddsoddiadau | 29 |
| Nodyn 10 - Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol | 29 |
| Nodyn 11 – Eiddo, Peiriannau ac Offer ac Asedau Anniriaethol | 30-31 |
| Nodyn 12 - Offerynnau Ariannol | 32-34 |
| Nodyn 13 - Gwerth Teg Asedau ac Ymrwymiadau sy'n cael eu cario ar gost amorteiddiedig | 35 |
| Nodyn 14 - Rhestrau Stoc | 36 |
| Nodyn 15 - Dyledwyr | 36 |
| Nodyn 16 - Arian a Chyfwerth ag Arian | 36 |
| Nodyn 17 - Credydwyr | 36 |
| Nodyn 18 - Darpariaethau | 37 |
| Nodyn 19 – Cronfeydd Defnyddiadwy | 37-38 |
| Nodyn 20 – Cronfeydd Annefnyddiadwy | 38-41 |
| Nodyn 21-23 - Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Gweithredu, Buddsoddi ac Ariannu | 42 |
| Nodyn 24 - Lwfansau Aelodau | 43 |
| Nodyn 25 - Taliadau Swyddogion | 44-46 |
| Nodyn 26 - Ffioedd Archwilio Allanol | 46 |
| Nodyn 27 – Grantiau | 46 |
| Nodyn 28 - Gwasanaethau Asiantaeth | 47 |
| Nodyn 29 - Partïon Cysylltiedig | 48-49 |

| | |
|---|---|
| Nodyn 30 - Gwariant ac Ariannu Cyfalaf | 49-50 |
| Nodyn 31 – Lesoedd | 50 |
| Nodyn 32 - Trafodion yn ymwneud â Buddion Ôl-gyflogaeth | 51-57 |
| Nodyn 33 - Natur a Maint y Risgiau sy’n deillio o Offerynnau Ariannol | 58 |
| Nodyn 34 – Asedau Amodol | 59 |
| Nodyn 35 – Ased Dibynnol | |
| Nodyn 36 – Safon Cyfrifyddu sydd wedi’u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto | 59 |
| Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân | 60-62 |
| Polisïau Cyfrifyddu | 63-71 |

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O GYFRIFON

### CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn gywir ac i sicrhau bod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y cyfryw swyddog yw'r Trysorydd
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

**ARDYSTIAD YR AWDURDOD**

Rwy'n cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2022.

Llofnod ____________________ Dyddiad ____________

**Y Cynghorydd**
***Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru***

### CYFRIFOLDEBAU'R TRYSORYDD

Y Trysorydd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon, mae'r Trysorydd wedi:

- dethol polisïau cyfrifyddu addas, ac yn wedi eu defnyddio'n gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus
- cydymffurfio â'r Cod Ymarfer
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfoes
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysonderau eraill.

**ARDYSTIAD Y TRYSORYDD**

Rwy'n tystio bod y cyfrifon yn darparu golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2022, ynghyd â'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Llofnod ____________________ Dyddiad ____________

**Dafydd Edwards**
***Trysorydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru***

# Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau  Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

**Barn ar ddatganiadau ariannol**

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol o:

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Gogledd Cymru

am y flwyddyn daeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Symudiadau wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifo perthnasol.

Mae Cyfrifon Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a Datganiad Asedau Net a nodiadau cysylltiedig.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso yn eu paratoad yn berthnasol yn gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol mabwysiedig y DU fel y'u dehonglir a'u haddasir gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi golwg wir a theg ar sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2022 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn wedyn i ben;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol mabwysiedig y DU fel y'u dehonglir a'u haddasir gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

**Sail barn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny'n cael eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i fy marn.

**Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol. Tudalen 11 o 16 - Adroddiad Archwilio Cyfrifon – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi ei gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol

ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gallu Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Gogledd Cymru i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol o ran busnes gweithredol yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth Arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Datganiad Cyfrifon ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd arnynt. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson o ran perthnasedd â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a geir yng nghwrs yr archwiliad, neu fel arall ei bod yn ymddangos ei bod wedi'i cham-ddatgan o ran perthnasedd. Os ydw i'n nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gam-ddatgan perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gam-ddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, rwy'n dod i'r casgliad bod yna gam-ddatgan perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gen i ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

**Adrodd ar ofynion eraill**

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yng nghwrs fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y caiff y datganiadau ariannol eu paratoi ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y caiff y datganiadau ariannol eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei baratoi yn unol â'r canllawiau.

**Materion yr wyf yn adrodd arnynt yn ôl eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi cam-ddatgan perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gen i ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu os nad oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi eu derbyn gan ganghennau na wnaeth fy nhîm ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn gytûn â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

**Cyfrifoldebau**

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ar gyfer y datganiadau ariannol**

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi golwg wir a theg, ac ar reolaeth fewnol o'r fath wrth i'r swyddog ariannol cyfrifol benderfynu bod angen galluogi paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gam-ddatgan perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am asesu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gallu Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i barhau fel busnes gweithredol, datgelu fel sy'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai ei fod yn cael ei ystyried yn amhriodol.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gam-ddatgan perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod cam-ddatgan perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall cam-ddatgan godi o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â fy nghyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod cam-ddatgan perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy gweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Gofyn i'r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud ag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a pholisïau a gweithdrefnau Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Gogledd Cymru sy'n ymwneud â:
- nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
- canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, dan amheuaeth neu honedig; a
- y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial am dwyll drwy bostio dyddlyfrau anarferol;
- Cael dealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru sy'n gweithredu, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau a phrofi'r datganiad ariannol i gefnogi dogfennau i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- gofyn i reolwyr a'r Awdurdod Tân ac Achub ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a photensial;

- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau rheoli, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ogwydd posibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfathrebu deddfau a rheoliadau perthnasol a nodir a risgiau twyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy gweithdrefnau yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid o ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a rheolaethau Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Gogledd Cymru, a natur, amseru a maint y gweithdrefnau archwilio a gynhaliwyd.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol wedi'i leoli ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | 24 Heol y Gadeirlan |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | Caerdydd |
| 2022 | CF11 9LJ |

## ADRODDIAD NARATIF


Diben yr adroddiad naratif hwn ydi rhoi gwybodaeth glir i bartïon â diddordeb ynghylch sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22.

## TROSOLWG O'R SEFYDLIAD

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) yn cynnwys 28 Aelod Etholedig sydd wedi eu henwebu gan bob un o'r chwe awdurdod lleol ac maent yn darparu cyfeiriad a llywodraethu'r gweithgarwch dydd i ddydd a ddarperir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn gwasanaethu cymunedau oddi mewn i ardaloedd Gwynedd ac Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint.

Mae ATAGC yn gyfrifol am ddarparu, hyfforddi a chyflenwi Gwasanaeth Tân ac Achub gyda'r gallu i ymgymryd â'r swyddogaethau canlynol:




Mae'r Gwasanaeth yn delio gyda phob math o argyfyngau, gan gynnwys tanau mewn tai, gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd, llifogydd a gollyngiadau cemegol. Caiff gwaith helaeth ei gyflawni gydag ysgolion, busnesau a chymunedau lleol i hyrwyddo diogelwch tân ac atal a helpu i gadw pobl ac eiddo yn ddiogel.

Caiff yr Awdurdod ei ariannu trwy gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol, mewn cyfrannedd â phoblogaeth.

Ceir manylion am ein hardal gwasanaeth, dull ariannu a gweithgarwch yn y tudalennau canlynol

# Ynglŷn â'n Hardal Gwasanaeth



## Adnoddau

**44** gorsaf dân ar draws Gogledd Cymru

**66** Injan dân

**39** Peiriant arbennig gan gynnwys cychod achub a pheiriannau cyrraedd yn uchel

**3** Swyddfeydd Diogelwch Cymunedol yng Nghaernarfon, Bae Colwyn a Bangor

**877** o weithwyr

## Gweithgareddau Ymgysylltu

Ymgysylltiad rhithiol â **8,297** o blant ysgol

Ymgysylltodd **64** o ddisgyblion â'r rhaglen Ffenics

**4** Grŵp cadetiaid tân sydd yn cefnogi tua

**40** o gadetiaid

Aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a

**4** Bwrdd Gwasanaethau

## Gweithgareddau Allweddol

Cwblhawyd **14,036** o Archwiliadau Diogel ac Iach

Cynhaliwyd **334** o archwiliadau busnes

Aethpwyd at **1,879** o danau

**2,517** o alwadau diangen

**958** o alwadau Gwasanaeth Arbennig gan gynnwys **207** o Wrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd

## AMCANION GWELLA A LLESIANT YR AWDURDOD

Mae’n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. At ddibenion prosesau cynllunio’r Awdurdod cânt eu trin fel un.

Mae’r amcanion tymor hir hyn yn newidiadau y mae’r Awdurdod am eu cyflwyno yng Ngogledd Cymru er mwyn helpu i wella llesiant yn lleol a symud Cymru gam yn nes tuag at gyflawni ei golau llesiant. Ar ôl nodi ei amcanion tymor hir, mae gan yr Awdurdod ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i’w cyflawni ac i adrodd yn gyhoeddus am y cynnydd a wnaed ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddodd yr Awdurdod ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2021/24, gyda set o saith o amcanion hirdymor:

- Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a lles pobl yng Ngogledd Cymru
- Parhau i weithio ar y cyd i helpu cymunedau i fod yn fwy cadarn
- Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o’r adnoddau sydd ar gael
- Parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltiad â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid
- Cynnal gweithlu sy’n addas o gadarn, medrus, proffesiynol a hyblyg
- Datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol o’r amgylchedd er mwyn lleihau’r effaith y mae ein gweithgarwch yn ei chael ar yr amgylchedd
- Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael.

Mae’r ddolen ganlynol yn rhoi gwybodaeth am weithgareddau a pherfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru o gymharu ag amcanion gwella dros y deuddeg mis diwethaf -Gwybodaeth ac ystadegau – Perfformiad a gwella – Amdanom Ni – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (llyw.cymru)

Y dyddiad cau statudol ar gyfer cyhoeddi Asesiad Perfformiad Blynyddol yw 30ain Medi 2022. Bydd yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gael ar y wefan yn Cynllunio Corfforaethol – Perfformiad a gwella – Amdanom Ni – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (llyw.cymru)

## PERFFORMIAD ARIANNOL

Yn ystod cyfnod o heriau ariannol sylweddol, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i barhau i ddarparu gwasanaethau ataliol, gwasanaethau gorfodi diogelwch tân ac ymateb brys rhagorol. Mae’r Awdurdod yn dal i ymrwymo i chwarae ei ran i adeiladu cymunedau mwy diogel, ond y mae hefyd yn cydnabod at y dyfodol, oherwydd y sefyllfa ariannol, y bydd angen llawer iawn o hyblygrwydd ac arloesedd i gynnal darpariaeth y gwasanaeth.

Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod a chynnal lefelau gwasanaeth, cytunodd yr Aelodau ar gynllun ariannol tymor canolig 3 blynedd. Ar gyfer 2021/22 cytunodd yr Aelodau i gynyddu cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol 3%, i £37.07m.

Dechreuodd y Prif Swyddog Tân ar ei swydd ar 1af Gorffennaf 2021 a chynhaliodd gyfres o gyfarfodydd yn fewnol gyda'r staff, cynrychiolwyr o Undeb yr FBU, arweinwyr gwasanaethau brys eraill yn ogystal â Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol. Arweiniodd y gwaith hwn at gyflwyniad i aelodau'r Awdurdod ar 20 Medi 2021 i drafod yr asesiad sefyllfaol. Roedd hwn yn cadarnhau mai'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod yw sicrhau bod lefel ddigonol o griwiau tân ar-alwad ar gael; sicrhau bod digon o adnoddau i gynnal a datblygu sgiliau diffoddwyr tân; a chael digon o gapasiti corfforaethol i gwrdd â'r galw yn y presennol a'r dyfodol.

Mae sefyllfa'r Awdurdod yn ddiogel yn y tymor canolig, ond mae angen rhoi sylw manwl i'r pwysau ar gostau mewn perthynas â phensiwn a'r gyflogres ac hefyd y newidiadau disgwyliedig i'r fecanwaith ariannu a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub.


## EFFAITH YR ARGYFWNG ECONOMAIDD PRESENNOL

Fel pob corff yn y sector cyhoeddus, mae'r Awdurdod wedi profi heriau sylweddol yn deillio o pandemig COVID-19, yn enwedig yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn.

Cymerwyd nifer o fesurau i sicrhau diogelwch ein gweithlu, a oedd yn cynnwys, pan fo modd, gweithio o gartref ac ar adegau oedi cyn recriwtio i swyddi gwag. Felly, roedd y gwariant gwirioneddol yn is na'r gyllideb a gynlluniwyd mewn nifer o feysydd, gan alluogi'r Awdurdod i sefydlu cronfeydd wrth gefn ar gyfer ymrwymiadau hysbys. Mae'r holl swyddi gwag yn parhau'n hanfodol i gyflawni amcanion y Gwasanaeth a bydd y gwaith recriwtio yn symud yn ei flaen yn ystod 2022/23.

Yn ystod y flwyddyn, effeithiwyd ar gyllidebau gan gynnydd sylweddol yng nghostau nwyddau. Mae hyn wedi effeithio'n arbennig ar gostau gwaith adeiladau a thanwydd. Yn y dyfodol, byddwn hefyd yn gweld cynnydd na welwyd o'r blaen ym mhrisiau nwy a thrydan. Mae adrannau'n parhau i fonitro effaith y sefyllfa economaidd, gan gydnabod y gallai newidiadau ddigwydd mewn refeniw a chyfalaf dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

## PERFFORMIAD REFENIW (£m)




## DARPARIAETHAU A CHRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r Awdurdod wedi creu darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau hysbys ac mae wedi sefydlu cronfeydd wrth gefn ar gyfer ymrwymiadau yn y dyfodol neu sydd wedi'u clustnodi ar gyfer datblygiadau yn y gwasanaeth yn dyfodol. Mae'r cronfeydd wrth gefn wedi cynyddu yn 2021/22, er mwyn ymorol am ofynion parhaus yn y gwasanaeth, gan gynnwys gwella systemau, gwaith adeiladu amgylcheddol a gweithredu hyfforddiant ychwanegol i'r staff er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth. £0.5m a ddefnyddiwyd o gronfeydd wrth gefn yn 2021/22 ond rhagwelir y defnyddir rhagor yn y blynyddoedd i ddod. Ceir rhagor o wybodaeth yn Nodyn 18 a Nodyn 19.

## PERFFORMIAD CYFALAF

Cafodd y rhaglen gyfalaf wreiddiol ei diwygio yn ystod y flwyddyn, i roi ystyriaeth i'r cyfyngiadau'n gysylltiedig â phandemig Covid 19. Roedd hyn yn fwyaf amlwg o fewn gwaith adeiladu pan oedd oedi'n dal i gael ei brofi. Mae'r cynlluniau'n symud yn eu blaenau erbyn hyn, a chariwyd y cyllid drosodd i 2022/23 er mwyn i'r gwaith gael ei gwblhau.

| | | Cynllun Cyfalaf Gwreiddiol £m | Cynllun Cyfalaf Diwygiedig £m | Gwariant £m | Treigl o Gyllid £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Fflyd | Cerbydau a pheiriannau newydd | 2.028 | 2.099 | 1.176 | 923 |
| Cyfleusterau | Uwchraddio adeiladau | 790 | 120 | 0 | 120 |
| Technoleg Gwybodaeth | Uwchraddio systemau a gwaith cysylltiedig | 167 | 167 | 0 | 167 |
| | **Cyfanswm** | **2.985** | **2.386** | **1.176** | **1.210** |

## RHEOLI'R TRYSORLYS

Caiff adroddiad trysorlys blynyddol sydd yn nodi'r gweithgarwch ariannol am y flwyddyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac mae ar gael ar y wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (gov.wales)

## COSTAU PENSIWN

### Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

Yn 2021/22, cyfanswm cyfraniadau arferol cyflogwyr i'r Gronfa Bensiwn oedd £3.19m (2020/21: £3.17m). Fe wnaeth 5 o staff system ddyletswydd amser llawn a 5 o staff system ddyletswydd rhan amser ymddeol.

Mae'r ymrwymiad o ran ymrwymiadau pensiwn yn y dyfodol wedi gostwng i £312.95m (2020/21: £318.75m) oherwydd newid yn y rhagdybiaethau actiwaraidd.

### Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Yn 2021/22, cyfanswm cyfraniadau cyflogwyr i'r Gronfa Bensiwn oedd £0.92m (2020/21: £1.82m).

Yr atebolrwydd a aseswyd yn actiwaraidd ar 31 Mawrth 2022 oedd £14.55m (2020/21: £18.57m). Roedd y gostyngiad o ganlyniad i newid yn y rhagdybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd i ailfesur ymrwymiadau'r cynllun.

Mae Nodyn 32 a Chyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwr Tân yn darparu gwybodaeth bellach.

## EGLURHAD O'R DATGANIADAU CYFRIFO

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi perfformiad ariannol yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022. Cafodd y cyfrifon eu paratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifon Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) sydd yn ei dro'n cael ei danategu gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Dyma'r **Datganiadau Craidd**:

- Mae'r **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** yn cofnodi holl incwm a gwariant yr Awdurdod am y flwyddyn. Mae rhan uchaf y datganiad yn rhoi dadansoddiad yn ôl maes gwasanaeth. Mae rhan isaf y datganiad yn delio gyda thrafodion corfforaethol a chyllid.

- Mae'r **Datganiad ar Symudiad Mewn Cronfeydd** yn grynodeb o newidiadau i gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn. Rhennir y cronfeydd i gronfeydd wrth gefn y gellir eu "defnyddio", sef cronfeydd y mae modd eu buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf neu i wneud gwelliannau i'r gwasanaeth, a chronfeydd wrth gefn "annefnyddiol" sydd yn rhaid eu cadw at ddibenion cyfreithiol neu gyfrifon penodol.

- Mae'r **Fantolen** yn rhoi "cipolwg" o'r asedau, ymrwymiadau, balansau ariannol a chronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn.

- Mae'r **Datganiad Llif Arian** yn dangos y rheswm dros y newidiadau i falansau ariannol yn ystod y flwyddyn, a pha un ai a ydi'r newidiadau o ganlyniad i weithgareddau gweithredol, buddsoddiadau newydd, neu weithgareddau ariannol ( megis ad-dalu benthyciadau a ymrwymiadau tymor hir eraill).

- Mae'r **Cyfrif Cronfa Bensiwn** yn dangos y symudiadau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân.

Mae'r **Nodiadau** sydd yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol hyn yn rhoi ychwaneg o wybodaeth ynglŷn â pholisïau cyfrifo a thrafodion unigol yr Awdurdod.

## GWYBODAETH BELLACH

Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifon hyn ar gael gan y Trysorydd. Mae hawl statudol gan aelodau'r cyhoedd â diddordeb i weld y cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau. Hysbysebir bod y cyfrifon ar gael i'w gweld ar wefan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (https://www.northwalesfire.gov.wales/fire-and-rescue-authority/financial/) a rhoddir hysbysiad ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Ffordd Salesbury, Llanelwy, LL17 0JJ.

## DATGANIAD CYNHWYSFAWR AR INCWM A GWARIANT

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost cyfrifyddu yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â GAAP yn hytrach na'r swm i'w ariannu gan gyfraniadau. Mae gwariant yr Awdurdod yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn unol â'r rheoliadau; gallai hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Dangosir sefyllfa'r cyfraniadau yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd.

| 2020/21 | | | | 2021/22 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros £'000** | **Incwm Gros £'000** | **Gwariant Net £'000** | | **Nodyn** | **Gwariant Gros £'000** | **Incwm Gros £'000** | **Gwariant Net £'000** |
| 25,479 | | 25,479 | Gweithwyr | | 32,491 | | 32,491 |
| 2,641 | | 2,641 | Adeiladau | | 2,578 | | 2,578 |
| 924 | | 924 | Trafnidiaeth | | 1,034 | | 1,034 |
| 5,053 | | 5,053 | Cyflenwadau a Gwasanaethau | | 4,197 | | 4,197 |
| 603 | | 603 | Gwasanaethau Cefnogi | | 639 | | 639 |
| 4,950 | | 4,950 | Costau Ariannu Cyfalaf | | (279) | | (279) |
| 0 | (2,664) | (2,664) | Incwm | | | (2,918) | (2,918) |
| **39,650** | **(2,664)** | **36,986** | **Cost Gwasanaethau** | | **40,660** | **(2,918)** | **37,742** |
| 41 | 0 | 41 | Gwariant Gweithredu Arall | **8** | (15) | 0 | (15) |
| 7,394 | (2) | 7,392 | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | **9** | 7,085 | (2) | 7,083 |
| 0 | (35,942) | (35,942) | Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol | **10** | 0 | (37,074) | (37,074) |
| | | **8,477** | **Diffyg neu (Warged) ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | | **7,736** |
| 678 | 0 | 678 | Gweddill neu Ddiffyg ar Ailbrisio Eiddo ac Asedau Offer | **20** | 0 | (2,162) | (2,162) |
| | | 17,947 | Ailfesur yr Ymrwymiad Buddion Diffiniedig Net | **20** | | | (22,167) |
| | | **18,625** | **(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(24,329)** |
| | | **27,102** | **Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(16,593)** |

## DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd sydd gan yr Awdurdod, wedi'i ddadansoddi'n gronfeydd defnyddiadwy' (sef y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol) a chronfeydd eraill. Mae'r Gwarged neu'r (Diffyg) ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, a dangosir rhagor o fanylion am hynny yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sydd angen eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol, sy'n cael ei hariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol. Mae'r llinell Cynnydd / Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd a Glustnodwyd yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol cyn i'r Awdurdod wneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i'r cronfeydd a glustnodwyd ac ohonynt.

| **2021/22** | **Nodyn** | **Balans Cronfa Cyffredinol £'000** | **Cronfeydd wrth Gefn wedi'u clustnodi a Grant £'000** | **Cronfa wrth Gefn talebau cyfalaf £'000** | **Cronfeydd wrth Gefn defnyddiol £'000** | **Reserfau na ellir eu defnyddio £'000** | **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans 31 Mawrth 2021** | | **1,450** | **3,462** | **0** | **4,912** | **(327,022)** | **(322,110)** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2021/22** | | | | | | | |
| Gweddill neu (Diffyg) ar y Darpariaeth o Wasanaethau | | (7,736) | 0 | 0 | (7,736) | 0 | (7,736) |
| Incwm a Gwariant arall cynhwysfawr | | 0 | 0 | 0 | 0 | 24,329 | 24,329 |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **(7,736)** | **0** | **0** | **(7,736)** | **24,329** | **16,593** |
| Cyweiriadau rhwng sail cyfrifyddu a sail cronfa o dan y rheoliadau | 6 | 10,059 | 0 | 238 | 10,149 | (10,149) | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn trosi i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd** | | 2,323 | 0 | 238 | 2,413 | 14,180 | 16,593 |
| Cyweiriad | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trosiannau Eraill i/(o) Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd | | (2,253) | 2,105 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) yn 2021/22** | 7 | **70** | **2,105** | **238** | **2,413** | **14,180** | **16,593** |
| **Balans 31 Mawrth 2022** | | **1,520** | **5,567** | **238** | **7,325** | **(312,842)** | **(305,517)** |

## DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

| 2020/21 | Nodyn | Balans Cronfa Cyffredinol £'000 | Cronfeydd wrth Gefn wedi'u clustnodi a Grant £'000 | Cronfa wrth Gefn talebau cyfalaf £'000 | Cronfeydd wrth Gefn defnyddiol £'000 | Reserfau na ellir eu defnyddio £'000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans 31 Mawrth 2020** | | **1,387** | **1,820** | **0** | **3,207** | **(298,215)** | **(295,008)** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2020/21** | | | | | | | |
| Gweddill neu (Diffyg) ar y Darpariaeth o Wasanaethau | | (8,477) | 0 | 0 | (8,477) | 0 | (8,477) |
| Incwm a Gwariant arall cynhwysfawr | | 0 | 0 | 0 | 0 | (18,625) | (18,625) |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **(8,477)** | **0** | **0** | **(8,477)** | **(18,625)** | **(27,102)** |
| Cyweiriadau rhwng sail cyfrifyddu a sail cronfa o dan y rheoliadau | 6 | (10,182) | 0 | 0 | 10,182 | (10,182) | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn trosi i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd** | | 1,705 | 0 | 0 | 1,705 | (28,807) | (27,102) |
| Cyweiriad | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trosiannau Eraill i/(o) Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd | | (1,642) | 1,642 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) yn 2020/21** | 7 | **63** | **1,642** | **0** | **1,705** | **(28,807)** | **(27,102)** |
| **Balans 31 Mawrth 2021** | | **1,450** | **3,462** | **0** | **4,912** | **(327,022)** | **(322,110)** |

## Y FANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth, ar ddyddiad y Fantolen, yr asedau a'r ymrwymiadau a gydnabyddir gan yr Awdurdod. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymiadau) yn cael eu cyfateb gan y cronfeydd sydd gan yr Awdurdod. Adroddir ynghylch cronfeydd mewn dau gategori. Y categori cyntaf o gronfeydd yw cronfeydd defnyddiadwy sef cronfeydd y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (e.e. y Gronfa Dderbyniadau na ellir ond ei defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Yr ail gategori o gronfeydd yw'r rhai nad yw'r Awdurdod yn gallu eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd yn cynnwys cronfeydd sy'n dal enillion na wireddwyd a cholledion (e.e. y Gronfa Ailbrisio), pryd na fyddai symiau ond ar gael i ddarparu gwasanaethau os caiff yr asedau eu gwerthu; ac mae cronfeydd sy'n dal gwahaniaethau amseru yn cael eu dangos yn y llinell Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd 'Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu o dan reoliadau'.

| 31 Mawrth 2021 £'000 | | Nodyn | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---:|:---:|:---:|---:|
| 39,537 | Eiddo ac Offer | 11 | 43,165 |
| 477 | Asedau Anniriaethol | 11 | 226 |
| 376 | Dyledwyr Tymor Hir | 15 | 33 |
| **40,390** | **Asedau Hir Dymor** | | **43,424** |
| 566 | Rhestrau Stoc | 14 | 601 |
| 2,647 | Dyledwyr Tymor Byr | 15 | 3,732 |
| 0 | Asedau a ddelir i'w gwerthu | 11 | 0 |
| 1,528 | Arian a chyfwerth ariannol | 16 | 2,532 |
| **4,741** | **Asedau Cyfredol** | | **6,865** |
| 16,774 | Benthyca Tymor Byr | 12 | 13,763 |
| 426 | Darpariaethau | 18 | 602 |
| 3,148 | Credydwyr Tymor Byr | 17 | 3,047 |
| **20,348** | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | **17,412** |
| 337,323 | Rhwymedigaeth Pensiwn | 32 | 327,498 |
| 135 | Darpariaethau Tymor Hir | 18 | 135 |
| 9,435 | Benthyca Tymor Hir | 12 | 10,761 |
| **346,893** | **Rhwymedigaethau Tymor Hir** | | **338,394** |
| **(322,110)** | **Asedau Net** | | **(305,517)** |
| 4,912 | Cronfeydd wrth gefn gellid defnyddio | 19 | 7,325 |
| (327,022) | Cronfeydd wrth gefn nas ellid defnyddio | 20 | (312,842) |
| **(322,110)** | **Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn** | | **(305,517)** |

## DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau yn arian a chyfwerth ag arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Awdurdod yn creu ac yn defnyddio arian a chyfwerth ag arian trwy gategoreiddio llif arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian net sy'n deillio o'r gweithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Awdurdod yn cael eu hariannu trwy gyfraniadau ac incwm grant neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r gweithgareddau buddsoddi yn dangos y graddau y mae'r all-lifiadau arian wedi eu gwneud ar gyfer adnoddau sydd â'u bwriad o gyfrannu at y modd y gall yr Awdurdod ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r llifoedd arian sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol wrth ragweld ceisiadau o lifiadau arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca) i'r Awdurdod.

| 2020/21 £'000 | | Nodyn | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|---|
| **8,477** | **(Gwarged)/Diffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau** | | **7,736** |
| (13,113) | Addasiadau i'r (Gwarged) neu Ddiffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Symudiadau nad ydynt yn Arian | 21 | (11,437) |
| (378) | Addasiadau ar gyfer Eitemau sydd yn y (Gwarged) neu Ddiffyg net wrth Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi neu Ariannu | 21 | (303) |
| (5,014) | Llifoedd Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | 21 | (4,004) |
| 0 | Gweithgareddau Buddsoddi | 22 | 1,013 |
| 5,257 | Gweithgareddau Ariannu | 23 | **1,987** |
| 243 | (Cynnydd) neu Ostyngiad Net mewn Arian a Chyfwerth ag Arian | | (1,004) |
| **(1,771)** | **Arian a Chyfwerth ag Arian ar ddechrau'r Cyfnod adrodd** | | **(1,528)** |
| **(1,528)** | **Arian a Chyfwerth ag Arian ar ddiwedd y Cyfnod adrodd** | 16 | **(2,532)** |

## NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r nodiadau'n rhoi gwybodaeth am sail y gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol a'r polisïau cyfrifyddu penodol a ddefnyddiwyd. Maent yn darparu gwybodaeth nad yw'n cael ei chyflwyno yn unlle arall yn y datganiadau ariannol ac sy'n berthnasol er mwyn deall y cyfrifon.

## 1 DOETHINEB WRTH DDILYN Y POLISÏAU CYFRIFYDDU

Wrth ddilyn y polisïau cyfrifyddu sydd yn Atodiad 1, mae'r Awdurdod wedi gorfod arfer doethineb wrth ymdrin â thrafodion cymhleth neu'r rhai lle mae ansicrwydd am y dyfodol. Rhaid penderfynu ar rai pethau yn y Datganiad o Gyfrifon oherwydd bod llawer o ansicrwydd am lefelau'r cyllid i Lywodraeth Leol yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i ddarparu arwydd y gallai asedau'r Awdurdod gael eu niweidio o ganlyniad i'r angen i ostwng lefelau darpariaeth gwasanaethau.

## 2 RHAGDYBIAETHAU A WNAED AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL O ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIF

Mae'r datganiad o gyfrifon yn cynnwys ffigyrau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan yr awdurdod ynghylch y dyfodol neu sy'n ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Mae'r rhagdybiaethau a'r ffynonellau eraill o ansicrwydd wrth amcangyfrif a ddatgelir isod yn ymwneud â dyfarniadau anodd, goddrychol neu gymhleth. Wrth i gynnydd fod yn nifer yr amrywiadau sy'n effeithio ar ddatrys yr ansicrwydd posibl yn y dyfodol, mae'r dyfarniadau hyn yn mynd yn fwyfwy goddrychol a chymhleth. O ganlyniad, ni ellir pennu'r balansau â sicrwydd a gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol iawn i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Dyma'r prif eitemau ar Fantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2022 y mae risg sylweddol o addasiadau arwyddocaol iddynt yn y flwyddyn ariannol I ddod:

| Eitem | Ansicrwydd | Effeithiau os bydd y Canlyniadau Gwirioneddol yn Wahanol i'r Rhagdybiaethau |
|---|---|---|
| Ymrwymiad Pensiynau | Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ragdybiaethau cymhleth yn ymwneud â'r gyfradd disgownt a ddefnyddiwyd, y gyfradd yr amcan estynnir y bydd cyflogau'n codi, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marw ac, ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yr enillion a ddisgwylir ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae adran actiwari'r llywodraeth yn rhoi asesiad o'r ymrwymiadau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng nghyfrif y gronfa bensiwn. | Mae newidiadau cymharol fach yn y rhagdybiaethau yn gallu cael effaith sylweddol ar ymrwymiad net pensiynau. Ni fydd yr ymrwymiad net pensiynau a ddangosir yn y fantolen ond yn dod yn daladwy dros gyfnod ymddeol y gweithwyr cyfredol a'r rhai sydd wedi ymddeol, fel bod modd ymestyn addasiadau i'r ymrwymiadau dros gyfnod o flynyddoedd drwy newidiadau i gyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr. Mae cynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr yn cael effaith uniongyrchol ar y gyllideb. |
| Gwerth Eiddo | Mae'r Awdurdod yn ailbrisio ei asedau bob 5 mlynedd. Oherwydd yr amrywiadau arwyddocaol yn y farchnad, cynhaliwyd ymarferiad ailbrisio ychwanegol yn 2021/22. Mae'n bosibl y gallai gwerth eiddo barhau i amrywio, yn enwedig yn ystod adegau o ansicrwydd economaidd. Mae prisiadau'n seiliedig ar ragdybiaethau am gyflwr asedau, oes ddefnyddiol, gwerth gweddilliol ac amgylchiadau'r farchnad.<br><br>Mae'r dyfarniadau hyn yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael, ac maent yn cael eu gwneud gan briswyr cymwysedig ond maent yn seiliedig ar amcangyfrifon er hynny.<br><br>Mae effaith Brexit, y Pandemig ac yn fwy diweddaraf oblygiadau yn sgil y rhyfel yn Wcrain yn creu sefyllfa anwadal yn y farchnad. Mae hyn yn cael ei gadw dan arolwg er mwyn penderfynu a oes angen newid y cylch prisio. | Byddai amrywiad yng ngwerth eiddo yn effeithio ar y gwerthoedd sydd yn y Fantolen ac ar yr hyn a godir ar y dibrisiad cyfatebol. |

## 3. EITEMAU PERTHNASOL INCWM A CHOSTAU

Oherwydd newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd cyfanswm yr atebolrwydd net ar Bensiwn y Diffoddwyr Tân Mae'r Cynllun a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi gostwng £ 9.8m.  Mae hyn yn bennaf oherwydd bod newidiadau yn y rhagdybiaethau perthnasol i ail-fesur yr asedau/ymrwymiadau net.

## 4. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi cael ei awdurdodi I'w gyhoeddi gan Drysorydd yr Awdurdod Tân ac Achub ar 17 Hydref 2022.  Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yw'r rhai sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd (31ain Mawrth 2022) a'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi I'w cyhoeddi ar 17 Hydref 2022.

## 5 DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

Mae'r datganiad yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio ac yn cael ei ariannu o adnoddau (grantiau, cyfraniadau ac ati) gan awdurdodau lleol o'i gymharu ag adnoddau a ddefnyddir neu a enillir gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu er mwyn gwneud penderfyniadau yn unol â'r math o wariant a wnaed. Mae Incwm a Gwariant, y rhoddir cyfrif amdanynt dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (GAAP), yn cael eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant.

| 2020/21 | | | | 2021/22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net i'w godi ar y Gronfa gyffredinol £'000** | **Addasiadau rhwng y sail Cyfrifyddu a Chyllid £'000** | **Gwariant Net yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant £'000** | | **Gwariant Net i'w godi ar y Gronfa gyffredinol £'000** | **Addasiadau rhwng y sail Cyfrifyddu a Chyllid £'000** | **Gwariant Net yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant £'000** |
| 25,198 | 281 | 25,479 | Gweithwyr | 26,917 | 5,574 | 32,491 |
| 2,641 | 0 | 2,641 | Adeiladau | 2,578 | 0 | 2,578 |
| 924 | 0 | 924 | Trafnidiaeth | 1,034 | 0 | 1,034 |
| 5,053 | 0 | 5,053 | Cyflenwadau a Gwasanaethau | 4,197 | 0 | 4,197 |
| 603 | 0 | 603 | Gwasanaethau Cefnogi | 639 | 0 | 639 |
| 2,484 | 2,466 | 4,950 | Costau Ariannu Cyfalaf | 2,306 | (2,585) | (279) |
| (2,666) | 2 | (2,664) | Incwm | (2,920) | 2 | (2,918) |
| **34,237** | **2,749** | **36,986** | **Cost Net y Gwasanaeth** | **34,751** | **2,991** | **37,742** |
| | | | **Incwm a Gwariant Eraill** | | | |
| 0 | 7,433 | 7,433 | Addasiadau Incwm a Gwariant Eraill | 0 | 7,068 | 7,068 |
| (35,942) | 0 | (35,942) | Treth o Incwm Grant Amhenodol | (37,074) | 0 | (37,074) |
| **(1,705)** | **10,182** | **8,477** | **Gwasanaethau** | **(2,323)** | **10,059** | **7,736** |
| | | (1,387) | Balans Agoriadol Cronfa Gyffredinol | | | (1,450) |
| | | (63) | Diffyg ym Malans y Gronfa Gyffredinol am y Flwyddyn | | | (70) |
| | | 0 | Symudiadau eraill heb eu cynnwys uchod h.y. cronfeydd wedi eu clustnodi | | | 0 |
| | | **(1,450)** | **Balans y Gronfa Gyffredinol** | | | **(1,520)** |

## Nodiadau i'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid

| | 2021/22 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Addasiad i ddibenion cyfalaf £'000** | **Newid Net ar gyfer yr Addasiadau Pensiynau £'000** | **Gwahan-iaethau Eraill £'000** | **Cyfanswm Addasiadau £'000** |
| Gweithwyr | 0 | 5,562 | 12 | 5,574 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau Ariannu Cyfalaf | (2,585) | 0 | 0 | (2,585) |
| Incwm | 0 | 0 | 2 | 2 |
| **Cost Net y Gwasanaeth** | **(2,585)** | **5,562** | **14** | **2,991** |
| **Incwm a Gwariant Arall** | | | | |
| Addasiadau Incwm a Gwariant Arall | (15) | 6,780 | 303 | 7,068 |
| **Gwahaniaeth rhwng Gwarged neu ddiffyg y Gronfa Gyffredinol a Gwarged neu ddiffyg CIES ar ddarparu gwasanaethau** | **(2,600)** | **12,342** | **317** | **10,059** |

| | 2020/21 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Addasiad i ddibenion cyfalaf £'000** | **Newid Net ar gyfer yr Addasiadau Pensiynau £'000** | **Gwahan-iaethau Eraill £'000** | **Cyfanswm Addasiadau £'000** |
| Gweithwyr | 0 | 244 | 37 | 281 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 2,466 | 0 | 0 | 2,466 |
| Incwm | 0 | 0 | 2 | 2 |
| **Cost Net y Gwasanaeth** | **2,466** | **244** | **39** | **2,749** |
| **Incwm a Gwariant Arall** | | | | |
| Addasiadau Incwm a Gwariant Arall | 41 | 7,014 | 378 | 7,433 |
| **Gwahaniaeth rhwng Gwarged neu ddiffyg y Gronfa Gyffredinol a Gwarged neu ddiffyg CIES ar ddarparu gwasanaethau** | **2,507** | **7,258** | **417** | **10,182** |

**Cysoni Incwm Gwariant y Gwasanaeth a gyflwynwyd yn y Cyfrifon Rheolaeth â Chost Gwasanaethau yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant**

Mae'r cysoniad hwn yn dangos sut mae'r ffigyrau sydd yn y Datganiad Dadansoddi Gwariant a Chyllid yn gysylltiedig â'r symiau sydd yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant.

| 2020/21 £'000 | | | 2021/22 £'000 | |
|---|---|---|---|---|
| | 34,237 | Gwariant Net yn Nadansoddiad y Gwasanaeth | | 34,751 |
| | | **Symiau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sydd heb eu hadrodd i'r rheolwyr yn y Dadansoddiad** | | |
| 2,477 | | Dibrisiad | 2,101 | |
| 0 | | Rhyddhau Grant Llywodraeth | (238) | |
| 244 | | IAS 19 – Addasiad Pensiynau (Nodyn 32) | 5,562 | |
| 2,473 | | Amhariad | (2,206) | |
| 37 | | Absenoldebau Cronedig | 64 | |
| 0 | 5,231 | Addasiad Dibrisiad CAA/Gwaredu Asedau | 12 | 5,295 |
| | | **Symiau yn y Dadansoddiad sydd heb eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | |
| (2,104) | | Ad-dalu Dyledion (MRP) | (2,001) | |
| (380) | | Llog a dalwyd | (305) | |
| 2 | (2,482) | Llog a gafwyd | 2 | |
| 0 | 0 | Diffyg Cyfrif Masnachu | | (2,304) |
| | **36,986** | **Cost Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **37,742** |

## 6. ADDASIADAU RHWNG Y SAIL CYFRIFYDDU A'R SAIL ARIANNU DAN REOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn rhestru'r addasiadau a wneir i'r holl Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn y flwyddyn, a hynny un unol â'r arfer cyfrifyddu priodol i'r adnoddau a enwir gan y darpariaethau statudol fel rhai sydd ar gael i'r Awdurdod ar gyfer cwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

| 2021/22 | Cronfeydd wrth gefn gellid defnyddio | | | | Cronfeydd wrth gefn na ellid defnyddio |
|---|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa Gyffredinol £'000 | Grant Cyfalaf heb ei Gymhwyso £'000 | Cronfeydd Cyfalaf a Glustnodwyd £'000 | Cyfanswm cronfeydd gellid eu defnyddio £'000 | Symudiad yn y cronfeydd wrth gefn nas ellid defnyddio £'000 |
| **Addasiadau'n bennaf yn ymwneud â'r Cyfrif Cyfalaf wedi'i addasu:** | | | | | |
| **Gwrthdroi eitemau wedi'u debydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | | |
| Costau ar gyfer dibrisiad a nam ar asedau anghyfredol | 2,101 | | | 2,101 | (2,101) |
| Addasiad Blwyddyn Flaenorol ar Dir ac Adeiladau | 64 | | | 64 | (64) |
| Ailbrisio (colledion)/enillion ar Eiddo ac Offer | (2,206) | | | (2,206) | 2,206 |
| Enillion ar Waredu | (15) | | | (15) | 15 |
| **Cynnwys yr eitemau heb eu debydu na'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | | |
| Darpariaeth Statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf | (2,001) | | | (2,001) | 2,001 |
| **Addasiadau'n bennaf yn ymwneud â Chronfa wrth Gefn Talebau Cyfalaf** | | | | | |
| Trosglwyddo elw gwerthiant ariannol a gredydwyd fel rhan o'r gwerthiant ennill/colli i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 0 | | | 0 | 0 |
| Caiff gwariant cyfalaf ei ariannu o falansau cronfeydd a glustnodwyd/refeniw | | | (148) | (148) | 148 |
| **Addasiad yn bennaf yn ymwneud â'r Cronfa wrth Gefn Pensiynau** | | | | | |
| Cyfraniadau pensiynau cyflogwyr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn | (8,830) | | | (8,830) | 8,830 |
| ymddeol wedi'u debydu neu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 20) | 21,172 | | | 21,172 | (21,172) |
| **Gwrthdroi eitemau wedi'u debydu neu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | | |
| Addasiad i'r Gronfa Grantiau wrth Gefn | (238) | 238 | | 0 | 0 |
| **Addasiad yn bennaf yn ymwneud â'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig** | 0 | | | 0 | 0 |
| Swm y mae'r tâl swyddog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i dâl y gellir ei godi yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 12 | | | 12 | (12) |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **10,059** | **238** | **(148)** | **10,149** | **(10,149)** |

| 2020/21 | Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy | | | Cronfeydd wrth gefn annefnydd-iadwy |
|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa Gyffredinol £'000 | Grant Cyfalaf heb ei Gymhwyso £'000 | Cyfanswm cronfeydd defnydd-iadwy £'000 | Symudiad yn y cronfeydd wrth gefn annefnydd-iadwy £'000 |
| **Addasiadau'n bennaf yn ymwneud â'r Cyfrif Cyfalaf wedi'i addasu: Gwrthdroi eitemau wedi'u debydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | |
| Costau ar gyfer dibrisiad a nam ar asedau anghyfredol | 2,477 | | 2,477 | (2,477) |
| Ailbrisio (colledion)/enillion ar Eiddo ac Offer | 2,473 | | 2,473 | (2,473) |
| Enillion ar Waredu | 41 | | 41 | (41) |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau wnaed | | | | |
| **Cynnwys yr eitemau heb eu debydu na'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | (2,104) | | (2,104) | 2,104 |
| Darpariaeth Statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf | | | | |
| **Addasiadau'n bennaf yn ymwneud â Chronfa wrth Gefn Talebau Cyfalaf** | 0 | | 0 | 0 |
| Trosglwyddo elw gwerthiant ariannol a gredydwyd fel rhan o'r gwerthiant ennill/colli i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 0 | | 0 | 0 |
| Defnydd o gronfa wrth gefn talebau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | | | | |
| **Addasiad yn bennaf yn ymwneud â'r Cronfa wrth Gefn Pensiynau** | (9,837) | | (9,837) | 9,837 |
| Cyfraniadau pensiynau cyflogwyr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn | 17,095 | | 17,095 | (17,095) |
| Gwrthdroi eitemau'n berthnasol i fuddion ymddeol wedi'u debydu neu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 20) | | | | |
| **Gwrthdroi eitemau wedi'u debydu neu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | 0 | | 0 | 0 |
| Addasiad i'r Gronfa Grantiau wrth Gefn | | | | |
| **Addasiad yn bennaf yn ymwneud â'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig** | 0 | | 0 | 0 |
| Swm y mae'r tâl swyddog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i dâl y gellir ei godi yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 37 | | 37 | (37) |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **10,182** | **0** | **10,182** | **(10,182)** |

## 7 TROSGLWYDDIADAU I'R CRONFEYDD A GLUSTNODWYD AC OHONYNT

Mae'r Nodyn hwn yn rhestru'r trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn, ac ohonynt, ers 1 Ebrill 2020.

| | **Balans**<br>**01-Ebr-20**<br>**£'000** | Trosglwy-ddiadau allan<br>2020/21<br>£'000 | Trosglwy-ddiadau i mewn<br>2020/21<br>£'000 | **Balans**<br>**31-Maw-21**<br>**£'000** | Trosglwy-ddiadau allan<br>2021/22<br>£'000 | Trosglwy-ddiadau i mewn<br>2021/22<br>£'000 | **Balans**<br>**31-Maw-22**<br>**£'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol | **(1,387)** | 0 | (63) | **(1,450)** | 0 | (70) | **(1,520)** |
| Cronfeydd wrth gefn a grantiau a glustnodwyd | **(1,819)** | 60 | (1,702) | **(3,461)** | 515 | (2,620) | **(5,566)** |
| Grantiau Cyfalaf Heb ei gymhwyso | | | | | | (238) | **(238)** |
| **Cyfanswm** | **(3,206)** | **60** | **(1,765)** | **(4,911)** | **515** | **(2,928)** | **(7,324)** |

## 8 GWARIANT AC INCWM GWEITHREDU ERAILL

| **2020/21**<br>**£'000** | | **2021/22**<br>**£'000** |
|---|---|---|
| 41 | (Enillion) neu Golledion wrth waredu asedau anghyfredol | (15) |
| 0 | (Enillion) neu Golledion ar ddadgydnabod Asedau | 0 |
| **41** | **Cyfanswm** | **(15)** |

## 9 INCWM A GWARIANT CYLLID A BUDDSODDIADAU

| **2020/21**<br>**£'000** | | **2021/22**<br>**£'000** |
|---|---|---|
| 380 | Llog yn daladwy a ffioedd tebyg | 305 |
| (2) | Llog | (2) |
| 7,014 | Llog Net ar yr ymrwymiad budd diffiniedig net | 6,780 |
| **7,392** | **Cyfanswm** | **7,083** |

## 10 CYFRANIADAU GAN YR AWDURDODAU CYFANSODDOL

| **2020/21**<br>**Cyfraniad**<br>**£** | | **2021/22**<br>**Cyfraniad**<br>**£** |
|---|---|---|
| 6,005 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 6,230 |
| 3,593 | Cyngor Sir Ynys Môn | 3,690 |
| 6,364 | Cyngor Gwynedd | 6,597 |
| 4,899 | Cyngor Sir Ddinbych | 5,060 |
| 7,968 | Cyngor Sir y Fflint | 8,282 |
| 7,113 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 7,215 |
| **35,942** | **Cyfanswm** | **37,074** |

## 11 EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER AC ASEDAU ANNIRIAETHOL

Caiff asedau eu prisio fel yr amlinellir yn Nodiadau 14 ac 15 o'r Polisiau Cyfrifyddu.

| **Symudiad yn 2021/2022** | **Tir ac Adeiladau**<br>**£'000** | **Cerbydau a Pheiriannau**<br>**£'000** | **Asedau wrthi'n cael eu hadeiladu**<br>**£'000** | **Eiddo, Peiriannau ac Offer**<br>**Cyfanswm £'000** | **Asedau Anniriaethol**<br>**Cyfanswm £'000** | **Asedau a gedwir i'w gwerthu**<br>**Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Ebrill 2021** | **31,625** | **22,770** | **198** | **54,593** | **1,221** | **0** |
| Ailgategoreiddio Asedau | 0 | 198 | (198) | 0 | 0 | 0 |
| Addasiad Blwyddyn Flaenorol wedi'i gydnabod drwy Gronfa Ailbrisio (Prisio Gweithdy) | (1,009) | | | (1,009) | | |
| Addasiad Blwyddyn Flaenorol wedi'i gydnabod drwy Gyfrif Addasu Cyfalaf (Prisio Gweithdy Llandudno) | (65) | | | (65) | | |
| Ychwanegiadau | 0 | 148 | 1,027 | 1,175 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | | (65) | 0 | (65) | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | (801) | 0 | (801) | (549) | 0 |
| Colledion/Gwrthdroadau diffyg a gydnabyddir yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn | 3,048 | 0 | 0 | 3,048 | 0 | 0 |
| Colledion/Gwrthdroadau diffyg a gydnabyddir yn y Gwarged/Diffyg ar Darpariaeth Gwasanaethau | 1,237 | 0 | 0 | 1,237 | 0 | 0 |
| **Gwerth Llyfr Gros ar 31 Mawrth 2022** | **34,836** | **22,250** | **1,027** | **58,113** | **672** | **0** |
| Dibrisiant Cronedig ar 1 Ebrill 2021 | (605) | (14,451) | 0 | (15,056) | (744) | 0 |
| Ailgategoreiddio Asedau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Addasiad Blwyddyn Ariannol Dibrisiant wedi'i gydnabod drwy Gronfa Ailbrisio (Gweithdy Llandudno) | 29 | 0 | 0 | 29 | 0 | 0 |
| Addasiad Blwyddyn Flaenorol Dibrisiant wedi'i gydnabod drwy Gyfrif Addasu Cyfalaf (Gweithdy Llandudno) | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu o'r Gronfa Ailbrisio | 184 | | | 184 | | |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu at y Gwarged/ Diffyg ar Ddarparu Gwansanaethau | 967 | | | 967 | | |
| Dibrisiant am y Flwyddyn | (576) | (1,363) | 0 | (1,939) | (251) | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | 0 | 65 | 0 | 65 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | 801 | 0 | 801 | 549 | 0 |
| **Dibrisiad Cronedig ar 31 Mawrth 2022** | **0** | **(14,948)** | **0** | **(14,948)** | **(446)** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 31 MAWRTH 2022** | **34,836** | **7,302** | **1,027** | **43,165** | **226** | **0** |

| Symudiad yn 2020/2021 | Tir ac Adeiladau<br><br>£'000 | Cerbydau a Pheiriannau<br><br>£'000 | Asedau wrthi'n cael eu hadeiladu<br><br>£'000 | Eiddo, Peiriannau ac Offer<br>Cyfanswm<br>£'000 | Asedau Anniriaethol<br>Cyfanswm<br>£’000 | Asedau a gedwir i'w gwerthu<br>Cyfanswm<br>£’000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Ebrill 2020** | **38,723** | **23,082** | **628** | **62,433** | **1,231** | **0** |
| Ailgategoreiddio Asedau | 0 | 101 | (186) | (85) | 85 | 0 |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | 0 | (413) | 0 | (413) | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | 0 | (244) | (244) | (95) | 0 |
| Colledion/Gwrthdroadau diffyg a gydnabyddir yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn | (1,762) | 0 | 0 | (1,762) | 0 | 0 |
| Colledion/Gwrthdroadau diffyg a gydnabyddir yn y Gwarged/Diffyg ar Darpariaeth Gwasanaethau | (5,336) | 0 | 0 | (5,336) | 0 | 0 |
| **Gwerth Llyfr Gros ar 31 Mawrth 2021** | **31,625** | **22,770** | **198** | **54,593** | **1,221** | **0** |
| Dibrisiant Cronedig ar 1 Ebrill 2020 | (3,947) | (13,202) | 0 | (17,149) | (578) | 0 |
| Ailgategoreiddio Asedau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu o'r Gronfa Ailbrisio | 1,084 | 0 | 0 | 1,084 | 0 | |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu at y Gwarged/ Diffyg ar Ddarparu Gwansanaethau | 2,863 | 0 | 0 | 2,863 | 0 | 0 |
| Dibrisiant am y Flwyddyn | (605) | (1,621) | 0 | (2,226) | (252) | |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | 0 | 372 | 0 | 372 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 86 | 0 |
| **Dibrisiant Cronedig ar 31 Mawrth 2021** | **(605)** | **(14,451)** | **0** | **(15,056)** | **(744)** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 31 MAWRTH 2021** | **31,020** | **8,319** | **198** | **39,537** | **477** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 31 MAWRTH 2020** | **34,776** | **9,880** | **628** | **45,284** | **653** | **0** |

Cafodd ymarferiad ailbrisio eiddo llawn ei gynnal gan Wilks Head and Eve, ar 1 Ebrill 2020. Cafodd lle swyddfeydd ei brisio ar y gwerth defnydd presennol, a chafodd gorsafoedd eu prisio ar gost amnewid dibrisiedig. Er mwyn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer, fe wnaeth y prisiwr amcangyfrif oes weddilliol ar gyfer holl adeiladau'r Awdurdod. Mae’r dibrisio'n seiliedig ar y Dull Beacon, sef pan wneir amcangyfrif o gydrannau'r adeilad ac oes ddefnyddiol pob cydran. Cafodd asedau eraill eu cydnabod ar y gost hanesyddol, sy'n brocsi ar gyfer y gost bresennol ar asedau ag oes fer ac yn cael ei ddibrisio dros eu hoes ddefnyddiol.

## 12 OFFERYNNAU ARIANNOL

### Categorïau Offerynnau Ariannol

Mae'r categorïau canlynol o offerynnau ariannol yn cael eu cario yn y Fantolen:

| | Heb fod yn Gyfredol | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
| **Buddsoddiadau** | | | | |
| Benthyciadau a swm sy'n dderbyniadwy | 0 | 0 | 0 | 1,495 |
| Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **0** | **0** | **0** | **1,495** |
| **Dyledwyr** | | | | |
| Benthyciadau a swm sy'n dderbyniadwy | 33 | 376 | 3,732 | 2,647 |
| Asedau ariannol a wnaed ar gyfansymiau cytundeb | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledwyr** | **33** | **376** | **3,732** | **2,647** |
| **Benthyciadau** | | | | |
| Llog a gasglwyd | 0 | 0 | 89 | 90 |
| Rhwymedigaeth ariannol ar gost amorteiddio | 10,761 | 9,435 | 13,674 | 16,684 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **10,761** | **9,435** | **13,763** | **16,774** |
| **Credydwyr** | | | | |
| Rhwymedigaethau ariannol a wnaed ar gyfanswm contractau | 0 | 0 | 3,047 | 3,148 |
| **Cyfanswm Credydwyr** | **0** | **0** | **3,047** | **3,148** |

**Nodyn 1 -** Dan y gofynion cyfrifyddu, mae'r gwerth i'w gario o werth yr offeryn ariannol yn cael ei ddangos yn y fantolen, sy'n cynnwys y prif swm y cafwyd ei fenthyg neu a roddwyd i'w fenthyg, ac addasiadau pellach ar gyfer costau torri neu fenthyciadau llog fesul cam (wedi'i fesur gan gyfrifiad cyfraddau llog effeithiol) gan gynnwys llog cronedig. Y gyfradd log effeithio yw'r llog cronedig effeithiol sy'n dderbyniadwy o dan yr offeryn, wedi'i addasu ar gyfer amorteiddio unrhyw bremiymau neu ddisgowntiau sy'n cael eu hadlewyrchu yn y pris prynu.

**Nodyn 2 -** Mae gwerth teg yn cael ei fesur drwy'r canlynol:

- cyfeirio'n uniongyrchol at y dyfynbrisiau a gyhoeddwyd mewn marchnad weithredol; a /neu
- amcangyfrif gan ddefnyddio techneg brisio.

Pan mae asedau'n cael eu nodi fel rhai wedi'u hamharu oherwydd ei bod yn debygol, oherwydd digwyddiad yn y gorffennol, na fydd taliadau dan y contract yn cael eu gwneud, bydd yr ased yn cael ei ysgrifennu i lawr a rhoddir cost ar y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant.
Bydd unrhyw enillion a cholledion sy'n deillio o ddad-gydnabod yr ased yn cael eu credydu/ debydu ar y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant.

Er nad oes angen darparu gwybodaeth fwy manwl, bydd angen gwybodaeth ychwanegol yn yr amgylchiadau canlynol, er mor annhebygol yw'r rheini:

- unrhyw symudiadau anarferol;
- dad-gydnabod offerynnau;
- lwfans ar gyfer colledion credyd;
- ailddosbarthu offerynnau;
- sicrwydd cyfochrog;
- diffyg-daliadau a thorri cytundebau.

Rhoddir esboniad mwy manwl o'r rhain isod:

**Enillion/Colledion Offerynnau Ariannol**

Dyma'r enillion a'r colledion sy'n cael eu cydnabod yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant mewn perthyn â'r offerynnau ariannol:

| | 2020/21 | | 2021/22 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ymrwymiadau Ariannol - Mesur ar gost amorteiddiedig £'000** | **Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau £'000** | **Ymrwymiadau Ariannol - Mesur ar gost amorteiddiedig £'000** | **Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau £'000** |
| Gwariant llog | 380 | | 305 | |
| **Cyfanswm y gwariant yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **380** | | **305** | |
| Incwm llog | | (2) | | (2) |
| **Cyfanswm yr incwm yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | **(2)** | | **(2)** |
| **Enillion net/(colledion) am y flwyddyn** | **(380)** | **2** | **(305)** | **2** |

## Benthyca Allanol

Mae'r benthyciadau sy'n weddill wedi dod trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac ar y marchnadoedd ariannol. Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad o'r benthyciadau tymor hir a thymor byr.
Mae'r tabl isod yn eithrio'r llog am y flwyddyn sy'n cael ei ddangos fel rhan o'r benthyciadau tymor byr.

| | 2020/21 | | 2021/22 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfradd Llog yn daladwy** | **Loans £000** | **Cyfradd Llog yn daladwy** | **Loans £000** |
| Benthyciadau'r Farchnad | 0.05 - 0.10 | 14,000 | 0.007 - 0.2 | 9,000 |
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 1.45 - 4.9 | 12,119 | 1.0 - 4.9 | 15,435 |
| **Cyfanswm Benthyciadau Allanol** | | **26,119** | | **24,435** |

| | 2020/21 | | 2021/22 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Tymor Byr £000** | **Tymor Hir £000** | **Tymor Byr £000** | **Tymor Hir £000** |
| Benthyciadau'r Farchnad | 14,000 | 0 | 9,000 | 0 |
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 2,684 | 9,435 | 4,674 | 10,761 |
| **Cyfanswm Benthyciadau Allanol** | **16,684** | **9,435** | **13,674** | **10,761** |

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n rheoli swyddogaeth y Trysorlys ar ran yr Awdurdod Tân ac Achub, ond mae'r holl fenthyciadau dan enw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## 13 GWERTH TEG ASEDAU AC YMRWYMIADAU SY'N CAEL EU CARIO AR GOST AMORTEIDDIEDIG

Mae'r ymrwymiadau ariannol a'r asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthyciadau a derbyniadau yn cael eu cario ar y fantolen ar gost amorteiddiedig (mewn asedau/ymrwymiadau tymor hir gyda llog cronedig mewnasedau/ymrwymiadau cyfredol). Gellir asesu eu gwerth teg trwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian sy'n digwydd dros weddill oes yr offerynnau, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- O ran benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a benthyciadau eraill sy'n daladwy, mae benthyciadau gan y Bwrdd wedi cael eu defnyddio i ddarparu gwerth teg dan weithdrefnau ad-dalu dyledion y Bwrdd;
- O ran benthyciadau a dderbynnir, defnyddiwyd y cyfraddau farchnad meincnod cyffredinol i ddarparu'r gwerth teg;
- Ni chydnabyddir ad-daliad cynnar nac amhariad;
- Pan fo offeryn yn aeddfedu ymhen llai na 12 mis, neu pan fo'n swm masnach neu'n swm derbyniadwy arall, cymerir mai'r gwerth teg yw'r swm sy'n cario neu'r swm ar y
- Cymerir mai gwerth teg swm masnach neu swm derbyniadwy arall yw'r swm ar yr anfoneb.

Dyma'r gwerthoedd teg a gyfrifir:

| | 31-Maw-21 | | 31-Maw-22 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Swm cario £'000** | **Gwerth teg £'000** | **Swm cario £'000** | **Gwerth teg £'000** |
| Dyled y BBGC | 12,119 | 13,781 | 15,435 | 16,175 |
| Dyled nad yw'r BBGC | 14,000 | 14,000 | 9,000 | 9,000 |
| **Cyfanswm y ddyled** | **26,119** | **27,781** | **24,435** | **25,175** |

Mae'r gwerth teg wedi ei gyfrifo gan gyfeirio'n benodol at ddyfynbrisiau a gyhoeddwy mewn marchnad weithredol. Yn achos yr Awdurdod Tân ac Achub, maent yn seiliedig ar bremiymau a fyddai'n daladwy pe ildiwyd benthyciadau'r BBGC ac maent yn darparu rhagamcan o'r llog ychwanegol sy'n daladwy i'w gymharu â'r un benthyciad ar gyfraddau cyfredol y farchnad â disgownt yn ôl i'r cyfnod presennol. Mae'r swm cludo yn eithrio'r llog cronedig fel yn Nodyn 12.

## 14 RHESTRAU STOC

| | Prif Storfeydd | | Stoc Fflyd | | Cyfansymiau | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 |
| Balans ar ddechrau'r flwyddyn | 545 | 419 | 122 | 147 | 667 | 566 |
| Pryniadau | 165 | 99 | 158 | 220 | 323 | 319 |
| Cydnabyddir fel gwariant yn y flwyddyn | (291) | (98) | (133) | (186) | (424) | (284) |
| **Balans sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn** | **419** | **420** | **147** | **181** | **566** | **601** |

## 15 DYLEDWYR

| 2020/21 £'000 | | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| | **Tymor hir** | |
| 376 | Taliadau ymlaen llaw | 33 |
| **376** | **Cyfanswm Tymor Hir** | **33** |
| | **Tymor Byr** | |
| 277 | Arall | 384 |
| 1,803 | Masnach | 2,511 |
| 567 | Rhagdaliad | 837 |
| **2,647** | **Cyfanswm Tymor Byr** | **3,732** |
| **3,023** | **Cyfanswm Dyledwyr Tymor Hir a Thymor Byr** | **3,765** |

## 16 ARIAN A CHYFWERTH ARIANNOL

Mae'r arian gwirioneddol mewn llaw yn cynrychioli'r arian a ddangosir yn y Fantolen, ynghyd â'r trafodion nad effeithir arnynt o fewn y balans banc a oedd wedi ei glirio ar 31 Mawrth 2022. Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa:

| 31 Mawrth 2021 £'000 | | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| 1,495 | Cyfrifon Galw Banc | 0 |
| 23 | Cyfrifon Banc Cyfredol | 2,522 |
| 10 | Imprest Arian Mân | 10 |
| **1,528** | **Cyfanswm** | **2,532** |

## 17 CREDYDWYR

| 2020/21 £'000 | | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| 1,302 | Arall | 1,195 |
| 1,846 | Masnach | 1,852 |
| **3,148** | **Cyfanswm** | **3,047** |

## 18 DARPARIAETHAU

Ar 31 Mawrth 2022, roedd gan yr Awdurdod ddarpariaethau yn werth £737k yn ymwneud ag ymrwymiadau tuag at weithwyr cyflogedig. Defnyddir y ddarpariaeth hon yn erbyn gwariant refeniw, pan fydd yn digwydd:

| | Balans agoriadol £'000 | Symudiadau i mewn £'000 | Symudiadau allan £'000 | Balans terfynol £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Darpariaethau Tymor Byr | 426 | 417 | (241) | 602 |
| Darpariaethau Tymor Hir | 135 | 0 | 0 | 135 |
| **Cyfanswm** | **561** | **417** | **(241)** | **737** |

## 19 CRONFEYDD DEFNYDDIADWY

### Cronfeydd Cyffredinol

Doeth yw bod yr Awdurdod yn dal Cronfa Gyffredinol, a dyma'r meysydd lle disgwylir y bydd yn cael ei defnyddio:
- codiadau cyflog;
- gostyngiad mewn arian grant.

£1,520k yw balans y gronfa ar 31 Mawrth 2022 (31 Mawrth 2021: £1,450k). Mae'r cynnydd o ganlyniad i danwariant o £70k yn y gyllideb refeniw.

### Cronfeydd a Glustnodwyd

Sefydlwyd nifer o gronfeydd a glustnodwyd ar gyfer cynlluniau y mae'r Awdurdod wedi cytuno i'w hariannu.

| | Balans 1 Ebrill 2020 £'000 | Trosglwydd-iadau i mewn/(allan) 2020/21 £'000 | Balans 31 Mawrth 2021 £'000 | Trosglwydd-iadau i mewn/(allan) 2021/22 £'000 | Balans 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa wrth gefn ar gyfer pensiynau | 85 | 0 | 85 | 0 | 85 |
| Cynllun Radio | 300 | 200 | 500 | 250 | 750 |
| Grant ADTC Gostyngiad/ Hyfforddiant | 195 | 0 | 195 | 0 | 195 |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer llog | 100 | 0 | 100 | 200 | 300 |
| Atgyweiro Hydrantau Tân | 90 | 0 | 90 | 0 | 90 |
| Lifrai OGP | 250 | 0 | 250 | 0 | 250 |
| Newid Trawsffurfio | 350 | 450 | 800 | 51 | 851 |
| Gwella Cyfleusterau | 150 | 340 | 490 | 833 | 1,323 |
| Atebolrwydd Cyfreithiol | 200 | 0 | 200 | 25 | 225 |
| Hyfforddiant | 100 | 0 | 100 | 150 | 250 |
| Digwyddiadau Mawr | 0 | 150 | 150 | 0 | 150 |
| Gwelliannau i Systemau | 0 | 502 | 502 | 346 | 848 |
| Chwyddiant | 0 | 0 | 0 | 250 | 250 |
| **Cyfanswm** | **1,820** | **1,642** | **3,462** | **2,105** | **5,567** |

### Cronfeydd Grantiau

Dan safonau IFRS, mae unrhyw grantiau a dderbyniwyd gan yr Awdurdod ar gyfer cynlluniau penodol, ond sydd heb eu defnyddio yn y flwyddyn, yn cael eu dangos dan Grantiau Cyfalaf a dderbyniwyd ymlaen llaw.

### Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy

| 31 Mawrth 2021 £'000 | | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---:|---|---:|
| 1,450 | Cronfeydd Cyffredinol | 1,520 |
| 3,462 | Cronfeydd a Glustnodwyd | 5,567 |
| 0 | Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso | 238 |
| **4,912** | **Cyfanswm** | **7,325** |

## 20 CRONFEYDD ANNEFNYDDIADWY

| 31 Mawrth 2021 £'000 | | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---:|---|---:|
| 6,719 | Cronfa Ailbrisio | 8,550 |
| 3,908 | Cyfrif Addasu Cyfalaf | 6,444 |
| (337,323) | Cronfa Bensiynau | (327,498) |
| (326) | Cyfrif Absenoldebau Cronedig | (338) |
| **(327,022)** | **Cyfanswm** | **(312,842)** |

### Cronfa Ailbrisio

Mae'r Gronfa Ailbrisio yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, ei Beiriannau a'i Offer.

Bydd y balans yn cael ei ostwng pan fo asedau gydag enillion cronedig yn:
* cael eu hailbrisio am i lawr, neu'n cael eu hamharu a'r enillion yn cael eu colli;
* cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, a'r enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiad, neu'n cael eu gwaredu, a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Nid yw'r Gronfa ond yn cynnwys enillion cronedig ers 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crewyd y Gronfa. Mae enillion cronedig sy'n deillio cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu cyfuno yn y balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| 2020/21 £'000 | | 2021/22 £'000 |
|---:|---|---:|
| **7,318** | **Balans ar 1 Ebrill** | **6,719** |
| 0 | Ailbrisio asedau am i fyny/cael gwared ar y dibrisiad | 3,231 |
| (678) | Ailbrisio asedau a cholledion amhariad i lawr nas codir ar y gwarged/diffyg wrth ddarparu | 0 |
| 0 | Addasiad Blwyddyn Flaenorol | (980) |
| 203 | Addasiad o'r Cyfrif Addasu Cyfalaf | (331) |
| (124) | Gwahaniaeth rhwng dibrisiad gwerth teg a dibrisiad cost hanesyddol | (89) |
| **6,719** | **Balans ar 31 Mawrth** | **8,550** |

**Cyfrif Addasu Cyfalaf**

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sydd rhwng y trefniadau gwahanol ar gyfer rhoi cyfrif am dreuliant asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan y darpariaethau statudol.

Debydir y Cyfrif gyda chost caffael, adeiladu neu wella gan fod dibrisiad, colled amhariad ac amorteiddiad yn cael eu codi ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant (gyda chofnodion cyson o'r Gronfa Ailbrisio i drosi ffigyrau gwerth teg yn sail cost hanesyddol). Credydir y Cyfrif gyda'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod fel arian ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi, ac enillion a gydnabuwyd ar asedau rhoddedig sydd eto i gael eu treulio gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion prisio a gronnwyd ar Eiddo, Peiriannau ac offer cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crewyd y Gronfa Ailbrisio ar gyfer dal enillion o'r fath.

| 2020/21 £'000 | | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| 6,874 | Balans ar 1 Ebrill | 3,908 |
| | **Gwrthdroi eitemau sy'n berthnasol i wariant cyfalaf wedi'i ddebydu neu'i gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | |
| (41) | Cyfanswm yr asedau anghyfredol a ddilëwyd ar ôl cael gwared arnynt neu eu gwerthu fel rhan o enillion/colledion gwaredu'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 15 |
| (2,353) | Taliadau am ddibrisiad ac amhariad asedau anghyfredol | (2,101) |
| 0 | Dadgydnabyddiaeth asedau cyfredol | (64) |
| (2,473) | Addasiad yn ymwneud ag ailbrisio asedau | 2,206 |
| 0 | Addasiadau i'r Gronfa Ailbrisio drwy'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 0 |
| (203) | Addasiadau i'r symiau a ddilëwyd o'r Gronfa Ailbrisio | 331 |
| (5,070) | Swm net wedi'i ysgrifennu allan o gost yr asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | 387 |
| | **Cyllido cyfalaf a wnaed yn y flwyddyn:** | |
| 0 | Defnydd o Gronfa Wrth Gefn Talebion Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 0 |
| 0 | Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a ddefnyddiwyd ar gyfer ariannu cyfalaf | 148 |
| 2,104 | Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf a gostiwyd yn erbyn y cronfa gyffredinol | 2,001 |
| (2,966) | | 2,536 |
| **3,908** | **Balans 31 Mawrth** | **6,444** |

Mae'r nodiadau gwrthgyferbynio ar gyfer dibrisio, costau amhariad ac ailbrisio yn cael eu rhoi naill ai ar y Gronfa Ailbrisio neu'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn ôl y meini prawf uchod. Mae'r tabl isod yn dangos y trafodion a wnaed ar y Gronfa Ailbrisio a'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| 2020/21 | | | | | 2021/22 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datganiad Ased Sefydlog (Nodyn 11)** | **Cronfa Ailbrisio** | **Cyfrif Addasu Cyfalaf** | **Cyfansymiau** | | **Datganiad Ased Sefydlog (Nodyn 11)** | **Cronfa Ailbrisio** | **Cyfrif Addasu Cyfalaf** | **Cyfansymiau** |
| (2,477) | (124) | (2,353) | (2,477) | Dbrisiad | (2,190) | (89) | (2,101) | (2,190) |
| 0 | 0 | 0 | 0 | Addasiad Blwyddyn Flaenorol | (1,074) | (1,009) | (65) | (1,074) |
| (3,151) | (678) | (2,473) | (3,151) | Ailbrisio | 5,436 | 3,232 | 2,204 | 5,436 |
| **(5,628)** | **(802)** | **(4,826)** | **(5,628)** | **Cyfanswm** | **2,172** | **2,134** | **38** | **2,172** |

### Cronfa wrth gefn ar gyfer Pensiynau

Mae'r Gronfa wrth gefn ar gyfer Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n digwydd oherwydd y trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifyddu buddion ôl-gyflogi a buddion ariannu yn unol â'r darpariaethau statudol.

Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am fuddion ôl-gyflogi yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant gan fod y buddion yn cael eu hennill gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r ymrwymiadau a gydnabyddir i adlfewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau ac adenillion buddsoddiadau ar unrhyw adnoddau a neilltuir i gwrdd â'r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fuddion a enillir gael eu hariannu gan fod yr Awdurdod yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu yn y pen draw yn talu unrhyw bensiynau y mae'n gyfrifol amdanynt yn uniongyrchol. Felly mae'r balans debyd ar y Gronfa wrth gefn ar gyfer Pensiynau yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion a enillwyd gan weithwyr blaenorol a chyfredol a'r adnoddau y mae'r Awdurdod wedi eu neilltuo ar eu cyfer.

Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd arian wedi ei neilltuo erbyn yr adeg y bydd angen talu'r buddion i"w talu.

| 2020/21 £'000 | | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| **(312,118)** | Balans agoriadal 1 Ebrill | **(337,323)** |
| (17,095) | Gwrthdroi eitemau yn berthnasol i fuddion ymddeoliad wedi'u debydu i'r Darpariaeth Gwasanaeth yn y CIES | (21,172) |
| 9,837 | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn | 8,830 |
| (17,947) | Ailfesur yr ymrwymiad budd diffiniedig net | 22,167 |
| **(25,205)** | **Symudiad ar y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau** | **9,825** |
| **(337,323)** | **Balans Terfynol** | **(327,498)** |

### Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn digwydd ar falans y Gronfa Cyffredinol o ganlyniad i absenoldebau digolledol a enillwyd ond chymerwyd yn y flwyddyn e.e hawl i wyliau blynyddol wedi ei gario drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn mynnu bod yr ardrawiad ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei niwtraleiddio trwy drosglwyddo i mewn neu allan o'r cyfrif.

| 2020/21 £’000 | | 2021/22 £’000 |
|---|---|---|
| (290) | Balans ar 1 Ebrill | (326) |
| 290 | Setlo neu ganslo croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | 326 |
| (326) | Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol | (338) |
| **(326)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(338)** |

## 21 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

| 2020/21<br>£'000 | | 2021/22<br>£'000 |
|---|---|---|
| **8,477** | **(Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau** | **7,736** |
| | **Addasiadau i (warged)/diffyg net ar gyfer symudiadau anariannol** | |
| (101) | Cynnydd/(gostyngiad) yn y Stoc | 35 |
| 1,293 | Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Dyledwyr | 742 |
| (1,706) | Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Credydwyr | 101 |
| (2,478) | Cost Dibrisio | (2,100) |
| 0 | Ad-daliad Asedau | 148 |
| (7,258) | Addasiadau Pensiwn IAS 19 | (12,342) |
| (2,474) | Codi am Amhariad | 2,142 |
| (296) | Dadadnabyddiaeth Asedau | 0 |
| (56) | Cyfraniad (i)/o Wahanol Ddarpariaethau | (151) |
| 0 | Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu costio i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau | 0 |
| (37) | Cronfa wrth gefn Absenoldebau Cronedig | (12) |
| **(13,113)** | **Llai Cyfanswm** | **(11,437)** |
| | **Addasiadau am eitemau sydd yn y (Gwarged) neu'r Diffyg net ar Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi ac Ariannu** | |
| (380) | Llog a dalwyd | (305) |
| 2 | Llog a gafwyd | 2 |
| **(378)** | **Llai Cyfanswm** | **(303)** |
| **(5,014)** | **Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredol** | **(4,004)** |

## 22 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

| 2020/21<br>£'000 | | 2021/22<br>£'000 |
|---|---|---|
| 0 | Prynu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 1,176 |
| 0 | Elw o werthu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | (15) |
| 0 | Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi | (148) |
| **0** | **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | **1,013** |

## 23 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU ARIANNU

| 2020/21<br>£'000 | | 2021/22<br>£'000 |
|---|---|---|
| (8,077) | Derbyniadau arian parod o fenthyca tymor byr a thymor hir | (10,767) |
| 12,957 | Ad-dalu benthyca tymor byr a thymor hir | 12,451 |
| 377 | Taliadau eraill am weithgareddau ariannu | 303 |
| **5,257** | **Llif arian net o weithgareddau ariannu** | **1,987** |

## 24 LWFANSAU AELODAU

| 2020/21 £'000 | | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| | **Lwfansau Blwyddyn Lawn** | |
| 10,705 | Cadeirydd | 10,818 |
| 5,705 | Dirprwy Gadeirydd | 5,765 |
| 5,705 | Cadeirydd Pwyllgor Archwilio | 5,765 |
| 2,005 | Aelodau | 2,026 |
| **72,068** | **Cyfanswm Lwfansau a dalwyd i Aelodau** | **72,997** |
| | **Treuliau a Dalwyd** | |
| 854 | Aelodau'r Pwyllgor Safonau | 898 |
| **0** | Aelodau'r Awdurdod | 96 |
| **854** | **Cyfanswm y Treuliau a Dalwyd** | **994** |
| **72,922** | **Cyfanswm a dalwyd i Aelodau** | **73,991** |

Yn ystod 2021/22 roedd cyfanswm o 28 o Aelodau'r Awdurdod (2020/21: 33 Aelod)
gan gynnwys 4 o aelodau'r pwyllgor safonau nad oedd wedi derbyn lwfans.
Sylwch fod ffigurau 2020/21 wedi cael eu hailddatgan i gynnwys yr elfen treuliau a dalwyd.

## 25 TALIADAU SWYDDOGION

### Taliadau i Uwch Swyddogion 2021/22 – Cyflog rhwng £60,000 a £150,000

| TEITL SWYDD | Blwyddyn | CYFLOG (gan gynnwys ffioedd a lwfansau) £ | TREULIAU A AD-DALWYD £ | BUDD MEWN NWYDDAU (Darparu cerbyd) £ | CYFANSWM (ac eithrio cyfraniadau pensiwn) £ | CYFRANIADAU PENSIWN £ | CYFANSWM Y TALIADAU £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Swyddog Tân (wedi cychwyn Gorffennaf 2021) | 2020/21 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **2021/22** | **101,763** | **0** | **0** | **101,763** | **17,300** | **119,063** |
| Prif Swyddog Tân (wedi ymddeol Mehefin 2021) | 2020/21 | 131,392 | 126 | 0 | 131,518 | 42,244 | 173,762 |
| | **2021/22** | **33,669** | **32** | **0** | **33,700** | **5,724** | **39,424** |
| Dirprwy Brif Swyddog Tân (wedi cychwyn Chwefror 2022) | 2020/21 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **2021/22** | **12,820** | **978** | **0** | **13,798** | **3,500** | **17,298** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | 2020/21 | 94,926 | 126 | 0 | 95,052 | 26,104 | 121,156 |
| | **2021/22** | **100,365** | **126** | **0** | **100,491** | **27,400** | **127,891** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol dros dro (wedi cychwynl Ianawr 2021) | 2020/21 | 71,721 | 0 | 0 | 71,721 | 23,060 | 94,781 |
| | **2021/22** | **99,428** | **0** | **0** | **99,428** | **16,903** | **116,331** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol dros dro (wedi cychwyn Chwefror 2021) | 2020/21 | 14,664 | 0 | 0 | 14,664 | 3,679 | 18,343 |
| | **2021/22** | **95,547** | **24** | **0** | **95,571** | **23,976** | **119,547** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | 2020/21 | 64,141 | 126 | 12,531 | 76,798 | 20,622 | 97,420 |
| | **2021/22** | **71,931** | **126** | **8,789** | **80,846** | **12,228** | **93,074** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol dros dro (wedi ymddeol Ianawr 2021) | 2020/21 | 76,032 | 105 | 0 | 76,137 | 18,285 | 94,422 |
| | **2021/22** | **109** | **0** | **0** | **109** | **0** | **109** |
| Trysorydd - Swyddog Adran 151 (15 diwrnod y flwyddyn) (wedi ymddeol Rhagfyr 2021) | 2020/21 | 7,812 | 0 | 0 | 7,812 | 0 | 7,812 |
| | **2021/22** | **5,859** | **0** | **0** | **5,859** | **0** | **5,859** |

Ymddeolodd y Trysorydd ym mis Rhagfyr, ac yn ystod y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth bu'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol yn ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau yTrysorydd.

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw weithwyr sy'n cael cyflog uwch na £150k. Mae'r Swyddog. Monitro yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir y Fflint fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth felly ni ddangosir unrhyw gostau unigolyn yn y tabl uchod. Ceir rhagor o wybodaeth ar gostau'r Swyddog Monitro yn Nodyn 29 - Partion Cysylltiedig.

O ran swyddogion sy'n aelodau o gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae cyfraniad y cyflogwr yn cynnwys 17.0% o'u cyflog ynghyd â dosraniad o'r cyfandaliad sy'n daladwy i'r Gronfa Bensiwn ar sail canran o'r holl gyflog pensiynadwy.

Dyma nifer y gweithwyr cyflogedig yr oedd eu tâl yn £60,000 neu fwy, mewn bandiau o £5,000:

| BAND TALIAD | NIFER Y GWEITHWYR 2020/21 | NIFER Y GWEITHWYR 2021/22 |
|---|---|---|
| £80,000 - £84,999 | 0 | 2 |
| £75,000 - £79,999 | 2 | 0 |
| £70,000 - £74,999 | 1 | 2 |
| £65,000 - £69,999 | 0 | 0 |
| £60,000 - £64,999 | 3 | 6 |

(Sylwer nad ydi'r uchod yn cynnwys manylion uwch swyddogion gan eu bod yn cael eu datgelu ar wahân fel yr uchod).

Mae'r tâl yn cynnwys pob swm a dalwyd neu i'w dderbyn gan weithiwr, lwfansau treuliau, i'w godi ar dreth, a gwerth ariannol buddion. Nid yw'r data uchod yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi'r gymhareb rhwng tâl Prif Swyddog Tân a'r tal canolrifol i staff y Gwasanaeth Tân ac Achub:

| 2020/21 £ | | 2021/22 £ |
|---|---|---|
| 131,518 | Prif Swyddog Tân | 134,940 |
| 31,767 | Canolrif | 32,244 |
| 4.14 | Cymhareb | 4.18 |

Mae'r staff sy'n cael eu cyflogi dan Gontractau'r System RDS wedi eu cynnwys yn y cyfrifiad ar eu pwynt graddfa Cyfwerth â Llawn Amser yn hytrach na'u henillion gwirioneddol. Mae'r data uchod yn cynnwys cyfanswm y cyflog a dalwyd (ac eithrio cyfraniadau pensiwn).

## Pecynnau Ymadael

Mae nifer y pecynnau ymadael, gyda chyfanswm y gost am bob band a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac

| Band Cost Pecyn Ymadael | Nifer y Diswyddiadau Gorfodol | | Nifer yr Ymadawiadau Eraill y cytunwyd arnynt | | Cyfanswm Nifer y Pecynnau Ymadael | | Cyfanswm Cost y Pecynnau Ymadael | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 |
| £0-£20,000 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 28 |
| £20,000 - £40,000 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 28 |
| £40,000 - £60,000 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 48 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **0** | **4** | **0** | **4** | **0** | **104** |

## 26 COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

| 2020/21 £'000 | | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| 61 | Ffioedd yn daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru am y gwasanaethau archwilio allanol a wnaethpwyd gan yr archwilydd penodedig | 64 |

## 27 GRANTIAU

Derbyniodd yr Awdurdod y grantiau canlynol:

| 2020/21 £'000 | | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| | **Refeniw** | |
| 416 | Ffioedd Gwasanaeth Firelink | 416 |
| 157 | Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol | 157 |
| 136 | Cyfarpar Diogelwch yn y Cartref | 213 |
| 1 | Gofyn a Gweithredu | 10 |
| 143 | Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru gyfan (Dimensiynau Newydd) | 233 |
| 162 | Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc (Y Ffenics) | 160 |
| 3 | Hyfforddiant Seiber | 0 |
| 1,104 | Costau Cyfraniadau'r Cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân | 1,089 |
| 0 | Uwchraddio Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys | 210 |
| **2,122** | **CYFANSWM** | **2,488** |
| | **Cyfalaf** | |
| 0 | Cyfarpar Cyfleuster Hyfforddi | 238 |
| **0** | **CYFANSWM** | **238** |

## 29 PARTION CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodion o bwys gyda phartion cysylltiedig – cyrff neu unigolion a allai reoli neu ddylanwadu ar yr Awdurdod neu sy'n cael eu rheoli neu neu eu dylanwadu gan yr Awdurdod. Mae datgelu'r trafodion hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu i ba raddau y gallai'r Awdurdod fod wedi cael ei gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhwydd â'r Awdurdod

### Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru gryn ddylanwad dros weithrediad cyffredinol yr awdurdod – mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r awdurdod yn gweithredu. Mae'n darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau (caiff y Grant Cynnal Refeniw ei dalu i awdurdodau cyfansoddol) ac mae'n rhagnodi telerau llawer o'r trafodion sydd gan yr awdurdod â phartion eraill. Yn Nodyn 27, dangosir y derbyniadau grant a geir yn uniongyrchol, ac yn Nodyn 10 dangosir cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol.

### Aelodau

Mae gan aelodau'r awdurdod reolaeth uniongyrchol dros bolisiau ariannol a gweithredol yr awdurdod.

Yn Nodyn 24 gwelir cyfanswm lwfansau'r aelodau a dalwyd yn 2021/22.

Mae'r holl Aelodau wedi llenwi datganiad buddiannau gyda phartion cysylltiol am y flwyddyn 2021/22. Ac eithrio lwfanau a threuliau, ni nodwyd unrhyw drafodion eraill. Ni thalwyd dim gan yr Awdurdod yn ystod 2021/22, dan drefniadau o'r fath (2020/21: nil), ac nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw incwm yn ystod 2021/22 (2020/21: nil).

### Uwch Swyddogion

Roedd yr uwch swyddogion wedi cwblhau datganiad buddiannau gyda phartion cysylltiol am y flwyddyn 2021/22. Yn Nodyn 25, dangosir cydnabyddiaeth ariannol yr uwch swyddogion.

Roedd un o'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol wedi datgan buddiant fel un o ymddiriedolwyr Pentre Peryglon. Roedd taliadau gwerth £5,700 wedi cael eu gwneud i Bentre Peryglon yn 2021/22 fel rhan o gyllid grant Llywodraeth Cymru (2020/21: £1,580). Hefyd, darperir cyllid ar gyfer cost gweinyddwr, sy'n werth £26,701 (2020/21: £26,386). Nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw incwm yn ystod 2020/21 a 2021/22.

**Cyrff Cyhoeddus Eraill**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu rôl Swyddog Monitro. Tan ei ymddeoliad roedd y swydd yn cael ei dal gan y Prif Weithredwr ond bellach mae wedi trosglwyddo i'r Prif Swyddog (Llywodraethu)/Swyddog Monitro.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn darparu gwasanaethau ariannol. Mae hyn yn cynnwys archwilio mewnol, prosesu trafodion, a chymorth technegol, gan gynnwys rheoli swyddogaeth y trysorylys sy'n golygu broceru benthyciadau'r farchnad a buddsoddiadau.
Mae CBS Conwy hefyd yn darparu gwasanaethau cyfreithiol i'r Awdurdod.

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn darparu gwasanaeth pensiwn i'r Awdurdod, yn benodol ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru drefniadau ar y cyd gyda'r Awdurdod gan gynnwys Adran Reoli Ystadau, ystafell reoli a gweithio mewn partneriaeth ar nifer o brosiectau.

Yn ystod y flwyddyn bu trafodion gyda phartion cysylltiedig fel y dangosir isod:

| 2020/21 Trafodion £'000 | 2020/21 Balans yn Weddill £'000 | | 2021/22 Trafodion £'000 | 2021/22 Balans yn Weddill £'000 |
|---|---|---|---|---|
| 17 | 0 | Cyngor Sir y Fflint - Swyddog Monitro | 17 | 0 |
| 138 | 69 | CBS Conwy - Gwasanaethau Ariannol | 140 | 70 |
| 10 | 0 | CBS Conwy - Gwasanaethau Cyfreithiol | 12 | 12 |
| 53 | 0 | Cyngor Sir Gaerfyrddin - Gwasanaeth Pensiwn | 59 | 0 |
| 207 | 52 | Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru - Rheoli Cyfleusterau | 212 | 53 |
| 7 | 7 | Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru - Caffael | 7 | 7 |

## 30 GWARIANT AC ARIANNU CYFALAF

Nodir isod y gwariant cyfalaf a gafwyd yn ystod y flwyddyn, a'r ardrawiad ar y Gofyniad Ariannu Cyfalaf:

| 2020/21 £'000 | | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| **31,746** | Gofyniad Agoriadol Ariannu Cyfalaf | 29,389 |
| | **Buddsoddiad Cyfalaf yn y flwyddyn** | 0 |
| 0 | Asedau Sefydlog | 1,176 |
| | **Ffynonellau Cyllid** | |
| 0 | Grantiau a chyfraniadau | 0 |
| (253) | Addasiad Blwyddyn Flaenorol ar gyfer prosiect a ddaeth i ben* | 0 |
| (2,104) | Refeniw a darpariaethau eraill | (2,164) |
| 29,389 | Gofyniad Terfynol Ariannu Cyfalaf | 28,401 |
| **2,357** | Newid mewn Gofyniad Ariannu Cyfalaf | **988** |
| | Esboniad o'r newid: | |
| 2,357 | (Cynnydd)/gostyngiad yn yr angen gwaelodol i fenthyca | 988 |

## YMRWYMIADAU CYFALAF 2021/22 AC YMLAEN

Mae'r Awdurdod wedi ymrwyo i wariant cyfalaf mewn cyfnodau yn y dyfodol sy'n deillio o gontractau a oedd yn bodoli ar ddyddiad y fantolen. Mae'r gwariant cyfalaf yr ymrwymwyd iddo ar 31 Mawrth 2022 ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol yn cyfateb i £2,251k (2020/21: £2,190k). Mae'r ymrwymiadau'n ymwneud â'r canlynol:

| Description | £'000 |
|---|---|
| Cyfarpar | 92 |
| Cerbydau | 2,159 |
| **Cyfanswm** | **2,251** |

## ARIANNU GWARIANT CYFALAF

Cafodd y gwariant cyfalaf yn y flwyddyn ei ariannu fel a ganlyn:

| 2020/21 £'000 | | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| 0 | Benthyciadau Allanol | 1,013 |
| 0 | Arian Grant | 0 |
| 0 | Derbyniadau Cyfalaf | 15 |
| 0 | Cyfraniad o'r Gronfa Gyfalaf | 148 |
| **0** | **Cyfanswm** | **1,176** |

## 31 PRYDLESI

### Prydlesi Cyllid

Yn 2016/17 cafodd yr Awdurdod orsaf dân Wrecsam dan les cyllid. Mae'r ased a gafwyd dan y les yn cael ei chario ar y Fantolen dan Eiddo, Peiriannau ac Offer gyda gwerth net o £4,586k.

Rhent rhad yw'r taliad les ar gyfer Gorsaf Dân Wrecsam, felly nid oes cysoniad rhwng cyfanswm y taliadau les gofynnol yn y dyfodol a'r gwerth presennol, rhenti wrth gefn na chyfanswm y taliadau is-les y disgwylir eu cael yn y dyfodol.

### Prydlesi Gweithredu

Mae'r awdurdod wedi caffael cerbydau a chyfarpar drwy gael Prydlesi gweithredu ag oes o bedair blynedd fel arfer.

Hefyd, mae'r awdurdod yn prydlesu tri adeilad, â chyfnodau prydlesu o bum mlynedd fel arfer.
Dyma'r cyfnodau prydlesu isaf ar gyfer y dyfodol o dan Prydlesi na ellir eu canslo yn y dyfodol:

| 2020/21 £'000 | | 2021/22 £'000 |
|---:|---|---:|
| 294 | Dim hwyrach na blwyddyn | 312 |
| 920 | Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 | 808 |
| 247 | Hwyrach na 5 mlynedd | 183 |
| **1,461** | **Total** | **1,303** |

## 32 TRAFODION YN YMWNEUD Â BUDDION ÔL-GYFLOGAETH

### Pensiynau

**(i) Staff Gwasanaethau Llywodraeth Leol a'r Ystafell Reoli**
Yn 2021/22, talodd yr Awdurdod gyfraniad pensiwn cyflogwr o £920k (2020/21: £1,827k) sef 17% (2020/21: 17%) o gyflog pensiynadwy gweithwyr.

Yn ystod 2020/2021 roedd yr awdurdod wedi gwneud taliad ymlaen llaw o £958k o gyfraniad pensiwn, sy'n ymwneud â'r blynyddoedd pensiwn canlynol 2020/21 £308k, 2021/22 £319k a 2022/23 £331k. Cafodd y cyfandaliad ymlaen llaw ei dalu i Gronfa Bensiwn Clwyd, sy'n darparu buddion diffiniedig i'r aelodau yn ymwneud â chyflog a gwasanaeth.

Pennir cyfradd y cyfraniad gan Actiwari'r Gronfa, yn seiliedig at werth actiwaraidd tair blynedd, gyda'r adolygiad diwethaf ar 31 Mawrth 2019. Yn dilyn yr adolygiad, mae disgwyl i gyfraniad y cyflogwr aros ar 17.0% ar gyfer 2021/22. Dan y Rheoliadau Pensiynau Cyfredol, mae cyfraddau'r cyfraniadau'n cael eu gosod i gwrdd â 100% o'r atebolrwydd cyffredinol i'r Gronfa.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Gronfa Bensiwn Clwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa Bensiynau sydd ar gael ar gais gan Drysorydd y Sir yng Nghyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, CH7 6NA neu ar y wefan, www.siryfflint.gov.uk

**(ii) Diffoddwyr Tân**
Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn gynllun heb ei ariannu â buddion diffiniedig.
Yn 2021/22 roedd yr Awdurdod wedi talu cyfraniad pensiwn y cyflogwr o £3,192k (2020/21: £3,173k). Y taliadau pensiwn oherwydd afiechyd a dalwyd o'r refeniw oedd £346k (2020/21: £364k).

Caiff y rhan fwyaf o'r taliadau pensiwn i ddiffoddwyr tân wedi ymddeol eu talu o gyfrif Cronfa Bensiwn a weinyddir gan yr Awdurdod. Sylwch fod modd gweld cyfraddau cyfraniad Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân ar dudalennau 62 a 63.

**Cyfartalu a mynegeio Isafswm Pensiwn Gwaranatedig (GMP)**
Yn ddiweddar, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ymgynghoriad pellach ar fynegeio a chyfartalu Isafswm Pensiynau Gwarantedig, a'r cynnig yw ymestyn y "datrysiad interim" i'r aelodau a gyrhaeddodd Oedran Pensiwn Gwladol ar 5 Ebrill 2021. Cafodd cost gwasanaeth blaenorol ei gynnwys yn 2019/20 ar gyfer ymestyn y cyfartalu i bawb sy'n ymddeol yn y dyfodol. Fe wnaeth llys arall, ar 20 Tachwedd 2020, ddyfarnu ynghylch cyfartalu GMP fod rhaid i ymddiriedolwyr cynlluniau edrych eto ar gyn-Werthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) er mwyn sicrhau bod GMP yn cael ei gyfartalu. Gallai hyn arwain at atodiadau ychwanegol pan fo cyfartalu GMP yn golygu nad yw aelodau'n derbyn eu holl hawliad. Ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, disgwylir y bydd y dyfarniad hwn yn cael ei ddilyn ar draws cynlluniau, a bydd angen mewnbwn cyfreithiol. Gallai hyn olygu bod rhai edrych eto ar hen achosion CETV ar gyfer aelodau sydd ag oedran Pensiwn Gwladol ar ôl 5 Ebrill 2016 ac a gymerodd CETV o'r cynllun cyn i'r CETV gael eu cyfartalu. Nid yw'r costau wedi'u pennu eto. Nid oes data am CETV hanesyddol ar gael i amcangyfrif yr effaith bosibl. Disgwylir mai ymgodiad cymharol fach fydd hwn, ar gyfer is-set cymharol fach o aelodau (sef y rhai a gymerodd CETV ac sydd o fewn hyd a lled yr atodiad).

**Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19 - Buddion Ymddeol**
Yn unol â gofynion y Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol Rhif 19 - Buddion Ymddeol (IAS19) mae'n rhaid i'r Awdurdod ddatgelu rhywfaint o wybodaeth am asedau, ymrwymiadau, incwm a gwariant yn ymwneud â chynlluniau pensiwn i'w weithwyr. Fel yr esbonir yn Nodyn 33, mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn dau gynllun, sef Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân ar gyfer Diffoddwyr Tân sydd heb ei ariannu, a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cronfa Bensiwn Clwyd) ar gyfer gweithwyr eraill, sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Sir y Fflint. Hefyd, mae'r Awdurdod wedi gwneud trefniadau ar gyfer talu blynyddoedd ychwanegol i weithwyr sydd wedi ymddeol y tu allan i ddarpariaethau'r cynlluniau.

Er mwyn cydymffurfio ag IAS19, bydd yr Awdurdod yn penodi actiwariaid yn flynyddol i asesu asedau ac ymrwymiadau'r ddau gynllun.

**COVID-19**
Nid yw'r rhagolygon marwoldeb cyfredol yn ystyried effaith Covid-19 nac unrhyw pandemigau eraill. Mae cyfraddau cychwyn gwelliant marwoldeb yn seiliedig ar ragolygon tueddiadau'r gorffennol yn y DU a bydd effeithiau pandemigau'r gorffennol eisoes yn cael eu hadlewyrchu yn y tueddiadau hyn. Yn gyffredinol, mae disgwyl i effeithiau pandemigau ar gyfraddau marwoldeb fod yn rhai byrdymor, gyda'r cyfraddau'n dychwelyd i'r hyn oeddent cyn y pandemig ar ôl blwyddyn neu ddwy, oni bai fod y pandemig yn parhau am sawl blwyddyn. Mae'n rhy gynnar i benderfynu a yw Covid-19 yn newid y golwg hirdymor o ddisgwyliad oes yn y DU. Felly, nid yw'n afresymol cadw'r rhagdybiaethau presennol o farwoldeb. Byddai cyfradd marwolaeth oherwydd Covid-19 sy'n uwch na'r hyn a ganiateir ar ei chyfer yn y rhagdybiaethau marwoldeb yn dod i'r amlwg fel rhywbeth a geir drwy brofiad dros gyfrifon eleni.

**Goodwin**
Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud nad oes rhaid caniatau ar gyfer yr her gyfreithiol hon o fewn datgeliadau 2021/22. (Mae'r achos yn cyfeirio ar fuddion dibynyddion)

**O'Brien**
Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ymestyn yr hawl pensiwn i ddiffoddwyr tân wrth gefn cymwys i ymorol am wasanaeth cyn Gorffennaf 2000. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ATAau gynnal ail ymarferiad opsiynau. Ar hyn o bryd, nid yw'r datgeliadau wedi cael eu haddasu i gyfrif am unrhyw newidiadau gan fod y canlyniadau'n ansicr ar hyn o bryd.

**Dyfarniad McCloud a rheolaeth gwerth y costau 2016**
Yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl i'r achos McCloud yn Rhagfyr 2018 daethpwyd i'r casgliad bod yr amddiffyniadau trosiannol a gyflwynwyd yn 2015 yn gwahaniaethu ar sail oedran. Yn dilyn hyn cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar draws cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus y DU yn cynnwys Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Ailafaelwyd yn mecanwaith y cap ar gyfer prisiad 2016 ers hynny a chwblhawyd y cyfrifiadau, a'r canlyniad oedd dim newidiadau i fuddion na chyfraniadau.

Cyhoeddwyd hefyd y byddai'r materion yn ymwneud â'r gwerthusiad actiwariadd yn 2016 yn cael eu datrys ac y byddai'r costau yn gysylltiedig â'r dyfarniad McCloud yn dod o dan y categori 'cost aelod' yn yr elfen rheoli costau o brisiad. Wrth ystyried y cynnydd o ganlyniad i'r datrysiad McCloud bydd gwerth y costau rheoli ar gyfer cynllun yn uwch na'r disgwyl.

Yn y gorffennol mae costau gwasanaeth wedi eu hamcangyfrif i ystyried effaith y dyfarniad McCloud ac maent wedi eu cynnwys ers 2018/19 a'u diweddaru i adlewyrchu'r datrysiad arfaethedig a amlinellwyd gan Lywodraeth y DU yn dilyn yr ymgynghoriad yn ystod 2020.

**IAS 19 Addasiad Pensiwn i gost Net y Gwasanaeth Datganiad Cyfrif Incwm a Gwariant**

| 2020/21 £'000 | | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| 9,661 | Costau Cyfredol Gwasanaeth | 11,869 |
| 0 | Costau Blaenorol Gwasanaeth | 2,400 |
| 40 | Costau Gweinyddu | 43 |
| (5,791) | Cyfraniadau'r Cyflogwr | (4,636) |
| (4,046) | Grant Atodol | (4,194) |
| 0 | Addasiad Actiwaraidd/Cwtogiad | 0 |
| 380 | Trosglwyddiadau Mewn | 80 |
| **244** | **Addasiad i gost net y Gwasanaeth** | **5,562** |

Dyma asedau ac ymrwymiadau pensiwn a gydnabyddir yn y fantolen sy'n deillio o rwymedigaeth yr Awdurdod o ran ei gynllun buddion diffiniedig:

| 31 Mawrth 2021 £'000 | | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| 318,750 | Gwerth Presennol Amcangyfrifiedig yr ymrwymiad budd diffiniedig yng Nghronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân | 312,950 |
| 55,644 | Gwerth Presennol Amcangyfrifiedig yr ymrwymiad budd diffiniedig yng Nghronfa Bensiwn Clwyd | 56,519 |
| **374,394** | **Cyfanswm Cyfran Amcangyfrifiedig yr ymrwymiadau** | **369,469** |
| (37,071) | Cyfran Amcangyfrifiedig yr asedau yng Nghronfa Bensiwn Clwyd | (41,971) |
| **337,323** | **Diffyg Pensiynau Net** | **327,498** |

**Asedau ac Ymrwymiadau mewn perthynas â Buddion Ôl-gyflogaeth**

Ail-gysoni gwerth presennol ymrwymiadau'r cynllun (rhwymedigaeth buddion diffiniedig):

| **Ymrwym iadau** | **2020/21 £'000 Clwyd** | **2020/2021 £'000 Diffoddwyr Tân** | **2021/22 £'000 Clwyd** | **2021/22 £'000 Diffoddwyr Tân** |
|---|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 45,350 | 295,550 | 55,644 | 318,750 |
| Cost Cyfredol y Gwasanaeth | 1,561 | 8,100 | 2,119 | 9,750 |
| Gwerth Trosglwyddiadau | 0 | 380 | 0 | 80 |
| Llog | 1,082 | 6,650 | 1,159 | 6,400 |
| Colled/Enillion Actiwaraidd | 8,126 | 16,080 | (1,490) | (16,520) |
| Buddion a dalwyd | (815) | (9,620) | (1,284) | (9,520) |
| Cyfraniad Aelodau | 340 | 1,610 | 371 | 1,610 |
| Cost Gwasanaeth Blaenorol | 0 | 0 | 0 | 2,400 |
| **Ymrwymiadau Pensiwn Net ar ddiwedd y flwyddyn** | **55,644** | **318,750** | **56,519** | **312,950** |

## Trafodion yn ymwneud â Buddion Ymddeol a gydnabyddir yn y cyfrifon

| | Wedi eu hariannu | | Heb eu hariannu | |
|---|---|---|---|---|
| | **2020/21 £'000** | **2021/22 £'000** | **2020/21 £'000** | **2021/22 £'000** |
| **Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant** | | | | |
| **Cost Net y Gwasanaeth** | | | | |
| Cost Cyfredol y Gwasanaeth | 1,561 | 2,119 | 8,100 | 9,750 |
| Cost Blaenorol y Gwasanaeth | 0 | 0 | 0 | 2,400 |
| Costau Gweinyddu | 40 | 43 | 0 | 0 |
| **Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi** | | | | |
| Gwariant Llog Net | 364 | 380 | 6,650 | 6,400 |
| Trosglwyddiadau allan o'r cynllun | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trosglwyddiadau mewn i'r cynllun | 0 | 0 | 380 | 80 |
| **Yr holl fudd diffiniedig a godir ar ddarparu Gwasanaeth** | **1,965** | **2,542** | **15,130** | **18,630** |
| **Costau Pensiwn Eraill a godir ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant** | | | | |
| **Ailfesur y budd/rhwymedigaeth net diffiniedig yn cynnwys** | | | | |
| *Adenillion ar Asedau (ac eithrio llog) (A) | (6,259) | (4,157) | 0 | 0 |
| *(Enillion)/Colledion Actwaraidd yn dellio o Newidiadau i'r Rhagdybiaethau Demograffig (B) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *(Enillion)/Colledion Actwaraidd yn dellio o Newidiadau i'r Rhagdybiaethau Ariannol (C) | 8,914 | (1,177) | 30,810 | (3,780) |
| *Arall (D) | (788) | (313) | (14,730) | (12,740) |
| **Yr holl gostau pensiwn a godir ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant** | **1,867** | **(5,647)** | **16,080** | **(16,520)** |
| **Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth gefn** | | | | |
| Gwrthdroi costau net a wnaed i'r gwarged neu diffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau Buddion Wedi Cyflogaeth yn unol â'r Cod | (1,965) | (2,542) | (15,130) | (18,630) |
| **Symiau Gwirioneddol a godir ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn** | | | | |
| Cyfanswm Cyfraniadau Cyflogwr | 1,827 | 920 | 3,964 | 3,716 |
| Grant ychwanegol Pensiwn y Diffoddwyr Tân | 0 | 0 | 4,046 | 4,194 |

* A + B + C + D = Ailfesur yr Ymrwymiad Budd Diffiniedig Net/(Ased) fel y dyfynnir yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant: 2021/22: £22,167k, 2020/21: (£17,947k)

Mae'r enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun yn cael eu pennu drwy ystyried yr enillion disgwyliedig ar yr asedau sy'n sail i'r polisi buddsoddi cyfredol. Mae'r arenillion disgwyliedig ar fuddsoddiadau llog sefydlog yn seiliedig ar arenillion adbryniant gros, fel y maent ar ddyddiad y Fantolen. Mae cysoniad o werth teg Asedau'r cynllun yn ymwneud â Chronfa Bensiwn Clwyd yn unig:

| **2020/21 £'000** | | **2021/22 £'000** |
|---|---|---|
| (28,782) | Balans 1 Ebrill | (37,071) |
| (718) | Llog ar Asedau Cynllun | (779) |
| (6,259) | Ailfesuriadau (Asedau) | (4,157) |
| 40 | Costau Gweinyddu | 43 |
| (1,827) | Cyfraniadau Cyflogwr | (920) |
| (340) | Cyfraniadau Aelodau | (371) |
| 815 | Buddion a dalwyd | 1,284 |
| **(37,071)** | **Asedau Pensiwn Net ar ddiwedd y flwyddyn** | **(41,971)** |

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn gynllun sy'n cael ei ariannu, felly mae wedi adeiladu asedau dros y blynyddoedd i gynhyrchu incwm i gwrdd ag ymrwymiadau yn y dyfodol. Mae'r asedau yng Nghronfa Bensiwn Clwyd yn cynnwys:

| **Categori Asedau** | **Prisiau a ddyfynnir mewn march-nadoedd gweithredol** | **31 Mawrth 2021 £'000** | **31 Mawrth 2021 %** | **31 Mawrth 2022 £'000** | **31 Mawrth 2022 %** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwarantu Ecwiti** | | | | | |
| Dyfynnwyd yn fyd-eang | Y | 3,928 | 11% | 4,490 | 11% |
| Marchnadoedd sy'n dod i'r | Y | 3,930 | 11% | 3,777 | 9% |
| **Bondiau** | | | | | |
| Eraill Tramor | Y | 4,263 | 11% | 4,197 | 10% |
| LDI | Y | 9,045 | 24% | 10,703 | 26% |
| **Eiddo** | | | | | |
| DU | Y | 1,854 | 5% | 2,099 | 5% |
| Tramor | Y | 371 | 1% | 420 | 1% |
| **Eraill** | | | | | |
| Cronfeydd Gwrychoedd/Ecwiti | Y | 13,050 | 35% | 14,942 | 36% |
| **Arian a Chyfwerth Arian** | | | | | |
| I gyd | Y | 630 | 2% | 1343 | 3% |
| **Cyfanswm** | | **37,071** | **100%** | **41,971** | **100%** |

**Dadansoddiad Sensitifrwydd**

Petai'r rhagdybiaethau'n newid, byddai'r effaith ar y data canlynol yn y tabl canlynol:

| | CPLIL<br>% Newid | Effaith CPLIL<br>£ Miliwn | Diffoddwyr Tân<br>% Newid | Effaith Diffoddwyr Tân<br>£ Miliwn |
|---|---|---|---|---|
| Cyfradd Disgowntio | 0.1 | 13.5 | 0.5 | -29.0 |
| Cyfradd Cynnydd mewn Cyflogau | 0.1 | 14.7 | 0.5 | 5.0 |
| Cyfradd Cynnydd mewn Pensiwn | 0.1 | 15.7 | 0.5 | 25.0 |
| Disgwyliad Oes + 1 flwyddyn | 1.0 | 16.1 | 1.0 | 10.0 |

**Y Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau ac Ymrwymiadau**

Mae gwerth yr ymrwymiadau wedi eu seilio’n actiwaraidd gan ddefnyddio’r dull unedau rhagamcanol sy’n asesu ymrwymiadau’r cynllun yn y dyfodol gyda disgownt i’w gwerth presennol. Mae gwerth Cynllun y Diffoddwyr Tân wedi ei wneud gan Adran Actiwaraidd y Llywodraeth ac mae gwerth ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Clwyd wedi ei wneud gan Mercer, sef cwmni annibynnol o actiwariaid. Dyma’r prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau:

| | Cynllun y Diffoddwyr Tân | | Cronfa Bensiwn Clwyd | |
|---|---|---|---|---|
| | 2021<br>% | 2022<br>% | 2021<br>% | 2022<br>% |
| Cyfradd Chwyddiant | 2.40 | 3.00 | 2.70 | 3.30 |
| Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau | 4.15 | 4.75 | 3.95 | 4.55 |
| Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau | 2.40 | 3.00 | 2.80 | 3.40 |
| Cyfradd Disgowntio Ymrwymiadau'r Cynllun | 2.00 | 2.65 | 2.10 | 2.80 |

| **Disgwyliad Oes** | **Amcangyfrif 31 Mawrth 2022** | | | |
|---|---|---|---|---|
| Disgwyliad oes yn 65 oed | **Dynion** | **Merched** | **Dynion** | **Merched** |
| Pensiynwyr Cyfredol | 21.5 | 21.5 | 22.5 | 24.9 |
| Pensiynwyr yn y Dyfodol | 23.2 | 23.2 | 24 | 26.9 |

Mae Cynllun y Diffoddwyr Tân yn gynllun sydd heb ei ariannu, felly nid yw’n dal asedau i greu incwm i gwrdd ag ymrwymiadau’r cynllun. Mae’r cyllid ar gyfer taliadau’r cynllun yn dod gan gyfraniadau’r cyflogwyr a’r gweithwyr yn y flwyddyn, a grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru.

## 33 NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL

### Risg Credyd

Dyma'r posibilrwydd y gallai partion eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod.

Strategaeth yr awdurdod yw lleihau dyled gydag unrhyw arian dros ben, felly dim' oedd y buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn. Byddai unrhyw arian dros ben o fewn y cyfrifon banc.

### Risg Hylifedd

Dyma'r posiblrwydd na fydd gan yr Awdurdod ddigon o arian ar gael i ateb ei ymrwymiadau i wneud taliadau.

Mae'r Awdurdod yn gallu cael gafael yn rhwydd ar fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, ac nid oes unrhyw risg sylweddol na fyddai'n gallu codi'r arian i gwrdd â'i ymrwymiadau dan yr offerynnau ariannol. Yn hytrach, y risg yw y bydd yr Awdurdod yn rhwym o ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg o gyfraddau llog anffafriol.

### Risg y Farchnad

Dyma'r posibilrwydd y gallai colled ariannol ddigwydd i'r Awdurdod o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel cyfraddau llog a symudiadau yn y farchnad stoc.

Cynhaliwyd asesiad o effaith ariannol 1% o gynnydd. Byddai llog ar gyfradd amrywiol a benthyca dros dro wedi cynyddu £45k.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, sy'n sicrhau bod gan yr Awdurdod fesurau i reoli'r risgiau uchod.

Ar Ddechrau'r flwyddyn ariannol, cafodd yr Aelodau adroddiad sy'n amlinellu'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys i'w dilyn yn y flwyddyn, ac sy'n gosod y Dangosyddion Darbodus am y flwyddyn. Hanner ffordd drwy'r flwyddyn, ceir adroddiad yn nodi cynnydd o'i gymharu â'r strategaeth, ac os oes angen, nodi sut mae'r Awdurdod wedi perfformio yn ystod y flwyddyn.

Mae'r ffordd y mae'r Awdurdod yn rheoli risgiau sy'n deillio o'r offerynnau ariannol yn cael ei nodi yn adroddiadau'r trysorlys a gyflwynir i'r Aelodau, a gellir eu cael ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sef www.gwastan-gogcymru.org.uk

## 34 YMRWYMIADAU DIBYNNOL

Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn delio â hawliadau cyfreithiol ond mae llai na 50% yn debyg o setliad. Mae’r Awdurdod wedi cadw £0.23m wrth gefn rhag ofn y cyfyd ceisiadau nad ydynt yn cael eu cydnabod ar hyn o bryd.
Gwerth yr achosion cyfreithiol hysbys yw £0.034m

Yn dilyn proses gyfreithiol hir, cyhoeddwyd dyfarniad yn achos O’Brien vs Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod 2019. Canfu hon fod y penderfyniad i gyfyngu ar y cyfnod pryd y gallai gweithiwr rhan amser ymuno â'r cynllun pensiwn yn un gwallus ac y dylai gweithwyr cymwys gael ymuno â'r cynllun perthnasol o ddechrau eu contractau.

Bydd y dyfarniad hwn yn cael goblygiadau i Gynllun Pensiwn Addasedig y Diffoddwyr Tân, a oedd yn arfer cyfyngu ar wasanaeth y gorffennol i 1 Gorffennaf 2000. Y canlyniad yw bod y llywodraeth yn cynnig cynnal ail ymarferiad opsiynau er nad yw'n hysbys eto pryd yn union y bydd yn agor. Dim ond drwy ddeddfwriaeth y gellir newid yr FPS, a bydd yr amseriad yn dibynnu ar ymarferiad ymgynghori ac amserlen y senedd. Nid oes modd eto pennu beth fydd effaith ariannol yr ail ymarferiad opsiynau.

## 35 ASED DIBYNNOL

Ym mis Gorffennaf 2016, roedd y Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi dirwy o 2.926 biliwn ewro i weithgynhyrchwyr tryciau Ewropeaidd am bennu prisiau a gweithgareddau cartél eraill rhwng 1991 a 2001. Roedd DAF, Daimler, Iveco, MAN, a Volvo/Renault wedi cyfaddef eu bod yn euog (mae Scania yn dal i gael ei ymchwilio) gan gadarnhau eu bod wedi gwneud y canlynol:

• Ar lefel uwch reolwyr y Pencadlys, wedi pennu prisiau gros sefydlog ac weithiau prisiau net.
• Wedi alinio prisiau rhestr gros yn Ewrop gan gynnwys y DU ar ddechrau’r cartél.
• Wedi lleihau pan gyflwynwyd yr Ewro.
• Wedi oedi cyn cyflwyno technolegau Ewro 3,4,5 a 6 mwy effeithlon o ran tanwydd.
• Wedi cytuno ar y gost y dylai gweithredwyr ei thalu am dechnolegau Ewro.

Mae hyn yn cynnwys unrhyw loriau o 6 thunnell a throsodd, a brynwyd yn llwyr, a ariannwyd neu a brydleswyd rhwng 1997 a 2011. Mae achos cyfreithiol bellach yn mynd rhagddo i adennill peth o’r arian a gollwyd oherwydd y pris cartél hwn. Ni thrafodwyd unrhyw werth na chanran benodol hyd yma, a gall y camau cyfreithiol gymryd sawl blwyddyn i’w cwblhau.

• O dan y Cytundeb Cyllido Ymgyfreitha, dim ond y TAW sy’n daladwy gan yr Awdurdod am y costau cyfreithiol.

• Cyfanswm y taliadau cyfredol o dan y Cytundeb Cyllido Ymgyfreitha (TAW yn daladwy yn unig) ar gyfer 2021/2022 oedd £1,257 (2020/2021: £1,509).

## 36. SAFONAU CYFRIFO SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Ar ddyddiad y fantolen, mae’r safonau newydd canlynol a’r newidiadau i’r safonau cyfredol a gyhoeddwyd ond na fabwysiadwyd eto gan God Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig:

* Prydlesi IFRS 16 (ond dim ond i awdurdodau lleol sydd wedi penderfynu mabwysiadu IFRS16 ym mlwyddyn 2022/23).
* Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar: Elw cyn y Defnydd a Fwriedir (Newidiadau i IAS 16)

Gwelliannau Blynyddol i Safonau IFRS 2018–2020. Mae rhaglen wella flynyddol IFRS yn nodi 4 safon sydd wedi newid:

* IFRS 1 (Mabwysiadu am y tro cyntaf) – mae'r newid yn ymwneud â gweithrediadau tramor is-gwmniau a gaffaelwyd sy'n trosi i IFRS
* IAS 37 (Contractau beichus) – mae'n egluro bwriad y safon
* IFRS 16 (Prydlesau) – mae'r newid yn tynnu enghraifft gamarweiniol na chyfeirir ati yn neunyddiau'r Cod
* IAS 41 (Amaethyddiaeth) – un o nifer fach o Safonau IFRS nad oes disgwyl iddynt fod yn gymwys i awdurdodau lleol ond mewn amgylchiadau cyfyngedig

Nid oes dim o'r materion sydd wedi'u cynnwys yn y gwelliannau yn cael eu trin yn fanwl yng Nghod 2022/23. Yn ystod y broses ymgynghori ar God 2022/23 nid oedd CIPFA/LASAAC yn rhagweld y byddent yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol awdurdodau lleol.

Gohiriwyd y gwaith o weithredu IFRS 16 am flwyddyn arall. Felly, rhagwelir y bydd yn cael ei weithredu ar 1 Ebrill 2023 a bydd yn effeithio ar y cyfrifon o 2023/2024 ymlaen.

## CYFRIF CRONFA BENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

Mae hyn yn dangos sefyllfa ariannol Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, gan nodi a oes arian yn ddyledus i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru neu iddi, a hynny er mwyn cael balans yn y cyfrif, ynghyd â manylion am ei asedau net.

| 2020/21 £'000 | | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| | **INCWM** | |
| | **Cyfraniadau a dderbynnir:** | |
| (3,173) | Cyfraniadau arferol y cyflogwr | (3,192) |
| (152) | Tâl Afiechyd y Cyflogwr | (131) |
| (1,494) | Cyfraniadau arferol yr aelodau | (1,509) |
| (126) | Cyfraniadau'r aelodau wedi'u hôl-ddyddio | (132) |
| 0 | Cyfraniadau ôl-ddyddiedig y cyflogwr | (186) |
| (379) | Trosglwyddiadau i mewn | (76) |
| **(5,324)** | **CYFANSWM** | **(5,226)** |
| | **GWARIANT** | |
| | **Buddion yn daladwy:** | |
| 7,698 | Taliadau Pensiwn | 7,983 |
| 1,594 | Gohirio buddion pensiynau a chyfandaliadau | 719 |
| 76 | Taliadau gohirio wedi'u hôl-ddyddio | 7 |
| | **Taliadau i Ymadawyr ac ar eu rhan:** | |
| 2 | Trosglwyddiadau allan | 711 |
| **9,370** | **CYFANSWM** | **9,420** |
| | **SWM NET (TALADWY)/A DDERBYNNIR CYN Y GRANT ATODOL** | |
| (4,046) | Grant Atodol a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru | (4,194) |
| **0** | **SWM NET (TALADWY)/A DDERBYNNIR AR GYFER Y FLWYDDYN** | **0** |

| 2020/21 £'000 | | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| | **Asedau ac Ymrwymiadau Cyfredol Net:** | |
| (647) | Taliadau ymlaen llaw i bensiynwyr | (669) |
| (1,023) | Grant Atodol yn daladwy (gan)/i Lywodraeth Cymru | (1,908) |
| 1,670 | Swm sy'n ddyledus (gan)/i'r Gronfa Gyffredinol | 2,577 |
| **0** | **Asedau Net ar ddiwedd y flwyddyn** | **0** |

**Nodiadau i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân**

Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 2007, ac mae'n ymorol am Gronfeydd Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992, 2007 a 2015, a'r Awdurdod sy'n ei gweinyddu.

Telir cyfraniadau'r cyflogwr a gweithwyr i'r Gronfa, a gwneir taliadau i bensiynwyr ohoni. Mae lefelau cyfraniadau'r gweithwyr a'r cyflogwr yn seiliedig ar ganrannau o'r cyflog pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn agored i ailwerthusiad bob tair blynedd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r cynllun yn un nad yw'n cael ei ariannu, nid oes ganddo asedau buddsoddi, a bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y buddion sy'n daladwy a'r cyfraniadau derbyniadwy yn cael ei ateb gan Grant Atodol gan Lywodraeth Cymru.

Trosglwyddiadau i'r cynllun yw trosglwyddo buddion pensiwn o gynllun pensiwn arall ar gyfer gweithwyr newydd neu bresennol, a throsglwyddiadau allan yw trosglwyddo buddion i weithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod ac wedi ymuno â chynllun pensiwn arall.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am dalu cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa, a dyma'r costau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer yr Awdurdod.

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin, yn gweithredu ar ran Cronfa Bensiwn Dyfed, yn darparu gwasanaeth i'r Awdurdod drwy reoli'r taliadau a wneir i Ddiffoddwyr Tân sy'n bensiynwyr, a hynny ar ran yr Awdurdod. Maent hefyd yn gyfrifol am reoli cofnodion y pensiynwyr presennol ac aelodau gweithredol o'r cynllun.

Yn 2021/22 £3,320k oedd amcangyfrif y Grant Atodol a oedd yn ddyledus, a £4,194k oedd y swm gwirioneddol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd £2,577k yn ddyledus i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru.

**Cyfraddau Cyfraniadau**

Dan Reoliadau Pensiwn Diffoddwyr Tân, 27.3% (2020/21: 27.3%) o'r cyflog pensiynadwy oedd cyfraddau cyfraniad cyflogwyr ar gyfer cynllun 2015, gyda chyfraddau'r gweithwyr fel y bandiau cyflog pensiynadwy a nodir isod:

| Band Cyflog Pensiynadwy | % Cyfradd Cyfraniad 2020/21 |
|---|---|
| Hyd at £27,818 | 11.0 |
| £27,819 i £51,515 | 12.9 |
| £51,516 i £142,500 | 13.5 |
| Mwy na £142,501 | 14.5 |

Dan Reoliadau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, cyfraddau'r cyfraniadau cyflogwr ar gyfer cynllun 2007 oedd 26.6% (2020/21:26.6%) o gyflog pensiynadwy gyda chyfraddau'r gweithwyr fel y bandiau cyflog pensiynadwy isod:

| Band Cyflog Pensiynadwy | % Cyfradd Cyfraniad 2021/22 |
|---|---|
| Hyd at a chan gynnwys£15,609 | 8.5 |
| Mwy na £15,609 a hyd at a chan gynnwys £21,852 | 9.4 |
| Mwy na £21,852 a hyd at a chan gynnwys £31,218 | 10.4 |
| Mwy na £31,218 a hyd at a chan gynnwys £41,624 | 10.9 |
| Mwy na £41,624 a hyd at a chan gynnwys £52,030 | 11.2 |
| Mwy na £52,030 a hyd at a chan gynnwys £62,436 | 11.3 |
| Mwy na £62,436 a hyd at a chan gynnwys £104,060 | 11.7 |
| Mwy na £104,060 a hyd at a chan gynnwys £124,872 | 12.1 |
| Mwy na £124,872 | 12.5 |

Ar gyfer cynllun 1992, roedd cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn 29.3% (2020/21: 29.3%) o'r cyflog pensiynadwy gyda chyfraddau'r gweithwyr fel y bandiau cyflog pensiynadwy isod:

| Band Cyflog Pensiynadwy | % Cyfradd Cyfraniad 2021/22 |
|---|---|
| Hyd at a chan gynnwys £15,609 | 11.0 |
| Mwy na £15,609 a hyd at a chan gynnwys £21,852 | 12.2 |
| Mwy na £21,852 a hyd at a chan gynnwys £31,218 | 14.2 |
| Mwy na £31,218 a hyd at a chan gynnwys £41,624 | 14.7 |
| Mwy na £41,624 a hyd at a chan gynnwys £52,030 | 15.2 |
| Mwy na £52,030 a hyd at a chan gynnwys £62,436 | 15.5 |
| Mwy na £62,436 a hyd at a chan gynnwys £104,060 | 16.0 |
| Mwy na £104,060 a hyd at a chan gynnwys £124,872 | 16.5 |
| Mwy na £124,872 | 17.0 |

Nid yw Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cymryd ystyriaeth o’r ymrwymiadau am bensiynau a buddion eraill wedi diwedd y cyfnod, gan mai cyfrifoldeb yr Awdurdod yw hyn. Mae manylion am yr ymrwymiadau pensiwn tymor hir i’w cael yn Nodyn 32 o’r datganiadau ariannol craidd.

**Atodiad 1**

# POLISÏAU CYFRIFYDDU

## 1. SAIL PARATOI’R CYFRIFON

Mae’r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod am flwyddyn ariannol 2021/22, a’i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2022. Mae’n ofynnol i’r Awdurdod baratoi Datganiad blynyddol o Gyfrifon dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, ac mae’r Rheoliadau hynny yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi gydag arferion cyfrifyddu priodol. Yn bennaf, mae’r arferion hyn yn cynnwys y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22 (y Cod), a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a’r cyfarwyddyd statudol a gyhoeddwyd dan Adran 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

Yr arfer cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad o Gyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, a hwnnw wedi ei addasu trwy ailwerthuso rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

## 2. INCWM A GWARIANT

Yn y cyfrifon refeniw, rhoddir cyfrif am yr incwm a’r gwariant, yn net o TAW (oni bai bod TAW yn anadferadwy), yn y flwyddyn pryd maent yn digwydd, nid pan wneir neu pan dderbynnir y taliadau arian parod.

- Rhoddir cyfrif am y ffioedd, costau a rhenti sy’n ddyledus gan gwsmeriaid fel incwm ar y dyddiad pryd mae’r Awdurdod yn darparu’r nwyddau neu’r gwasanaethau perthnasol.

- Cofnodir y cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwlch rhwng y dyddiad yn cael eu derbyn a phryd y cânt eu defnyddio, nodir hwy fel stoc ar y Fantolen.

- Rhoddir cyfrif am y llog sy’n daladwy ar fenthyciadau ac sy’n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ar sail y gyfradd llog sydd mewn grym ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na’r llif arian sy’n cael ei osod neu ei benderfynu gan y contract.

- Pan fo incwm a gwariant wedi cael eu cydnabod, ond nad oes arian wedi ei dderbyn na’i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr y swm perthnasol ar y Fantolen. Gosodir terfyn de-minimus o £100 ar gyfer y trafodiadau hyn. Pan fo amheuaeth a fydd dyledion yn cael eu setlo, ysgrifennir balans y dyledwyr a nodir cost ar y refeniw am yr incwm na fydd modd ei chasglu efallai.

## 3. ARIAN A CHYFWERTH AG ARIAN

Arian yw arian mewn llaw ac adnau gyda sefydliadau ariannol sy’n daladwy heb gost ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Cyfwerth ag arian yw buddsoddiadau sy’n aeddfedu ymhen tri mis neu lai o’r dyddiad caffael, ac maent i’w troi’n symiau hysbys o arian gyda risg ansylweddol o newid gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir yr arian a'r cyfwerth ag arian yn net o orddrafftiau banc sy'n daladwy ar gais ac sy'n rhan annatod o reolaeth ariannol yr Awdurdod.

## 4. BUDDION GWEITHWYR

### Buddion yn daladwy yn ystod cyflogaeth

Bydd cyflogau a thaliadau'n gysylltiedig â chyflogaeth yn cael eu cydnabod yn y cyfnod pryd y derbynnir y gwasanaeth gan y gweithwyr. Mae cost hawliad seibiant blynyddol a enillwyd ond na chymerwyd gan y gweithwyr ar ddiwedd y cyfnod yn cael ei chydnabod yn y datganiadau ariannol i'r graddau y mae gan y gweithwyr hawl i gario seibiant drosodd i'r cyfnod canlynol.

### Buddion terfynu

Buddion terfynu yw symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad a wneir gan yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol, a chânt eu talu ar sail croniadau i'r Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant ar yr adeg cynharaf o blith yr adegau pryd na all yr awdurdod mwyach dynnu'r cynnig am y buddion hynny neu pryd mae'r awdurdod yn cydnabod costau ar gyfer ailstrwythuro.

## 5. BUDDION ÔL-GYFLOGAETH

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn gwahanol, sy'n diwallu anghenion grwpiau gwahanol o weithwyr. Dyma'r cynlluniau:

### Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

Mae cynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn gynllun gyda buddion, nad yw'n cael ei ariannu, ac ystyr hynny yw nad oes unrhyw asedau buddsoddi wedi eu casglu i gwrdd â'r ymrwymiadau o ran pensiynau a rhaid creu arian i gwrdd â'r taliadau pensiwn eu hunain pan maent yn ddyledus. Mae cyfraniadau'r gweithiwr a'r cyflogwr yn seiliedig ar gyfran o'r cyflog pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, ac mae hyn yn destun ailwerthusiad bob tair blynedd gan Adran Actwari'r Llywodraeth.

Caiff y gronfa bensiwn ei thrin fel datganiad incwm a gwariant ar wahân yn y Datganiad o Gyfrifon, ac mae'n cael ei neilltuo er mwyn sicrhau eglurder, gweler Nodyn 32 a 'Chyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân' i gael rhagor o fanylion. Trwy'r gronfa bensiwn y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldeb o ran talu pensiynau swyddogion sydd wedi ymddeol, y rhai sy'n eu goroesi ac eraill sy'n gymwys am fuddion dan y cynllun.

Caiff ymrwymiad tymor hir amcangyfrifiedig yr Awdurdod Tân ac Achub i dalu'r costau eu hun eu datgelu gan nodyn i'r cyfrifon fel sy'n ofynnol gan IAS 19.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Mae staff yr Ochr Gefnogol a'r Ystafell Reoli yn rhan o Gronfa Bensiwn Clwyd (y "gronfa"). Cynllun a ariennir, gyda'r pensiwn yn cael ei dalu o'r cronfeydd buddsoddi gwaelodol a weinyddir gan Gyngor sir y Fflint.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi ei gyfrifo fel cynllun buddion diffiniedig.

Caiff graddfeydd cyfraniadau gweithwyr eu pennu yn ôl tybiaethau actwaraidd. Telir costau pellach, sydd yn codi mewn perthynas â phensiynau penodol a delir i weithwyr sydd wedi ymddeol, gydag arian sydd heb ei gyllido.

**Buddion Dewisol:**

Mae gan yr awdurdod bwerau cyfyngedig i dalu buddion pensiwn dewisol pen fydd pobl yn ymddeol yn gynnar. Caiff unrhyw rwymedigaethau sydd yn debygol o godi o ganlyniad i daliad i unrhyw aelod o staff eu cronni yn y flwyddyn y penderfynir talu'r dyfarniad a chaiff ei gyfrifo gan ddefnyddio'r un polisïau sydd yn cael eu gweithredu gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## 6. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yw'r digwyddiadau hynny, boed ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pryd y mae'r datganiadau ariannol wedi eu hawdurdodi i gael eu cyhoeddi. Gellir nodir dau fath o ddigwyddiad.

- y rheini sy'n darparu tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd (digwyddiadau sy'n addasu ar ôl y cyfnod adrodd), a
- y rheini sy'n dangos amodau a ddigwyddodd ar ôl y cyfnod adrodd (digwyddiadau nad ydynt yn addasu ar ôl y cyfnod adrodd).

## 7. EITEMAU EITHRIADOL

Pan fo eitemau incwm a gwariant yn bwysig, datgelir eu natur a'u swm ar wahân, naill yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, gan ddibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau er mwyn deall perfformiad ariannol yr Awdurdod.

## 8. ADDASIADAU I'R CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISÏAU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIFON A GWALLAU

Gall addasiadau i'r cyfnod blaenorol ddigwydd o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwall pwysig. Rhoddir cyfrif yn rhagolygol am newidiadau mewn

amcangyfrifon cyfrifyddu, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a’r blynyddoedd i ddod pryd y bydd y newid yn effeithio arnynt ac nad ydynt yn arwain at addasiad i gyfnod blaenorol.

Ni chaiff newidiadau i bolisïau eu gwneud ond pan fo hynny’n ofynnol gan arferion cyfrifyddu priodol neu bod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynglŷn ag effeithiau trafodion, digwyddiadau ac amodau eraill ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan gaiff newid ei wneud, caiff ei wneud am yn ôl (oni bai y nodir fel arall) trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai’r polisi newydd wedi cael ei ddilyn erioed. Mae gwallau sylweddol a ganfyddir yn ffigyrau’r cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro am yn ôl drwy newid y balansau agoriadol a’r symiau cymharol am y cyfnod blaenorol.

## 9. OFFERYNNAU ARIANNOL

Y diffiniad o Offeryn Ariannol yw ‘unrhyw gontract sy’n achosi ased ariannol un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti un arall’. Bydd ymrwymiadau ariannol (benthyciadau) ac asedau ariannol (buddsoddiadau) yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg, ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig. Bydd y llog blynyddol a delir ac a dderbynnir yn y cyfrif Incwm a Gwariant yn seiliedig ar swm cludo’r benthyciad neu’r buddsoddiad wedi ei luosogi gan gyfradd effeithiol y llog ar gyfer yr offeryn. O ran pob benthyciad a buddsoddiad sydd gan yr Awdurdod, y symiau sydd yn y Fantolen yw’r prifswm sy’n aros, ynghyd ag unrhyw log cronedig am y flwyddyn.

Mae’r awdurdod yn cydnabod y colledion credyd disgwyliedig ar ei holl asedau ariannol sy’n cael eu dal ar gost amorteiddio.

## 10. BUDDSODDIADAU

Dangosir y buddsoddiadau yn y Fantolen ar eu cost i’r Awdurdod, a chânt eu heitemeiddio mewn Nodyn ar wahân.

## 11. TRAFODION ARIAN TRAMOR

Mae’r rhan fwyaf o drafodion yr Awdurdod mewn punnoedd sterling. Pan fo’r Awdurdod wedi cael trafodion mewn arian tramor, caiff yr arian ei drosi i bunnoedd sterling ar y gyfradd gyfnewid pryd y gwnaed y trafodion. Pan fo’r cyfarpar wedi cael ei brynu o dramor, bu’n rhaid talu am y nwyddau yn arian y wlad lle digwyddodd y trafodyn.

## 12. RHOI CYFRIF AM GRANTIAU’R LLYWODRAETH

Ni ellir rhoi grantiau’r Llywodraeth yn erbyn asedau sefydlog, ond bydd grantiau’r llywodraeth (a chyfraniadau eraill) yn cael eu cydnabod ar unwaith yn y Cyfrif Cynhwysfawr Incwm a Gwariant pan fo’r amodau gofynnol wedi cael eu bodloni. Yna, trosglwyddir yr incwm i’r Cyfrif Addasu Cyfalaf neu’r Cyfrif Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio, yn ddibynnol

ar p’un ai bydd wedi ei ddefnyddio ai peidio. Yn ei hanfod, defnyddir Grantiau’r Llywodraeth a ddyfernir ar gyfer cynlluniau cyfalaf fel ffynhonnell arian ar gyfer y rhaglen gyfalaf.

Pa un ai a ydynt yn cael eu talu fel ernes, mewn rhandaliadau neu fel ôl-ddyledion, mae grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau a trydydd parti a rhoddion yn cael eu cydnabod yn ddyledus i’r Awdurdod pan mae sicrwydd rhesymol:

- y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â’r amodau sydd wedi’u hatodi i’r taliad, ac
- y derbynnir y grant a’r cyfraniadau.

Nid yw’r symiau sy’n cael eu cydnabod yn ddyledus i’r Cyngor yn cael eu credydu i’r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes y bydd amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu’r cyfraniad wedi’u bodloni.

Mae arian a roddwyd fel blaendal fel grantiau a chyfraniadau lle nad yw'r amodau wedi'u bodloni yn cael eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fo’r amodau wedi’u bodloni, mae’r grant neu’r cyfraniad yn cael ei gredydu i’r llinell gwasanaeth berthnasol (grantiau refeniw a chyfraniadau y gellir eu priodoli), neu Drethiant ac Incwm Grant nad ydyw'n Benodol (grantiau refeniw heb eu neilltuo a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle credydir grantiau cyfalaf i’r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad ynglŷn â’r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Lle nad yw’r grant wedi’i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei bostio i Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso. Lle bydd wedi'i gymhwyso, caiff ei bostio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Trosglwyddir symiau yng Nghronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso i’r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y byddant wedi’u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

## 13. LESOEDD

### Lesoedd cyllid

Pan mai’r Awdurdod sy’n cynnal pob risg a gwobr bod yn berchen ar ased ar les, caiff yr ased ei chofnodi fel Eiddo, Peiriannau ac Offer a chofnodir ymrwymiad cyfatebol. Y gwerth a gydnabyddir ar gyfer y ddau yw’r isaf o werth teg yr ased neu werth presennol isafswm y taliadau les, wedi ei ddisgowntio gan ddefnyddio’r gyfradd llog sy’n ymhlyg yn y les. Y gyfradd llog sy’n ymhlyg yw’r hyn sy’n cynhyrchu cyfradd llog rheolaidd a chyson ar yr ymrwymiad sy’n weddill. Caiff yr ased a’r ymrwymiad eu cydnabod ar gychwyn y les, a chânt eu dad-gydnabod pan gaiff yr ymrwymiad ei ryddhau, ei ganslo neu pan ddaw i ben. Caiff y rhent blynyddol ei rannu rhwng ad-dalu’r ymrwymiad a’r gost cyllido. Caiff y gost cyllido flynyddol ei chyfrifo trwy roi’r gyfradd llog sy’n ymhlyg at yr ymrwymiad sy’n weddill, a chaiff ei chodi ar y Costau Ariannu yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm.

### Lesoedd Gweithredu

Pan fo asedau ar gael i’w defnyddio dan drefniadau les, caiff y rhenti sy’n daladwy eu codi ar gyfrif y gwasanaeth priodol ar sail llinell syth, ni waeth beth fo’r trefniadau talu.

Gan nad yw'r Awdurdod yn berchen ar yr asedau hyn, nid yw'r costau'n ymddangos yn y Fantolen. Felly hefyd, caiff yr ymrwymiad i dalu costau rhentu yn y dyfodol eu heithrio, ond atodir nodyn ar wahân i'r Fantolen.

## 14. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

Caiff asedau corfforol sy'n cael eu cadw i'w defnyddio i gynhyrchu neu ddarparu nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu neu fel arall, neu i ddibenion gweinyddol ac y mae'n debygol y cânt eu defnyddio am fwy nag un flwyddyn ariannol eu trin fel Eiddo, Peirannau ac Offer.

### Cydnabod

Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Peirannau ac Offer yn cael ei gyfalafu ar sail croniadau, cyn belled ei bod hi'n debygol y bydd buddion economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth y gysylltiedig â'r eitem yn llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Caiff gwariant sydd yn gysylltiedig â chynnal ased heb gyfrannu at y posibilrwydd o ddarparu buddion economaidd neu wasanaeth (h.y. trwsio a chynnal a chadw) ei godi fel traul pan fydd yn digwydd.

Mae lefel de-minimus o £5,000 wedi cael ei osod ar gyfer Eiddo, Peiriannau ac Offer, ac ni fydd gwariant o dan £5,000 yn ddarostyngedig i ofynion cyfrifo cyfalaf. Os caiff ased ai ail-brisio dan £5,000, caiff unrhyw wariant neu dibrisiad fel arfer ei ddiddymu a bydd yr ased yn cael ei dynnu o'r Gofrestr Asedau Sefydlog.

### Mesur

Caiff asedau eu mesur i ddechrau arni yn ôl costau yn cynnwys;

- pris prynu'r ased
- unrhyw gostau y gellir eu priodoli i ddod â'r ased i'r lleoliad neu i'r cyflwr priodol er mwyn ei alluogi i weithredu fel ac y mae i fod gan reolwyr
- y costau tybiedig cychwynnol sydd ynghlwm â datgymalu a thynnu'r eitem o'r lleoliad ac adfer y safle lle'r oedd wedi cael ei leoli

Caiff asedau eu cario ar y Fantolen gan ddefnyddio'r mesuriadau canlynol:

- Tir ac Eiddo – gwerth teg
- Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol
- Asedau eraill – gwerth presennol, sy'n cael ei bennu fel y swm y byddai'n rhaid ei dalu am yr ased yn ôl ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol)

### Dibrisio

Caiff eiddo, peiriannau ac offer, eu dibrisio dros gyfnod eu hoes defnyddiol.

**Oes Economaidd Defnyddiol Asedau**

| | |
|---|---|
| Tir | Oes ddiddiwedd (dim dibrisiad) |
| Adeiladau | 20 - 75 mlynedd |
| Adeiladau (ar brydles) | Cyfnod y brydles |
| Cerbydau, Peiriannau ac Offer | 3 - 20 mlynedd |
| Asedau Anniriaethol | 5 - 15 mlynedd |

Darperir dibrisiad ar gyfer cerbydau ar sail llinell syth, gyda chaffaeliadau'n cael eu dibrisio yn y flwyddyn ar ôl eu prynu. Codir dibrisiad blwyddyn lawn yn y flwyddyn y cafwyd gwared ar yr ased.

Caiff adeiladau eu dibrisio gan ddefnyddio'r Dull Beacon. Defnyddir y Dull Beacon pan fo amcangyfrif yn cael ei wneud o gydrannau'r adeilad ac oes ddefnyddiol pob cydran. Yna, defnyddir y dull cyfartaledd wedi'i bwysoli i bennu canran dibrisiad llinell syth. Defnyddir y canrannau canlynol:

| | |
|---|---|
| Adeiladau – gorsafoedd tân | 2.00% - 2.22% |
| Adeiladau – swyddfeydd | 2.23% |

Caiff dibrisiad ei godi ar y Gwasanaeth Tân o fewn y cyfrif incwm a gwariant. Caiff y swm hwn ei gredydu ar Falans y Gronfa Gyffredinol, felly mae'n cael effaith niwtral ar y cyfraniadau a wneir gan yr awdurdodau cyfansoddol.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud cyfraniad blynyddol o'r refeniw at y gostyngiad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol. Felly, mae'r cyfraniad o Fantolenni'r Gronfa Gyffredinol (MRP) yn cymryd lle'r dibrisiad, ailbrisiad a cholledion amhariad ac amorteiddiad drwy drosglwyddiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Symudiad mewn Cronfeydd am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

**Amhariad**

Mae'r asedau'n cael eu cario heb fod dim uwch na'u swm adferadwy, a mesurir yr amhariad trwy gymharu'r gwerth sy'n cael ei gario gyda'r uchaf o'r gwerth teg, llai y costau i werthu (cyfwerth â'r pris gwerthu net) a'r gwerth o'u defnyddio. Bydd yr amhariad yn cael eu fesur bob blwyddyn, ac mae'r dangosyddion i wrth-droi'r amhariad yr un fath ar gyfer asedau diriaethol ac asedau anniriaethol. Bydd yr holl golledion amhariad ar asedau wedi eu hailbrisio yn cael eu cydnabod yn y Gronfa Ailbrisio hyd at y swm yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer pob ased unigol.

**Cael gwared ar ased**

Pan fydd ased yn cael ei werthu neu ei ddigomisiynu, caiff gwerth yr ased ar y Fantolen (pa un ai a ydyw'n eiddo neu offer neu asedau a gedwir i'w gwerthu) ei ddiddymu ai nodi ar y llinell Gwariant Gweithredu Arall yn yr adran datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel elw neu golled ar gael gwared ar yr ased.

### Ailbrisio

Pan fo ased yn cael ei ailbrisio, gwneir nodyn rhwng y Gronfa Ailbrisio a'r Cyfrif Addasu Cyfalaf, sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiad yn seiliedig ar gost hanesyddol a swm yr ailbrisiad.

Bydd colled ailbrisio o ganlyniad i dreulio budd economaidd, os bydd gwared ailbrisio ar yr ased hwnnw, yn cael ei godi i ddechrau yn erbyn y gwarged i faint y gwarged hwnnw, gyda balans y golled yn cael ei godi ar y Cyfrif Cynhwysfawr Incwm a Gwariant.

## 15. ASEDAU ANNIRIAETHOL

Mae asedau anniriaethol a grëir yn fewnol yn cael eu cyfalafu lle bo'r meini prawf ar gyfer cydnabod yn cael eu hateb. Dyma'r meini prawf:

- rhaid iddi fod yn bosib gwahanu'r ased oddi wrth yr endid, rhaid i'r endid reoli'r ased,
- rhaid bod budd economaidd yn y dyfodol i'r ased,
- rhaid iddi fod yn debygol y bydd y manteision economaidd yn llifo i'r endid, a
- gellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy.

I ddechrau, bydd yr ased anniriaethol yn cael ei fesur ar gost, bydd pob ailbrisiad yn cael eu codi i ddechrau ar y gronfa ailbrisio, ac nid oes uchafswm ar oes ddefnyddiol yr ased.

## 16. DERBYNIADAU CYFALAF

Bydd enillion asedau y cafwyd gwared arnynt yn cael eu dal fel Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy yn y gronfa Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy hyd oni fyddant yn cael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf. Mae pob derbyniad o werthu asedau dros £10,000 yn cael eu trin fel derbyniadau cyfalaf. Yr eithriad i'r rheol yw pan fo derbyniad yn ymwneud â cherbydau penodol lle mae'r enillion wedi cael eu ffactorio i mewn i'r amserlen ad-dalu, gallai'r symiau hyn fod yn llai na £10,000.

## 17. POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

Mae rheoliadau'n eu gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân gymeradwyo datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw cyn pob blwyddyn. Ar gyfer Tir ac Adeiladu, y polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw yw ad-dalu gwariant a fu gan ddefnyddio'r Dull Oes Ased – llinell syth. Ar gyfer Cerbydau, Peiriannau, Offer a Seilwaith, bydd y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn seiliedig ar oes amcangyfrifiedig yr asedau.

## 18. STOCRESTRAU

Oherwydd y goblygiadau technegol gyda'r systemau cofnodi stoc, mae'r stoc yn cael ei brisio ar bris olaf a dalwyd sail.

## 19. CRONFEYDD DROS BEN A DARPARIAETHAU

Gwneir darpariaethau pan fo rhywbeth wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth ar yr Awdurdod sy'n debygol o ofyn am setliad trwy drosglwyddo buddion economaidd, ond lle bo amseriad y trosglwyddiad yn ansicr.

Codir tâl am y darpariaethau ar gyfrif refeniw'r gwasanaeth priodol yn y flwyddyn pryd mae'r Awdurdod yn dod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, yn seiliedig ar yr amcangyfrif gorau o'r setliad tebygol. Pan wneir y taliadau, cânt eu codi ar y ddarpariaeth a sefydlir yn y Fantolen. Bydd setliadau amcangyfrifiedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol – pan fo hi'n fwy tebyg na pheidio na fydd angen trosglwyddo buddion economaidd mwyach (neu y gwneir setliad is na'r disgwyl), bydd y ddarpariaeth yn cael ei gwrth-droi a'i chredydu'n ôl i gyfrif refeniw priodol y gwasanaeth.

Mae'r Awdurdod yn cadw cronfeydd i ymorol am wariant yn y dyfodol. Cânt eu datgelu o fewn y fantolen, ac esbonnir eu diben yn nodiadau'r fantolen.

## 20. YMRWYMIADAU AMODOL

Bydd ymrwymiad amodol yn digwydd pan fo digwyddiad wedi bod sy'n gwneud ymrwymiad posib ar yr Awdurdod na chaiff ei gadarnhau ond trwy fodolaeth, neu fel arall, rywbeth nad yw'n llwyr o fewn rheolaeth yr Awdurdod. Bydd ymrwymiadau amodol eraill yn digwydd mewn amgylchiadau pan fyddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu na ellir mesur swm yr ymrwymiad yn ddibynadwy.

Ni fydd ymrwymiadau amodol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen, yn hytrach byddant yn cael eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

## 21. ASEDAU CYNNWYS

Nae ased wrth gefn yn codi pan fydd digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased posibl i'r Awdurdod y bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau trwy ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol neu fel arall nad ydynt o fewn rheolaeth yr Awdurdod yn llwyr. Ni chydnabyddir asedau wrth gefn yn y Fantolen ond fe'u datgelir mewn nodyn i'r cyfrifon lle mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwiliad Cyfrifon – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3176A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi,
tynnir sylw at y Cod Ymarfer a roddir o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth drin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon gael eu hanfon at Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich Cyfrifon.  Mae rhai materion i'w hadrodd i chi cyn eu cymeradwyo.


Adroddiad Archwilio Cyfrifon

Cyflwyniad 4

Effaith COVID-19 ar archwiliad eleni 4

Barn archwilio arfaethedig 5

Materion o bwys yn codi o'r archwiliad 5

Argymhellion 8

Atodiadau

Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol 9

Atodiad 2 – Adroddiad Archwilio Arfaethedig 12

Atodiad 3 – Crynodeb o’r Cywiriadau a Wnaed 17

# Adroddiad Archwiliad Cyfrifon

## Cyflwyniad

1 Rydym yn crynhoi'r prif ganfyddiadau o'n harchwiliad o'ch cyfrifon ar gyfer 2021-22 yn yr adroddiad hwn.

2 Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda swyddog Adran 151, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) a'i thîm.

3 Ni all archwilwyr fyth roi sicrwydd llwyr bod cyfrifon yn cael eu datgan yn gywir. Yn hytrach, rydyn ni'n gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Mae'r lefel hon o berthnasedd yn cael ei gosod i geisio nodi a chywiro cam-ddatganiadau a allai fel arall achosi i ddefnyddiwr y cyfrifon gael ei gamarwain.

4 Fe wnaethom osod y lefel hon ar £964,000 ar gyfer archwiliad eleni o'r prif ddatganiadau ariannol ac ar £188,000 ar gyfer Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân.

5 Mae rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod o fwy o bwys i'r darllenydd ac rydym wedi gosod lefel berthnasedd is ar gyfer y rhain, fel a ganlyn:

- Datgeliadau Parti Cysylltiedig £10,000
- Cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion £1,000

6 Rydym bellach wedi cwblhau archwiliad eleni i raddau helaeth.

7 Yn ein barn broffesiynol, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; parhau i fod yn annibynnol arnoch chi; ac nid yw ein gwrthrychedd wedi'i gyfaddawdu mewn unrhyw ffordd. Does dim perthynas rhyngon ni a chi y credwn y gallai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth.

## Effaith COVID-19 ar archwiliad eleni

8 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith barhaus ar y modd y cafodd ein harchwiliad ei gynnal. Rydym yn crynhoi yn **Arddangos 1** y prif effeithiau. Heblaw am pan rydym yn gwneud argymhellion yn benodol, darperir y manylion yn **Arddangos 1** at ddibenion gwybodaeth yn unig i'ch helpu i ddeall effaith pandemig COVID-19 ar y broses archwilio eleni.

**Arddangosyn 1 – effaith COVID-19 ar yr archwiliad eleni**

| | |
|---|---|
| **Amserlen** | • Derbyniwyd y cyfrifon drafft ar 31 Mai 2022 ac roedd hyn yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni.<br>• Rydym yn disgwyl i'ch adroddiad archwilio gael ei lofnodi erbyn diwedd Hydref 2022. |
| **Tystiolaeth archwilio** | Rydym wedi adeiladu ar ein profiad o gwblhau'r archwiliad o bell mewn blynyddoedd blaenorol ac nid yw ein gallu i gael tystiolaeth archwilio wedi cael ei effeithio'n sylweddol eleni – er enghraifft:<br>• cynnal cyfarfodydd Microsoft Teams wythnosol gyda swyddogion drwy gydol yr archwiliad i drafod cynnydd a materion sy'n dod i'r amlwg;<br>• defnyddio porth trosglwyddo ffeiliau o bell diogel i rannu gwybodaeth yn ddiogel; a<br>• trefnu mynediad o bell i systemau ariannol. |

# Barn archwilio arfaethedig

9 Rydym yn  bwriadu cyhoeddi **barn archwilio diamod** ar gyfrifon eleni ar ôl i chi roi Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar hynny a nodir yn **Atodiad 1**.

10 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'ag amod' pan fo gennym bryderon o bwys am rai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.

Mae'r Llythyr Sylwadau yn cynnwys rhai achosion o gadarnhau y mae'n ofynnol i ni eu cael gennych o dan safonau archwilio.

11 Mae ein hadroddiad archwilio arfaethedig wedi'i nodi yn **Atodiad 2**.

# Materion sylweddol yn deillio o'r archwiliad

## Cam-ddatganiadau heb eu cywiro

12 Mae **arddangosyn 2** yn nodi'r cam-ddatganiadau a nodwyd gennym yn y cyfrifon, sydd wedi'u trafod â'r rheolwyr ond sy'n parhau i fod heb eu cywiro. Rydym yn gofyn i'r rhain gael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r cam-ddatganiadau hyn, gofynnwn i chi roi'r rhesymau yn ysgrifenedig inni dros beidio â'u cywiro.

**Arddangosyn 2 – cam-ddatganiadau heb eu cywiro**

| | |
|---|---|
| **Un cyfandaliad Diffyg Pensiwn** | Fel yr adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol, gwnaeth yr Awdurdod un cyfandaliad diffyg pensiwn o £958,490 i Gronfa Bensiwn Clwyd sy'n cwmpasu'r tair blynedd ariannol rhwng 2020-21 a 2022-23 o'r rhain mae dwy flynedd wedi'u debydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r tâl y flwyddyn sy'n weddill wedi'i gynnwys fel rhagdaliad tymor byr gwerth £331,062 yn Nodyn 15 'Dyledwyr'.<br><br>Mae'r rhagdaliad hefyd wedi'i ystyried yn y prisiad actiwaraidd IAS 19 Buddion Ymddeol ac wedi'i gynnwys yn y prisiad asedau cronfa bensiwn yn Nodyn 32 'Trafodiad yn Ymwneud â Buddion Ôl-gyflogaeth'. O ganlyniad, mae'r driniaeth fel rhagdaliad yn arwain at gyfrif dwbl o'r ased yn natganiadau ariannol yr Awdurdod.<br><br>Nodir y gofynion statudol ar gyfer y cynllun pensiwn llywodraeth leol yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (Rheoliadau 2013). Nodir gofynion cyfrifyddu yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 (Rheoliadau 2003). Mae Rheoliad 24 o Reoliadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod godi tâl ar gyfrif refeniw y swm sy'n hafal i'r taliadau a wnaed yn y flwyddyn. Dylai swm llawn y taliad fod wedi cael ei ddebydu i'r Gronfa Gyffredinol yn 2020-21 drwy'r Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn gyda chredyd cyfatebol i'r gronfa bensiwn wrth gefn. |
| **Asedau a hepgorwyd o brisiadau** | Mae ein hadolygiad o'r prisiadau a gwblhawyd gan briswyr allanol yr Awdurdod wedi nodi bod nifer o'r tyrau hyfforddi sydd yn y Gorsafoedd Tân wedi cael eu hepgor yn anghywir o'r prisiadau. Mae hyn wedi arwain at y cam-ddatganiad canlynol:<br>• Eiddo, Peiriannau Trwm ac Offer – Tir ac Adeiladau: wedi ei dan-ddatgan £586,000<br>• Y gronfa ailbrisio: wedi ei than-ddatgan £586,000 |

## Cywiro cam-ddatganiadau

13 Roedd yna gam-ddatgan i ddechrau yn y cyfrifon sydd bellach wedi eu cywiro gan y rheolwyr. Fodd bynnag, credwn y dylid tynnu'r rhain at eich sylw ac maent wedi'u nodi gydag esboniadau yn **Atodiad 3**.

## Materion eraill o bwys yn codi o'r archwiliad

14 Yng nghwrs yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion yn ymwneud â'r cyfrifon ac yn adrodd am unrhyw faterion o bwys sy'n codi i chi. Mae dau fater yn codi yr ydym yn eu hadrodd i chi:

### Prisiadau asedau

15 Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn caniatáu i gyrff archwilio fabwysiadu rhaglen brisio sy'n prisio eu hasedau dros gyfnod 'byr'. Dehonglir 'cyfnod byr' i olygu bod asedau fel arfer yn cael eu hailbrisio unwaith bob pum mlynedd ar gyfer pob dosbarth o asedau, ar yr amod nad yw'r swm cario yn wahanol iawn i'r prisiad ar y dyddiad adrodd.

16 Bu newidiadau yn amodau'r farchnad dros y flwyddyn ddiwethaf, sef cynnydd mewn costau adeiladu a gwerthoedd rhentu, sydd wedi effeithio ar brisiadau asedau a ddelir, sydd wedi arwain cyrff archwilio i ystyried a yw gwerth cario asedau nad ydynt wedi'u hailbrisio ar 31 Mawrth 2022 yn parhau i fod yn gywir o ran perthnasedd.

17 Cwblhaodd yr Awdurdod eu hadolygiad prisio asedau i safon dda a diweddarwyd y prisiadau yn unol â hynny. Arweiniodd hyn at gynnydd cyffredinol yng ngwerthoedd asedau o £5,436,000. Mae rhagor o fanylion am y gwelliannau i'r datganiadau ariannol wedi'u cynnwys yn Atodiad 3.

18 Fodd bynnag, daeth yr Awdurdod ar draws anawsterau wrth brosesu'r newidiadau cymhleth cysylltiedig drwy eu cofnodion cyfrifyddu a'u datganiad ariannol, ac yn sgil hyn gwnaeth ein gwaith gymryd mwy o amser na'r bwriad gwreiddiol. Byddwn yn ystyried goblygiadau cost y gwaith ychwanegol hwn a byddwn yn trafod unrhyw effaith arfaethedig ar y ffi archwilio gyda'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau).

19 Dylai'r Awdurdod geisio cryfhau trefniadau sicrhau ansawdd yr wybodaeth a ddarperir i'r prisiwr a gan y prisiwr pan wneir yr ymarfer prisio nesaf o'i dir a'i adeiladau.

### Ansawdd y cyfrifon

20 Er ein bod yn cydnabod bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran gwella ansawdd ei ddatganiadau ariannol, gwnaethom nodi nifer fawr o gamgymeriadau ac anghysondebau yn y datganiadau ariannol o hyd. Fel rhan o ddod â darparu gwasanaethau a systemau ariannol yn ôl yn fewnol yn ystod 2022-23, dylai'r Awdurdod ddatblygu ei drefniadau sicrhau ansawdd ymhellach ar gyfer adolygu'r

datganiadau ariannol cyn iddynt gael eu cyflwyno i'w harchwilio er mwyn lleihau nifer y gwallau ac anghysondebau.

## Argymhellion

21 Yn dilyn yr ardystiad archwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol, byddwn yn parhau i weithio gyda thîm cyllid yr Awdurdod i wella'r broses o gynhyrchu cyfrifon ymhellach ar gyfer 2022-23.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

Pennawd llythyr yr Awdurdod Tân ac Achub

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

17 Hydref 2022

### Sylwadau ynglŷn â datganiadau ariannol 2021-22

Mae'r llythyr hwn yn cael ei ddarparu mewn cysylltiad â'ch archwiliad chi o'r datganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan honno o'r Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol sy'n destun archwiliad) o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 at ddibenion mynegi barn am eu gwirionedd a'u tegwch a'u paratoad priodol.

Rydym yn cadarnhau hynny hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud ymholiadau wrth i ni ystyried yn ddigonol, gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

### Sylwadau rheoli

#### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau dros:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22; yn benodol mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg yn unol â hynny;
- dylunio, gweithredu, cynnal a chadw ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwall.

### Gwybodaeth a ddarperir

Rydym wedi darparu'r canlynol i chi:

- mynediad llawn i:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohono sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifyddu a dogfennau ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;

- gwybodaeth ychwanegol yr ydych wedi gofyn amdani gennym ni at bwrpas yr archwiliad; a
- mynediad heb gyfyngiad i staff y gwnaethoch benderfynu bod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;

- canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol gael eu cam-ddatgan o ran perthnasedd o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll tybiedig yr ydym yn ymwybodol ohono ac mae hynny'n effeithio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac yn cynnwys:
  - rheolwyr;
  - gweithwyr sydd â swyddi perthnasol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith o ran perthnasedd ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll tybiedig, gan effeithio ar y datganiadau ariannol a nodir gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth am yr holl achosion hysbys o ddiffyg cydymffurfio neu amheuaeth nad ydynt yn cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- hunaniaeth pob parti gysylltiedig a'r holl berthnasoedd a thrafodiadau cysylltiedig y partïon yr ydym yn ymwybodol ohonynt;

## Sylwadau datganiad ariannol

Mae'r holl drafodiadau, asedau a rhwymedigaethau wedi'u cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r rhagdybiaethau sylweddol a ddefnyddir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu a'u datgeliadau cysylltiedig yn briodol i sicrhau cydnabyddiaeth, mesur neu ddatgelu sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol cymwys.

Mae perthnasoedd a thrafodiadau cysylltiedig â'r partïon wedi'u hystyried yn briodol a'u datgelu.

Mae'r holl ddigwyddiadau a fu ar ôl y dyddiad adrodd sy'n gofyn am addasu neu ddatgelu wedi'u haddasu neu eu datgelu.

Mae'r holl ymgyfreitha gwirioneddol neu bosibl hysbys a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi'u datgelu i'r archwilydd ac wedi'u nodi a'u datgan yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys.

Mae'r datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatgan o ran perthnasedd, gan gynnwys hepgoriadau. Mae effeithiau cam-ddatgan heb eu datrys a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn ddibwys, yn unigol ac wedi eu cyfuno, i'r datganiadau ariannol a gymerir yn eu cyfanrwydd. Ceir crynodeb o'r eitemau hyn isod:

- Triniaeth anghywir o'r un cyfandaliad diffyg pensiwn; a

- Gwerthoedd asedau tir ac adeiladu wedi’u tanddatgan oherwydd bod tyrau hyfforddi wedi’u hepgor yn anghywir o’r prisiadau.

Penderfynwyd peidio ag addasu ar gyfer y cyfandaliad diffyg pensiwn gan nad yw'n berthnasol i'r datganiadau ariannol a byddai'r gwelliant yn cael effaith sylweddol ar draws nifer o gofnodion o fewn y cyfrifon.  Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod hepgoriadau'r prisiwr o ran y tyrau hyfforddi ac nid yw'n dymuno diwygio ar y sail nad yw'n berthnasol i'r datganiadau ariannol a bydd gwaith yn cael ei wneud gyda'r prisiwr i sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnwys yn llawn ym mlynyddoedd y dyfodol.

## Sylwadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan reolwyr, uchod, wedi eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb dros baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar 17 Hydref 2022.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylen ni fod wedi eu cymryd er mwyn gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu ei fod wedi'i gyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Wedi'i lofnodi gan: | Wedi'i lofnodi gan: |
| Dafydd Edwards | Cynghorydd Dylan Rees |
| Trysorydd | Cadeirydd yr Awdurdod |
| Dyddiad: 17 Hydref 2022 | Dyddiad: 17 Hydref 2022 |

# Atodiad 2

## Adroddiad Archwilio Arfaethedig

**Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

**Barn ar ddatganiadau ariannol**

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol o:

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Gogledd Cymru

am y flwyddyn daeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Symudiadau wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifo perthnasol.

Mae Cyfrifon Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a Datganiad Asedau Net a nodiadau cysylltiedig.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso yn eu paratoad yn berthnasol yn gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol mabwysiedig y DU fel y'u dehonglir a'u haddasir gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi golwg wir a theg ar sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2022 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn wedyn i ben;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol mabwysiedig y DU fel y'u dehonglir a'u haddasir gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

**Sail barn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny'n cael eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i fy marn.

**Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol. Tudalen 11 o 16 - Adroddiad Archwilio Cyfrifon – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi ei gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gallu Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Gogledd Cymru i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol o ran busnes gweithredol yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth Arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Datganiad Cyfrifon ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd arnynt. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson o ran perthnasedd â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a geir yng nghwrs yr archwiliad, neu fel arall ei bod yn ymddangos ei bod wedi’i cham-ddatgan o ran perthnasedd. Os ydw i'n nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gam-ddatgan perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gam-ddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, rwy'n dod i'r casgliad bod yna gam-ddatgan perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gen i ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

**Adrodd ar ofynion eraill**

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yng nghwrs fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y caiff y datganiadau ariannol eu paratoi ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y caiff y datganiadau ariannol eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei baratoi yn unol â'r canllawiau.

**Materion yr wyf yn adrodd arnynt yn ôl eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi cam-ddatgan perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gen i ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu os nad oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi eu derbyn gan ganghennau na wnaeth fy nhîm ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn gytûn â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

**Cyfrifoldebau**

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ar gyfer y datganiadau ariannol**

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi golwg wir a theg, ac ar reolaeth fewnol o'r fath wrth i'r swyddog ariannol cyfrifol benderfynu bod angen galluogi paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gam-ddatgan perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am asesu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gallu Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i barhau fel busnes gweithredol, datgelu fel sy'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai ei fod yn cael ei ystyried yn amhriodol.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gam-ddatgan perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod cam-ddatgan perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall cam-ddatgan godi o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â fy nghyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod cam-ddatgan perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy gweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Gofyn i’r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud ag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a pholisïau a gweithdrefnau Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Gogledd Cymru sy'n ymwneud â:
- nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
- canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, dan amheuaeth neu honedig; a
- y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial am dwyll drwy bostio dyddlyfrau anarferol;
- Cael dealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru sy'n gweithredu, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau a phrofi'r datganiad ariannol i gefnogi dogfennau i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- gofyn i reolwyr a'r Awdurdod Tân ac Achub ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a photensial;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau rheoli, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ogwydd posibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfathrebu deddfau a rheoliadau perthnasol a nodir a risgiau twyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy gweithdrefnau yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid o ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a rheolaethau Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Gogledd Cymru, a natur, amseru a maint y gweithdrefnau archwilio a gynhaliwyd.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol wedi'i leoli ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol

www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Hydref 2022

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

# Atodiad 3

## Crynodeb o'r Cywiriadau a Wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r cam-ddatganiadau canlynol sydd wedi'u cywiro gan reolwyr, ond a ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau dros y broses adrodd ariannol.

**Arddangosyn 3: crynodeb o'r cywiriadau a wnaed**

| Gwerth cywiro | Math o gywiro | Rheswm dros gywiro |
|---|---|---|
| Prisiadau tir ac adeiladau wedi cynyddu £5,436,000 | **Prisiadau asedau**<br>Cynhaliodd yr Awdurdod adolygiad o'u prisiadau asedau ar ddiwedd y flwyddyn o ystyried costau cynyddol y farchnad, i sicrhau bod gwerthoedd asedau yn parhau i fod yn gywir o ran perthnasedd. Arweiniodd yr adolygiad at y gwelliannau canlynol:<br>• Eiddo, peiriannau trwm ac offer - gwerth gros llyfr Tir ac adeiladau - cynnydd ailbrisio: cynnydd o £4,255,000;<br>• Eiddo, peiriannau trwm ac offer – dibrisiant cronedig Tir ac adeiladau – ysgrifennu allan ar ailbrisio: cynnydd o £1,181,000;<br>• Eiddo, peiriannau trwm ac offer – dibrisiant cronedig Tir ac adeiladau – dibrisiant am y flwyddyn: gostwng £31,000;<br>• Cyfrif incwm a gwariant cynhwysfawr – Cost gwasanaethau – costau ariannu cyfalaf: gostwng £2,235,000;<br>• Cyfrif incwm a gwariant cynhwysfawr - (Gwarged) ar ailbrisio eiddo, peiriannau | I ddiweddaru prisiadau asedau ar ddiwedd y flwyddyn i sicrhau nad ydynt yn cael eu cam-ddatgan o ran perthnasedd |

| | | |
|---|---|---|
| | trwm ac offer: cynnydd o £3,232,000;<br>• Symudiad mewn datganiad wrth gefn – addasu rhwng sail cyfrifo a sail cyllid: gostyngiad o £2,204,000;<br>• Cronfa ailbrisio wrth gefn – ailbrisiad ar i fyny'r asedau: cynnydd o £3,232,000; a<br>• Cyfrif addasu cyfalaf - addasu'n ymwneud ag ailbrisio asedau: cynnydd o £2,204,000. | |
| Effaith £Dim ar y sefyllfa ariannol gyffredinol | **Nodyn 25 Cydnabyddiaeth Ariannol Swyddogion – Cyflog uwch swyddogion – cyfraniadau pensiwn 2021-22:**<br>• Prif Swyddog Tân (dechrau Gorffennaf 2021): gostyngiad o £23,320 i £17,300;<br>• Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (dechreuodd Ionawr 2021, Prif Swyddog Cynorthwyol yn flaenorol): wedi gostwng o £22,785 i £16,903; a<br>• Prif Swyddog Cynorthwyol: wedi gostwng o £13,483 i £12,228. | I ddileu cynnwys yn anghywir cyfran y cyfandaliad pensiwn ymlaen llaw a briodolir i gydnabyddiaeth ariannol swyddogion yn 2021-22 |
| Effaith £Dim ar y sefyllfa ariannol gyffredinol | **Nodyn 25 Tâl Swyddogion – Cymhareb tâl canolrifol:**<br>• Cyflog Prif Swyddog Tân: wedi'i ddiwygio o £134,450 i £134,940; a<br>• Cymhareb: wedi'i diwygio o 4.17 i 4.18 | I gywiro mân wall yn y datgelu cyflog canolrifol |

| | | |
|---|---|---|
| Effaith £Dim ar y sefyllfa ariannol gyffredinol | **Nodyn 25 Tâl Swyddogion – Pecynnau ymadael:**<br>• Cyfanswm y pecynnau gadael £20,000 - £40,000: Newid o 2 i 1 | I gywiro nifer y pecynnau ymadael a ddatgelwyd |
| Effaith £Dim ar y sefyllfa ariannol gyffredinol | **Nodyn 11 – Eiddo, peiriannau trwm ac offer**<br>Fel rhan o'r adolygiad o'r prisiadau asedau eleni, nododd yr Awdurdod fod y gwaith o brisio asedau a gwblhawyd yn 2020-21 ar gyfer gwaith Cyffordd Llandudno yn anghywir. Mae'r Awdurdod wedi cywiro hyn trwy addasiad cyfnod blaenorol yn y cyfrifon:<br>• Tir ac adeiladau – Gwerth llyfr gros: gostyngiad o £1,074,000; a<br>• Tir ac adeiladau – Dibrisiant cronedig: gostyngiad o £31,000.<br><br>Mae hyn hefyd yn effeithio ar y meysydd cyfrifon canlynol:<br>• Cyfrif addasu cyfalaf: gostyngiad o £64,000; a<br>• Cronfa ailbrisio: wedi gostwng £979,000. | I gywiro'r gwaith o brisio gweithdy Cyffordd Llandudno yn y cyfrifon. |
| Effaith £Dim ar y sefyllfa ariannol gyffredinol | **Incwm grant cyfalaf**<br>Derbyniodd yr Awdurdod £238,000 o arian am waith cyfalaf yng Ngorsaf Dân Dolgellau. Cafodd rhan o'r arian ei gydnabod yn anghywir mewn cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi yn lle grantiau cyfalaf heb eu cymeradwyo:<br>• Cronfeydd y gellir eu defnyddio – grant cyfalaf heb ei gymeradwyo: cynnydd o £92,000 i £238,000; | Cydnabod yn gywir yr arian grant cyfalaf a dderbyniwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio – cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi – LlC: gostwng o £146,000 i £0. | |
| Effaith £Dim ar y sefyllfa ariannol gyffredinol | **Nodyn 21 - Datganiad Llif Arian – gweithgareddau gweithredu**<br>• Cynnydd/(gostyngiad) mewn dyledwyr: gostwng o £896,000 i £742,000; a<br>• (Cynnydd)/gostyngiad mewn credydwyr: gostyngiad o (£53,000) i £101,000. | I gywiro'r symudiadau mewn dyledwyr a chredydwyr a ddatgelwyd |
| Effaith £Dim ar y sefyllfa ariannol gyffredinol | **Balansau Fforwm Cydnerthedd Lleol:**<br>• Credydwyr tymor byr: gostwng £93,000; a<br>• Dyledwyr tymor byr: wedi gostwng £93,000 | I ddileu'r dyledwr a chredydwr asiantaeth o'r cyfrifon, i gydymffurfio â Chod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22 |
| Effaith £Dim ar y sefyllfa ariannol gyffredinol | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol:**<br>Gwnaed mân ddiwygiadau datgelu i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | I gynnwys mân hepgoriadau ac i sicrhau cydymffurfio â gofynion CIPFA/SOLACE 'Cyflawni Llywodraethu Da mewn Fframwaith Llywodraeth Leol' |

Bu nifer o fân ddiwygiadau a diweddariadau datgelu hefyd o ganlyniad i'n gwaith.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.cymru
Gwefan: www.audit.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 14**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Hydref 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol** |
| Pwnc | **Paratoi ar gyfer Ymchwiliad COVID-19** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Aelodau am y gwaith sy'n cael ei wneud gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) i gasglu ac archifo tystiolaeth o baratoadau ac ymateb Tân ac Achub Gogledd Cymru i bandemig COVID-19.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Erbyn hyn, mae'r ymchwiliad cyhoeddus i baratoadau ac ymateb y DU i bandemig COVID-19 wedi dechrau. Mae gan yr Ymchwiliad bwerau i orfodi rhai i ddarparu dogfennau ac i ofyn i dystion roi tystiolaeth dan lw.

3 Nid yw'r Awdurdod wedi derbyn hysbysiad ynghylch a fydd yr Ymchwiliad yn cysylltu ai peidio, ond drwy gymryd camau nawr i gasglu'r wybodaeth berthnasol dylai'r Awdurdod fod mewn gwell sefyllfa i roi tystiolaeth os bydd gofyn iddo wneud hynny.

4 Ar wahân i hynny, os caiff unrhyw achosion llys neu honiadau eu gwneud yn erbyn yr Awdurdod o ran ei ymateb i'r pandemig, bydd yn bwysig gallu cyd-destunoli a chyfiawnhau'r penderfyniadau a gymerwyd ar y pryd.

## ARGYMHELLIAD

5 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn.

## CEFNDIR

6 Deilliodd pandemig COVID-19 o achosion o'r feirws SARS-CoV-2 yn Wuhan, Tsieina yn Rhagfyr 2019. Lledaenodd y feirws ledled y byd, gan arwain Sefydliad Iechyd y Byd i ddatgan bod hyn yn argyfwng iechyd cyhoeddus o bwys rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020, ac yn bandemig ar 11 Mawrth 2020.

7 Ar 12 Mai 2021, cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai Llywodraeth y DU yn sefydlu ymchwiliad cyhoeddus i'r pandemig. Caiff yr Ymchwiliad ei sefydlu o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005 felly mae ganddo bwerau i orfodi rhai i ddarparu'r holl ddogfennau perthnasol ac i alw tystion i roi tystiolaeth ar lafar yn gyhoeddus dan lw.

8 Ar 15 Rhagfyr 2021 penodwyd y Farwnes Heather Hallet gan y Prif Weinidog i Gadeirio'r Ymchwiliad, gyda'r nod o wneud y canlynol:

- archwilio'r ymateb i COVID-19 ac effaith y pandemig yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
- nodi'r gwersi i'w dysgu o'r uchod, ac i oleuo'r paratoadau ar gyfer pandemigau yn y dyfodol ledled y DU.

9 Mae cylch gwaith yr Ymchwiliad yn nodi sut mae'n bwriadu archwilio ac adrodd ynghylch y paratoadau a'r ymateb i'r pandemig hyd at, a chan gynnwys, dyddiad sefydlu ffurfiol yr Ymchwiliad sef 28 Mehefin 2022.

10 Gan fod y pwnc mor eang, mae gwaith yr Ymchwiliad wedi cael ei grwpio'n Fodiwlau fel bod modd cael a dadansoddi tystiolaeth gan wahanol dimau'n gweithio'n gyfochrog.

11 Caiff y modiwlau eu cyhoeddi a'u hagor yn eu trefn, a gwahoddir unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhan ffurfiol yn yr Ymchwiliad i wneud cais i fod 'gyfranogwyr craidd' ar gyfer pob modiwl, yn hytrach na thrwy gydol yr Ymchwiliad yn ei gyfanrwydd.

12 Mae'r tri modiwl cyntaf a'r gwrandawiadau rhagarweiniol cysylltiedig wedi cael eu cynllunio ar gyfer eleni, ond ni fydd gwrandawiadau cyhoeddus sylweddol yn dechrau tan yn ddiwedd Gwanwyn 2023.

13 Ar ôl ystyried y darlun o berspectif y DU gyfan (a Seisnig), caiff yr un materion trosfwaol a strategol eu hystyried eto gan yr Ymchwiliad o bersbectif Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**GWYBODAETH**

14 Erbyn hyn, mae prosiect wedi dechrau yn y Gwasanaeth i wneud y canlynol:

- paratoi i ddarparu dogfennau ysgrifenedig a/neu gefnogi tystion (a allai fod yn Aelodau o'r Awdurdod, swyddogion neu weithwyr, a'r rheini'n gyfredol neu'n flaenorol) os byddant yn cael eu galw i roi tystiolaeth i'r Ymchwiliad;
- archifo gwybodaeth am ymateb y Gwasanaeth i'r pandemig;
- goleuo pa mor barod yw'r Awdurdod i bandemigau yn y dyfodol.

15 Yr amserlenni ar gyfer y prosiect hwn yw cynnal adolygiad cychwynnol erbyn Rhagfyr 2022, a chwblhau'r prosiect yn ei gyfanrwydd erbyn Mehefin 2023.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Bydd yr hyn a ddysgir o'r prosiect hwn yn gymorth i oleuo pa mor barod yw'r Awdurdod ar gyfer pandemigau yn y dyfodol. Bydd hyn yn cyfrannu at gadernid y gweithlu ac at iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru. |
| **Cyllideb** | Os daw unrhyw hawliad yswiriant yn y dyfodol, achos sifil neu gyfreithiol yn erbyn yr Awdurdod am gamau a gymerwyd neu na chymerwyd yn ystod cyfnod y pandemig, bydd yr Awdurdod mewn gwell sefyllfa i amddiffyn ei safbwynt. |
| **Cyfreithiol** | Fel uchod, a hefyd bydd yr Awdurdod mewn gwell sefyllfa i ymateb i'r Ymchwiliad Cyhoeddus os gofynnir iddo wneud hynny. |
| **Staffio** | Dim. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim. |
| **Risgiau** | Gan nad oes adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu i'r prosiect hwn, gallai'r amserlenni lithro. |